# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/2023 ar Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027

## Datblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais

**Hydref 2023**



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 - Crynodeb

## 1 Dechrau'n Dda

Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd

**Blaenoriaeth Thematig**

- Bywydau Iach - atal ac ymyrraeth gynnar

**Blaenoriaeth Gwasanaeth**

- Blynyddoedd cynnar
- Addysg

## 2 Byw a Heneiddio'n Dda


Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda

**Blaenoriaeth Thematig**

- Trechu Tlodi

**Blaenoriaeth Gwasanaeth**

- Tai
- Gofal Cymdeithasol



## 3 Cymunedau Ffyniannus

Gwneud ein cymunedau a'n hamgylchedd yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus

**Blaenoriaeth Thematig**

- Adfer a Thwf Economaidd
- Datgarboneiddio ac Argyfwng Natur
- Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant
- Diogelwch Cymunedol, Gwydnwch a Chydlyniant

**Blaenoriaeth Gwasanaeth**

- Hamdden a Thwristiaeth
- Gwastraff
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth

**Datblygu Sir Gâr Gyda'n Gilydd**

## 4 Ein Cyngor

Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon

**Blaenoriaeth Thematig**

- Trawsnewid Sefydliadol

Wedi'i tanategu gan ein Galluogwyr Busnes Craidd: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), Marchnata a'r Cyfryngau (gan gynnwys gwasanaethau cwsmeriaid), Cyfreithiol, Cynllunio, Cyllid, Caffael, Archwilio Mewnol, Rheoli Pobl (Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd Galwedigaethol), Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad, Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil, Ystadau a Rheoli Asedau, Rheoli Risgiau a Cymorth Busnes

# Gair o groeso gan Arweinydd y Cyngor i'n Hadroddiad Blynyddol am 2022-2023

Unwaith eto, mae'n bryd cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol a chymryd ysbaid i fyfyrio ar ddigwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf. Yn fy nghyflwyniad y llynedd ysgrifennais am y modd yr oeddem wedi symud o'r pandemig i argyfwng costau byw ac wrth i mi ysgrifennu hyn, rydym yn dal i fod yng nghanol yr argyfwng hwnnw. Gallwn weld rhai arwyddion o adferiad, ond yn sicr mae'n gyfnod anodd i lawer. Ymateb i'r argyfwng hwnnw sydd wedi bod flaenaf dros y rhan fwyaf o'r flwyddyn ddiwethaf ond rydym hefyd wedi gweithio'n galed i gyflawni rhai pethau pwysig ac i wella ein hunain lle'r oedd angen gwneud hynny.

Roeddem yn gwybod ddechrau'r flwyddyn y byddai angen i ni weithredu'n bendant i ymateb i'r Argyfwng Costau Byw a gwnaethom sicrhau bod yna ymgynghorwyr yn ein canolfannau HWB i roi cyngor am gyllidebu a budd-daliadau. Rhyddhawyd £180,000 o'r Gronfa Dlodi ar gyfer trigolion a grwpiau cymunedol i ddarparu Mannau Croeso Cynnes, gwnaethom agor ein llyfrgelloedd yng Nghaerfyrddin, Llanelli, a Rhydaman fel mannau cynnes yn ogystal â chefnogi partneriaid o'r trydydd sector i ddarparu cefnogaeth yn y gymuned. Rydym yn parhau i gefnogi ein trigolion, ac i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y mater hwn rydym wedi sefydlu panel ymgynghorol trawsbleidiol ar fynd i'r afael â thlodi i adrodd i'r Cabinet yn rheolaidd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae rhai o'n prosiectau blaenllaw wedi dwyn ffrwyth. Mae cam cyntaf Pentre Awel ar y gweill, a bydd y prosiect gofal iechyd, hamdden ac ymchwil hwn sydd werth dros £200 miliwn yn helpu i ehangu'r ddealltwriaeth o'r hyn ydyw byw'n dda. Bydd Pentre Awel yn gartref i sefydliadau gwyddoniaeth mawr a busnesau bach newydd, i gyd yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion a cholegau a'r bwrdd iechyd i wella bywyd. Bydd canolfan cyflawni ac ymchwil clinigol yn galluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ehangu ei ddarpariaeth ymchwil a pheirianneg feddygol a bydd canolfan addysg a hyfforddiant yn canolbwyntio ar hyfforddiant iechyd a gofal, gyda'r cyrsiau'n amrywio o lefel mynediad i ôl-raddedig, gan roi myfyrwyr mewn lleoliad clinigol a chanolbwyntio ar feysydd lle mae prinder sgiliau.

Rydym wedi parhau gyda'n Rhaglen Moderneiddio Addysg ac wedi agor dwy ysgol newydd yng Nghydweli a Gorslas. Rydym hefyd wedi cynyddu ein darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim i Bob Disgybl i Feithrinfeydd, Dosbarth Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2 ac rydym ar y trywydd iawn i gyflwyno hyn i bob disgybl cynradd erbyn mis Ebrill 2024, a ddylai helpu teuluoedd sy'n profi effeithiau'r Argyfwng Costau Byw.

Ym mis Mawrth gwnaethom agor Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn, a chefais y pleser o fod yn bresennol yn yr agoriad swyddogol. Mae gan Bentywyn hanes unigryw o ran record cyflymder y byd dros dir yn ogystal â bod yn un o'r darnau mwyaf prydferth o draeth yn y wlad. Mae'r prosiect yn cynnwys y 'Caban' - llety sydd wedi'i adeiladu gan ddefnyddio technolegau adeiladu cynaliadwy.

Cafodd ein hymrwymiad i ehangu ein gweithlu gofal cymdeithasol hwb yr haf diwethaf pryd y gwnaethom lansio'r Academi Gofal newydd sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i'r rheiny sy'n awyddus i gael gyrfa ym maes gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol. Mae hyn yn darparu hyfforddiant, cymorth ac arweiniad, ac yn galluogi ymgeiswyr i ennill cyflog wrth ddysgu a dewis llwybr gyrfa sydd fwyaf addas iddynt.

Rydym wedi datblygu ystod o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, sy'n bwysig, ac edrychwn ymlaen at ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach mewn cydweithrediad â'n partneriaid lleol a Llywodraeth Cymru.

Fel y dywedais yn fy nghyflwyniad y llynedd, rydym yn parhau i dyfu er gwaethaf yr heriau, ac rydym wedi llwyddo i wneud hynny eto eleni. Edrychaf ymlaen at weithio gydag aelodau a swyddogion y Cyngor hwn wrth i ni geisio gwneud cynnydd pellach mewn ystod o feysydd a gwella bywydau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.



**Arweinydd y Cyngor**

**Y Cynghorydd Darren Price**

Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni yn **Rheoli Perfformiad Corfforaethol**, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP neu anfonwch e-bost at **performance@sirgar.gov.uk**



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Cyflwyniad** | |
| | **Ein Hamcanion Llesiant** | |
| 1 | Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda) | **Tudalen 18** |
| 2 | Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda) | **Tudalen 44** |
| 3 | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) | **Tudalen 73** |
| 4 | Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor) | **Tudalen 136** |
| | **Adran 5 - Galluogwyr Busnes Craidd** | **Tudalen 145** |
| | **Atodiadau**<br>**1 Sut cafodd ein Hamcanion Llesiant eu clustnodi**<br>**2a Gofynion Statudol**<br>**2b Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol**<br>**3 Adroddiadau Rheoleiddiol 2022/23**<br>**4 Asesu Perfformiad**<br>**5 Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Camau Gweithredu**<br>**6 Dangosyddion Poblogaeth a Thabl Safle Mesurau Perfformiad** | **Tudalen 180** |

# CYFLWYNIAD I'N HADRODDIAD BLYNYDDOL

Ym mis Mai 2022 etholwyd gweinyddiaeth newydd, ac amlinellodd y Cabinet Ddatganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022-2027. Felly, aethom ati i adolygu ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin gyda'n partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gwnaethom gynnal asesiad llesiant cynhwysfawr i nodi materion allweddol. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r asesiad a'r cynllun llesiant cynhaliom gyfres o ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori i ofyn am adborth, yn ogystal ag ymgynghori â thrigolion, busnesau, staff ac Undebau Llafur ynglŷn â pherfformiad y Cyngor yn ystod 2022.

Gwnaethom ystyried yr adborth hwn wrth i ni adnewyddu ein Strategaeth Gorfforaethol a gosod ein Hamcanion Llesiant newydd, a chytunwyd i ddiwygio ein 13 o Amcanion Llesiant blaenorol yn set fwy cryno o amcanion ar lefel poblogaeth. Canlyniad hyn oedd i'r Strategaeth Gorfforaethol newydd fabwysiadu 4 Amcan Llesiant.

*Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am sut y cafodd ein Strategaeth Gorfforaethol newydd a'n Hamcanion Llesiant eu llunio.*

Drwy gydol 2022/23 buom yn monitro'r modd yr oedd y 13 o Amcanion Llesiant blaenorol yn cael eu cyflawni ar ein System Monitro Gwybodaeth Perfformiad (PIMS). Wedi i'n Strategaeth Gorfforaethol newydd a'n 4 Amcan Llesiant gael eu cymeradwyo, symudom y camau gweithredu a'r targedau a osodwyd ar gyfer y 13 o Amcanion Llesiant i'r 4 Amcan Llesiant newydd. Gallwn adrodd ar y cynnydd a wneir yng nghyswllt y ddwy set o amcanion llesiant yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd pwyslais yr Adroddiad Blynyddol hwn ar yr Amcanion Llesiant newydd.

**Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar yr Amcanion Llesiant newydd ar gyfer 2022/23**

| 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 | 24/25 | 25/26 | 26/27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hen Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 gyda 13 o Amcanion Llesiant** | | | | | | | | |
| | | | | **Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2022-27 gyda 4 Amcan Llesiant** | | | | |
| | | | | ↑ | | | | |

Mae hwn yn Adroddiad Blynyddol a hunanasesiad ar y Strategaeth Gorfforaethol NEWYDD

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Hefyd mae'n ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 *(Gweler Atodiad 2a).*

**Mae'r adroddiad blynyddol hwn a'r hunanasesiad yn mynd i'r afael â dwy ddyletswydd gyfreithiol:**

<table>
<tr><th colspan="2">Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</th><th colspan="2">Y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021</th></tr>
<tr><th>Gofyniad</th><th colspan="2">Sut ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol</th><th>Gofyniad</th></tr>
<tr><td>Dangos i ba raddau mae'r amcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant</td><td>Bydd hyn yn cael ei amlinellu yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer pob Amcan Llesiant a chaiff ei amlinellu yn Atodiad 2b</td><td rowspan="3">a) Mae pob Is-adran Gwasanaeth yn cwblhau Hunanasesiad blynyddol<br>b) Model Ymgysylltu a Sicrhau i sicrhau cydbwysedd<br>c) Mae meysydd a nodwyd i'w gwella yn cael sylw gan Gynllun Gweithredu<br>d) Rydym yn ymgynghori â thrigolion, busnesau, staff ac Undebau Llafur ynghylch i ba raddau yr ydym yn bodloni'r 'gofynion perfformiad'<br>e) Nodir themâu cyffredin a chaiff hunanasesiad cyffredinol ei lunio Atodiad 4</td><td rowspan="2">Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob cyngor yng Nghymru yn parhau i adolygu, trwy hunanasesiad, i ba raddau y mae'n bodloni'r 3 <u>'gofyniad perfformiad'</u>, hynny yw'r graddau y mae'n:<br>1. Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol<br>2. Defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol<br>3. Ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod<br>4. Rhaid i ni ymgynghori ar y 'gofynion perfformiad'</td></tr>
<tr><td>Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ei amcanion llesiant</td><td>Rydym yn nodi camau ar gyfer pob Amcan Llesiant gyda thargedau a chamau gweithredu. Nodir y cynnydd ar yr ymrwymiadau hyn ym mhob Amcan Llesiant</td></tr>
<tr><td>Dangos bod yr amcanion llesiant yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy</td><td>Rydym yn cynnwys Astudiaeth Achos o fewn pob Amcan Llesiant</td><td>Casgliadau ynghylch i ba raddau y cafodd y gofynion perfformiad eu bodloni yn ystod y flwyddyn ariannol honno</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">Mae pob Amcan Llesiant yn cloi gyda Chynllun Gweithredu</td><td>Unrhyw gamau sydd i'w cymryd, neu sydd eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu i ba raddau y bydd gofynion perfformiad yn cael eu bodloni</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae'r Adroddiad Blynyddol yn gyfuniad o ofynion y ddwy set o ddeddfwriaeth</td></tr>
</table>

## Mae ein Hymagwedd at hunanasesu drwy ein Hamcanion Llesiant


Mae defnyddio amcanion llesiant i fframio'r hunanasesiad yn galluogi'r Cyngor i integreiddio gofynion adrodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) mewn un adroddiad.
Mae'r ymagwedd hon yn rhoi'r cyd-destun yr ydym yn arfer ein swyddogaethau ynddo, yn defnyddio adnoddau, ac yn sicrhau bod llywodraethu'n effeithiol:Mae'n sicrhau bod yr hunanasesiad yn strategol, gan ganolbwyntio ar y sefydliad, yn hytrach na gwasanaethau unigol ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion llesiant a'i ganlyniadau bwriadedig.

- Mae'n caniatáu inni fyfyrio ar lefel strategol ar sut mae ein holl swyddogaethau (gan gynnwys gweithgareddau corfforaethol) yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion llesiant, sut rydym yn gweithredu a pha gamau y mae angen i ni eu cymryd i wella ymhellach a pharhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol nawr ac yn y tymor hir.
- Mae defnyddio amcanion llesiant fel y fframwaith cyffredinol yn annog golwg fwy cyfannol ar berfformiad y Cyngor, gan gydnabod bod llawer o wasanaethau'n 'cydlynu' ac yn cyfrannu at un neu ragor o amcanion llesiant.
- Rydym yn parhau i reoli perfformiad gwasanaethau unigol drwy Gynlluniau Cyflawni Is-adrannol.

## Rheoli Perfformiad yng Nghyngor Sir Gâr

Mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn seiliedig ar gylch Cynllunio/Gwneud/Adolygu, ac rydym wedi ei gryfhau i wella hunanasesu. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach i adlewyrchu disgwyliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a chanllawiau statudol.

*- Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad - 'Y Gacen Briodas'*




**Gwelliannau a wnaed yn ystod 2022/23**

- Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol. Gweler *Atodiad 2b.*
- Gwnaethom ailosod ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022. *Gweler sut yr ydym yn gosod ein Hamcanion Llesiant yn Atodiad 1.*
- Gwnaethom gyflwyno fformat newydd o Gynlluniau Cyflawni Gwasanaethau sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant y Strategaeth Gorfforaethol newydd.
- *Cydnabod/Tyfu/Gyda'n Gilydd*
  Rydym yn sicrhau bod swyddogion unigol yn gallu nodi sut y maent yn cyfrannu at yr uchod a bod ganddynt llais.

## Llywodraethu

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau yr ymgymerir â'i waith yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid iddo sicrhau hefyd y diogelir cyllid cyhoeddus, y rhoddir cyfrif priodol amdano ac y'i defnyddir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol a sicrhau gwelliant parhaus yn hyn o beth.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer Llywodraethu ei waith, gan hwyluso cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys bod â threfniadau priodol ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Cyngor yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel "gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol."  Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Awdurdod ynghyd â'r modd y mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Awdurdod i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflenwi gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Rydym wedi parhau gyda'n hymagwedd newydd tuag at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn ogystal ag edrych ar ba drefniadau oedd ar waith ar gyfer 2022/23 gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r trefniadau hyn yn mynd, sut ydyn ni'n gwybod a sut y gallwn wella?

*Gweler Atodiad 5*

## Gweithio gyda Phartneriaid

**Bargen Ddinesig Bae Abertawe**
Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn fuddsoddiad nas gwelwyd ei debyg o'r blaen o hyd at £1.3 biliwn ar draws portffolio o naw o brif brosiectau a rhaglenni ledled siroedd Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro.

Yn unol â thair thema cyflymu economaidd, ynni a gweithgynhyrchu clyfar, a gwyddor bywyd a llesiant, cymeradwywyd pob un o'r naw achos busnes gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n golygu bod y portffolio cyfan bellach yn cael ei ddarparu'n llawn. Gwneud Bargen Ddinesig Bae Abertawe y cyntaf o Fargeiniau Dinesig a Thwf Cymru i gyflawni'r garreg filltir hon.

Bydd y Portffolio rhanbarthol uchelgeisiol yn:

- Creu dros **9,000** o swyddi mewn meysydd gan gynnwys ynni, gweithgynhyrchu, digidol, iechyd a llesiant, ymchwil a datblygu, addysg, adwerthu, hamdden a thwristiaeth.
- Helpu **14,000** o bobl i wella eu sgiliau, trwy **2,200** o gyfleoedd hyfforddi a thros **3,000** o brentisiaethau newydd.
- Cyfrannu **£1.8-2.4 biliwn** o Werth Ychwanegol Gros rhanbarthol (GVA).
- Trawsnewid De-orllewin Cymru yn lle sy'n rhoi cyfle i bawb, lle gall pobl fyw a gweithio, cael addysg, swyddi a gofal iechyd o safon a lle gall busnesau ffynnu.

Gyda'r Portffolio yn cael ei gyflawni'n llawn, mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe mewn sefyllfa gref i gyflawni'r targedau hyn ac mae eisoes wedi dechrau gweld rhai cyflawniadau allweddol hyd yma, gan gynnwys:

- Cyfanswm buddsoddiad o £262m hyd yma, gyda 10% o gyfanswm y targed buddsoddi wedi'i sicrhau gan y Sector Preifat
- Buddsoddiad o £100m+ yn 2022-23
- 9,200 o wythnosau hyfforddiant wedi'u darparu ar draws gweithgarwch adeiladu'r Portffolio hyd yma gydag o leiaf 1,200 o wythnosau wedi'u darparu yn 2022-23
- O leiaf 550+ o gyfleoedd cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)
- 100 o gyfleoedd prentisiaeth Cyfwerth ag Amser Llawn wedi'u creu neu'n parhau o ganlyniad i weithgarwch adeiladu
- 47,380$m^2$ o arwynebedd llawr wedi'i gwblhau ar draws y Portffolio
- 200 o gartrefi Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer wedi'u darparu yn 2022-23 gan wireddu buddsoddiad o £42m
- 200+ o gontractau wedi'u dyfarnu i gwmnïau o Gymru

**PARTNERIAETH**
Sefydlwyd PARTNERIAETH ar ôl diddymu ERW, fel gwasanaeth rhanbarthol i gefnogi ysgolion. Cafodd hyn ei wneud mewn partneriaeth â Chynghorau Abertawe a Sir Benfro. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor newydd, a datblygwyd Cytundeb Cyfreithiol i reoli gwaith yr endid newydd. Mae staff craidd wedi cael eu hailstrwythuro i greu tîm o swyddogion i gefnogi ac ategu gweithgareddau gwella ysgolion yn y tair sir. Penodwyd Prif Swyddog ac Uwch-dîm Rheoli i arwain ar weithio mewn partneriaeth ac i weithio i ddiwallu anghenion penodol y partneriaid a Llywodraeth Cymru. Mae gwaith yn parhau i gryfhau'r gwaith o lywodraethu, monitro a dwyn PARTNERIAETH i gyfrif am ei gyfraniad at wella ysgolion yn y rhanbarth.

**Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (CJC)**
Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru (CJC) fel corff corfforaethol rhanbarthol gan Weinidogion Cymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Arweinwyr Cynghorau Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port

Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ynghyd ag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-2028 yn ystod y flwyddyn. Wrth gydnabod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hwn yn Ne-orllewin Cymru o ran lles economaidd, ynni, trafnidiaeth a chynllunio strategol, mae'r Cynllun Corfforaethol yn ceisio cyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma yn ogystal â nodi uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Gweledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2035, yn ogystal â 3 amcan llesiant ac amcan cydraddoldeb. Mae cynhyrchu'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hwn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â dyletswyddau'r sector cyhoeddus. Yn hyn o beth, nodir ei bod yn dal yn ddyddiau cymharol gynnar i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig hwn gan iddo gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2022.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**
Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn ynghyd sawl sefydliad gwahanol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd Sir Gaerfyrddin. Mae ganddynt hanes llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth ers amser maith ac maent yn parhau i adeiladu ar hynny.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gydweithio, gan ganolbwyntio egni, ymdrech ac adnoddau ar y cyd ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i gymunedau lleol. Byddant yn parhau i wneud hyn drwy gydweithio i ychwanegu gwerth at wasanaethau ei gilydd a byddant yn edrych ar ddulliau arloesol a ffyrdd newydd a gwahanol o weithio i gyflawni hyn.

Yn dilyn cyhoeddi Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, adeiladodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y dystiolaeth i baratoi ei Gynllun Llesiant ar gyfer 2023-28. Amlinellodd y cynllun uchelgais y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Sir a sut maent yn dymuno gweld gwelliannau gwirioneddol yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein trigolion a'n cymunedau. Datblygwyd y Cynllun hwn, fel sy'n ofynnol trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn dilyn gwaith ymgysylltu sylweddol â'n cymunedau a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae'r gwaith ymgysylltu hwn wedi nodi pum amcan llesiant allweddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y byddant yn canolbwyntio ar eu cyflawni trwy weithredu ar y cyd dros y blynyddoedd nesaf:

- Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg
- Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur
- Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau
- Helpu i greu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol.

Bydd strwythur cyflawni newydd yn cael ei sefydlu i wneud cynnydd yn erbyn yr Amcanion Llesiant a'r camau a nodwyd. Fel rhan o hyn, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn meithrin partneriaethau cryfach gyda chymunedau ac yn hyrwyddo cydgynhyrchu fel y gall preswylwyr ddod at ei gilydd i helpu i wella eu bywydau a datrys y problemau sy'n bwysig iddyn nhw.

## Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyngor

Mae gan y Cyngor ddull sefydledig o ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid allweddol eraill ar draws holl swyddogaethau allweddol y Cyngor. Mae yna sawl grŵp rhwydwaith sy'n cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau o'r cyngor ieuenctid i'r rhwydwaith heneiddio'n dda. Rydym hefyd yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn gofyn am farn y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig penodol fel y'u cydnabyddir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Cynhaliwyd y rhestr ganlynol o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Ymgynghori ar y Gyllideb 2023**: Gwnaethom ymgynghori ar nifer o gynigion polisi a oedd yn cynnwys: cyllidebau ysgolion dirprwyedig, ailstrwythuro gwasanaethau llyfrgell, cyflwyno taliadau parcio, rhesymoli biniau sbwriel ymhlith cynigion polisi eraill ar draws holl adrannau'r Cyngor ar gyfer y gyllideb flynyddol. Cafodd yr ymgynghoriad 2,161 o ymatebion gan drigolion lleol a rhanddeiliaid allweddol.

**Gwerthusiad Tymor Terfynol y Prosiect LinkI:** Yn dilyn llwyddiant y prosiect LinkI, llwyddodd y Cyngor i sicrhau rhagor o gyllid allanol i barhau â'r gwasanaeth. Gofynnodd y Cyngor am farn trigolion a rhanddeiliaid allweddol i asesu llwyddiant ac effeithiolrwydd y cynllun o ran cyflawni amcanion y prosiect. Cafwyd cyfanswm o 103 o ymatebion i gyd.

**Adolygiad o Addysg Ôl-16**: Mae newidiadau sylweddol mewn addysg, newidiadau mewn goruchwylio addysg ôl-16 a phrofiad y pandemig wedi golygu ei bod yn bwysig ein bod yn adolygu a yw Addysg Ôl-16 yn Sir Gaerfyrddin yn diwallu anghenion ein dysgwyr, ein teuluoedd, ein cymunedau, a busnesau/diwydiant. Arweiniodd yr ymarfer ymgysylltu at fod 2,361 yn ymateb i'r holiadur ar-lein gyda grwpiau ffocws ychwanegol hefyd yn llywio'r adroddiad terfynol.

**Cyflwyno Premiymau Treth Gyngor ar Ail gartrefi ac eiddo gwag:** Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn defnyddio cynllun premiwm y dreth gyngor ac mae ail gartrefi ac eiddo sy'n wag am gyfnod hir yn talu cyfradd safonol y dreth gyngor ar hyn o bryd. Wrth ystyried a ddylid diwygio'r lefelau premiwm ai peidio, bwriedir i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm fod yn offeryn i helpu awdurdodau lleol i: wneud defnydd unwaith eto o dai gwag hirdymor i ddarparu tai diogel, sicr a fforddiadwy; a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy. Cynhaliwyd ymgynghoriad i gasglu barn trigolion ar y cynigion i gyflwyno premiwm. Cwblhaodd cyfanswm o 944 o ymatebwyr yr arolwg.

**Arolygon perfformiad blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin:** Lansiodd y Cyngor gyfres o arolygon gyda'r nod o ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid. Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, ceisiodd y Cyngor ddeall barn trigolion, busnesau ac Undebau Llafur Sir Gaerfyrddin ar sawl maes i lywio cynlluniau a blaenoriaethau'r dyfodol. Manteisiodd 2,195 o drigolion ar y cyfle i ymateb i'r arolwg hwn, ynghyd â 36 o fusnesau a 5 Undeb Llafur.

Mae'r ymgynghoriadau a amlygwyd yn darparu tystiolaeth glir bod cynnydd wedi bod yn nifer yr ymgyngoriadau ar-lein. Wrth werthuso ymgynghoriadau tebyg, cafwyd 2,004 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Gyllideb yn 2020 a oedd yn ymgynghori ar gynigion penodol, tra chafwyd 2,161 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2022. Priodolir y cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan i'r berthynas agosach a ddatblygwyd gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau gan sicrhau bod ymgyngoriadau'n cael eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan gorfforaethol a'u bod yn cael eu hanfon at yr holl randdeiliaid allweddol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn archwilio sut i hyrwyddo ac arddangos canlyniadau pob ymgynghoriad yn well mewn ymgais i sicrhau bod yna well eglurder a thryloywder.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol** - maent yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi dechrau'r gwaith paratoi ar gyfer adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y mae'n rhaid ei gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2024. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio gyda phartneriaid ledled Ceredigion, Sir Benfro a Phowys i wneud y gwaith hwn ac i sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda'n cymunedau ar draws y rhanbarth.

Bydd y gwaith cyfranogi yn canolbwyntio ar feysydd allweddol megis addysg, tai, iechyd, trosedd, hamdden a mynediad i'r arfordir a chefn gwlad. Byddwn hefyd yn gofyn i bobl sgorio eu profiadau o'r gwasanaethau hyn a'u barn ynghylch y profiadau y gallai pobl eraill yn ein cymdeithas eu cael.

Mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi sut y byddant yn sicrhau bod y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn hygyrch i'r holl drigolion a defnyddwyr gwasanaethau beth bynnag yw eu nodweddion gwarchodedig, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad sef 'A yw Cymru'n Decach' (2018), sy'n nodi cyflwr y genedl wrth ystyried y grwpiau sy'n fwy agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'r arolwg yn defnyddio'r meysydd allweddol a restrir yn yr adroddiad fel ffocws.

Mae gan bob corff sector cyhoeddus ddyletswydd i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio
- Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheiny nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Yn ogystal â'r arolwg hwn, bydd pob rhanbarth yn ymgysylltu â grwpiau cymunedol penodol sy'n cynrychioli ac yn siarad o blaid rhai o'r grwpiau llai adnabyddus megis LGBTQ neu ffoaduriaid wedi'u hadsefydlu.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Yr iaith Gymraeg (hefyd, gweler *Amcan Llesiant 3c*)

Mae data'r Cyfrifiad ar gyfer 2021 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn gartref i **72,838 o siaradwyr Cymraeg**. Mae hyn yn cyfateb i 39.9% o gyfanswm poblogaeth y Sir. Mae'r ffigur hwn wedi **gostwng 5,210** ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, sy'n cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 4.0. Dyma'r gostyngiad mwyaf fel pwynt canran o blith holl ardaloedd awdurdod lleol Cymru. Yn 2001 a 2011, Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gydag 84,196 o siaradwyr Cymraeg yn 2001 a 78,048 o siaradwyr Cymraeg yn 2011. Mae'r ffigurau newydd hyn yn golygu bod gan y Sir bellach y nifer ail uchaf o siaradwyr Cymraeg o bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Sir Gaerfyrddin yw'r pedwerydd uchaf o hyd o ran canran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg.

Rydym yn parhau i weithredu **Safonau'r Gymraeg** ar draws y Cyngor a chafwyd trafodaethau rheolaidd gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi targedu negeseuon gyda gwasanaethau'r Cyngor ar nodi a chofnodi dewis ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth, yn dilyn adborth o ymchwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff negeseuon am y Safonau eu cyfleu i staff trwy gyflwyniadau gan y Tîm Polisi a Chyfranogiad a thrwy'r ffrydiau cyfathrebu a gynhelir gan Marchnata a'r Cyfryngau.

Mae **Fforwm Strategol Sirol yr Iaith Gymraeg**, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Cyngor ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau hybu iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus, hefyd wedi parhau â'i rôl o ddatblygu rhaglen o hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sir ac wedi cychwyn llawer o gynllunio ar y cyd ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Hybu Sir Gaerfyrddin, sy'n unol â'r Strategaeth Hybu. Yn ystod 2022-23, ffocws gwaith y Fforwm fu dadansoddi effaith y Strategaeth Hybu'r Gymraeg gyntaf, a fydd yn sail i'r ail **Strategaeth Hybu ar gyfer 2023-2028** i'w chyhoeddi ym mis Mai 2023.

# Sut rydym yn mesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant

## Mesur Cynnydd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyrwyddo newid mewn ffocws o gynhyrchiant gwasanaethau, i bob corff cyhoeddus yn cydweithio i ddatblygu canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni edrych ar ystod o ddata a thystiolaeth i greu darlun mor gynhwysfawr â phosibl o'n cynnydd o ran tueddiadau dros amser ac o ran y modd yr ydym yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Er mwyn i ni wneud hyn yn effeithiol, rydym wedi datblygu cyfres ddata o ddangosyddion a mesurau sy'n dwyn ynghyd ystod eang o wahanol ffynonellau, gan ein galluogi i fyfyrio ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni yn gyffredinol. Mae'r data yn cwmpasu'r canlynol:

- **Dangosyddion Poblogaeth:** Yn bennaf mae'r rhain yn cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodwyd i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau a sefyllfa Sir Gaerfyrddin mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae'r ffynonellau'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i); Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau.

- **Mesurau Perfformiad:** Cynnwys ffurflenni statudol, mesurau mewnol y Cyngor a gwybodaeth sylfaenol ar ffurf canfyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu defnyddio i fesur a monitro perfformiad yn rheolaidd. Cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r rhain.

### Gwybodaeth Sylfaenol – Canfyddiadau Ymgynghori

Yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022, aethom ati i ddeall sut yr oedd trigolion, staff y Cyngor, busnesau ac Undebau Llafur yn teimlo am berfformiad y Cyngor. Er bod hyn yn bodloni'r rhwymedigaethau statudol a osodwyd arnom drwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, roedd hefyd yn gyfle i gael barn (gan drigolion a busnesau yn bennaf) ar nifer o faterion polisi allweddol ehangach megis: yr argyfyngau hinsawdd a natur, tlodi, addysg, diogelwch cymunedol, yr iaith Gymraeg ac iechyd meddwl a llesiant.


Mae'r wybodaeth sylfaenol hon wedi bod yn amhrisiadwy, a phan gaiff ei hystyried yn rhan o gyfres ehangach o fesurau bydd yn ddangosydd pwysig o'n perfformiad, gyda chanlyniadau 2022 yn gweithredu fel llinell sylfaen er mwyn monitro perfformiad yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn arwydd o'n hymrwymiad i gyflawni ein hamcanion llesiant gyda thrigolion, defnyddwyr gwasanaeth, ein cymuned fusnes a staff sydd yn flaenllaw ym mhopeth a wnawn.

Yn yr adroddiad hwn drwyddo draw caiff canfyddiadau'r ymgynghoriad eu dangos ar ffurf sgôr mynegai cyfartalog (AIS). Mae'r sgôr hwn yn gyfartaledd wedi'i bwysoli a bydd yn caniatáu cymhariaeth hwylus rhwng canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn. Darperir allwedd isod i gyfeirio ati a cheir mwy o wybodaeth am y modd y caiff sgoriau mynegai cyfartalog eu cyfrifo yn *Atodiad 6*.

**Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog:**

- Mae sgôr o dan 1 yn dangos anghytundeb cyffredinol;
- Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn dangos cytundeb cyffredinol, ac
- Mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.

**Mae'r Cyngor yn darparu Gwasanaethau o ansawdd da ar y cyfan?** Arolwg Trigolion




## Canlyniad Rheoleiddio

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd ein rheoleiddwyr nifer o adroddiadau, a chaiff y rhain eu rhestru yn ***Atodiad 3***

[https://www.audit.wales/cy](https://www.audit.wales/cy)

[https:www.estyn.llyw.cymru](https:www.estyn.llyw.cymru)

[https://www.arolygiaethgofal.cymru/](https://www.arolygiaethgofal.cymru/)

**Asesiadau Rheoleiddiol Eraill:**

**Llywodraeth Cymru – Adolygiad Porth OSG:**
**Asesiad Strategol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe**

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn edrych ar ystod eang o dystiolaeth i wneud hunanasesiad o'r modd yr ydym yn perfformio.

# Strategaeth Gorfforaethol Newydd 2022-2027

| | |
|---|---|
| Amcan Llesiant 1 | Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda) |
| Amcan Llesiant 1a | Blaenoriaeth Thematig: Bywydau Iach – atal / ymyrraeth gynnar |
| Amcan Llesiant 1b | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Blynyddoedd Cynnar |
| Amcan Llesiant 1c | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Addysg |
| Amcan Llesiant 2 | Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda) |
| Amcan Llesiant 2a | Blaenoriaeth Thematig: Trechu Tlodi |
| Amcan Llesiant 2b | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Tai |
| Amcan Llesiant 2c | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gofal Cymdeithasol |
| Amcan Llesiant 3 | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) |
| Amcan Llesiant 3a | Blaenoriaeth Thematig: Adferiad a Thwf Economaidd |
| Amcan Llesiant 3b | Blaenoriaeth Thematig: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur |
| Amcan Llesiant 3c | Blaenoriaeth Thematig: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru |
| Amcan Llesiant 3d | Blaenoriaeth Thematig: Diogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant |
| Amcan Llesiant 3e | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Hamdden a Thwristiaeth |
| Amcan Llesiant 3f | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gwastraff |
| Amcan Llesiant 3g | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Priffyrdd a Thrafnidiaeth |
| Amcan Llesiant 4 | Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor) |
| Amcan Llesiant 4a | Trawsnewid Sefydliadol - Cyffredinol |
| Amcan Llesiant 4b | Trawsnewid Sefydliadol - Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian |
| Amcan Llesiant 4c | Trawsnewid Sefydliadol - Incwm a Masnacheiddio |
| Amcan Llesiant 4d | Trawsnewid Sefydliadol - Gweithle |
| Amcan Llesiant 4e | Trawsnewid Sefydliadol - Gweithlu |
| Amcan Llesiant 4f | Trawsnewid Sefydliadol - Dylunio a Gwella Gwasanaethau |
| Amcan Llesiant 4g | Trawsnewid Sefydliadol - Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol |
| Amcan Llesiant 4h | Trawsnewid Sefydliadol - Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth |
| Amcan Llesiant 4i | Trawsnewid Sefydliadol - Ysgolion |
| 5 | Galluogwyr Busnes Craidd |
| 5a | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) |
| 5b | Marchnata a'r Cyfryngau gan gynnwys gwasanaethau cwsmeriaid |
| 5c | Cyfreithiol |
| 5d | Cynllunio |
| 5e | Cyllid |
| 5f | Caffael |
| 5g | Archwiliad Mewnol |
| 5h | Rheoli Pobl |
| 5i | Gwasanaethau Democrataidd |
| 5j | Polisi a Pherfformiad |
| 5k | Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil |
| 5l | Ystadau a Rheoli Asedau |
| 5m | Rheoli Risg |
| 5n | Cymorth Busnes |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Aelodau'r Cabinet a'r Amcanion Llesiant

### ARWEINYDD Y CYNGOR



Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3a: Adferiad a Thwf Economaidd

5b Marchnata a'r Cyfryngau gan gynnwys gwasanaethau cwsmeriaid.

**Y Cynghorydd Darren Price - ARWEINYDD**

### YR AELOD CABINET DROS GARTREFI



Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 2a: Trechu Tlodi

Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 2b: Tai

5c Cyfreithiol
5i Gwasanaethau Democrataidd

**Y Cynghorydd Linda Evans - DIRPRWY ARWEINYDD**

### AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG



Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 1b: Blynyddoedd Cynnar
Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 1c: Addysg

Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3c: Yr Iaith Gymraeg

**Y Cynghorydd Glynog Davies**

### AELOD CABINET DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 1a: Bywydau Iach – atal / ymyrraeth gynnar

Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 2c: Gofal Cymdeithasol

**Y Cynghorydd Jane Tremlett**

### AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH



Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3a: Adferiad a Thwf Economaidd

Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3c: Diwylliant

Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 3e: Hamdden a Thwristiaeth

**Y Cynghorydd Gareth John**

### AELOD CABINET DROS ADNODDAU



5e Cyllid
5f Caffael
5g Archwilio Mewnol
5m Rheoli Risg
5l Ystadau a Rheoli Asedau
Llywodraethu Corfforaethol

**Y Cynghorydd Alun Lenny**

### AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG, CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHOLISI CYNLLUNIO



Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3a: Adferiad a Thwf Economaidd

Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3d: Diogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant

5d Cynllunio

**Y Cynghorydd Ann Davies**

### AELOD CABINET DROS NEWID HINSAWDD, DATGARBONEIDDIO A CHYNALIADWYEDD



Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3b: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur

Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 3g: Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Llifogydd a Rheolaeth Arfordirol)

**Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen**

### AELOD CABINET DROS DREFNIADAETH A'R GWEITHLU



Amcan Llesiant 4 Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)

5a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

5j Polisi a Pherfformiad
5h Rheoli Pobl
5k Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil

**Y Cynghorydd Philip Hughes**

### AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH



Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 3f: Gwastraff
Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 3g: Priffyrdd a Thrafnidiaeth

**Y Cynghorydd Edward Thomas**

**Dolenni defnyddiol**
[Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027 (llyw.cymru)]



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Amcan Llesiant 1 - Dechrau'n Dda

## Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.





## Dyfarniad Cyffredinol

*Rydym yn ceisio cefnogi holl ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn sicrhau eu bod yn hapus, yn ddiogel, yn ffynnu, a'u bod yn cyflawni eu potensial personol a chymdeithasol a'u potensial o ran dysgu. Byddwn yn ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod ac yn uchel ein parch yn lleol, yn ogystal ag ennill cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol.*

*Mae'r gwasanaethau plant yn parhau i gyflwyno arferion gwaith (Signs of Safety a dull seiliedig ar berthynas) sy'n ymgysylltu ac yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i helpu i wella canlyniadau i blant. Er mwyn sicrhau hyn, mae uwch-reolwyr yn archwilio asesiadau ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd i'w gwella ac arferion da.*

*Ar gyfer teuluoedd â phlant o dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ehangu fesul cam ar draws y sir. Mae'r ap Dechrau'n Deg wedi bod yn rhan annatod o gyrraedd teuluoedd, gan ddarparu negeseuon allweddol a gwasanaethau cymorth.*

*Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau maethu a mabwysiadu i ddiwallu anghenion plant sy'n dod i mewn i ofal ac sydd angen sefydlogrwydd yn gynnar.*

*Ar hyd a lled y sir roedd rhyw 15,000 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ar eu hennill o fynd i'r mentrau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles.*

*Mae gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd y Cynnig Gofal Plant wedi cael ei gyflwyno a'i hyrwyddo'n barhaus. Rydym yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn ein pumed Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (2022-27) a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig ac rydym yn parhau i hyrwyddo a datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg yn y Sir.*

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd yn ystod cwrs bywyd. Mae'r sylfeini ar gyfer bron pob agwedd ar ddatblygiad dynol – corfforol, deallusol ac emosiynol – yn cael eu gosod yn ystod plentyndod cynnar.
Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn, gan ddechrau yn y groth, yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd.
I gael effaith ar anghydraddoldebau iechyd, mae angen inni fynd i'r afael â graddiant cymdeithasol mewn mynediad plant i brofiadau cynnar cadarnhaol. Mae ymyriadau diweddarach, er eu bod yn bwysig, yn llawer llai effeithiol os nad yw'r plentyn wedi cael sylfeini da ym more ei oes.

Fair Society, Healthy Lives, the Marmot Review, 2010

## Y dangosyddion a'r mesurau cyffredinol allweddol yr ydym yn eu gosod i'n hunain ar gyfer yr amcan cyffredinol hwn

### Mesur Cynnydd

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu monitro ar gyfer Amcan Llesiant 1.

Mae'r Dangosyddion Poblogaeth yn bennaf yn cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodwyd i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau a sefyllfa Sir Gaerfyrddin mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae ein hamcanion llesiant yn fodd i'r Cyngor chwarae rôl bwysig wrth wneud cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn. Dylid nodi fodd bynnag nad yw'r rhain yn arwydd o berfformiad y Cyngor yn unig a bydd llawer o ffactorau allanol yn dylanwadu arnynt.

Mae'r Mesurau Perfformiad yn cynnwys ffurflenni statudol, mesurau mewnol y Cyngor a  canfyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu defnyddio i fesur a monitro perfformiad yn rheolaidd. Cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r rhain.

| **Dangosyddion Poblogaeth** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Tuedd** | **Esbonio'r Data** |
| **Plant sy'n byw mewn tlodi** |  | **Cyfraddau Tlodi Plant ar Gynnydd**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn dangos bod cyfraddau tlodi plant yn gyffredinol wedi bod ar gynnydd yn y sir rhwng 2014/15 a 2020/21. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welir yn genedlaethol.***<br><br>Mae'r data ar gyfer 2020/21 yn dangos bod 34.6% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, mae hyn yn cyfateb i bron i 11,250 o blant. Mae hyn yn gynnydd o 5.3 pwynt canran ar ffigurau 2014/15 ac mae 0.6% yn uwch na chyfartaledd Cymru.<br><br>Dyma'r 12fed lefel uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n welliant ar y 10fed lefel uchaf y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae tlodi yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd rhywun. Mae'n arbennig o niweidiol i blant, gan effeithio ar eu hiechyd a'u datblygiad hirdymor, eu cyrhaeddiad addysgol a'r cyfleoedd a gânt. Mae plentyn sy'n tyfu i fyny mewn tlodi mewn mwy o berygl o beidio â chael y dechrau gorau mewn bywyd o ystyried y gallai ei fynediad at fwyd, lloches, gofal iechyd ac addysg gael ei beryglu.<br><br>Mae'r Cyngor wedi gweld galw cynyddol am lawer o'i wasanaethau a'i systemau cymorth yn dilyn y pandemig. Nawr mae hyn wedi gwaethygu yn sgil effeithiau'r argyfwng costau byw sy'n golygu bod rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael deupen y llinyn ynghyd. Fel bob amser, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal. |
| **Plant 4-5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew (Rhaglen Mesur Plant y GIG)** |  | **Mae lefelau gordewdra ymhlith plant yn cynyddu**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2014/15 a 2021/22. Yn dilyn gostyngiad rhwng 2016/17 a 2017/18, mae lefelau gordewdra ymhlith plant wedi gweld cynnydd yn y sir.***<br><br>Yn 2021/22 yn Sir Gaerfyrddin roedd 31.4% o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew. Mae hyn yn gynnydd o 1 pwynt canran ers 2018/19.<br><br>Bydd gordewdra yn gynnar mewn bywyd yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd yn y tymor hir ac yn ei dro bydd yn effeithio ar gyfleoedd bywyd y person hwnnw.<br><br>Er na all y Cyngor ar ei ben ei hun effeithio ar lefel y newid sydd ei angen i leihau gordewdra ymhlith plant, mae gan nifer o wasanaethau'r Cyngor rôl bwysig i'w chwarae, megis darparu |

| | | |
|---|---|---|
| | | prydau ysgol maethlon a mynediad at weithgareddau hamdden a chwaraeon. |
| **Mesur Perfformiad** | | |
| **Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (fesul 10,000 o'r boblogaeth)** |  | **Cynnydd bach yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ond mae'r lefelau'n parhau i fod yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2020/21 a 2021/22 ac mae'n dangos cynnydd bach yn nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant.***<br><br>Er gwaethaf y cynnydd hwn o 21 i 27 o blant fesul 10,000 o'r boblogaeth, mae'r sir yn parhau i arddangos un o'r lefelau isaf o blant ar y gofrestr amddiffyn plant ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'r lefel hefyd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru sef 47.<br><br>Mae'r ffigurau gwirioneddol ar gyfer 22/23 yn dangos cynnydd bychan pellach, gyda 125 o blant wedi'u cofnodi fel rhai sydd ar y gofrestr. Mae hyn yn gynnydd o 22.5% oddi ar yr un cyfnod amser y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn heriol iawn i deuluoedd a staff oherwydd y pandemig COVID. Mae'r adran yn wynebu'r anawsterau anochel o gefnogi plant a theuluoedd ar ddiwedd cyfnod y pandemig. Mae caledi o ganlyniad i gostau byw cynyddol yn codi lefelau straen i deuluoedd.<br><br>Mae cymhlethdod cynyddol achosion yn gofyn am gymorth gan y Gwasanaeth Ymyriadau Teuluol, Cymorth Integredig i Deuluoedd a thimau Ar Ffiniau Gofal. |

## Y canlyniadau yr ydym yn eu gosod i'n hunain

| Canlyniadau Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| 1. <u>Gwella argaeledd</u> lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant ledled y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu a chryfhau gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg. | Rydym yn parhau i gefnogi ac annog y sector gofal plant a blynyddoedd cynnar i ddatblygu cyfleoedd yn y Gymraeg ac mae darparwyr wedi cael gwybod am bob llwybr lle gall staff gael mynediad at gyrsiau ac adnoddau Cymraeg. Bydd ehangu rhaglen Dechrau'n Deg hefyd yn annog darparwyr newydd sy'n arbenigo mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Mae'r cynnydd wedi bod yn araf yn sgil y pandemig ac mae costau byw cynyddol yn effeithio ar hyfywedd y sector. Mae'r sector yn parhau i fod dan bwysau cyson i gynnal ei wasanaethau i rieni sy'n gweithio a phrofiadau datblygiad blynyddoedd cynnar i blant.<br>Roedd yna 90 o warchodwyr plant gyda 791 o leoedd gofal plant yn 31/3/23 (sy'n ostyngiad o gymharu â'r un adeg y llynedd sef 102 o warchodwyr plant gyda 781 o lefydd gofal plant). | Gallwn |

| Canlyniadau Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| 2. Mae disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi'n llawn. | Mae Sir Gaerfyrddin wedi ehangu capasiti'r gweithlu i fodloni gofynion cyflwyno'r ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig i gefnogi darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd i ffafrio darpariaeth brif ffrwd yn golygu y bydd angen twf pellach mewn gwasanaethau canolog i gryfhau ac adeiladu capasiti ym mhob maes a chyfyngu'r gofyniad am dwf mewn darpariaeth lleoliad arbenigol ac ailystyried penderfyniadau ysgolion | Gallwn |
| 3. Cynyddu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a mynediad i addysg ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. | Yn y flwyddyn academaidd bresennol, mae lefelau presenoldeb yn y ddau sector yn uwch na lefel 2021/22, sef o 1.6 pwynt canran mewn ysgolion cynradd a 3.9 pwynt canran mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn dangos bod presenoldeb yn gwella ar y cyfan, gan gynnwys gwelliant cynyddol yn achos dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ceir amrywiaeth rhwng ysgolion yn y ddau sector, gyda rhai yn gwneud tipyn mwy o gynnydd nag eraill | Gallwn |
| 4. Cyflwyno cwricwlwm cyflawn sy'n codi safonau addysgol. | Mae'r gefnogaeth a ddarperir i ysgolion er mwyn datblygu'r cwricwlwm wedi gwella'n sylweddol ers mis Ionawr 2023, gyda'r adran Addysg a Gwasanaethau Plant bellach yn chwarae rhan arweiniol wrth ddylunio a chyflwyno cynnig dysgu proffesiynol y cwricwlwm.<br>Mae'r gwaith o ymgysylltu ag ysgolion <u>wedi cynyddu'n sylweddol, o 5 ysgol y sesiwn i 55 +.</u> O ganlyniad ceir mwy o gydweithio ynghylch deall y cwricwlwm i Gymru, rhannu arfer effeithiol yn well a chysylltiad cryfach â phrofiadau dysgu dilys.<br>Gan weithio ochr yn ochr â datblygiadau a busnesau lleol, rydym yn parhau i gyfoethogi ein cynnig dysgu i ysgolion, er enghraifft, echdynnu carbon, ochr yn ochr â Phrifysgol Abertawe neu ganolbwyntio ar ddatblygiad safle Pentre Awel | Gallwn |
| 5. Prydau ysgol maethlon am ddim i bob disgybl ysgol gynradd. | Mae Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd (UPFSM) yn cael eu cyflwyno ar draws y sir yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae pob disgybl hyd at flwyddyn 2 yn derbyn prydau UPFSM, gyda blwyddyn 3 a 4 yn eu derbyn ym mis Medi 2023 a blynyddoedd 5 a 6 yn eu derbyn ym mis Ebrill 2024 | Gallwn |
| 6. Mwy o addysg ddwyieithog ac addysg cyfrwng Gymraeg. | Mae'r Awdurdod yn nodi'n llwyddiannus y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac yn bodloni'r galw hwn ac mae'r ddarpariaeth ym mhob cam yn adlewyrchu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod (WESP). Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yn arloesol ac yn uchelgeisiol. Mae'n canolbwyntio'n effeithiol ar sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr, o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.<br>Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n drylwyr ar sicrhau bod pob ysgol yn gallu symud ar hyd y continwwm iaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar fanteision mynediad at ddysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen trwy fethodoleg drochi. O ganlyniad, mae'r cyflenwad a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr awdurdod yn parhau i gynyddu | Gallwn |
| 7. Gwell cyfleoedd i'r holl drigolion wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol er mwyn cael swyddi. | Rydym wedi hyfforddi a chefnogi mwy na 330 o bobl drwy wella eu sgiliau digidol (un o feysydd allweddol ymyrraeth wedi'i thargedu), er mwyn iddynt gael gwell gobeithion am waith. | Gallwn |

<table>
<tr><th>Canlyniadau Strategaeth Gorfforaethol</th><th>Cynnydd yn ystod 2022/23</th><th>Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn?</th></tr>
<tr><td>8. Ysgolion ar gyfer dysgu cymunedol cynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif</td><td>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin flaenoriaethau clir ar gyfer buddsoddi drwy'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Mae'r Rhaglen yn fuddsoddiad strategol ac yn gynllun rhesymoli i drawsnewid darpariaeth ysgolion. Caiff ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod hyblygrwydd wrth wraidd y cynigion ad-drefnu ysgolion a buddsoddi ynddynt, i adlewyrchu amgylchiadau newidiol mewn cymdeithas sy'n datblygu'n barhaus ac ymateb i newidiadau yn y fframwaith polisi addysg.</td><td>Gallwn</td></tr>
<tr><td>9. Cadw plant gartref gyda'u teuluoedd lle bynnag y bo modd.</td><td rowspan="3">Mae'r gwasanaethau plant yn darparu ystod o wasanaethau a chymorth. Eu nod cyffredinol yw galluogi plant a phobl ifanc i fyw yn eu teuluoedd eu hunain ac o fewn eu cymunedau eu hunain lle bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny, gan weithio gydag eraill i atal nifer y plant sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac atal yr angen am gyfranogiad statudol. Er gwaethaf cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod ag un o'r lefelau isaf fesul 10,000 o'r boblogaeth o gymharu â gweddill Cymru. Mae teuluoedd wedi ei chael hi'n anodd yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw, sydd wedi ychwanegu straen, materion sy'n peri risg gynyddol o gam-drin ac esgeulustod ac iechyd meddwl. Gwneir ceisiadau am lety drwy ein panel llety i geisio sicrhau bod opsiynau cymorth amgen yn cael eu hystyried trwy dimau megis Ar Ffiniau Gofal, y Tîm Cymorth Integredig i Deuluoedd (IFST) a Thimau Ymyriadau Teuluol a gwasanaethau ataliol eraill. Rydym yn adolygu Ar Ffiniau Gofal a'r Tîm Cymorth Integredig i Deuluoedd i sicrhau bod teuluoedd yn cael yr help iawn ar yr adeg iawn yn eu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn datblygu rhaglenni rhianta.</td><td></td></tr>
<tr><td>10. Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n wynebu plant o gefndiroedd difreintiedig a allai effeithio ar eu cyfleoedd yn nes ymlaen yn eu bywydau.</td><td></td></tr>
<tr><td>11. Caiff teuluoedd sy'n wynebu anawsterau eu cynorthwyo i ddarparu cartrefi sefydlog, diogel a sicr i'w plant.</td><td></td></tr>
<tr><td>12. Gall teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig gael mynediad at ddarpariaeth iechyd a llesiant yn eu hardaloedd lleol.</td><td>Mae gan yr Awdurdod Lleol ystod eang o wasanaethau sy'n cynorthwyo teuluoedd i gael mynediad at ddarpariaeth iechyd a llesiant. Gan gynnwys:<ul><li>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) yn adnodd canolog ar gyfer darparu gwybodaeth am wasanaethau i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r Fframwaith Help Iawn, Amser Iawn yn helpu i lywio'r gwasanaeth sydd ar gael ar draws gwahanol lefelau angen. Mae gan dudalen Facebook y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd 1,195 o ddilynwyr a 34,390 o ymweliadau â'r wefan.</li><li>Mae gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys y rhaglen Dechrau'n Deg a Chynllun Peilot Braenaru Blynyddoedd Cynnar Cwm Gwendraeth. Mae'r rhain yn darparu gwaith amlasiantaeth ac integredig mewn cymunedau difreintiedig penodol, gan arwain at well canlyniadau iechyd a llesiant i deuluoedd.<br><br>Derbyniodd cyfanswm o 2,356 o blant gefnogaeth yn ystod 22/23 drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg.</li></ul></td><td>Gallwn</td></tr>
</table>

| Canlyniadau Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| | Yn sgil ehangu Cam 1 elwodd 127 o blant eraill o'r gwasanaeth.<br><br>• **Gwasanaethau 0-25 oed**<br>Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar gael ar draws y Sir, ac mae'n darparu cymorth rhianta, cefnogaeth i bobl ifanc a chymorth anabledd.<br>Derbyniodd cyfanswm o 9,230 o unigolion ymyriad ystyrlon yn 22/23. Mae'r galw a'r cymhlethdod wedi cynyddu, ac mae'r rhaglen yn ymateb yn gadarnhaol, gyda 94% o 789 o achosion a gaewyd yn dweud bod pethau wedi symud ymlaen. | |

## Fel Cyngor, rydym yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau thematig a gwasanaeth canlynol.

### Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 1a: Bywydau Iach – atal / ymyrraeth gynnar

### Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 1b: Blynyddoedd Cynnar

### Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 1c: Addysg

# Blaenoriaeth Thematig
# 1a - Bywydau Iach - atal/ymyrraeth gynnar

Yn eu Gwiriad Sicrwydd diwethaf, canfu Arolygiaeth Gofal Cymru fod gan y **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant**-

- **Arweinwyr agos-atoch a chefnogol**
- **Diwylliant o gyd-gynhyrchu a chanlyniadau personol yn cael eu datblygu gyda phobl**
- **Eglurder mewn methodoleg weithredol**
- **Cydweithredu aml-asiantaeth cryf**
- **Ymagwedd integredig cadarnhaol at ddiwylliant o atal drwy gydweithio**
- **Poblogaeth isel o blant sy'n derbyn gofal**

Gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant pobl yng nghyfnod y pandemig.

Rydym yn gweithio'n barhaus i leihau nifer y plant sy'n dod i mewn i ofal gan ddefnyddio timau arbenigol ac ataliol megis Ar Ffiniau Gofal, y Tîm Cymorth Integredig i Deuluoedd a'r Tîm Ymyriadau Teuluol. Rydym yn parhau i wynebu heriau wrth gadw plant yn ddiogel gartref gan fod teuluoedd wedi'i chael hi'n anodd yn sgil y pandemig a'r argyfwng costau byw gyda chaledi cynyddol, a materion yn codi lle mae'r risgiau'n uchel mewn perthynas â cham-drin ac esgeulustod, problemau iechyd meddwl ac emosiynol.  Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac asiantaethau eraill i ddarparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i atal yr angen i blant ddod i mewn i ofal a'u hadsefydlu'n ddiogel gartref lle bynnag y bo modd.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Bydd rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd, a sicrhau ei fod yn byw bywyd iach yn lleihau ei risg o wynebu anghydraddoldebau yn ddiweddarach mewn bywyd ac yn ei helpu i gyrraedd ei botensial llawn. Rydym yn cydnabod bod plentyndod cynnar yn gyfnod o gyfleoedd gwych ond hefyd yn risg fawr gan fod pob rhyngweithio yn helpu i lunio'r ffordd y mae plant yn datblygu. Byddwn felly yn ymdrechu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed ac yn gweithio i sicrhau bod eu llesiant emosiynol a chorfforol yn cael ei ddiogelu a'i feithrin.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesur Cynnydd


Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu monitro ar gyfer y flaenoriaeth thematig Bywydau Iach - Atal/Ymyrraeth Gynnar.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Mesurau Perfformiad | | |
|---|---|---|
| **Mesur** | **Tuedd** | **Esbonio'r Data** |
| **Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ar 31 Mawrth** |  | **Cynnydd bach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ond mae'r lefelau yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017/18 a 2021/22 ac mae'n dangos patrwm newidiol wedi'i gategoreiddio gan gynnydd bach o 2020/21.***<br><br>Ers y 1980au mae Cymru wedi cael mwy o blant yn derbyn gofal yn gyson (am bob 10,000 o'r boblogaeth) na gweddill y DU. Mae hyn yn destun pryder o ystyried yr effaith ar ganlyniadau plant sy'n derbyn gofal gyda golwg ar gyrhaeddiad addysgol, iechyd, diweithdra, digartrefedd a chyfiawnder troseddol.[1] Fodd bynnag, yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf mae Sir Gaerfyrddin wedi perfformio'n gyson well na gweddill Cymru gyda pherfformiad sy'n debyg i'r awdurdodau sy'n perfformio orau yn Lloegr.<br><br>Ceir llawer o amrywiaeth ar lefel awdurdod lleol gyda'r data sy'n cwmpasu 22/23 ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn nodi bod 190 o blant yn derbyn gofal ym mis Mawrth. Mae'r gyfradd (fesul 10,000 o'r boblogaeth) ar gyfer y sir yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru.<br><br>Mae'r pwysau cynyddol a roddwyd ar deuluoedd gan y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau yn dilyn isafbwynt o 148 yn 2020/21. Mae heriau wrth recriwtio ym maes gwaith cymdeithasol wedi arwain at nifer o swyddi gwag yn y gwasanaeth, sy'n gwneud y gwaith dwys sydd ei angen ar deuluoedd yn anoddach i'w gyflawni. |
| **Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth** |  | **Cynnydd bach yn nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ond mae'r lefelau'n parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017/18 a 2021/22 ac mae'n dangos patrwm newidiol wedi'i gategoreiddio gan gynnydd bach o 125 i 145 rhwng 2020/21 a 2021/22.***<br><br>Roedd y mwyafrif helaeth o'r 145 lleoliad wedi'u lleoli yn y sir.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau maethu a mabwysiadu i ddiwallu anghenion plant sy'n dod i mewn i ofal ac sydd angen sefydlogrwydd yn gynnar. |

[1] Plant sy'n derbyn gofal \| Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP)


| | | |
|---|---|---|
| **Nifer y Plant a Phobl Ifanc a atgyfeiriwyd i gael cwnsela yn ôl ardal, blwyddyn a rhywedd** |  | **Nifer cynyddol o atgyfeiriadau ar gyfer cwnsela sy'n dilyn tueddiadau cenedlaethol**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2013/14 a 2021/22 ac mae'n dangos cynnydd cyson hyd at 2018/19 a chynnydd sydyn rhwng 2020/21 a 2021/22. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau cenedlaethol.***<br><br>Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 1,497 o blant a phobl ifanc wedi cael eu cyfeirio at gwnsela yn Sir Gaerfyrddin yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Mae hyn yn gynnydd o 444 o blant a phobl ifanc o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Er bod y ffaith bod angen cwnsela ar fwy o blant a phobl ifanc yn destun pryder, mae'n gadarnhaol nodi bod mwy o blant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.<br><br>I roi rhagor o wybodaeth, ar lefel Cymru adroddir bod yna 322 o blant a oedd yn derbyn cwnsela yn 21/22 nad oeddent yn uniaethu fel gwryw neu fenyw.<br><br>Ar ben hynny, mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer plant sydd wedi hunan-niweidio yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf (Ch3 21/22 i Ch3 22/23). Mae hyn yn cyd-fynd â'r tueddiadau ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro; fodd bynnag, mae'r cynnydd yn Sir Gaerfyrddin yn fwy sylweddol. Mae'r data hwn wedi cael ei fonitro'n agos ers y pandemig COVID-19 ac yn parhau i gael ei fonitro. Mae hyn yng ngoleuni pryder rhanbarthol a fynegwyd mewn fforymau amrywiol am effaith cyfnodau clo ar iechyd meddwl pobl ifanc yn eu harddegau yng nghyd-destun ymddygiad hunan-niweidio. |
| **Dangosydd Poblogaeth** | | |
| **Genedigaethau sengl byw gyda phwysau geni o dan 2,500g** |  | **Mae nifer y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel yn gostwng**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2016 a 2021 ac yn dangos rhywfaint o amrywiad a nodweddir gan duedd gyffredinol ar i lawr o 2019 ymlaen.***<br><br>Mae babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel mewn mwy o berygl o ddatblygu problemau iechyd. Mae'n gadarnhaol felly, yn gyffredinol, bod canran y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel wedi bod yn gostwng yn Sir Gaerfyrddin.<br><br>Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021 yn dangos mai Sir Gaerfyrddin oedd â'r pumed lefel isaf o bwysau geni isel yng Nghymru. |

## Cynnydd yn 2022/23


### Diogelu Plant a Phobl Ifanc

- Yn sgil y pandemig mae teuluoedd wedi'i chael hi'n anodd, yn enwedig oherwydd effeithiau'r argyfwng costau byw. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gweld galw cynyddol am ein gwasanaethau a'n cefnogaeth ac mae nifer y cysylltiadau â'r adran wedi parhau i godi ynghyd â'r angen i blant ddod i mewn i ofal.
- **Cwblhawyd 83% o asesiadau newydd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol** (***CH/006a/012***). Mae'r asesiadau'n dibynnu ar fod gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth perthnasol ar gael ynghyd ag aelodau o'r teulu, a all arwain at fod rhai yn cael eu cwblhau y tu allan i'r amserlenni. Efallai y bydd angen cyfnod hirach o amser ar rai gan sicrhau eu bod yn ystyrlon ac o safon, er mwyn i'r plentyn gael gwell canlyniadau. Mae monitro yn caniatáu i reolwyr dynnu sylw at y gwelliannau y gellir eu gwneud a threfnwyd rhagor o hyfforddiant i gryfhau gallu gweithwyr cymdeithasol i gwblhau asesiadau i safon uchel.
- Mae'r dull systemig yn seiliedig ar berthynas o ddarparu gwaith cymdeithasol sy'n ymgorffori 'signs of safety' yn parhau i ennill ei blwyf ac yn cael ei gyflwyno i fwy o dimau ar draws y gwasanaethau plant. Mae hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd newydd gael eu recriwtio yn ogystal â hyfforddiant gloywi ar gyfer gweithwyr mwy profiadol wedi'i gynnal, a bydd yn parhau, i gryfhau'r dull o helpu i wella canlyniadau i blant.
- Mae archwilio asesiadau a chynlluniau wedi parhau i sicrhau eu bod yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd gan ystyried eu dymuniadau a'u teimladau, i bennu canlyniadau y gellir eu cyflawni ganddynt. Gwneir hyn gan ystyried pum egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel bod gan deuluoedd lais a rheolaeth dros ymyrraeth, ffocws ar lesiant, bod cynlluniau yn cael eu cydgynhyrchu gan ddefnyddio dull amlasiantaethol, a bod ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol yn cael eu darparu i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi'n gynharach. Mae archwilio yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella ac unrhyw anghenion hyfforddi.

- **Mae sefydlogrwydd addysgol plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn rhagorol.** ***(CH/044)***
  Yn hanesyddol mae'r ffigurau wedi bod yn isel iawn yn y metrig hwn. Dim ond 3 o blant sydd wedi bod angen newid ysgol. Mae'r canlyniad hwn oherwydd y gwaith caled a wnaed gyda gweithwyr cymdeithasol, ysgolion, gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill i gadw plant yn eu hysgol a'u cymuned wreiddiol. Mae hyn yn rhoi cysondeb iddynt o ran eu haddysg i ddiwallu eu hanghenion orau. Mae natur wledig Sir Gaerfyrddin yn golygu y gallai plant fod yn teithio cryn bellteroedd i'w hysgolion. Caiff hyn effaith ar gostau trafnidiaeth uwch gan y gallai lleoliadau maeth fod wedi'u lleoli ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin.




- O'r 190 o blant a oedd yn derbyn gofal hyd at 31 Mawrth 2023, roedd 14 o blant wedi symud lleoliad 3 neu fwy o weithiau *(CH/043)*. Mae hyn yn is na chyfradd y llynedd o 6.6% pryd yr oedd 19 o'r 167 o blant a oedd yn derbyn gofal wedi symud lleoliad 3 gwaith neu fwy. Roedd gan y plant a symudodd rhwng lleoliadau Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, maent yn llai sefydlog ac mae ganddynt anghenion heriol a chymhleth. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynnal sefydlogrwydd lleoliadau gan gynnig cymorth lleoliad da ar draws y gwasanaeth i gyflawni hyn.






Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- Roedd diwrnod datblygu a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth yn cadarnhau fod trefniadau amddiffyn plant amlasiantaethol yn gweithio'n effeithiol.  Mae cyfarfodydd trothwy yn parhau i gael eu cynnal bob chwarter i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.

- Mae 39 allan o 110 o ysgolion wedi cyflawni Cam 5 y cynllun Ysgolion Iach. Mae'r cynllun yn awr yn rhedeg mewn 110 o ysgolion; 95 Ysgol Gynradd; 1 Ysgol Feithrin; 12 Ysgol Uwchradd; a dwy Ysgol Arbennig. Mae'r canlyniad yn cyfateb i ganlyniad y flwyddyn flaenorol, gan fod cynnydd y cynllun wedi arafu yn ystod y pandemig, gydag ysgolion wedi blaenoriaethu dysgu tra bod oedi hefyd yng ngallu Swyddogion Ysgolion Iach i gynnal arolygiadau ar y safle yn ystod y cyfyngiadau. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi gwella, ac rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ysgolion sy'n cyflawni'r Camau uwch, gyda 4 ysgol ychwanegol yn cyflawni Cam 6 a 2 ysgol yn cyflawni'r Wobr Ansawdd Genedlaethol, gyda rhagor o ysgolion yn gweithio tuag at yr NVQ. *(8.3.1.6)*

## Chwaraeon a Hamdden Actif

! Dim ond **41.5% o blant 11 oed sy'n gallu nofio 25m***(3.4.2.1)*. Mae ysgolion wedi'i chael hi'n anodd i adfer nofio i'r lefelau cyn y pandemig gyda llawer llai o ysgolion yn mynychu sesiynau (a llawer ddim yn mynychu'r rhaglen 15 sesiwn lawn). Mae hyn yn golygu nad ydym yn bodloni'r targed perfformiad a argymhellir sef gallu nofio 25m erbyn 11 oed ar gyfer bron i 60% o blant ar draws y Sir. Gall pwysau ariannol ac amser fod yn effeithio ar bresenoldeb, gydag adborth gan ysgolion yn cael ei gasglu i lywio cynlluniau'r dyfodol. Deialog barhaus gyda Nofio Cymru, Uned Polisi Chwaraeon Llywodraeth Cymru i geisio dylanwadu ar bolisi a chyllid cenedlaethol.



- Cymerodd dros **215,000 o blant** ran mewn **chwaraeon a chyfleoedd corfforol** a hwyluswyd gan Cymunedau Actif yn ystod 2022/23 *(3.4.2.8)*.  Gyda gwasanaethau'n ailddechrau ar ôl COVID, mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan ynddynt wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol.
- Llwyddodd Swyddogion Datblygu Cynorthwyol, a ariannwyd hyd at ddiwedd Mawrth 2023 trwy Gyllid Pecyn Achub Chwaraeon Cymru, i gynyddu'r nifer oedd yn cymryd rhan mewn Beicio, Athletau a Thriathlon mewn ysgolion yn sylweddol. Cafwyd bron i 61,000 o gyfraniadau yn rhaglen 'Couch to 2km' mewn ysgolion ar draws y sir, a oedd yn cael plant i fod yn egnïol dros gyfnod o 8 wythnos.
- Yn 22/23 cafwyd dros 17,860 o gyfraniadau yn y cyfleoedd chwaraeon dŵr i blant sy'n datblygu'n barhaus ym Mhadlwyr Llandysul. Mae'r sesiynau'n amrywio o weithgarwch cyffredinol ar y llyn neu'r afon i Wobr Dug Caeredin a grwpiau preswyl ysgolion.
- Ar 22/23 lansiwyd rhaglen newydd a ariennir trwy'r Gronfa Datblygu Plant o'r enw Amser Actif. Mae hon yn rhoi cyfle i blant ddatblygu sgiliau sylfaenol mewn lleoliadau cymunedol megis neuaddau pentref neu neuaddau cymunedol. Mae'r sesiynau a gynhelir yng Nghwm Aman, Cydweli a Chwm Gwendraeth wedi bod yn boblogaidd iawn gyda theuluoedd ac mae'r adborth cychwynnol ar wella hyder, cymhwysedd a chymhelliant i fod yn egnïol, yn gadarnhaol.

## Tai â Chymorth

- Er mwyn cefnogi uchelgais y Cabinet (CV18) i ail-gydbwyso'r farchnad a chymryd yr elw allan o ofal plant, rydym wedi agor cartref plant mewnol (Tŷ Magu) yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r gwasanaethau plant yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau tai ac ieuenctid i ddatblygu gwasanaethau llety â chymorth gwell newydd, gyda mwy o gefnogaeth i bobl ifanc 16-25 oed sy'n agored i niwed yn eu cymunedau lleol.
- Mae'r cynllun Llety â Chymorth mewnol bellach ar waith ac mae eisoes yn darparu cefnogaeth i 10 o bobl ifanc 16-18 oed. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gwella eu profiadau bywyd cynnar gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion mwy cymhleth.

### Gwasanaethau Cymorth Maethu a Mabwysiadu

- ⦿ Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru (MWAS) yn gweithio mewn partneriaeth â Reflect i ddarparu gwell cefnogaeth i rieni biolegol ar gamau cynharach yn y broses fabwysiadu. Mae lefel sylweddol o gymorth hefyd yn cael ei ddarparu i blant a mabwysiadwyr i sicrhau bod y cymorth iawn yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn gan ystod o weithwyr proffesiynol.
- ⦿ Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ymgorffori fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod plant yn profi llai o golled a gwahanu os oes angen eu lleoli gyda mabwysiadwyr, a fydd yn ei dro yn helpu i wella eu llesiant emosiynol a'u canlyniadau wrth iddynt ddatblygu trwy eu plentyndod.
- ⦿ Rydym yn gweithio i gynyddu'r dewis o leoliadau maeth drwy recriwtio mwy o ofalwyr maeth sydd â'r sgiliau a'r profiad i reoli plant sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae hwn yn amcan allweddol ar gyfer 2023/24 (CV 21).
- ! Yn anffodus, rydym wedi gweld gostyngiad mewn aelwydydd gofalwyr maeth ledled Sir Gaerfyrddin eleni gan fod gofalwyr yn ymddeol neu'n gadael oherwydd amgylchiadau personol, ochr yn ochr â'r argyfwng costau byw. Mae hwn yn fater cenedlaethol yn ogystal â bod yn fater lleol ac mae'r adran a Maethu Cymru yn ceisio ei wella trwy gynorthwyo awdurdodau lleol i recriwtio a chadw mwy o ofalwyr maeth. Mae cyllid Llywodraeth Cymru hefyd ar gael ar gyfer 2023/24 i recriwtio swyddog marchnata yn benodol i'r gwasanaeth maethu.

### Rhianta Corfforaethol a Llesiant Plant

- ⦿ Mae cydlynwyr Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) yn sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cynnwys gan ddarparu gwybodaeth helaeth iddynt ac mae'r tîm yn parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i deuluoedd yn eu cymunedau lleol.
- ⦿ Mae ymarfer adferol Ymwybyddiaeth o Drawma ac Ymwybyddiaeth o Ymlyniad bellach wedi'i ymgorffori yn y model ymddygiad cynhwysol 4 cam mewn ysgolion.
- ⦿ Sefydlwyd aelodaeth newydd ar gyfer y Panel Rhianta Corfforaethol a chyhoeddwyd canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru. Cynlluniwyd gweithdy hefyd i ddatblygu strategaeth rhianta corfforaethol newydd i gydymffurfio â disgwyliadau hyn, gyda mwy o ffocws ar atebolrwydd gan bob adran ar draws y cyngor.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

## Ein Pobl Ifanc, Ein Dyfodol, Ein Cymunedau

Mae Gwasanaeth Llety â Chymorth mewnol newydd Sir Gaerfyrddin yn gyfrifol fel adnodd sirol am ddarparu llety dros dro i helpu ein pobl ifanc 16-18 oed sydd fwyaf agored i niwed yn Sir Gaerfyrddin i ennill y sgiliau byw'n annibynnol y mae eu hangen arnynt i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol gorau i rymuso pobl ifanc ar eu taith i fyw'n annibynnol.






## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Y Panel Rhianta Corfforaethol
Grŵp Archwilio a Gwerthuso Amlasiantaethol CYSUR
Panel Llety
Fforwm Amlasiantaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal (MALAC)



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# 1b - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Blynyddoedd Cynnar

**Mae Dechrau'n Deg yn ehangu fesul cam ar draws y sir.**

Mae Cam 1 o'r ehangu eisoes wedi'i gwblhau, ac mae Cam 2 i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2023 i gyrraedd targed o 249 o blant 2-3 oed erbyn 31 Mawrth 2025. Unwaith y bydd wedi'i gyflwyno'n llawn, bydd pob teulu sydd â phlant rhwng 2-3 oed yn gymwys i gael 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir am 39 wythnos y flwyddyn.

Roedd y cyllid 'Haf o Hwyl' a 'Gaeaf Llawn Lles' yn galluogi tua 15,000 o blant a phobl ifanc rhwng 0-25 oed i elwa o weithgareddau am ddim ledled y sir.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Ein blaenoriaeth yw amddiffyn plant sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu eu niweidio mewn rhyw ffordd arall, neu y mae perygl y bydd hynny'n digwydd iddynt. Rydym yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar / atal i sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyrraedd ei botensial llawn a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Ein prif nod yw helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

! Roedd gennym **bresenoldeb o 72.5% mewn lleoliadau Dechrau'n Deg** ar gyfer 2022/23(9.1.8.1), nid oedd hyn yn cyrraedd ein targed o 80% ac mae ychydig yn is na'r llynedd (72.6%) a'r ffigurau cyn COVID (79.2%). Ar nodyn cadarnhaol, mae canran yr **absenoldeb anawdurdodedig** *(9.1.8.8)* ar ei hisaf sef **1.36%**. Rydym yn parhau i weithio gyda theuluoedd i oresgyn rhai o'u pryderon. Mae cael teuluoedd i roi gwybod am absenoldeb yn dipyn o gyflawniad, ac felly mae'n galonogol gweld teuluoedd yn cynnal cyswllt da â'r lleoliadau gofal plant ac yn rhoi gwybod am absenoldebau.

## Cynnydd yn 2022/23

- **Dechrau'n Deg –** Mae'r ap Dechrau'n Deg yn chwarae rhan annatod wrth gyrraedd teuluoedd yn enwedig yn ystod y broses o ehangu'r Cyfnod Sylfaen, gan ddarparu negeseuon allweddol, megis iechyd, iaith a chwarae, negeseuon diogelwch, gwybodaeth, a dolenni i'r gwasanaethau cymorth. Oherwydd bod swydd y swyddog digidol wedi'i llenwi, mae'r Ap wedi'i ddatblygu a'i ddefnyddio ymhellach i gyrraedd teuluoedd e.e. gall teuluoedd archebu lle ar gyrsiau a chael y wybodaeth ddiweddaraf am eu plentyn pan fydd mewn gofal plant.
- **Haf o Hwyl / Gaeaf Llawn Lles** – roedd cyllid Llywodraeth Cymru (£270,000 a £434,689 yn y drefn honno) yn golygu bod modd darparu pecyn sylweddol o gymorth wedi'i gynllunio i helpu plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd i adfer o'r pandemig, i sicrhau nad oedd unrhyw blentyn yn cael ei adael ar ôl. Dyrannwyd grantiau i ddarparwyr cyfleoedd chwarae ar draws y sir a chyllid sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r bylchau a nodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

- Mae **Teuluoedd yn Gyntaf** – datblygwyd gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc difreintiedig a'u teuluoedd yn unol â'r Strategaeth Cefnogi Teuluoedd. Yn ystod 2022-23 mae'r canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol iawn:
  - Cefnogwyd **9,230** o unigolion drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gyda 6011 (65%) ohonynt yn unigolion newydd.
  - Cefnogwyd **4,621** o deuluoedd drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gyda 2881 (62%) ohonynt yn deuluoedd newydd.
  - Caewyd **798** o Fframweithiau Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF's) asiantaeth sengl gyda symudiad ymlaen o 749 (94%) ar yr offeryn pellter a deithiwyd.
  - Cafodd **25** o achosion eu camu i fyny i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a chafodd 145 o achosion eu camu i lawr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.
- Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS)** wedi sicrhau bod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi derbyn gwybodaeth wedi'i diweddaru am wasanaethau, adnoddau a datblygiadau. Mae gan dudalen Facebook y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd 1,195 o ddilynwyr a 34,390 o ymweliadau â'r wefan.
- **Cynnig Gofal Plant 30 awr y Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol -** mae gwaith hyrwyddo a chefnogi wedi parhau i sicrhau bod rhieni a darparwyr gofal plant cymwys yn gyfarwydd â'r broses. Derbyniwyd a phroseswyd 522 o geisiadau rhieni rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2023 ac mae 149 o ddarparwyr gofal plant wedi cwblhau eu cofrestriad ar-lein. Talwyd £1,694,077.50 i ddarparwyr gofal plant lleol yn Sir Gaerfyrddin i blant cymwys yn ystod y flwyddyn *(1 Ebrill 2022 – 28 Chwefror 2023).*
- Nid oedd ein **Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant** diweddaraf ar gyfer 2022-27, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022, yn nodi unrhyw bwysau digonolrwydd meintiol nac ansoddol ar gyfer lleoedd i blant 3 oed a ariennir gan Dysgu Sylfaen mewn lleoliadau Gofal Plant cymeradwy ledled Sir Gaerfyrddin. Dywedodd nifer o Ddarparwyr Gofal Plant cymeradwy fod ganddynt leoedd gwag yn hydref 2021 a fyddai'n awgrymu bod gennym leoedd gwag mewn rhai lleoliadau ledled Sir Gaerfyrddin.

| | |
|---|---|
| **Adolygiad Gorchwyl a Gorffen - Craffu** | **<u>Craffu ar Addysg a Phobl Ifanc a'r Gymraeg = Gorchwyl a Gorffen</u>**<br>**<u>Adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae</u>**<br>Yn 2018/19 cwblhawyd Adolygiad Gorchwyl a Gorffen gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant a chyfleoedd chwarae.<br>Un o'r casgliadau a nodwyd yn yr adroddiad oedd bod polisi 'Dod i fyny i 4 oed' yr Awdurdod wahanol iawn i awdurdodau lleol eraill cyfagos a bod y 'Cyngor yn cynnal adolygiad ffurfiol o'i bolisi derbyn presennol ar gyfer addysg llawn amser i blant 4 oed (y polisi Dod i fyny i 4 oed). Mae grŵp prosiect wedi cwblhau adolygiad o'r Polisi 'Dod i fyny i 4 oed' (disgyblion sy'n cael eu derbyn i ysgolion cynradd yn llawn amser yn ystod tymor eu pen-blwydd yn 3 oed) gyda'r bwriad o resymoli'r ddarpariaeth addysg llawn amser i blant 4 oed yn Sir Gaerfyrddin fel rhan o'r Polisi Derbyn a'i chysoni ag awdurdodau cyfagos eraill.<br>Disgwylir i'r awdurdod ymgynghori ar y cynigion yn Nhymor yr Hydref 2023 gyda'r bwriad o weithredu ar ddechrau blwyddyn academaidd 2025/26 |

- Nododd **Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae** 2022 fod angen gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion Addysg ac ysgolion i sicrhau bod gan blant fynediad at amgylcheddau chwarae helaeth yn ystod a thu allan i oriau addysgu. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu a'i gyflawni mewn partneriaeth ag Ymgynghorwyr Cymorth Addysg a swyddogion Ysgolion Iach.

- Mae fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer darpariaeth chwarae yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei ddefnyddio fel fframwaith i sicrhau y cyfleoedd chwarae a ddarperir mewn lleoliadau a chymunedau yn rhai o ansawdd.

- Mae'r **Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Ranbarthol** wedi'i chwblhau. Mae'r grŵp llywio rhanbarthol a'r grwpiau gweithredol lleol yn parhau i gwrdd yn rheolaidd gan roi blaenoriaethau ar waith. Mae Tîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar wedi llwyddo i fod yn rhan o brosiect ymchwil Achub y Plant - Dechrau Gwell a chafodd ei dderbyn fel rhan o brosiect Achub y Plant - Ehangu ar gyfer 2023/24.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

### Ehangu cynllun blynyddoedd cynnar Dechrau'n Deg



Mae Dechrau'n Deg yn ehangu fesul cam ar draws y sir. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymrwymiad parhaus i Raglen Dechrau'n Deg, sydd wedi cefnogi 36,000 o blant 0-4 oed a'u teuluoedd sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Yn unol â'r cytundeb cydweithredu gyda Phlaid Cymru, mae'r ymrwymiad hwn wedi'i ymestyn i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar fesul cam i gynnwys pob plentyn dwy oed gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd yr ehangiad hwn yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn cael ei gyflawni ledled Cymru drwy'r Rhaglen Dechrau'n Deg. Bydd Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddefnyddio dull daearyddol gan roi sylw i'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf.
Ehangodd Sir Gaerfyrddin ei rhaglen i ddechrau gyda 127 o deuluoedd ychwanegol ym mis Medi 2022 sydd bellach wedi'i chwblhau. Bydd Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin yn dechrau ar ail gam ehangu gofal plant yn unig ym mis Ebrill 2023 i gyrraedd targed o 249 o blant 2-3 oed erbyn 31 Mawrth 2025.
Ar ôl i'r cynllun Dechrau'n Deg gael ei roi ar waith yn llawn, bydd pob teulu yng Nghymru sydd â phlant rhwng 2 a 3 oed yn gymwys i gael 12.5 awr o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir am 39 wythnos y flwyddyn.
Er mwyn cyrraedd y targed hwn, bydd darparwyr gofal plant presennol Dechrau'n Deg yn cael cymorth i estyn eu darpariaeth – yn ogystal â pharhau i annog darparwyr newydd i gynnig y rhaglen, gan gynnwys y darparwyr hynny sy'n arbenigo mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Grŵp Llywio Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar
Grŵp Llywio Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
Grŵp Llywio Rhanbarthol Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar

# 1C - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Addysg

**At ei gilydd, mae disgyblion yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu, ac yn cyflawni eu potensial personol a chymdeithasol a'u potensial o ran dysgu.**

Mae arolygon disgyblion yn dangos bod Iechyd a Llesiant at ei gilydd yn dda ar draws ein holl ysgolion.
At ei gilydd, mae canlyniadau TGAU 2022 yn uwch na rhai 2019 pryd y safwyd arholiadau y tro diwethaf.
Rydym wedi gwella cefnogaeth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a dysgwyr sy'n agored i niwed.

## Pam y mae hyn yn bwysig?


- Byddwn yn cefnogi holl ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Yn y dyfodol bydd y Gwasanaethau Addysg yn canolbwyntio ar gynorthwyo dysgwyr i ddod:
  - Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
  - Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith.
  - Yn unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
  - yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Ceir **1.9%** o ddisgyblion Blwyddyn 11 a **3.8%** o ddisgyblion Blwyddyn 13 **nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)**

(Y flwyddyn flaenorol - Bl. 11: **1.1%** a Bl. 13: **2.7%)**



Mae canran y disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) wedi cynyddu (gwaethygu) yn ystod 2022. Gyda disgyblion **Blwyddyn 11** yn cynyddu o **1.1% (21/1,885) i 1.9% (36/1,914)** ***(PAM/009)*** a Blwyddyn 13 yn cynyddu o 2.7% (18/678) i 3.8% (26/691) (5.1.0.2). Er gwaethaf hyn, mae canlyniad Blwyddyn 11 o'i gymharu ag awdurdodau eraill, wedi symud o'r 18fed yn y flwyddyn flaenorol i 10fed yn 2022, mae cyfartaledd Cymru hefyd wedi cynyddu o 1.6% i 2.1%. Rydym wedi aros yn y 15fed safle ar gyfer Blwyddyn 13, ond mae cyfartaledd Cymru wedi cynyddu o 2.3% i 2.8%. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi darparu'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaed gwaith i sicrhau bod gwybodaeth am y fframwaith yn cael ei deall o fewn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Yr hydref diwethaf, cynhaliwyd arolwg i ganfod barn Ysgolion Uwchradd a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch darparu Cyfarfodydd Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (sy'n rhan o'r fframwaith). Mae pob prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid bellach wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn 2023 ac wedi dod i ben. Mae gwaith yn parhau i nodi cyllid newydd ar gyfer prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac rydym yn cysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

- Roedd ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'n trigolion yn 2022 yn nodi bod cytundeb cyffredinol gan y 2,195 o ymatebwyr bod ysgolion lleol yn darparu addysg dda i blant a phobl ifanc gyda Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS) o 0.52.

| Estyn | Cynhelir arolygiadau o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol gan Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (HMCI).<br>• Bydd archwiliad yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2023.<br>• Mae'r Cyngor wedi paratoi hunanwerthusiad yn erbyn y fframwaith arolygu.<br>• 'Dylai arolygwyr werthuso a yw cynlluniau corfforaethol a chynlluniau strategol eraill yn gyson â'i gilydd - megis y flaenoriaeth Amcan Llesiant hon. |
|---|---|

## Cynnydd yn 2022/23

### Deilliannau Addysg

**Safonau dysgu a chynnydd yn gyffredinol**

**TGAU 2022**

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu sgiliau mathemateg, rhifedd, llythrennedd, iaith a chyfathrebu a digidol dros amser.
- Mae'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer TGAU yn 2022 yn uwch nag yn 2019 pryd y cafodd arholiadau eu sefyll ddiwethaf, ond yn is nag yn 2021, pryd yr oedd gennym Raddau wedi'u Pennu gan Ganolfannau.
- Roedd y safonau cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, yn y tair blynedd cyn y pandemig, yn uchel. Roedd y canlyniadau ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin yn gryf ac yn gyffredinol yn uwch neu'n uwch o dipyn na chyfartaledd Cymru.

### Canlyniadau Disgyblion

| % 5 neu fwy A*-G | | |
|---|---|---|
| **Categori** | **2021 (Graddau wedi'u Pennu gan Ganolfannau)** | **2022** |
| Disgyblion sydd ddim yn derbyn Prydau Ysgol am ddim | 97.5% | 96.9% |
| Hawl i Brydau Ysgol am Ddim | 88.6% | 84% |
| Gwahaniaeth | 8.9% | 12.9% |
| % 5 neu fwy A*-C | | |
| Disgyblion sydd ddim yn derbyn Prydau Ysgol am ddim | 85.5% | 81.5% |
| Hawl i Brydau Ysgol am Ddim | 59.4% | 51.5% |
| Gwahaniaeth | 26.1% | 30% |

Ceir bwlch rhwng cyflawniadau'r rheiny sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rheiny nad sydd â'r hawl i hynny.

**Safon Uwch 2022**

- Mae'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer Safon Uwch yn 2022 yn uwch nag yn 2019 pryd y cafodd arholiadau eu sefyll ddiwethaf, ond yn is nag yn 2021, sy'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol.
- Yn ystod y 3 blynedd cyn y pandemig, arhosodd canran y disgyblion a oedd yn cyrraedd trothwy Lefel 3 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol am 2 allan o'r 3 blynedd, gan ostwng ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2018/2019.

- Mae'r ganran sy'n cyrraedd A* ar lefel TGAU wedi cynyddu'n sylweddol o 7.3% yn 2019 i 11.4% yn 2022. Mae'r ganran sy'n cyrraedd A*-A ar lefel TGAU wedi cynyddu'n sylweddol o 21.3% yn 2019 i 27.3% yn 2022. Adlewyrchwyd y cynnydd yn genedlaethol
- Ar gyfer Safon Uwch , mae'r ganran sy'n cyrraedd A* wedi cynyddu'n sylweddol o 8.4% yn 2019 i 17.2% yn 2022. Ar gyfer Safon Uwch, mae'r ganran sy'n cyrraedd A*-A wedi cynyddu'n sylweddol o 24.9% yn 2019 i 40.1% yn 2022. Adlewyrchwyd y cynnydd yn genedlaethol

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

- Ar hyn o bryd ceir 7,126 o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (25% o'r garfan), ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd mewn lleoliadau prif ffrwd ac arbenigol. Rydym yn cefnogi'r ganran fwyaf o ddisgyblion ADY yng Nghymru, 11.6% yn uwch na'r Cyfartaledd Cymreig diwethaf a gofnodwyd (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion 2023).
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hasesiadau sylfaenol a'u disgwyliadau.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o fewn 'grwpiau penodol' yn gwneud cynnydd addas yn unol â'u hystod o anghenion cymhleth, unigol.
- Mae ysgolion yn cael cefnogaeth o safon uchel ar gyfer trawsnewid ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol).
    - Mae Sir Gaerfyrddin wedi ehangu capasiti'r gweithlu i fodloni gofynion cyflwyno'r ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig i gefnogi darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn  ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd i ffafrio darpariaeth brif ffrwd yn golygu y bydd angen twf pellach mewn gwasanaethau canolog i gryfhau ac adeiladu capasiti ym mhob maes a chyfyngu'r gofyniad am dwf mewn darpariaeth lleoliad arbenigol ac ailystyried penderfyniadau ysgolion.
    - Mae adolygiad diweddar o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol wedi arwain at greu model pedwar cam sy'n cydnabod pwysigrwydd cryfhau darpariaeth ddysgu gyffredinol a darpariaeth ddysgu ychwanegol ysgolion, gan osod sylfaen o gynhwysiant a thegwch ar gyfer pob angen a nodwyd.
    - Mae effaith yr ymweliadau ag ysgolion i sicrhau ansawdd ADY i'w gweld yn y canlyniadau da a geir mewn arolygiadau ESTYN, sy'n dangos bod ysgolion wedi'u paratoi'n dda ac yn sefydlu'r system ADY newydd yn effeithiol.

**Plant sy'n derbyn gofal**

- Gan ystyried maint y garfan a'r pandemig, mae **gwelliant amlwg wedi bod yng nghyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal.**

| Blwyddyn | A*-G% | A*-C% |
|---|---|---|
| 2014/15 | 28 | 5.5 |
| 2017/18 | 72 | 44 |
| 2018/19 | 86 | 26 |
| 2019/20 | 100 | 90 |
| 2020/21 | 83 | 56 |
| 2021/22 | 50 | 17 |

Mae 79% o'n hymadawyr gofal yn Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol (20/21 – 75%; 21/22 – 74%)

**Llesiant ac agweddau at ddysgu**

- Mae Iechyd a Llesiant at ei gilydd yn dda  ar draws yr holl ysgolion. Mae llesiant disgyblion wedi gwella ers iddynt ddychwelyd yn dilyn COVID gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol.

- Mae agweddau tuag at ddysgu at ei gilydd yn dda bron ym mhob ysgol, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymroddiad da a pharch tuag at eu cyfoedion ac oedolion.
- Mae ymddygiad at ei gilydd yn dda ym mhob ysgol ac mae disgyblion yn datblygu fel dinasyddion parchus, uchelgeisiol a galluog.

**Mae arolygiadau ESTYN Sir Gaerfyrddin yn nodi bod llesiant yn gyson dda ar ôl Covid, sy'n dangos effaith y ffocws mwy a roddir ar Lesiant ers mis Mawrth 2020**

- Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud defnydd effeithiol o arolygon disgyblion i fesur barn dysgwyr. Roedd dadansoddiad trylwyr o 1700 o ddysgwyr yn 2022 yn darparu gwybodaeth glir a ddefnyddiwyd yn effeithiol fel rhan o'n blaengynllunio. Er enghraifft, dim ond 62% o'r disgyblion a ddywedodd wrthym fod yna ymddygiad derbyniol ar amser egwyl. Roedd hyn yn ddata clir a ddefnyddiwyd i gefnogi ein hymgyrch 'Mae eich ymddygiad yn effeithio ar bopeth a phawb' ac arweiniodd at fuddsoddiad ychwanegol o £500k yn ein hysgolion uwchradd.
- Mae 71.8% o ddisgyblion yn hoffi'r ysgol y rhan fwyaf o'r amser neu fwy na hynny, tra bod 87% o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel iawn yn aml (42.2%). Caiff hyn ei gadarnhau gan rieni, ac mae 87.5% ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
- Mae diogelu yn gryf ym mron pob ysgol. Yn yr ychydig ysgolion lle mae Estyn wedi nodi mater Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â meysydd parcio, mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu i ddatrys y rhain.

**Presenoldeb**

- Yn y flwyddyn academaidd bresennol, mae lefelau presenoldeb yn y ddau sector yn uwch na lefel 2021-22, sef o 1.6 pwynt canran mewn ysgolion cynradd ac o 3.9 pwynt canran mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn dangos bod presenoldeb yn gwella ar y cyfan, gan gynnwys gwelliant cynyddol yn achos dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ceir amrywiaeth rhwng ysgolion yn y ddau sector gyda rhai yn gwneud llawer mwy o gynnydd nag eraill.

**Gwahardd**

- Mae'r gyfradd gwahardd am gyfnod penodol yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu yn unol â data Cymru (unwaith y bydd effeithiau COVID-19 a chyfnodau clo yn cael eu hystyried). Er bod hyn yn cynyddu, mae'n cymharu'n ffafriol â Data Cymru, ac mae ein ffigurau yn dal i fod yn is na'r data cyfartalog cenedlaethol.

## Gwasanaethau Addysg

Sut mae rheoleiddwyr wedi barnu ein hysgolion.

| | |
|---|---|
| Estyn | **Ychydig o'n hysgolion sydd angen camau dilynol ar ôl arolygiad.**<br>Crynodeb o Ganlyniadau Estyn 2017-23<br>Yn seiliedig ar adroddiadau a gyhoeddwyd<br>Ers mis Mawrth 2022 ceir fframwaith arolygu newydd ac nid yw Estyn bellach yn darparu dyfarniadau crynodol ar gyfer meysydd arolygu unigol. Gall arolygwyr barhau i osod ysgol mewn Adolygiad Estyn os ydynt yn barnu y byddai'r ysgol yn elwa o gyfnod byr i wella ychydig agweddau ar eu gwaith. Mae'r ddau gategori statudol o gamau dilynol yn parhau heb newid. Dyma lle mae angen gwelliant sylweddol ar ysgolion neu lle mae angen mesurau arbennig arnynt. |
| Rydym eisiau lleihau cyfran yr ysgolion sydd angen camau dilynol ar ôl arolygiad Estyn. | |

| Blwyddyn Academaidd | Nifer yr ysgolion a arolygwyd | Dim camau dilynol | Adolygiad Estyn | Gwelliant Sylweddol | Mesurau Arbennig |
|---|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 17 | 13 | 3 | 1 | |
| 2018-19 | 14 | 5 | 6 | | 3 |
| 2019-20 | 13 | 7 | 6 | | |
| 2020-21 (Covid) | Dim arolygiadau | | | | |
| 2021- 22 Ail-ddechrau Arolygiadau Fframwaith Newydd | 13 | 11 | | 1 | 1 |
| **2022-23** | **8** | **7** | **1** | | |

Ers i Estyn ddechrau arolygu ysgolion ar ôl Covid ym mis Mawrth 2022, nid oes llawer o'n hysgolion wedi cael unrhyw gamau dilynol neu ychydig iawn maent wedi'i gael mewn categori. Bron ym mhob achos, mae canlyniadau Estyn a dealltwriaeth yr adran o gryfderau ysgolion a'r meysydd i'w gwella yn cyd-fynd yn agos. Arolygwyd pum ysgol ychwanegol ym mis Mawrth - Ebrill 2023 - ond nid yw eu hadroddiadau wedi'u cyhoeddi eto - Coedcae / Mynyddygarreg / Penygaer / Pontyberem / Llangadog.

**Cefnogaeth ar gyfer Gwella Ysgolion**

- Mae gan y tîm gwella ysgolion systemau effeithiol i fonitro'r her, y gefnogaeth a'r ymyriadau ym mhob ysgol, gan ddefnyddio gwybodaeth o bob rhan o'r Adran. Mae'r tîm gwella ysgolion yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau cefnogaeth wahaniaethol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ysgolion sy'n achosi pryder.
- Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn cytuno bod yr awdurdod lleol yn adnabod ei ysgolion yn dda o ganlyniad i'w ddull cyson drylwyr a chydweithredol o wella ysgolion ar draws yr adran addysg, ochr yn ochr â'n hysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau arbenigol.
- Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid yn cytuno bod yr awdurdod lleol yn eu herio a'u cefnogi ynghylch eu perfformiad, gan ddarparu ymyriadau effeithiol i wella'r canlyniadau i bob dysgwr.
- Mae tîm uwch-arweinwyr y gyfarwyddiaeth yn cwrdd â chadeiryddion y cyrff llywodraethu bob tymor, gan fynd i'r afael â materion strategol allweddol. Mae adborth gan raglen hyfforddi a datblygu'r corff llywodraethu a'r sesiynau briffio yn gadarnhaol, gan fod meysydd ffocws yn cyd-fynd yn uniongyrchol â blaenoriaethau cenedlaethol a'r gwaith o ddadansoddi angen yn dilyn ymweliadau monitro.

**Cymorth i ddysgwyr agored i niwed**

- Ceir rhwydwaith gref o gefnogaeth i helpu ysgolion i wella a rheoli ymddygiad.
- Yn dilyn adolygiad ymddygiad a gynhaliwyd ar draws pob ysgol, cytunwyd ar fodel i fynd i'r afael â darparu gwasanaethau cymorth ymddygiad teg a chyson. Mae'r model darparu gwasanaethau newydd wedi dyblu nifer y staff ar y Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad. Mae'r data ansoddol a gasglwyd yn rhoi ymateb cadarnhaol iawn ynghylch cefnogaeth y tîm a'r effaith a gaiff o safbwynt yr hyfforddiant a ddarperir.
- Er mwyn gwella'r cymorth Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol (BESD) arbenigol sydd ar gael mewn ysgolion, gwrandawodd yr Awdurdod Lleol ar bryderon Penaethiaid Ysgolion Uwchradd a chytunodd i ddarparu cyllid i bob ysgol i gyflogi aelod ychwanegol o staff i gefnogi dysgwyr agored i niwed sy'n arddangos BESD. (£500k)
- Ceir gwasanaeth cryf i gynorthwyo ysgolion i reoli a gwella presenoldeb.
    - Mae data presenoldeb yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn cael ei rannu fel mater o drefn gyda'r Tîm Rheoli Adrannol i nodi tueddiadau misol mewn sectorau ac i nodi ysgolion lle y gallai fod achos pryder. Caiff y data hwn ei rannu ymhellach gydag Ymgynghorwyr Cymorth Addysg ysgolion fel rhan o'u cefnogaeth a'u her i ysgolion.
- Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu a'u bod yn cael eu diogelu'n dda.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

  - Mae'r gwasanaeth wedi derbyn nifer o anrhydeddau cenedlaethol a ledled y DU ac mae'n sicrhau bod yna Weithiwr Ieuenctid ar gyfer pob ysgol uwchradd yn ogystal â darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu. Mae adroddiad Marc Ansawdd y Gwaith Ieuenctid yn dweud bod y gwaith LGBTQIA+ a wneir yn 'arwain y sector'
- Mae Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn darparu cyfleoedd cadarn ac ystyrlon i geisio barn ein pobl ifanc ac ymateb iddo.

**Derbyniadau**

- Mae'r awdurdod yn rheoli derbyniadau i'w hysgolion yn dda, ac yn unol â gofynion statudol, gan alluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gael lleoedd yn eu hysgol gyntaf o ddewis. Canran y ceisiadau dewis cyntaf llwyddiannus hyd yma ar gyfer rownd arferol 22/23 ar gyfer Ysgolion Cynradd yw 80.64% ac mae'n 88.44% o ddisgyblion ar gyfer Ysgolion Uwchradd.

**Y Rhaglen Moderneiddio Addysg:**

- Rydym wedi cwblhau prosiectau yn Ysgol Rhys Prichard, Ysgol Pum Heol, Ysgol Llangadog ac Ysgol Gorslas. Cwblhawyd Cam 1 Ysgol y Castell (adeilad ysgol newydd) ym mis Tachwedd 2022 gyda Cham 2 (Dymchwel/Maes Chwarae Amlddefnydd/Maes Chwaraeon) i fod i gael ei gwblhau yn Haf 2023. Mae'r gwaith yn parhau ar y safle i ddarparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Pen-bre, ac mae disgwyl i Gam 1 fod yn barod i'w ddefnyddio ym mis Tachwedd 2023.
- Bydd adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion ar draws yr Awdurdod yn cyd-fynd â'r adolygiad parhaus o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg i adlewyrchu newidiadau posibl i ôl troed cyffredinol yr ysgol ar draws yr Awdurdod.
- Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn diweddaru data ar addasrwydd, digonolrwydd a chyflwr ei ysgolion gan gynnwys lleoliadau Uned Cyfeirio Disgyblion ac arbenigol. Ar ôl cael ei nodi fel risg gorfforaethol, mae rhaglen dreigl o asesiadau addasrwydd, a rhaglen dreigl o arolygon cyflwr wedi'i gweithredu ar gyfer yr holl stoc adeiladau heblaw tai gan gynnwys ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion
- Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin flaenoriaethau clir ar gyfer buddsoddi trwy ei Raglen Moderneiddio Addysg. Mae'r Rhaglen yn fuddsoddiad strategol ac yn gynllun rhesymoli i drawsnewid darpariaeth ysgolion. Caiff ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod hyblygrwydd wrth wraidd y cynigion ad-drefnu ysgolion a buddsoddi ynddynt, i adlewyrchu amgylchiadau newidiol mewn cymdeithas sy'n datblygu'n barhaus ac ymateb i newidiadau yn y fframwaith polisi addysg.

| | |
|---|---|
| **Gorchwyl a Gorffen - Craffu** | **Y Broses Ymgynghori ar Drefniadaeth Ysgolion**<br><br>Yn 2021 cytunodd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r broses ymgynghori bresennol ar gyfer newid trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys newidiadau i'r ddarpariaeth ieithyddol a chau ysgolion. Cafodd sawl argymhelliad eu gwneud a'u derbyn gan y Cabinet a chânt eu rhoi ar waith yn y broses lle bo hynny'n briodol |

- Yn 2019, gwnaethom gynnal arolwg o safleoedd ysgolion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch cerddwyr a cherbydau. O ganlyniad i hyn, tynnwyd sylw at y safleoedd â'r risg uchaf er mwyn buddsoddi ynddynt. Mae'r arolwg hwn yn cael ei ailadrodd ar hyn o bryd.

**Addysg Cyfrwng Cymraeg**

- Mae'r Awdurdod yn nodi'n llwyddiannus y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac yn bodloni'r galw hwn ac mae'r ddarpariaeth ym mhob cam yn adlewyrchu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod

(WESP). Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yn arloesol ac yn uchelgeisiol. Mae'n canolbwyntio'n effeithiol ar sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr, o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.

- Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n drylwyr ar sicrhau bod pob ysgol yn gallu symud ar hyd y continwwm iaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar fanteision mynediad at ddysgu yn ystod y Cyfnod Sylfaen trwy fethodoleg drochi. O ganlyniad, mae'r cyflenwad a'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr awdurdod yn parhau i gynyddu.
- Mae'n werth nodi bod wyth ysgol gynradd, ers 2016, wedi newid eu categori ieithyddol yn gadarnhaol, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella**

- Mae cynllunio ar gyfer gwella wedi'i seilio'n gadarn ar ddadansoddi ystod eang o ddata.
- Nodwedd o'r strwythur adrannol yw'r Grwpiau Ffocws Strategol, sy'n darparu cyfleoedd pwysig i wella materion allweddol i'rsystem addysg mewn modd strategol, yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.
    - Mae holiadur Penaethiaid bob dwy flynedd yn rhoi adborth pwysig ac awgrymiadau adeiladol ar gyfer addasu a datblygu darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Ymgynghorir hefyd â disgyblion a rhieni, ac mae'r holl wybodaeth yn cael ei chroesgyfeirio a'i rhannu yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol, yn erbyn gwybodaeth sy'n deillio o grwpiau ffocws megis sawl fforwm Penaethiaid, undebau, a grwpiau o swyddogion staff.

**Trefniadau diogelu**

*Diogelu Corfforaethol*

- Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol sydd newydd gael ei ddiwygio yn darparu fframwaith ar gyfer pob gwasanaeth yn y Cyngor gan nodi cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn ogystal â'r dulliau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i wybod yn sicr ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau. Cefnogir hyn gan Gynllun Busnes cadarn sy'n mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd. Mae gan y Grŵp Swyddogion Diogelu Corfforaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr allweddol o ystod o Adrannau ac a gadeirir gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gylch Gorchwyl clir ac mae'n goruchwylio'r Polisi Diogelu Corfforaethol ac yn monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu Diogelu. Caiff adroddiadau eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae dangosyddion a risgiau diogelu allweddol wedi'u nodi ac yn cael eu hadrodd yn rheolaidd fel rhan o'r System Rheoli Gwybodaeth Perfformiad (PIMS) gorfforaethol.

*Diogelu mewn Ysgolion*

- Mae hyfforddiant diogelu ar gyfer ysgolion ac ar gyfer Personau Diogelu Dynodedig yn cael ei ddiweddaru'n dymhorol, mewn ymateb i themâu, tueddiadau, canllawiau a newidiadau sy'n dod i'r amlwg mewn deddfwriaeth, a chaiff ei adolygu'n flynyddol hefyd.
    - Mae adborth gan gyfranogwyr y cwrs yn dangos bod y diweddariadau hyn yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn parhau i fod yn berthnasol iawn i anghenion ysgolion ac i ddiogelu dysgwyr.
    - Mae'r hyfforddiant ar gyfer ysgolion a Phersonau Diogelu Dynodedig yn cael ei ddarparu trwy raglen dreigl reolaidd. Mae staff yr ysgol a staff o'r Gwasanaeth Cerdd, TADG, Swyddogion Amddiffyn Plant, Gweithwyr Gofal Plant Preswyl, MEAS a Chwnselwyr Ardal 43 wedi derbyn hyfforddiant sy'n sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant cyson, yn unol â'r amserlenni yn y canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

- Bron ym mhob ysgol, mae dysgwyr yn hyderus gyda diogelwch ar-lein ac yn rhannu strategaethau ar gyfer cadw'n ddiogel ar-lein. Fodd bynnag, roedd angen i ychydig iawn o leoliadau sefydlu rhaglen o wersi diogelwch ar-lein rheolaidd. Mae rhyngweithio a chydweithio yn digwydd mewn lleiafrif o ysgolion ac yn bennaf gyda dysgwyr hŷn.

**Defnyddio adnoddau**

| | | |
|---|---|---|
| **Archwiliad Mewnol** | **Gwariant Ysgolion (Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol: 4 Ebrill 2023)**<br><br>Amcan yr adolygiad: Roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi sicrwydd bod gwariant ysgolion yn briodol a'i fod wedi'i gyflawni yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod ar gyfer Ysgolion a pholisïau perthnasol eraill. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â'r rheolaethau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. | *Sgôr Sicrwydd*<br>***Uchel***<br>***Derbyniol***<br>***Isel*** |

- Mae'r modd mae'r Cyngor yn dyrannu adnoddau yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir i wasanaethau addysg. Mae'r awdurdod lleol yn gwario'n uwch na'r asesiad seiliedig ar ddangosyddion ar gyfer y gwasanaethau addysg ac yn y blynyddoedd diwethaf mae wedi cynyddu a gwarchod cyllidebau ysgolion yn erbyn cefndir o bwysau ariannol ar draws y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi diogelu/blaenoriaethu cyllid ysgolion er gwaethaf yr angen i ddod o hyd i ostyngiadau mwy yn y gyllideb ar draws gwasanaethau eraill. Mae hyn wedi golygu bod cyllidebau ysgolion yn uwch nag y byddent pe baent wedi cael eu trin ar sail gyfatebol.
- Mae cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu bob blwyddyn i wasanaethau addysg ag adnoddau adrannol ar gyfer y galw/materion deddfwriaethol neu bwysau anochel a nodwyd ar y gwasanaeth.
- Mae gan yr awdurdod ystod eang o Gytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n cynnig gwerth da ar waith, wrth i bob ysgol bron fod yn rhan o'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth.
- Yn 2022/23 dirprwywyd 87.9% o'r gyllideb addysg gan Sir Gaerfyrddin (heb gynnwys cludiant ysgol) i ysgolion, a oedd yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig o 86.8%.
- Mae'r awdurdod yn ymwybodol o'r risgiau ariannol presennol a'r rheiny sydd ar y gorwel ac maent yn cydnabod y bydd angen ymateb i heriau cynyddol, gan gynnwys cynnydd posibl mewn costau sy'n ymwneud â chyflogau a phensiynau staff, ynni a thrafnidiaeth.

## Bwyta'n iach a byw a gwneud dewisiadau iach

- Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n heini ac yn iach ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd a manteision bwyta ac yfed yn iach, ynghyd â gwneud ymarfer corff
- Mae'r cyfraddau cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon o fewn a thu allan i oriau ysgol yn cynyddu a, lle mae'r niferoedd yn isel, mae ysgolion yn ymateb yn greadigol trwy arloesi. Er enghraifft, cael dysgwyr i ddylunio eu pecyn Addysg Gorfforol eu hunain, gan roi mwy o gyfrifoldeb i'r llysgenhadon efydd, gan drefnu diwrnodau Iechyd a Lles penodol yn yr awyr agored.
- Mae canran y cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol a chwaraeon ar draws Sir Gaerfyrddin (41%) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (39%)

**Prydau Ysgol**

- Mae ymweliadau monitro yn parhau. Mae'r holl gynorthwywyr arlwyo wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelwch Bwyd ac Alergenau a dim ond llond llaw o staff brecwast sydd dal heb ei gwblhau. Mae'r rhain yn weithwyr sydd â sgiliau TG cyfyngedig neu ddim mynediad at gyfrifiaduron ac mae ein rheolwyr Arlwyo wedi gorfod eu cynorthwyo'n uniongyrchol. Bydd hyfforddiant a sesiynau ymsefydlu yn cael eu cyflwyno i bob swyddog newydd a swyddogion arlwyo symudol.

## Chwaraeon a Hamdden

- Mewn ymateb i arsylwadau lleol a chenedlaethol mae'r tîm Cymunedau **Actif** wedi cyflwyno rhaglen '*Llythrennedd Corfforol*' i wella ansawdd chwaraeon ysgol a gweithgarwch corfforol. Caiff hyn ei gyflawni ar ffurf dull ysgol gyfan trwy becyn o hyfforddiant, mentora a chymorth i staff ysgolion. Ers i'r rhaglen gael ei sefydlu ym mis Medi 2022, mae 24 o Ysgolion wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer eu gweithlu staffio cyfan, yn ogystal â sesiwn fentora ddilynol i wreiddio'r dysgu a darparu cymorth pellach. Mae'r asesiad effaith cychwynnol yn dangos cynnydd yn lefelau hyder a chymhwysedd staff ysgolion gyda gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd llythrennedd corfforol a mwy o wybodaeth am adnoddau i wella ansawdd y ddarpariaeth ymhellach.
- *Mae'r Rhaglen Llysgenhadon Ifanc* mewn Ysgolion yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda dros 400 o Lysgenhadon yn arwain ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i fod yn fwy egnïol. Cofnodwyd tua 25,000 o gyfranogwyr yn 22/23 dan arweiniad Llysgenhadon ar iardiau neu mewn neuaddau ysgol.
- Mae rhaglenni *Ymyrraeth ac Ymgysylltu Cymunedau Actif* wedi arwain at ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu ar draws ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin ar gyfer pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu sy'n cael trafferth cymryd rhan mewn chwaraeon ysgol ac Addysg Gorfforol arferol. Yn dilyn y rhaglenni 10 wythnos, caiff disgyblion eu hailgyflwyno i chwaraeon ysgol ac Addysg Gorfforol yn fwy hyderus, cymwys a brwdfrydig. Elwodd 365 o blant ar draws y sir o'r fenter hon gyda chynlluniau i ddatblygu'r rhaglen ymhellach i ddatblygu'r modd yr ydym yn mesur ac yn dangos yr effaith y mae hyn yn ei chael ar bobl ifanc.
- Lansiwyd *Ysgolion Actif Unrhyw Le* ym mis Ionawr 2023 gyda chyfnod prawf am ddim i ysgolion gymryd rhan yn y fenter. Mae Ysgolion Actif Unrhyw Le yn darparu gweithgareddau wedi'u ffrydio'n fyw yn syth i mewn i ystafelloedd dosbarth ar draws y sir yn ogystal â banc o sesiynau ar alw. Yn ogystal â manteision corfforol bod yn egnïol, mae'r sesiynau'n helpu i wella hwyliau'r plant, eu gallu i ganolbwyntio a'u cof.



- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i edrych ar y mater o fod tua thraean ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu dosbarthu'n rhai sydd dros bwysau neu'n ordew yn y sir, sef un o'r ffigurau uchaf yng Nghymru. Mae hwn yn fater ehangach yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, a bydd gan y Cyngor gyfraniad sylweddol i'w wneud trwy giniawau ysgol a hamdden. Mae gweithgor gorchwyl a gorffen - craffu wedi'i sefydlu i adolygu'r mater hwn yn ystod 2023-24, ac mae'r gwaith eisoes ar y gweill. Bydd y maes hwn yn parhau i fod yn ffocws allweddol ar gyfer ein gwaith atal ac ymyrraeth gynnar ac mae'n arwain at arferion gydol oes gwell i'n trigolion.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

**Panelau Ymgynghorol y Cabinet**

- **Y Panel Rhianta Corfforaethol a Diogelu** - Mae'r Panel Rhianta Corfforaethol yn darparu lefel o graffu, monitro, goruchwylio a herio ynglŷn â pha mor dda y mae'r Cyngor yn gwneud wrth ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal.
- **Panel Gwella Ysgolion** - Sefydlwyd y Panel Gwella Ysgolion i alluogi'r Cyngor Sir i gyflawni cyfrifoldebau cyfansoddiadol a statudol yn effeithiol ar gyfer monitro perfformiad ysgolion, gan ymdrechu'n gyson i wella canlyniadau addysgol i'n disgyblion
- **Fforwm Derbyniadau Addysg -** Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Ddeddf Addysg 2002 sefydlu Fforwm Derbyn sydd â'r pŵer i gynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar drefniadau derbyn.
- **Fforwm y Gymraeg mewn Addysg -** Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Fforwm y Gymraeg mewn Addysg mewn deddfwriaeth. Disgrifir y Fforwm fel a ganlyn - mae fforwm addysg cyfrwng Cymraeg yn golygu corff a sefydlwyd gan awdurdod lleol at ddiben gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion awdurdodau lleol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol.

**Y Pwyllgor Craffu - Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg**

**Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg**

**8 Grŵp Ffocws Strategol Addysg**

# Amcan Llesiant 2 – Byw a Heneiddio’n Dda

## Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda





Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Dyfarniad cyffredinol

*Credir bod ychydig dros draean o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, sefyllfa a fydd yn debygol o waethygu oherwydd yr argyfwng costau byw. Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi datblygu dull cryfach a mwy integredig o gefnogi trigolion.*

*Yn dilyn y pandemig, rydym wedi gweld mwy o alw am yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol, a wnaed yn fwy heriol oherwydd cymhlethdod cynyddol achosion; fodd bynnag, rydym wedi parhau i arloesi, datblygu a diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed. Rydym hefyd yn glir ynghylch blaenoriaethau a gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol.*

*Rydym wedi darparu dros 1,000 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol ers 2019/20 i gydnabod bod y cyflenwad ychwanegol o gartrefi yn ein cymunedau gwledig a threfol yn allweddol i alluogi cydnerthedd a chydlyniant cymunedol.*

## Pam mae hyn yn bwysig

Rydym am alluogi ein trigolion i fyw ac heneiddio'n dda a chymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni:

- Fynd i'r afael â thlodi a lleihau ei effaith niweidiol.
- Helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth gartref cyhyd ag y bo modd.
- Sicrhau tai fforddiadwy o ansawdd da.

## Y dangosyddion a'r mesurau cyffredinol allweddol a osodwn i'n hunain ar gyfer yr amcan cyffredinol hwn

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu monitro ar gyfer Amcan Llesiant 2.

Mae'r Dangosyddion Poblogaeth yn bennaf yn cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodwyd i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau a sefyllfa Sir Gaerfyrddin mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae ein hamcanion llesiant yn fodd i'r Cyngor chwarae rôl bwysig wrth wneud cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn. Dylid nodi fodd bynnag nad yw'r rhain yn arwydd o berfformiad y Cyngor yn unig a bydd llawer o ffactorau allanol yn dylanwadu arnynt.

Mae'r Mesurau Perfformiad yn cynnwys ffurflenni statudol, mesurau mewnol y Cyngor a canfyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu defnyddio i fesur a monitro perfformiad yn rheolaidd. Cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r rhain.

| Dangosyddion Poblogaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Tuedd** | | **Esbonio'r Data** |
| | **Gwryw** | **Benyw** | |
| **Disgwyliad Oes Iach ar adeg Geni** |  |  | **Mae Disgwyliad Oes Iach yn lleihau i ddynion ac yn cynyddu i fenywod**<br><br>***Mae'r llinellau tuedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnodau 2017/19 i 2018/20.***<br><br>Mae Disgwyliad Oes Iach yn mesur nifer y blynyddoedd y disgwylir i rywun fyw mewn iechyd da. Yn gyffredinol, mae pobl yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen oherwydd datblygiadau mewn gofal iechyd a gwelliant cyffredinol mewn safonau byw.<br><br>Fodd bynnag, ceir amrywiadau rhwng rhyw a lle mae person yn byw. Mae Disgwyliad Oes Iach i ddynion yn Sir Gaerfyrddin yn is na'r ffigur ar gyfer menywod a gwelwyd gostyngiad rhwng 2017-19 a 2018-20 o 60.4 i 59.7. Dyma'r 18fed lefel isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n llai na chyfartaledd Cymru sef 61.5.<br><br>Bu cynnydd bach mewn Disgwyliad Oes Iach i fenywod dros yr un cyfnod, o 61.1 i 61.8. Dyma'r 13fed lefel isaf o'r holl awdurdodau lleol ac mae hefyd yn llai na chyfartaledd Cymru sef 62.4.<br><br>Mae hon yn ystyriaeth bwysig yn Sir Gaerfyrddin gan fod y sir yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl dros 65 oed a gallai hyn, o'i gyfuno â Disgwyliad Oes Iach sy'n is na'r cyfartaledd, arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **% y bobl sy'n byw mewn Amddifadedd Materol** |  | | **Lefelau Amddifadedd Materol yn Codi**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2018/19 a 2022/23.***<br><br>Mae amddifadedd materol yn fesur sydd wedi'i gynllunio i ddangos canlyniadau tlodi hirdymor ar aelwydydd.<br><br>Mae'r data diweddaraf (2022/23) yn dangos bod 16.7% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn amddifadedd materol. Dyma'r 7fed lefel uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n gynnydd ar ffigurau 2020/21 (12%).<br><br>Mae'r duedd gynyddol hon yn unol â thueddiadau cynyddol yn gyffredinol ar gyfer cyfraddau tlodi. Mae'r argyfwng costau byw parhaus hefyd yn debygol o gael effaith niweidiol ar lefelau amddifadedd aelwydydd.<br><br>Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith trawsadrannol sylweddol i gefnogi trigolion y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi arwain at ddatblygu Cynllun Trechu Tlodi sy'n annog dull integredig. |

| | | |
|---|---|---|
| **Sgôr Llesiant Meddwl Oedolion** |  | **Mae'r Sgôr ar gyfer Llesiant Meddwl Oedolion ar i lawr, sy'n gyson â Thueddiadau Cenedlaethol**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2016/17 a 2022/23.[2](Mae'r sgoriau[3] allan o 70, gyda sgôr uwch yn dynodi canlyniad gwell).***<br><br>Y sgôr ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2022/23 oedd 48.3, a oedd yn ostyngiad ar y ffigurau blaenorol ar gyfer 2021/22 (48.8). Efallai bod hyn yn arwydd o effeithiau'r pandemig, pryd y gwelsom y newid mwyaf i fywyd arferol ers degawdau. Gwelwyd gostyngiadau ar lefel Cymru hefyd.<br><br>Safle Sir Gaerfyrddin o gymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yw'r 10fed isaf, o gymharu â'r 11eg isaf ar gyfer y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae canfyddiadau ymgynghoriad diweddar gan drigolion yn dangos bod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid ystyried cefnogi iechyd meddwl pobl yn y sir.<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddarparu lefelau hygyrch a phriodol o gymorth i unigolion â phroblemau iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar ehangu mynediad a chymorth i blant ac oedolion bregus. |
| **Oedolion â 2 neu fwy o ymddygiadau ffordd o fyw iach** |  | **Mae nifer yr oedolion sydd â 2 (neu fwy) o Ymddygiadau Ffordd o Fyw Iach yn cynyddu**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2018/19 a 2022/23.***<br><br>Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng ymddygiadau ffordd o fyw iach a Disgwyliad Oes Iach fel y nodir uchod a chânt eu diffinio fel:<br>• Dim yn ysmygu,<br>• Bod o bwysau iach,<br>• Bwyta pum dogn o ffrwythau/llysiau y dydd,<br>• Peidio yfed gormod o alcohol, a<br>• Gwneud ymarfer corff yn unol â'r canllawiau.<br><br>Mae ffigurau Sir Gaerfyrddin wedi gwella i raddau bach iawn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan symud o 92.4% i 92.5%. Mae hyn wedi golygu bod y sir yn arddangos y 9fed ffigur uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n welliant o fod y 13eg y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 92.3%. Byddai gwelliant parhaus ar gyfer y mesur hwn yn debygol o arwain at welliant mewn Disgwyliad Oes Iach. |

[2] Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn ar gyfer 2019/20, felly nid oes data cymharol ar gyfer y flwyddyn hon

[3] Mae'r sgôr hon yn deillio o Raddfa Llesiant Meddwl Warwick Caeredin a'i bwriad yw mesur llesiant meddwl yn hytrach na salwch neu anhwylder meddwl.

## Y canlyniadau yr ydym yn eu gosod i'n hunain

| Canlyniadau'r Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| Help a chefnogaeth i liniaru effeithiau'r argyfwng 'costau byw' a thlodi yn y Sir | Mae gwaith trawsadrannol i fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw wedi datblygu dull cryfach a mwy integredig o fewn y Cyngor ac mae wedi cydgrynhoi a nodi'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gallwn ei wneud ac sydd angen i ni ei wneud.<br>Ar lefel aelwydydd mae'r data paycheck diweddaraf sydd ar gael yn awgrymu bod 34.5% o'r holl aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, [4]mae hyn yn cyfateb i tua 28,730 o aelwydydd. Mae hyn yn ostyngiad bach o 1.1% ers y llynedd sy'n adlewyrchu tueddiadau a welwyd yn genedlaethol | Ydyn |
| Gwasanaethau integredig di-dor rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Rydym yn parhau i gael gwasanaeth integredig rhwng y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi ailedrych ar ein strwythur rheoli integredig i sicrhau y gall ein gwasanaethau fod o fudd i holl drigolion Sir Gaerfyrddin yn gyfartal, ble bynnag y maent yn byw.<br><br>Rydym wedi parhau i ddatblygu ein dull Gartref yn Gyntaf i helpu'r rheiny sydd yn yr ysbyty i fynd adref yn gyflymach a chefnogi'r rheiny sydd mewn argyfwng yn y gymuned i'w hatal rhag mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf. Bellach mae gennym dîm amlddisgyblaethol sy'n gweithio o'n swyddfeydd ym Mhorth y Dwyrain sy'n cynnwys ystod o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i gefnogi'r rheiny sy'n gadael yr ysbyty a'r rheiny sydd mewn argyfwng yn y gymuned. Mae'r tîm hwn yn cynnwys Ymarferydd Parafeddyg Uwch a all gynorthwyo gyda dargyfeirio ambiwlansys o'r Adran Achosion Brys a Llesiant Delta (ein cwmni hyd braich sy'n eiddo i'n cyngor), sy'n gallu darparu cymorth tymor byr i'r rheiny sydd mewn argyfwng trwy eu gwasanaeth ymateb cyflym. Mae Llesiant Delta bellach yn cefnogi miloedd o bobl oedrannus trwy gyfrwng cymorth digidol rhagweithiol yn eu cartrefi eu hunain.<br><br>Er mwyn cefnogi'r dull hwn, rydym wedi datblygu ymhellach ein huned 14 gwely, Tŷ Pili-Pala, sydd ynghlwm wrth gartref gofal Llys y Bryn, lle gall cleifion sy'n gadael yr ysbyty elwa o gyfnod o asesu ac adsefydlu. Mae'r datblygiad hwn wedi bod yn hynod lwyddiannus, gyda 70% o bobl yn gadael y gwasanaeth heb fod angen gofal ffurfiol parhaus. Rydym hefyd wedi lansio ein gwasanaeth gofal cartref ailalluogi integredig, i ddarparu gofal tymor byr i'r rheiny sy'n gadael yr ysbyty, ac nid oes gan 90% o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn unrhyw ofynion gofal hirdymor wrth adael y gwasanaeth. | Ydyn |

[4] Mae'r cyfanswm incwm aelwydydd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr

| Canlyniadau'r Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| | Mae ein dull cyffredinol wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion yn yr ysbyty sy'n aros am ofal. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd yn wyneb yr holl heriau'n ymwneud â sicrhau gofal a chymorth gartref yn sgil y materion recriwtio a chadw parhaus yn y sector gofal. Mae'r dull hwn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion yn yr ysbyty sy'n aros am ofal. | |
| Gwasanaethau hygyrch, cynhwysol a chynaliadwy, sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden. | Rydym yn bwrw ymlaen â rhaglen uchelgeisiol o newid yn ein darpariaeth gwasanaethau dydd ar gyfer dysgu. Mae adeiladau bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer y rheiny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes hamdden a'r amgylchedd i gynnig gweithgareddau cymunedol sy'n hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol. | Ydyn |
| Gwell gwasanaethau ataliol i fodloni gofynion poblogaeth sy'n heneiddio. | Mae Bwrdd Atal amlasiantaeth wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor, y Bwrdd Iechyd, Iechyd y Cyhoedd a'r Trydydd Sector. Bydd y Bwrdd hwn yn dechrau mapio gwasanaethau ataliol presennol yn y Sir, gyda'r bwriad o nodi bylchau allweddol a chynllun gweithredu ar gyfer datblygu. Rydym hefyd yn y broses o recriwtio Uwch-reolwr Darparu newydd ar gyfer Atal, a fydd yn darparu arweinyddiaeth ar draws asiantaethau i yrru'r cynllun gweithredu hwn yn ei flaen. Rydym wedi sefydlu llwybrau llesiant o fewn y Timau Iechyd Meddwl Cymunedol. | Ydyn |
| Lleihau digartrefedd a gweithio tuag at ddod ag ef i ben. | Datblygwyd Cynllun Ailgartrefu Cyflym sy'n amlinellu'r weledigaeth ynghylch sut yr ydym yn bwriadu trawsnewid y gwasanaeth digartrefedd.<br><br>Mae ffrydiau gwaith fel rhan o'r cynllun Ailgartrefu Cyflym wedi'u sefydlu i edrych ar feysydd allweddol sy'n cynnwys:<br>• Y Polisi Dyrannu<br>• Adolygu a Datblygu cymorth sy'n gysylltiedig â thai<br>• Llety dros dro<br>• Datblygu llety sefydlog<br><br>Rydym wedi gwella'r gwaith o atal digartrefedd trwy:<br>• Ddatblygu'r Tîm Hwb Tai<br>• Adolygu a Datblygu'r Polisi Dyraniadau Brys<br>• Defnyddio'r Gronfa Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai<br><br>Mae'r tîm Cyn-denantiaeth wedi:<br>• Darparu mwy o gymorth i denantiaid newydd drwy wneud y mwyaf o'u budd-daliadau/incwm i'w helpu i gynnal eu tenantiaeth.<br>• Ehangu'r cymorth sydd ar gael i denantiaid yn y sector rhentu preifat.<br>• Ailgyflwyno pecynnau hyfforddi i bobl ifanc i'w helpu i gynnal eu tenantiaethau.<br>• Treialu rhaglen hyfforddi gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau fel rhan o ymrwymiad yr hawliwr. | Ydyn |

| Canlyniadau'r Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| Argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da ac ynni-effeithlon yn y Sir | Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai yn cadarnhau ein hymrwymiad a'n dull o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da ac ynni-effeithlon ledled y Sir. Yn 2022/23 gwnaethom ddarparu 323 o dai fforddiadwy ychwanegol (a oedd dros 100 o dai yn uwch na'n targed), gan ddefnyddio ystod o atebion gan gynnwys:<br>• adeiladu tai Cyngor newydd<br>• ailddefnyddio tai gwag<br>• cynyddu ein stoc dai drwy brynu cartrefi sector preifat ar y farchnad agored<br>• gweithio gyda'n partneriaid Cymdeithasau Tai a'u cefnogi i adeiladu mwy o dai yn y Sir<br>• rheoli tai preifat yn fewnol drwy ein Hasiantaeth Gosod Syml<br>• darparu tai fforddiadwy i'w perchnogi ar gost isel drwy'r system gynllunio<br>Ers dechrau ein rhaglen tai fforddiadwy, rydym bellach wedi darparu 1,760 o dai ychwanegol, gan greu cartrefi a chymunedau i bobl leol | Ydyn |
| Adnabod a cheisio cyfyngu ar y rhwystrau anghymesur sy'n wynebu grwpiau ymylol wrth gael mynediad at wasanaethau a chymorth sy'n caniatáu iddynt fyw a heneiddio'n dda. | Datblygwyd y dull Cymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn gan Sefydliad Iechyd y Byd yn 2007, mewn ymgynghoriad â phobl hŷn ledled y byd. Mae wedi'i adeiladu ar y dystiolaeth o'r hyn sydd o gymorth i heneiddio'n iach ac yn egnïol mewn lle ac mae'n cynorthwyo trigolion hŷn i lunio'r lle y maent yn byw ynddo.<br><br>Drwy ddilyn y dull hwn, bydd grwpiau lleol, arweinwyr, cynghorau, busnesau a thrigolion hŷn i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i nodi a gwneud newidiadau yn yr amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwella trafnidiaeth, mannau awyr agored, gwirfoddoli a chyflogaeth, hamdden a gwasanaethau cymunedol.<br><br>Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn dod yn aelodau o'r rhaglen Cymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn.<br>• Yn ystod 2022/23 rydym wedi cynnal ymarfer mapio manwl gan ystyried cwmpas y rhaglen a bydd y dystiolaeth hon yn sail i'n cynlluniau gweithredu yn y dyfodol.<br>Wrth gydnabod y gallai rhai grwpiau o bobl wynebu anawsterau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau a chymorth, rydym wedi rhoi nifer o bethau ar waith i liniaru hyn. Mae rhai enghreifftiau fel a ganlyn:<br>• Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o gynllun eiriolaeth annibynnol rhanbarthol sy'n cynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau, ac fel rhan o'u cymorth parhaus. | Ydyn |

| Canlyniadau'r Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| | • Darperir gwybodaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen ac mewn iaith o'u dewis.<br>• Gellir trefnu cyfieithu lle bo angen<br>Ar gyfer unigolion â nam ar eu clyw sydd angen gwasanaethau Gofal trwy Gymorth Technoleg (TEC) a monitro larwm, gallwn ddefnyddio negeseuon testun fel modd o gyfathrebu a negeseuon e-bost / ymweliadau cartref i gasglu gwybodaeth angenrheidiol i'n galluogi i osod y gwasanaeth. Mae yna hefyd lawer o ofal TEC ar gael i gefnogi unigolion â nam ar eu golwg a'u clyw | |
| Gwell cyfleoedd i'r holl drigolion wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol er mwyn cael swyddi. | Rydym wedi sefydlu canolfan sgiliau ar gyfer pobl ag anableddau a fydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu achrededig a sgiliau digidol i'w huwchsgilio, fel eu bod yn gallu gwirfoddoli a chael gwaith yn y pen draw. | Ydyn |
| Caiff pobl eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd lleol boed hynny trwy ddechrau busnes, ennill cymwysterau neu gael gwaith ystyrlon | Mae'r Rhaglenni Cyflogadwyedd yn Sir Gaerfyrddin yn cefnogi unigolion sy'n ddi-waith neu sydd wedi colli eu gwaith. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys mentora un i un; hyfforddiant; meithrin hyder; helpu gydag ysgrifennu CV a dod o hyd i gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli addas. Mae'r rhaglenni (C4W plus a Workways +) ill dau wedi helpu i ddod o hyd i waith i unigolion o Sir Gaerfyrddin yn ogystal â chynnig hyfforddiant i ddiwallu anghenion cyflogwyr. | Ydyn |

## Fel Cyngor, rydym yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau thematig a gwasanaeth canlynol

### Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 2a: Trechu Tlodi

### Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 2b: Tai

### Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 2c: Gofal Cymdeithasol

## Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Blaenoriaeth Thematig
# 2a - Trechu Tlodi

**Mae 34.5% (28,730) o aelwydydd yn byw mewn tlodi[5], sy'n ostyngiad bach o 1.1% ers y llynedd.**

Tra bod hyn yn wir mae Sir Gaerfyrddin yn dal i arddangos yr 8fed lefel uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r lefelau tlodi yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.1%.

Mae gwaith trawsadrannol i fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw wedi datblygu dull cryfach a mwy integredig o fewn y Cyngor ac mae wedi cydgrynhoi a nodi'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gallwn ei wneud ac sydd angen i ni ei wneud.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol, gan effeithio ar bob agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau.
- Gall tlodi fod yn rhwystr o ran cyfrannu'n llawn at gymdeithas, ac yn rhy aml o lawer mae'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol.
- Gyda phwysau ychwanegol yr argyfwng costau byw, mae angen dull cwbl integredig a chydweithredol o ymateb a chefnogi yn y meysydd y gallwn ddylanwadu arnynt.
- Yn ogystal, credir bod 34.6% o blant yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, mae hyn yn cyfateb i tua 11,247 o blant. Mae hyn yn uwch na'r lefelau cenedlaethol a dyma'r 12fed lefel uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru a'r chweched gyfradd newid uchaf ar y cyd dros y pum mlynedd diwethaf.
- I gadarnhau hyn, roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr i ymgynghoriad diweddar yn cytuno fod tlodi yn broblem yn eu hardal hwy. Yn ogystal, roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at yr argyfwng costau byw a'r themâu sy'n cyd-fynd â hyn fel un o'r prif heriau sy'n eu hwynebu hwy a'u teuluoedd ar adeg yr arolwg.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad sy'n cael eu monitro ar gyfer y flaenoriaeth thematig Trechu Tlodi.

[5] Mae'r cyfanswm incwm aelwydydd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr -



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Dangosyddion Poblogaeth | | |
|---|---|---|
| **Mesur** | **Tuedd** | **Esbonio'r Data** |
| **Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi** |  | **Mae ychydig yn llai o aelwydydd mewn tlodi o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae'r lefelau'n dal i fod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod 2014-2022. Mae'n dangos darlun cyfnewidiol a nodweddir gan duedd gyffredinol ar i lawr gyda chynnydd i'w weld yn 2018, 2020 a 2021.***<br><br>Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2022) yn awgrymu bod 34.5% o'r holl aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, [6]mae hyn yn cyfateb i tua 28,730 o aelwydydd. Mae hyn yn ostyngiad bach o 1.1% ers y llynedd sy'n adlewyrchu tueddiadau a welwyd yn genedlaethol. Credir bod hyn i raddau helaeth yn ymwneud â'r cyfnod amser a gwmpesir gan y data sy'n cyd-fynd â'r pandemig.<br><br>Mae gwaith trawsadrannol i fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw wedi datblygu dull cryfach a mwy integredig o fewn y Cyngor ac mae wedi cydgrynhoi a nodi'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gallwn ei wneud ac sydd angen i ni ei wneud.<br><br>Mae adrannau'n gweithio'n galed i gefnogi'r rheiny sydd mewn mwyaf o angen drwy:<br>• Cyflawni arbedion wedi'u cefnogi trwy wneud y mwyaf o incwm a grantiau;<br>• Cynorthwyo aelwydydd i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo;<br>• Gwell cyfeirio at asiantaethau cymorth a gwybodaeth berthnasol. |
| **Cyflog Wythnosol Canolrifol (gweithwyr llawn amser)** |  | **Mae'r cyflog wythnosol i bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn cynyddu**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod 2012-2022 ac mae'n dangos tuedd sy'n cynyddu'n gyffredinol.***<br><br>Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021 yn dynodi mai enillion wythnosol gros cyfartalog Cymru yw £603.50 sy'n sylweddol is na chyfartaledd Prydain Fawr o £642.20[7]. |

[6] Mae'r cyfanswm incwm aelwydydd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain Fawr - £20,021

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn Sir Gaerfyrddin, y cyflog wythnosol cyfartalog yw £623.40, sy'n uwch na chyfartaledd Chymru ond mae'n dal yn amlwg yn is na chyfartaledd Prydain Fawr.<br><br>Mae enillion yn cael effaith uniongyrchol ar fywyd unigolyn, gan effeithio ar bob penderfyniad a wneir. Mae hyn yn mynd yn arbennig o anodd os nad yw enillion unigolyn yn caniatáu iddo ddiwallu ei anghenion sylfaenol a chaiff hyn ei waethygu os nad yw twf cyflog yn cyd-fynd â chyfradd chwyddiant, ac mae llawer yn wynebu effeithiau hyn ar hyn o bryd.<br><br>Fel y nodwyd eisoes, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm a chael mynediad at y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. |
| **Cymhareb Fforddiadwyedd Tai** |  | **Mae fforddiadwyedd tai ymhlith y gorau yng Nghymru**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod 2014-2022 ac mae'n dangos tuedd gyfnewidiol. Nid yw'r cynnydd yn y sir wedi bod mor arwyddocaol ag mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.***<br><br>Mae rhannu'r pris tŷ ar gyfer ardal benodol yn ôl ei henillion, yn creu cymhareb sy'n gweithredu fel dangosydd o fforddiadwyedd cymharol. Mae cymhareb uwch yn dangos, ar gyfartaledd, ei bod yn llai fforddiadwy i breswylydd brynu tŷ yn ardal ei awdurdod lleol. I'r gwrthwyneb, mae cymhareb is yn dynodi fforddiadwyedd uwch mewn awdurdod lleol.<br><br>Cymhareb bresennol Sir Gaerfyrddin yw 5.61 sy'n sylweddol is na'r gymhareb uchaf yng Nghymru sef 9.47. Dyma'r chweched lefel isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yn 2022. Er bod cynnydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r cynnydd hwn mor arwyddocaol ag a welwyd mewn ardaloedd eraill. Dylid nodi y bydd fforddiadwyedd tai yn amrywio rhwng ardaloedd llai o fewn y sir.<br><br>Mae mynediad at dai fforddiadwy yn bwysig gan ei fod yn arwain at welliannau mewn iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. O'i roi'n syml, po fwyaf fforddiadwy yw tai, y mwyaf o arian sydd gan aelwydydd i'w wario ar y pethau eraill |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sydd eu hangen arnynt, sydd yn ei dro yn gwella ansawdd eu bywyd.<br><br>Nododd trigolion mewn ymgynghoriad diweddar ei bod yn bwysig bod pobl leol yn cael cefnogaeth i brynu tai'n lleol. |
| **Mesur Perfformiad** | | | |
| **Mae tlodi yn broblem yn fy ardal i - Ymgynghoriad â Thrigolion** | **2022**<br><br>**0.23** | **2023**<br><br>**I'w gadarnhau** | Yn gyffredinol mae cyfraddau tlodi ar gynnydd, ar lefel genedlaethol ac ar lefel Sir Gaerfyrddin, ac mae hon yn duedd sy'n debygol o waethygu y sgil costau byw cynyddol.<br>Roedd yr ymatebion i'r datganiad hwn yn gymysg; fodd bynnag, at ei gilydd mae cyfran uwch yn cytuno bod tlodi yn broblem yn eu hardal. Dengys dadansoddiad pellach fod yna gytundeb fwy amlwg ymhlith rhai grwpiau, fel a ganlyn:<br>• Ymatebwyr ag anableddau,<br>• Ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu,<br>• Aelodau o'r gymuned LGBTQ+,<br>• Ymatebwyr y mae incwm eu haelwyd o dan £30,000 y flwyddyn<br>• Ymatebwyr sydd naill ai'n aelodau gweithredol o'r lluoedd arfog neu sy'n gyn-filwyr. |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnydd yn 2022/23

### Tlodi Plant

- Plant yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol yn gyson; mae hyn yn wir ym mhob un o bedair gwlad y DU. Dangosodd data ar gyfer 2019/20 fod 31.3% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, o gymharu â 30.6% ar lefel Cymru.
- Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021 yn amcangyfrif bod 34% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi, sy'n gynnydd o 4.8 pwynt canran dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn o gymharu â lefel y DU o 27%. Mae'r ffigurau ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn dangos cynnydd o 4.7 pwynt canran dros yr un cyfnod, gyda 34.6% o blant yn byw mewn tlodi.[8] Mae hyn yn cyfateb i tua 11,247 o blant. Dyma'r 12fed lefel uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru a'r chweched gyfradd newid uchaf ar y cyd dros y pum mlynedd diwethaf.[9]
- Mae'r gyfran fwyaf o blant sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn aelwydydd heb waith. Fodd bynnag, yr hyn sy'n fwy pryderus yw'r gyfradd gynyddol y mae plant sy'n byw ar aelwydydd sy'n gweithio yn byw mewn tlodi. Ar lefel Cymru mae'r risg bod plentyn mewn tlodi ar aelwyd lle mae pob oedolyn mewn gwaith yn 17%. Mae hyn yn gynnydd o 5 pwynt canran o 12% dros y deng mlynedd diwethaf.[10]


**Apêl Teganau Nadolig 2022**

**Dros 9,900 o deganau ac anrhegion i 1,650 o blant**

Mae hyn yn gynnydd o 28% yn nifer yr enwebiadau. Unwaith eto, rydym yn hynod ddiolchgar i bobl Sir Gaerfyrddin am eu haelioni rhyfeddol. Mae'r gefnogaeth wedi dod gan gynghorwyr sir, cynghorau tref a chymuned, eglwysi a chapeli, ysgolion, siopau, busnesau, ac unigolion hynod hael o bob cwr o'r sir. Mae hyn wedi ein galluogi i ddarparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc yn ystod cyfnod y Nadolig ac mae'n enghraifft wirioneddol o'r gymuned gyfan yn cydweithio i gefnogi teuluoedd mewn angen.

### Atal Digartrefedd

- Mae % yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref yn Sir Gaerfyrddin wedi gwella o 50.5% (2021/22) i 71.63% (2022/23), dyma'r ffigur atal uchaf a gofnodwyd ers i'r adroddiad ddechrau yn 2017/18.




8 [Child-Poverty-AHC-estimates-2015-2021-FINAL.xlsx (live.com)]
9 Mae'r ffigurau Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog ar gyfer 2020/21 yn llai dibynadwy nag ar gyfer blynyddoedd cynharach oherwydd materion samplu yn gysylltiedig â'r pandemig. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r ystadegau
10 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/childreninrelativeincomepoverty-by-economicstatusofhousehold



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Rydym wedi cyflawni hyn drwy:

- ddatblygu'r Tîm Hwb Tai – rydym bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar y pwynt cyswllt cyntaf lle gallwn asesu amgylchiadau aelwydydd yn fwy manwl er mwyn teilwra'r cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt. Trwy greu ein tîm cymorth mewnol ac adlinio adnoddau presennol rydym wedi symud o wasanaeth adweithiol i wasanaeth mwy ataliol.
- cyflwyno'r Polisi Dyraniadau Brys. Mae hwn wedi ein galluogi i baru tai yn uniongyrchol â'r ymgeiswyr sydd â'r angen mwyaf, er enghraifft y rhai sy'n ddigartref, mewn perygl o fod yn ddigartref neu'r rhai sydd angen tai ar frys. Rydym yn gallu dyrannu tai'n gyflymach a sicrhau bod yr eiddo a ddyrennir iddynt yn diwallu eu hanghenion a'i fod mewn ardal y mae ganddynt gysylltiad cymunedol â hi.
- defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru a elwir yn Gronfa Atal Digartrefedd Ddewisol. Mae'r cyllid hwn wedi helpu i atal a lleddfu digartrefedd drwy ddefnyddio'r arian sydd ar gael i ychwanegu at rent lle mae diffyg, talu rhent ymlaen llaw i sicrhau cartref newydd lle mae unigolyn yn dymuno symud iddo, helpu i leihau ôl-ddyledion rhent er mwyn galluogi tenantiaid presennol i aros yn eu cartrefi. Drwy ddefnyddio'r cyllid hwn a chynnig gwasanaethau cymorth eraill sydd ar gael o fewn y tîm, rydym wedi gallu atal mwy o aelwydydd rhag mynd yn ddigartref a'u helpu i gynnal eu tenantiaethau.
- Addasu 8 tŷ 3 ystafell wely yn eiddo 2 ystafell wely ag en-suite sy'n addas ar gyfer 2 o bobl i rannu llety. Mae hyn wedi helpu i leddfu'r pwysau ar lety un person yn y sir.

### Byw mewn amddifadedd materol

- Nodir bod pump o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Sir Gaerfyrddin ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac maent yn uchel yn nifer o'r parthau sydd â'r cysylltiad agosaf â thlodi, sef incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg a thai. Yr ardaloedd hyn yw: Tyisha 2, Glan-y-môr 4, Bigyn 4, Tyisha 3, Llwynhendy 3.
- Ers 2011 mae nifer yr ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cynnwys yn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru wedi cynyddu 25%, sy'n cadarnhau ymhellach y cyfraddau tlodi cynyddol sy'n amlwg yn y sir.
- Gellir gweld dadansoddiad manylach o ddata MALlC 2019 ar gyfer Sir Gaerfyrddin yma.

### Adolygu ein dull o Drechu Tlodi

- Datblygodd ein Tîm Mewnwelediad Data newydd broffil tlodi ar gyfer Sir Gaerfyrddin fel y gallem ddeall y materion dan sylw.
- Mae gwaith trawsadrannol i fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw wedi datblygu dull cryfach a mwy integredig o fewn y Cyngor ac mae wedi cydgrynhoi a nodi'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gallwn ei wneud ac sydd angen i ni ei wneud. Rydym wedi paratoi Cynllun Trechu Tlodi a *fydd yn cael ei ddiwygio pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi eu Strategaeth Tlodi Plant o fewn y 12 mis nesaf.*
- Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ar dlodi a gwnaeth 2 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru a 6 ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd hwn yn adroddiad Cymru gyfan ac roeddem eisoes wedi bod yn gwneud llawer o'r syniadau arfer gorau a argymhellwyd gan yr astudiaeth Cymru gyfan.

**Archwilio Cymru - Adroddiad Cenedlaethol '<u>Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru</u>** (Tachwedd 2022)

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar her tlodi yng Nghymru a sut y mae'r llywodraeth yn ymateb. Mae'n cydnabod nad yw mynd i'r afael â thlodi yn effeithiol yn hawdd ac mae'n eithriadol o anodd i Lywodraeth Cymru a chynghorau yng Nghymru. Dyma'r cyntaf o dri adolygiad ar yr her o leddfu a mynd i'r afael â thlodi

**<u>Sylw</u>**

Roedd yr adroddiad yn nodi arferion gorau ac roeddem eisoes wedi cyflawni nifer o'i argymhellion.

| | Argymhellion ar gyfer Awdurdodau Lleol Talfyredig | Statws | Sylw |
|---|---|---|---|
| A | Bod cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i ddarparu ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi targedau a chamau gweithredu y cynllun cenedlaethol diwygiedig | ✓ | Bydd y Cyngor yn pennu mynd i'r afael â thlodi fel blaenoriaeth thematig o fewn un o'i amcanion llesiant o fewn y Strategaeth Gorfforaethol newydd ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi cynnwys mynd i'r afael â thlodi yn ei Gynllun Llesiant drafft.<br>Bydd camau gweithredu a mesurau i wneud cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn yn cael eu pennu'n glir rhwng ymateb sefydliadol ac ymateb fel partneriaeth er mwyn osgoi dyblygu. |
| B | Bod pob cyngor yn dynodi aelod cabinet yn hyrwyddwr tlodi'r cyngor ac yn dynodi uwch-swyddog i arwain a bod yn atebol am yr agenda gwrthdlodi | ✓ | Roedd y Cynghorydd Linda Davies Evans, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Drechu Tlodi eisoes wedi'i phenodi yn dilyn etholiadau mis Mai 2022.<br>Dynodwyd y Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol yn uwch-swyddog arweiniol. |
| C | Bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth o 'brofiad byw' eu trigolion drwy gymryd rhan ystyrlon yn y broses o wneud penderfyniadau gan ddefnyddio 'mapio profiad' a/neu 'Comisiynau Gwirionedd Tlodi' i adolygu pa mor hygyrch yw gwasanaethau'r cyngor a pha mor hawdd yw hi i'w defnyddio. | | Cytundeb i ddatblygu rhaglen ymgysylltu â Sir Gaerfyrddin i geisio barn trigolion.<br>(Erbyn Rhagfyr 2023) |
| D | Er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu cael y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt, rydym yn argymell bod cynghorau'n gwneud y gorau o'u gwasanaethau digidol trwy greu un dudalen lanio ar eu gwefan | ✓ | Mae hyn ar gael drwy wefan y Cyngor ar y dudalen 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' |
| E | Symleiddio a gwella gwasanaethau ymgeisio a gwybodaeth ar gyfer pobl mewn tlodi | | • Roedd y gwaith sydd eisoes ar y gweill yn canolbwyntio ar fodel Hwb y Cyngor.<br>• Rhoddir ystyriaeth i gasglu a defnyddio data fel rhan o gyfres ddata ehangach y Cyngor.<br>• Bydd materion penodol yn ymwneud â rhannu data yn cael eu hystyried.<br>(erbyn Medi 2023) |
| F | Bod cynghorau'n adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu gyfwerth | | • Mae datblygu proffiliau data cyfredol Sir Gaerfyrddin ar y gweill.<br>• Adolygu'r Asesiad Effaith Integredig i sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu dangos.<br>(erbyn Medi 2023) |

## Atal Tlodi

Rydym wedi ailgyflwyno ein cyrsiau hyfforddiant cyn-llety wyneb yn wyneb, y gall unrhyw un yn Sir Gaerfyrddin ar draws deiliadaeth gael mynediad atynt. Mae hyn wedi helpu i nodi anghenion cymorth yn gynharach, cyfeirio at gymorth priodol gan gynnwys manteisio i'r eithaf ar incwm, a rhoi gwybod i bobl pa gymorth sydd ar gael iddynt.

Mae gennym Weithwyr Cymorth Sector Rhentu Preifat wedi'u lleoli yn y 3 swyddfa Canolfan Byd Gwaith i ddarparu cymorth a chyngor i unrhyw un sydd â chost tai ynghlwm wrth eu hawliad am Gredyd Cynhwysol.

## Tlodi a Gwaith

Er bod yna dystiolaeth dda bod gweithio mewn gwaith cyflogedig yn lleihau'r risg o dlodi o gymharu â bod ar aelwyd ddi-waith, mae data tueddiadau yn dangos bod lefelau'r hyn a ystyrir yn dlodi 'mewn gwaith' yn cynyddu. I roi'r cyd-destun, mae'r risg o fod mewn tlodi i oedolion o oedran gweithio sy'n byw ar aelwyd lle mae pob oedolyn yn gweithio wedi cynyddu 2 bwynt canrannol rhwng 2010 a 2020.[11]

Mae tystiolaeth bellach yn dangos bod y risg o dlodi yn uwch ar gyfer gweithwyr anabl, gweithwyr BAME, rhieni sengl a theuluoedd â phlant. Mae gostyngiad mewn incwm budd-daliadau a chostau byw cynyddol yn parhau i dynnu teuluoedd incwm isel sy'n gweithio i mewn i dlodi.[12]

Mae ansawdd y swyddi (tâl), swm y swyddi (cyfranogiad aelodau'r aelwyd yn y farchnad lafur) a gwariant yr aelwyd (cost dibynyddion) yn rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at dlodi mewn gwaith. Rydym felly'n cydnabod pwysigrwydd gwaith ystyrlon ac yn unol â hyn mae sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i weithio neu i wella eu siawns o gael gwaith yn flaenoriaeth i ni. Drwy ein rhaglenni Cymunedau am Waith a Mwy rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- **Cafodd 532 o oedolion gymorth cyflogadwyedd** yn ystod 2022/23 gyda phob un ohonynt (100%) yn teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus am chwilio am waith. *(EconD/020)*
- **Cafodd 414 o oedolion gefnogaeth cynhwysiant digidol** yn ystod 2022/23 gyda phob un ohonynt (100%) yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur ac ennill sgiliau TG. *(EconD/021)*
- **Cyflawnwyd 502 o gymwysterau achrededig** gan drigolion a oedd yn mynychu cyrsiau cysylltiedig â chyflogaeth yn ystod 2022/23. (EconD/022)
- Cafodd **204** o unigolion eu cefnogi drwy gynlluniau cyflogadwyedd y Cyngor i ennill y cyflogau byw go iawn yn ystod 2022/23, mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 153. *(EconD/023)*

## Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

### Cymorth Ymgynghorwyr Hwb

- Mae cymorth arbenigol, cefnogaeth a chyngor i helpu gyda chostau byw a materion eraill ar gael ym mhob un o'n Hwbs gwasanaethau cwsmeriaid yn Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin, neu dros y ffôn drwy ein canolfan gyswllt neu ar-lein drwy wefan Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi.
- Mae ymgynghorwyr Hwb, gan weithio ochr yn ochr â swyddogion cyllidebu, ar gael bob dydd i ddarparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra i drigolion, gydag amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael iddynt gan y cyngor a phartneriaid eraill.


### Cymorth cyn-llety

- Ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2022/2023, rydym wedi cefnogi cyfanswm o 847 o denantiaid newydd ar draws deiliadaeth (gan helpu i gyflawni £787,900 o arbedion â chymorth ar ffurf manteisio i'r eithaf ar incwm a grantiau). Mae hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol oherwydd bod y gwasanaeth wedi'i ehangu ac rydym bellach yn cofnodi Gostyngiad / Gostyngiadau Treth y Cyngor - £345,641 ar gyfer 2022/23.

---

[11] Oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd (llyw.cymru)
[12] Tlodi y DU 2019/20: Gwaith | JRF

- Helpodd staff Cyn-llety gyda manteisio i'r eithaf incwm a chwblhau nifer o geisiadau am wahanol fudd-daliadau a oedd yn effeithio'n ariannol ar y tenantiaid. Rydym yn bartneriaid dibynadwy i wneud cais i Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru (DAF) sy'n darparu grantiau ar gyfer nwyddau gwyn, tanwydd oddi ar y grid a Thaliadau Cymorth Brys, yn ogystal ag aseswyr wedi'u gwirio ar gyfer Dŵr Cymru, lle gallwn wneud cais am gyfraddau dŵr is i aelwydydd cymwys.




- Rydym yn cyhoeddi talebau Banc Bwyd ac yn gwneud atgyfeiriadau yn ôl yr angen ar gyfer achosion mwy cymhleth.
- Mae cymorth cyn-llety wedi'i ehangu i'r Sector Rhentu Preifat ac rydym hefyd wedi cefnogi 138 o denantiaethau yn y Sector Rhentu Preifat (sydd wedi'u cynnwys yn y ffigur uchod), trwy gyllid y Grant Cymorth Tai.
- Mae ein Swyddogion Cymorth Sector Rhentu Preifat yn awr wedi'u lleoli yn y 3 prif Swyddfa Canolfan Waith, gan gymryd atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw un sy'n gwneud cais am Gredyd Cynhwysol a chael costau tai yn y Sector Rhentu Preifat.
- Rydym wedi ailgychwyn ein rhaglen hyfforddi ar gyfer pobl sy'n ymuno â'n cofrestr tai. Rydym wedi darparu hyfforddiant i: Hyfforddiant Ieuenctid - 19 o bobl ifanc; Hyfforddiant cyffredinol (wyneb yn wyneb) - 81 o aelwydydd; Cyngor cyffredinol a ddarperir drwy e-bost a thros y ffôn - 51 o aelwydydd.
- Rydym hefyd wedi ymestyn yr hyfforddiant i gynnwys modiwl ar gyfer Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fel rhan o gwrs Gweithwyr Ieuenctid.
- Rydym wedi dechrau cynllun peilot o weithio mewn partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu hyfforddiant i geiswyr gwaith ifanc fel rhan o'u hymrwymiad fel hawlwyr.
- Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd roedd 4.85 allan o 5 yn fodlon ar ein gwasanaeth ar gyfer 2022/23.

### Mannau Cynnes

- O ganlyniad i wasgfa'r argyfwng costau byw a chostau ynni cynyddol sefydlodd y Cyngor fannau cynnes pwrpasol yn llyfrgelloedd Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Mae papurau newydd, cylchgronau, cyfrifiaduron/iPads a theledu ar gael mewn man eistedd cyfforddus. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023 roedd ychydig dros 8,000 o bobl yn defnyddio'r mannau cynnes hyn.
- Yn ogystal â'r cyfleusterau a gaiff eu rhedeg gan y Cyngor, gweinyddwyd Grant Tlodi Llywodraeth Cymru gwerth £274,000 gan y Cyngor i gefnogi'r gwaith o sefydlu 45 o fannau cynnes dan arweiniad y gymuned a 6 phrosiect sy'n gysylltiedig â bwyd. Defnyddiodd tua 10,000 o bobl y gwasanaeth cymunedol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023.

### Cynorthwyo teuluoedd i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt yr hawl i'w gael.

- ⦿ Rydym yn parhau i gynorthwyo teuluoedd i hawlio'r holl gymorth y mae ganddynt hawl i'w gael ac rydym yn mynd ati i ganfod gwybodaeth fel bod modd i hawliadau am Fudd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gael eu prosesu cyn gynted â phosibl. Rydym yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai ac rydym hefyd yn annog pobl i fanteisio arnynt. Ceir gweithio agos rhwng Cynghorau a chysylltiadau â chymdeithasau tai. Dyrannwyd £100k ychwanegol i'r gronfa Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai drwy'r cynllun dewisol costau byw. Yn ogystal, byddwn yn ymgymryd â'r gwaith perthnasol o gyfeirio ac atgyfeirio i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cyngor a'r cymorth perthnasol.

- ! Yr amser cyfartalog a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ***(6.6.1.2)*** yn ystod 2022/23 yw 18.46 diwrnod. Er bod hyn yn uwch nag yn 2021/22 pan oedd ychydig dros 16 diwrnod, mae dal i fod yn dda o fewn gofynion yr Adran Gwaith a Phensiynau o 30 diwrnod i brosesu hawliadau newydd.

- ⦿ Mae'r amser cyfartalog a gymerir i brosesu hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer Tai/Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau i fod yn dda iawn sef 3.62 diwrnod. ***(6.6.1.3)***

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Effaith Ymgynghorwyr Hwb**

Galwodd Mrs H heibio i'r Hwb gan ei bod wedi derbyn gwŷs ar gyfer ei threth gyngor. Gan fod yr Ymgynghorydd Hwb yn siarad â hi roedden nhw'n gallu gweld bod Mrs H yn wynebu anawsterauariannol eraill, felly cynigiodd yr Ymgynghorydd Hwb gymorth iddi i weithio drwy'r amgylchiadau.

Roedd Mrs H yn rhiant sengl i dri o blant ac yn berchen ar ei chartref. Ei hunig incwm oedd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, anafiadau diwydiannol, Taliad Annibyniaeth Personol (cyfradd is) a budd-dal plant.

Roedd hi'n ei chael hi'n anodd talu ei biliau o ddydd i ddydd a chiniawau ysgol. Roedd hi wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim ond wedi cael ei gwrthod.

**Y camau a gymerwyd gan yr Ymgynghorydd Hwb**

1. Rhoddwyd ffurflen gostyngiadau'r dreth gyngor iddi a chafodd ei chynghori i wneud cais am ôl-ddyddio hyn
2. Gwiriwyd y dreth gyngor a gwelwyd nad oedd Gostyngiad Meddiannaeth Sengl ar waith, roedd ei gŵr wedi gadael 2 flynedd yn flaenorol, rhoddwyd ffurflen Gostyngiad Meddiannaeth Sengl iddi
3. Cafodd ei chynghori i wneud cais am Gredyd Cynhwysol
4. Cafodd ei chynghori i apelio am Daliad Annibyniaeth Personol ar gyfradd uwch
5. Cafodd ei chynghori i wneud cais am fathodyn glas oherwydd cyflwr iechyd
6. Cysylltwyd â'r gwasanaethau Prydau Ysgol am Ddim, a gwnaethant ei chynghori i wneud cais eto os oedd hi'n llwyddiannus yn ei chais am Gredyd Cynhwysol ac i wneud cais am Grant Gwisg Ysgol

**Canlyniad**

1. Cafodd y Dreth Gyngor ei gostwng a chafodd hyn ei ôl-ddyddio 3 mis
2. Dyfarnwyd Gostyngiad Person Sengl a chafodd hyn ei ôl-ddyddio – ad-dalwyd £1200
3. Dyfarnwyd Credyd Cynhwysol
4. Dyfarnwyd y Taliad Annibyniaeth Personol uwch
5. Dyfarnwyd bathodyn glas
6. Dyfarnwyd Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Datblygu Disgyblion

Roedd Mrs H yn hapus gyda'r help a'r gefnogaeth a gafodd gan yr Ymgynghorydd Hwb a nododd ei bod hi bellach ar ein hennill o tua £800 y mis ac nad oedd hi'n awr yn ei chael hi'n anodd.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

- **Panel Ymgynghorol Trawsbleidiol ynghylch Trechu Tlodi** – Mae'r Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi yn darparu cymorth pwysig i'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am fynd i'r afael â thlodi. Mae'r Panel, sy'n cynnwys grŵp trawsbleidiol o aelodau etholedig, yn goruchwylio ac yn monitro Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi'r Cyngor, y polisi cyffredinol a'r agenda trechu tlodi ehangach.
- Yn ystod mis Tachwedd 2022 sefydlodd y Cyngor **Weithgor Swyddogion Trechu Tlodi** ar lefel Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn sicrhau ymateb aml-wasanaeth i'r argyfwng costau byw. Mae'r dull hwn wedi bod yn hynod fuddiol ac mae'r cydweithio a'r integreiddio rhwng gwasanaethau'r Cyngor a rhanddeiliaid allanol wedi bod yn hynod fuddiol wrth ddatblygu ein hymateb i bwysau costau byw ar drigolion.

# 2b - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Tai

**Rydym wedi darparu dros 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol dros y pedair blynedd diwethaf**

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy. Mae'r gwaith o gyflawni drwy ein cynlluniau a'n Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Tai ac Adfywio a Datblygu yn parhau i ragori ar dargedau.

## Pam mae hyn yn bwysig?


- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da, yn ogystal â buddsoddiad sylweddol parhaus mewn tai presennol, yn hybu iechyd a llesiant, gan ddiwallu anghenion unigol y trigolion a chreu cymunedau cydnerth a chydlynus a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt. Bydd buddsoddi yn y tai presennol a'r cyflenwad ychwanegol o dai yn ein cymunedau gwledig a threfol ledled y Sir yn allweddol i alluogi cydnerthedd a chydlyniant cymunedol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Yn ystod 2022/23 gwnaethom ddarparu cymorth cyn-llety i 847 o bobl ar draws deiliadaeth yn Sir Gaerfyrddin. O fewn ein stoc ein hunain, roeddem yn gallu cefnogi dros 99% o denantiaethau newydd a ddechreuodd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.


- Cafodd **323 o dai fforddiadwy ychwanegol** eu codi yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2022/23 ***(7.3.2.24)***






Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

- **Collwyd 3.5% o rent tai cyngor oherwydd bod eiddo'n wag (tai gwag)** yn ystod 2022/23 (PAM/039) - mae hyn yn welliant o gymharu â'r ychydig flynyddoedd diwethaf ond nid yw'n ôl i'r lefelau cyn COVID eto. Byddwn yn parhau i roi camau gwella pellach ar waith dros y misoedd nesaf, fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Tai Gwag ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gwella. Yn hyn o beth gwelwyd y cyfraddau diweddar yn gostwng islaw lefelau 2018/19.




| | | |
|---|---|---|
| **Archwiliad Mewnol** | **Tai Gwag** (Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol: 23 Awst)<br>*Sgôr Sicrwydd: Derbyniol*<br>Amcan yr adolygiad: Amcan yr adolygiad oedd sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer Tai Gwag a Dyraniadau yn gadarn ac yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau cymeradwy'r Awdurdod a'r ddeddfwriaeth gyfredol. | **Graddau Sicrwydd**<br>***Uchel***<br>***Derbyniol***<br>***Isel*** |


- Ar gyfartaledd, cymerodd ychydig dros **6 diwrnod calendr i gwblhau atgyweiriadau tai** yn ystod 2022/23 ***(PAM/037)***, mae hyn yn welliant o gymharu â 15.1 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol a achoswyd gan ôl-groniad o atgyweiriadau ar ôl COVID a'r cyfyngiadau a ddaeth yn sgil hynny.

- Mae llawer o eiddo yn y Sir sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy, fel Awdurdod rydym yn darparu cyngor ac arweiniad yn ogystal â Grantiau Eiddo Gwag a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i helpu i wneud defnydd unwaith eto o'r eiddo gwag hyn. Felly, o'r 1,980 o eiddo gwag a oedd yn wag ym mis Ebrill 2022, rydym wedi helpu **i sicrhau bod 143 o eiddo yn cael eu defnyddio unwaith eto *(PAM013)***, mae hyn yn cyfateb i 7.2% sy'n welliant o gymharu â 6% yn 2021/22. Mae cyflawni Tasglu Cymoedd y Gorllewin, Tasglu'r Cymoedd, cynlluniau Troi Tai'n Gartrefi, a threfn orfodi gref wedi ein galluogi i gyrraedd ein targed ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae yna rwystrau yr ydym wedi gorfod eu goresgyn megis yr argyfwng economaidd, cyflenwad ac argaeledd contractwyr a deall data/tirwedd eiddo gwag ar draws y sir, sydd wedi arafu'r cynnydd. Mae'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y cartrefi gwag dros y 5 mlynedd diwethaf, a chyrraedd y targed eleni, yn rhoi sylfaen gadarn i ni weithio ohoni i gyflawni'r amcanion o fewn y polisi cartrefi gwag dros y 3 blynedd nesaf.

## Cynnydd yn 2022/23

### Tai Fforddiadwy

- Drwy ein cynlluniau a'n Cynllun Cyflawni newydd ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai rydym wedi darparu cyfanswm o 1,760 o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016, gan ragori ar ein targedau bob blwyddyn. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae 1,105 o'r rheiny wedi'u cyflawni yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae ein cartrefi presennol wedi'u darparu ledled y Sir gan ddefnyddio amrywiaeth o ddatrysiadau fel y dangosir ar y map.




- Mae prosiect llety â chymorth newydd sbon wedi'i lansio yn Nheras Coleshill sy'n darparu cefnogaeth 24 awr i drigolion. Mae'r prosiect hwn yn ddull cydweithredol rhwng Tai a Gofal Cymdeithasol ac mae'n rhan o Gynllun Cyflawni ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai pum mlynedd y Cyngor.

- Mae'r pump cyntaf o ddatblygiad adeiladu newydd y Cyngor wedi'u cwblhau ac wedi'u gosod gan greu 127 o gartrefi newydd yn Llanelli, Porth Tywyn, Pen-bre, Rhydaman a Llandybïe.

| | | |
|---|---|---|
| Archwiliad Mewnol | **Tai Fforddiadwy (Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol: 6 Gorffennaf 2022)**<br>***Sgôr Sicrwydd: Derbyniol***<br>Amcan yr adolygiad: Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli a gweinyddu 'tai fforddiadwy' yn cydymffurfio â'r rheiny y manylir arnynt yn y Polisïau a'r Gweithdrefnau cymeradwy. Roedd yr archwiliad hefyd yn adolygu digonolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i wirio'r wybodaeth a ddatganwyd mewn ceisiadau, ac roedd yn cadarnhau fod cyfrif priodol yn cael ei roi ar gyfer incwm. | Sgôr Sicrwydd<br>*Uchel*<br>*Derbyniol*<br>*Isel* |

### Eiddo Tai

- Rydym wedi cynnal 643 o arolygon manwl yn ein tai cyngor er mwyn sefydlu rhaglen fuddsoddi ar gyfer ein tenantiaid.

| | | |
|---|---|---|
| **Archwiliad Mewnol** | **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**<br>*Amcan yr adolygiad:*<br>Amcan yr adolygiad oedd sicrhau bod systemau a gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli a gweinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac adrodd arnynt. | Sgôr Sicrwydd<br>***Uchel***<br>***Derbyniol***<br>***Isel*** |

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**Y tenantiaid cyntaf yn symud i brosiect tai â chymorth newydd yn Llanelli**



Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi agor prosiect llety â chymorth newydd sbon gyda chymorth 24 awr i'w breswylwyr yn Nheras Coleshill, Llanelli. Mae'r Cyngor wedi trawsnewid yr hen Swyddfa Gofrestru a'r Ddesg Arian yn llety â chymorth o ansawdd i wyth o unigolion, gan eu helpu i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

Mae'r gwaith i drawsnewid yr adeilad wedi cael ei ariannu ar y cyd gan Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r cyfleuster newydd yn cynnwys pedwar fflat hunangynhwysol ac uned llety a rennir ar wahân i bedwar tenant.

Mae prosiect Teras Coleshill yn rhan o'n hymrwymiad i gynyddu'r cyflenwad o lety â chymorth, sy'n fforddiadwy ac o safon ac sy'n eiddo i'r Cyngor, fel rhan o'n cynllun darparu tai fforddiadwy.

Mae hwn yn waith ar y cyd rhwng tai a gofal cymdeithasol a fydd yn helpu unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Byddwn hefyd yn darparu cefnogaeth briodol i reoli eu tenantiaeth eu hunain er mwyn sicrhau mwy o ryddid a rheolaeth yn eu bywydau.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o Gynllun Cyflawni pum mlynedd y Cyngor ar gyfer Adfywio a Datblygu Tai a fydd yn arwain at greu dros 2,000 o gartrefi o fewn pum mlynedd a buddsoddiad o dros £300miliwn.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae amrywiaeth o grwpiau ar draws is-adrannau wedi'u sefydlu i sicrhau bod cynlluniau Is-adrannol yn cael eu llywodraethu'n effeithiol yn ogystal â'r strwythurau gwleidyddol ffurfiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grŵp Llywio Tai ac Adfywio - Rhaglen Tai Fforddiadwy
- Cymryd rhan yn y Tîm Datblygu Rhanbarthol a'r Bwrdd Trawsnewid
- Sesiynau rheoli perfformiad chwarterol gydag aelodau'r Cabinet ar draws yr Is-adran Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Bwrdd Gwella ar gyfer Tai Gwag ac atgyweiriadau
- Y Tîm Uwch-reolwyr / Tîm Rheoli Adrannol i gyfarfod yn wythnosol

# 2c - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Gofal Cymdeithasol

**Yn dilyn y pandemig, rydym wedi gweld mwy o alw am yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol, a wnaed yn fwy heriol oherwydd cymhlethdod cynyddol achosion; fodd bynnag, rydym wedi parhau i arloesi, datblygu a diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed. Rydym hefyd yn glir ynghylch blaenoriaethau a gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol ar draws ystod o feysydd grŵp cleientiaid yn debygol o weld cynnydd yn y galw dros y blynyddoedd nesaf, a chyda'r sector yn wynebu pwysau sylweddol o ran capasiti'r gweithlu, mae angen canolbwyntio sylw ac ymateb yn arloesol.
- Bydd datblygu ffyrdd pellach o gydweithredu ac integreiddio ag iechyd yn hanfodol er mwyn cyflawni'r egwyddorion a'r safonau allweddol sy'n ymwneud ag atal, llif y system, gofal rhagweithiol a gofal wedi'i gynllunio, a gofal hirdymor. Y nod hirdymor yw helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth gartref cyhyd â phosibl, atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a chefnogi'r broses o ryddhau pobl i fynd adref o'r ysbyty yn amserol er mwyn sicrhau bod y rheiny sydd angen gofal ysbyty da yn gallu cael hynny.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth


### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

**66%**

Cytuno bod gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal
(47.5% o'r blaen)

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru*

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020/21 roedd **66%** o'r cyfranogwyr yn credu bod **Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal.** Mae hwn yn welliant ar ganlyniad yr arolwg diwethaf o 47.5% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 63.9%.




Mae nifer y bobl sy'n aros yn yr ysbyty am ofal cartref yn amrywio yn ystod y flwyddyn ac mae'n ffigur 'fel y mae' a ddangosir ar ddiwedd pob mis.
Rydym yn parhau â'n hymdrechion i gynyddu'r capasiti gofal sydd ar gael trwy fentrau recriwtio a chadw mewnol ac allanol. Rydym yn cynyddu'r capasiti drwy ein gwasanaeth ailalluogi integredig gwell, a fydd yn helpu i gynyddu'r capasiti sydd ar gael. Ceir effaith gadarnhaol o ran lleihau'r nifer sy'n aros yn yr ysbyty o ganlyniad i'n dull Gartref yn Gyntaf, a darparu gwasanaethau tymor byr lle mae'r capasiti'n caniatáu. ***(ASC/001)***



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

| | |
|---|---|
| Ar gyfartaledd mae'n cymryd **277** o ddiwrnodau calendr i ni ddarparu *Grant Cyfleusterau i'r Anabl*<br><br>(259 o ddiwrnodau o'r blaen) | Roedd nifer o addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl heb eu cyflawni o ganlyniad i'r cyfyngiadau COVID-19, a berodd oedi ac a effeithiodd ar y gallu i gwblhau gwaith oedd yn mynd yn ei flaen ar safleoedd. Oddi ar hynny mae'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau a gymerir i gwblhau'r addasiadau hyn yn aros wrth i ni geisio clirio'r ôl-groniad hwnnw. Mae hyn, ynghyd â phroblemau'n ymwneud â chapasiti contractwyr, yn gyffredinol yn golygu bod y gwaith yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau. Rydym yn gweithio ar fframwaith contractwyr newydd ac yn trafod ffyrdd o gynyddu'r capasiti yn y cyfamser. |
| O'r bobl at a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, llwyddodd **51.8%** (198/382) ohonynt i gwblhau'r rhaglen 16 wythnos o hyd.<br><br>(Cyn COVID roedd hyn yn 57.4% -374/652)<br>***(PAM/041)*** | Mae'r gallu i redeg y rhaglen lawn o sesiynau Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) (dros y rhaglen 16 wythnos lawn) wedi dioddef yn sgil materion capasiti o fewn y tîm Iechyd a Ffitrwydd ehangach, ac yn benodol y tîm NERS arbenigol. Ni ellir cymryd a rheoli atgyfeiriadau ymarfer corff heb hyfforddwyr NERS cymwys ac uwchsgilio digon o staff i wella'r sefyllfa hon. Er nad yw nifer yr atgyfeiriadau cyffredinol ac yna'r nifer sy'n cwblhau'r rhaglen 16 wythnos o hyd (sy'n ddangosydd cenedlaethol sy'n adlewyrchu ymlyniad hirdymor tebygol at arferion iachach) yn ôl i'r ffigurau fel yr oeddent cyn Covid, mae'r ddau yn gwella, wrth i ni ailadeiladu capasiti a chydnerthedd yn y tîm. |

## Cynnydd yn 2022/23

- Er gwaethaf holl heriau'r gweithlu ar draws gofal cymdeithasol, rydym i bob pwrpas wedi rheoli'r risg i drigolion Sir Gaerfyrddin. Yn debyg i weddill Cymru a'r DU, oherwydd y prinder parhaus o staff gofal cymdeithasol cymwys ac anghymwys, mae gennym lawer mwy o bobl nag yr hoffem sy'n aros am asesiad a gofal gwaith cymdeithasol. Er ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn ymwneud â'r gweithlu, mae wedi bod yn bwysig ein bod yn cadw'r rheiny sy'n aros yn ddiogel. Rydym wedi gwneud hyn drwy frysbennu effeithiol a rheolaidd a blaenoriaethu'r rheiny sy'n aros am asesiad, i sicrhau bod y rhai sydd mewn mwyaf o angen yn cael eu hasesu gyntaf. Rydym wedyn wedi sicrhau, unwaith y bydd rhywun yn cael ei asesu ac aros am ofal, ein bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd trwy ein Cydlynwyr Gofal a Chymorth i fonitro unrhyw angen cynyddol y mae angen mynd i'r afael ag ef.

- Rydym wedi sefydlu ein dull Gartref yn Gyntaf sy'n cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn gynharach ac sy'n dechrau ymateb i bobl sydd mewn argyfwng yn y gymuned. O ganlyniad rydym yn darparu cyfnod o asesu i gleifion, naill ai gartref neu mewn lleoliad lle ceir gwely, cyn penderfynu ar y trefniadau gofal hirdymor sy'n ofynnol. Mae'r dull hwn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion yn yr ysbyty sy'n aros am ofal. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd yn wyneb yr holl heriau'n ymwneud â sicrhau gofal a chymorth gartref.

- Yn 2022 cyrhaeddodd y tîm integredig newydd Gartref yn Gyntaf, sy'n gydweithrediad rhwng yr Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, rownd derfynol **Gwobrau Trawsnewid Sector Cyhoeddus y DU.**




- Mae gwasanaeth ailalluogi'r Cyngor yn elfen hanfodol o ofal canolraddol ac mae'n ymwneud yn helaeth â'r dull Gartref yn Gyntaf, sy'n profi i fod yn ffordd arloesol a llwyddiannus o wella canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddinasyddion. Mae llwyddiant y dull integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cael ei gydnabod mewn nifer o wobrau lleol a chenedlaethol a dderbyniwyd yn 2022/23.
  - Tîm y mis Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Chwefror 2022
  - Gwobrau Trawsnewid y Sector Cyhoeddus Mawrth 2022 – gwobr arian yn y categori Trawsnewid mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
  - GIG Cymru Hydref 2022 – Darparu Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
  - Gwobrau GIG Cymru Hydref 2022 – Cyfraniad Eithriadol at Drawsnewid Iechyd a Gofal
- Mae Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol y Cyngor yn defnyddio 275 o ofalwyr i ddarparu dros 3,500 awr o ofal a chymorth hanfodol i dros 330 o ddinasyddion ledled y sir. Yn ôl adroddiad arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2022:
  - Mae pobl a'u perthnasau'n canmol y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn.
  - Mae'r gwasanaeth yn darparu 'cynnig rhagweithiol' o'r Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn adnabod ac yn diwallu anghenion o ran y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ei ddefnyddio.
  - Mae staff gofal yn wybodus, yn ofalgar ac yn ymfalchïo yn y gofal a'r gefnogaeth y maent yn eu darparu.
  - Mae staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda, mae ganddyn nhw wybodaeth dda am y bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw, ac maen nhw'n frwdfrydig ynghylch gweithio yn y gwasanaeth.
  - Mae gan y gwasanaeth dîm cryf o arweinwyr gyda gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth.
- Dathlwyd llwyddiant Gwasanaeth Gofal Cartref hirdymor mewnol Sir Gaerfyrddin pan ddaethant yn enillwyr Gwobr Tîm Gofal Cartref 'Great British Care Awards Wales' ym mis Ionawr 2023.
- Mae Tŷ Pili Pala yn uned ailalluogi gyda gwelyau a sefydlwyd mewn partneriaeth ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan gefnogi pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda'r nod o alluogi pobl i ddychwelyd adref yn ddiogel a chadw eu hannibyniaeth. Yn ystod 2022/23, derbyniwyd 125 o bobl ac mae 119 wedi dychwelyd adref naill ai gyda chymorth ailalluogi, cymorth lefel isel a ddarperir gan y Groes Goch, gofal cartref neu ddim gwasanaeth o gwbl.
- Mae Llesiant Delta a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ennill gwobr 'Partnership in Tec' am brosiect teleiechyd sy'n cynorthwyo cleifion i reoli eu hiechyd a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer llawdriniaeth. Mae'r prosiect yn cynorthwyo cleifion i fonitro gweithrediad cardiaidd, gweithrediad yr ysgyfaint, a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint o bell o'u cartrefi eu hunain gan ddefnyddio ystod o offer iechyd wedi eu cysylltu â ffôn symudol.
- Mae Tîm Ymateb Cyflym Llesiant Delta yn helpu i atal galwadau ambiwlans diangen a derbyniadau i'r ysbyty trwy fynd i argyfyngau anfeddygol a chefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain. Yn 2022/23 gwnaethant gefnogi 152 o bobl yn y modd hwn yn ogystal â helpu i bontio trefniadau gofal a oedd i fod i ddechrau o fewn yr wythnos nesaf i gynorthwyo cleifion i ddod adref o'r ysbyty yn gynt.

- Mae hwb Sgiliau ar gyfer oedolion ag anableddau wedi agor yn Cross Hands. Mae'r Hwb yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i ddysgu sgiliau newydd a bydd yn cynnig hyfforddiant achrededig i alluogi pobl i symud ymlaen i wirfoddoli a chyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol.
- Rydym wedi parhau i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o dyfu ein gweithlu a mynd i'r afael â rhai o'r heriau recriwtio yr ydym yn parhau i'w hwynebu:
    - Sefydlwyd Academi Gofal sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i'r rheiny sy'n awyddus i gael gyrfa ym maes gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol. Mae 7 o bobl ar y rhaglen ar hyn o bryd ac mae'r gwaith o recriwtio ar gyfer y garfan nesaf ar y gweill. Bydd gan unigolion brofiad o'r gwahanol leoliadau gofal cymdeithasol trwy gylchdroi lleoliadau. Rydym hefyd yn tyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain trwy gynnydd yn nifer y swyddi dan hyfforddiant o fewn y Cyngor.
    - Rydym yn parhau i weithio gyda'r sector gofal cartref allanol i edrych ar ffyrdd o ddatblygu eu gweithlu. Mae hyn wedi cynnwys ail-dendro ein fframwaith gofal cartref i sicrhau bod gennym ddarpariaeth effeithiol ar draws y sir. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yn Sir Benfro, rydym yn dechrau datblygu microfentrau i ddarparu gofal mewn cymunedau ar wahân.
- Rydym yn dechrau datblygu ein dull cyffredinol o atal ac o gefnogi pobl yn gynharach cyn bod angen ymyrraeth statudol arnynt. Yn unol â hyn, gwnaethom ail-dendro ein gwasanaethau ataliol yn ddiweddar yn unol â'r 5 ardal a gefnogir o dan y fframwaith gofal cartref. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn dechrau gweithio ym mhob ardal leol i ddeall yr hyn sydd ei angen arnynt mewn perthynas â gwasanaethau ataliol i ddatblygu cynnig pwrpasol sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymunedau unigol.
- Rydym wedi cydweithio â chydweithwyr ym maes tai a chomisiynu i ddatblygu sawl prosiect llety ac wedi defnyddio cyllid allanol megis y Gronfa Gofal Integredig (Cyfalaf) i ddatblygu prosiectau tai pwrpasol: Rydym wedi datblygu chwe chynllun llety ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu.
- O ran camddefnyddio sylweddau, mae ein tîm arbenigol wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o effaith camddefnyddio sylweddau ar draws y sir. Mae'r tîm wedi darparu hyfforddiant i staff sy'n gweithio gydag oedolion a phlant, gan gynnwys staff gofal rheng flaen. Eleni mae'r tîm hefyd wedi darparu cefnogaeth ddwys i bobl sydd â niwed i’r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol. Mae atal yn nod allweddol i'r tîm.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

**‘Byw ei bywyd gorau’**

Mae R yn fenyw ifanc 20 oed sydd wedi symud yn llwyddiannus o ofal preswyl i fyw â chymorth. Yn dilyn ei chyfnod hir o bontio i fyw bywyd mwy annibynnol, mae R wedi cael ei chefnogi gan dîm ymroddedig a theulu cariadus. Erbyn hyn dywedir bod R yn 'byw ei bywyd gorau’. Gwnaeth pobl sy'n agos at R sicrhau bod ei dymuniadau a'i theimladau yn flaenllaw mewn unrhyw broses o wneud penderfyniadau.

Yn ei llety blaenorol roedd yn well gan R dreulio amser yn ei hystafell a'i hardal fyw. O wybod hyn sicrhaodd y tîm fod ei hystafell newydd yn cael ei haddurno a'i hadnewyddu yn unol â'i gofynion. Ers iddi symud mae R wedi rhyfeddu pawb trwy ddewis treulio llawer o amser gyda'r bobl eraill yn ardaloedd cymunedol y tŷ.

Wrth ei gwylio yn torri'r rhuban wrth ei drws ffrynt ei hun ar ddiwrnod y symud gyda gwên fawr ar ei hwyneb, daeth deigryn i lygaid pawb a fu yn ei chefnogi.

Yng ngeiriau R, mae hi'n mynegi ei brwdfrydedd dros fod yn ei chartref newydd trwy ddweud 'All right Butt' afieithus pan fydd hi'n cwrdd â phobl o ddydd i ddydd. Mae pawb sy'n gwybod ac yn deall sut mae R yn cyfathrebu yn gweld hyn fel pe bai hi'n dweud yn glir iawn 'Rwy'n hapus ac rwy'n teimlo'n ddiogel’.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

- Cyfarfodydd Misol Tîm Uwch-reolwyr Sicrhau Ansawdd y Gwasanaethau Integredig.
- Caiff cyfarfodydd Fframwaith Rheoli Perfformiad a chyfarfodydd penodol sy'n canolbwyntio ar Berfformiad eu trefnu yn ogystal ag adolygiad rheolaidd o berfformiad drwy gyfrwng Tîm Rheoli Adrannol Cymunedau a Thîm Uwch-reolwyr Sicrhau Ansawdd y Gwasanaethau Integredig.
- Rydym yn llunio Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr ac yn sicrhau bod hunanasesiad o swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn digwydd, sy'n cael ei archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Cyfarfodydd sicrhau gydag Arolygiaeth Gofal Cymru 3 gwaith y flwyddyn.

# Amcan Llesiant 3
# – Cymunedau Ffyniannus

Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.





Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Dyfarniad cyffredinol

*Rydym am alluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.*

- *Mae arwyddion cadarnhaol yn dod i'r amlwg o'r economi leol, ond mae rhai heriau'n parhau.*
- *Er bod gennym heriau amgylcheddol sylweddol i'w datrys, gwnaed cynnydd cynnar sylweddol a bydd gwaith arloesol i ddatblygu llwybrau carbon yn ein cynorthwyo i dargedu gweithgarwch i gyrraedd y targedau lleihau carbon mwy heriol.*
- *Rydym wedi gwneud gwelliant sylweddol i ailgylchu gwastraff o ganlyniad i newidiadau i'r gwasanaeth.*

## Pam mae hyn yn bwysig

Mae darparu swyddi diogel sy'n talu'n dda i bobl leol yn hanfodol ac mae cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i fynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau. Mae hyn yn cael effaith ddramatig ar ein hiechyd a'n gallu i weithredu mewn cymdeithas bob dydd.

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfradd anweithgarwch economaidd uchel. Mae hyn yn rhwystr sylweddol i dwf yn Sir Gaerfyrddin, gan fod y rheiny sy'n anweithgar yn economaidd yn ffynhonnell sylweddol o gyflenwad llafur sy'n elfen hanfodol o farchnad lafur sy'n gweithredu'n dda. Mae hyn hefyd yn peri pryder o ystyried y gall bod yn anweithgar am gyfnod hir effeithio'n negyddol ar lesiant, iechyd a boddhad bywyd unigolyn.

Un rhwystr i gyflogaeth i lawer yw diffyg cymwysterau neu sgiliau. Mae hyn yn berthnasol i'r rheiny nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau o gwbl a'r rheiny sy'n dymuno ailsgilio neu uwchsgilio i wella eu hunain a cheisio gwaith ar lefel uwch neu waith arall. Mae hwn yn fater perthnasol i Sir Gaerfyrddin, gan fod gan y Sir nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl heb unrhyw gymwysterau a chyfran is na'r cyfartaledd o bobl â chymwysterau lefel uwch.

Mae ardaloedd o'r Sir yn agored i effeithiau negyddol yr argyfwng hinsawdd, llifogydd yn enwedig. Mae ychydig dros 15,000 o eiddo yn y Sir ar hyn o bryd ar ryw lefel o berygl llifogydd. Bydd newid yn yr hinsawdd yn cynyddu nifer yr eiddo, y seilwaith a'r gwasanaethau allweddol sydd mewn perygl o lifogydd. Bydd mannau nad ydynt yn cael llifogydd ar hyn o bryd yn wynebu perygl o lifogydd a bydd y rheiny y gwyddom eu bod eisoes mewn perygl yn gweld lefel y risg honno'n cynyddu.

Mae'r Sir yn parhau i fod yn gadarnle strategol allweddol ar gyfer dyfodol y Gymraeg a chydnabyddir manteision cymdeithasol ac economaidd dwyieithrwydd yn eang. Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy'r arolwg trigolion yn dangos bod yr ymatebwyr at ei gilydd yn cytuno ei bod yn bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i gwarchod.

Mae cludiant a phriffyrdd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a chynnal ein cymunedau, mae'n darparu'r seilwaith hanfodol sy'n cysylltu pobl â'i gilydd, yn dod â chymunedau ynghyd ac yn galluogi busnesau i dyfu ac ehangu.

**Dolenni defnyddiol:**
Strategaeth Gorfforaethol 2022/27

## Y mesurau llwyddiant allweddol a bennwyd gennym ar gyfer yr amcan cyffredinol hwn

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu monitro ar gyfer Amcan Llesiant 3.

Mae'r Dangosyddion Poblogaeth yn bennaf yn cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodwyd i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau a sefyllfa Sir Gaerfyrddin mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae ein hamcanion llesiant yn fodd i'r Cyngor chwarae rôl bwysig wrth wneud cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn. Dylid nodi fodd bynnag nad yw'r rhain yn arwydd o berfformiad y Cyngor yn unig a bydd llawer o ffactorau allanol yn dylanwadu arnynt.

Mae'r Mesurau Perfformiad yn cynnwys ffurflenni statudol, mesurau mewnol y Cyngor a  canfyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu defnyddio i fesur a monitro perfformiad yn rheolaidd. Cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r rhain.

| **Dangosyddion Poblogaeth** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Tuedd** | **Esbonio'r Data** |
| **Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI)** |  | **Mae incwm gwario aelwydydd yn codi ond mae'r lefelau'n parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2016 a 2020 ac mae'n dangos tuedd sy'n cynyddu'n gyffredinol.***<br><br>Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn amcangyfrif o faint o arian sydd gan aelwyd i'w wario ar nwyddau a gwasanaethau ac i'w gynilo.<br><br>Yn 2020 gostyngodd incwm gwario gros aelwydydd y pen yn y DU 0.2% o gymharu â 2019; gostyngodd Lloegr 0.2% a Gogledd Iwerddon 0.5%, tra nododd Cymru a'r Alban gynnydd o 0.9% a 0.3%, yn y drefn honno.<br><br>Yn Sir Gaerfyrddin gwelwyd twf o 1.1% dros yr un cyfnod i £17,349 yn 2020, sy'n fwy na'r gyfradd twf yn achos Cymru a gwledydd eraill y DU. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae'r lefel hon yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o £17,592 ac mae'n sylweddol is na chyfartaledd y DU o £21,440.<br><br>Mae chwyddiant ar ei lefel uchaf ers blynyddoedd lawer gyda'r cynnydd mwyaf sylweddol i'w weld mewn eitemau hanfodol megis bwyd a chyfleustodau. Mae hyn yn golygu bod pobl yn talu mwy am yr eitemau hyn pan nad yw eu hincwm gwario, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cynyddu ar yr un gyfradd. Mae hyn yn rhoi pwysau ar aelwydydd ac yn y pen draw gall arwain at ddirywiad mewn safonau byw, gan effeithio ar iechyd, diogelwch a ffyniant.<br><br>Er bod hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r dulliau cymorth a nodir yn Amcan Llesiant 2, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan yr economi leol ei chwarae yn hyn o beth, wrth roi cyfleoedd i bobl leol gael gwybodaeth ystyrlon neu gymorth i wella eu siawns o gael gwaith gymaint ag y bo modd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar y ffyrdd** |  | **Mae nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd wedi cynyddu yn dilyn anterth y pandemig**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2019 a 2022 ac mae'n dangos patrwm amrywiol a nodweddir gan y pandemig Covid.***<br><br>Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021 ar lefel Cymru yn dangos bod 5.3% o'r holl farwolaethau ymhlith pobl rhwng 5-19 oed a 3.9% ymhlith pobl rhwng 20-34 oed oherwydd damweiniau trafnidiaeth ar dir.[13]<br><br>Yn 2022, yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd yr ail nifer uchaf o bobl (83) yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd o blith holl awdurdodau lleol Cymru.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud ffyrdd y Sir yn fwy diogel drwy weithio mewn partneriaeth gryfach i godi ymwybyddiaeth, addysgu a hyfforddi pob math o ddefnyddwyr ffyrdd er mwyn gwella sgiliau ac ymddygiad. |
| **Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer** |  | **Mae lefel y nitrogen deuocsid yn yr aer yn gostwng**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2016 a 2020 ac mae'n dangos tuedd sy'n gostwng yn gyffredinol.***<br><br>Mae'r mesur hwn yn rhoi syniad o ansawdd yr aer trwy roi crynodiad cyfartalog o lygryddion yn yr aer. Mae nitrogen deuocsid yn un o sawl llygrydd mawr ac mae'n cael ei ryddhau i'r aer trwy losgi tanwydd. Mae'r llygryddion hyn nid yn unig yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar iechyd pobl, maent hefyd yn gwaethygu'r argyfyngau hinsawdd a natur yr ydym yn eu hwynebu.<br><br>Yn gadarnhaol, mae lefel Nitrogen Deuocsid yn yr aer yn Sir Gaerfyrddin wedi bod ar duedd ar i lawr yn bennaf, gan ostwng o 5.9 (µg/m3) yn 2019 i 4.2 (µg/m3) yn 2020.<br><br>Er bod hyn yn cymharu'n gadarnhaol â chyfartaledd Cymru o 6.5 (µg/m3), mae gan y sir bellach yr 8fed lefel isaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru o'i gymharu â'r 6ed y flwyddyn flaenorol. |
| **Cyfraddau troseddu** |  | **Er gwaethaf cyfraddau cynyddol, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yn y wlad**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2018/19 a 2022/23 ac mae'n dangos tuedd gynyddol, gyda chynnydd sydyn rhwng 2021 a 2022.***<br><br>Mae nifer y troseddau wedi bod yn cynyddu yn gyffredinol yn Sir Gaerfyrddin dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r data diweddaraf ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn dangos |

[13] Marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr: 2021 (poblogaethau wedi'u hadnewyddu) - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

| | | |
|---|---|---|
| | | bod 16,381 o achosion o droseddau wedi'u cofnodi yn y sir, sy'n gynnydd o 497 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Er bod hyn yn wir, mae'r Sir yn parhau i fod yn un o'r rhai mwyaf diogel yn y wlad gan fod y cyfraddau cymharol yn eithaf isel. Mae diogelwch cymunedol yn flaenoriaeth i'r Cyngor a thrwy waith rhagweithiol y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel, mae'n bosibl targedu'r prif broblemau trosedd ac anhrefn yn y Sir gan sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel i fyw a gweithio yn y Sir ac ymweld â hi. |

## Y canlyniadau yr ydym yn eu gosod i'n hunain

| Canlyniadau'r Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| Cefnogir busnesau a darperir swyddi. | Cefnogwyd 1,237 o fusnesau a chrëwyd 1,350 o swyddi uniongyrchol trwy gyfrwng Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin, y Gronfa Datblygu Eiddo, Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn, Neuadd y Farchnad Llandeilo, Cronfa Datblygu Adfywio Rhydaman, CRF - Trefi a Thwf, Gweithgarwch Adfywio Tref Caerfyrddin, Gweithgarwch Adfywio Tref Rhydaman, Canolfan Parry Thomas, C4W+/C4w+ YPG, y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, Gweithffyrdd/STU, CRF - Iaith Gwaith, BREF, Trawsnewid Trefi, Caffael Blaengar, Twf Busnes a Busnesau Newydd, Ymgysylltu â Busnesau wedi'i dargedu, CRF Busnes Llanelli | Ydyn |
| Caiff pobl eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd lleol boed hynny trwy ddechrau busnes, ennill cymwysterau neu gael gwaith ystyrlon. | Cafodd 14 o unigolion eu cynorthwyo i sefydlu busnes newydd o dan y gronfa Dechrau Busnes ac mae 619 o unigolion wedi cael eu helpu i gael gwaith drwy C4W+ C4W YPG, Gweithffyrdd/STU a gweithgarwch cysylltiedig gyda'r Ganolfan Byd Gwaith.<br>Trwy'r rhaglenni cyflogadwyedd yn Sir Gaerfyrddin mae 463 o unigolion wedi cael eu cynorthwyo i gael gwaith ystyrlon, gyda Gweithffyrdd+ yn gweithio gyda phobl sy'n wynebu nifer o rwystrau. | Ydyn |
| Caiff busnesau eu cynorthwyo i fanteisio ar gadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd caffael. | Mae 303 o fusnesau wedi cael cefnogaeth o dan y Fenter Caffael Blaengar. Yn ogystal, sicrhawyd cyllid o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflawni prosiect ymgysylltu â busnesau i hyrwyddo dull Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf i annog gwariant o fewn Sir Gaerfyrddin gan ddatblygu rhyng-fasnachu – gan gysylltu busnesau â'i gilydd i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol. Menter gaffael flaengar | Ydyn |

| | | |
|---|---|---|
| | yn Sir Gaerfyrddin i gynyddu gwariant lleol.<br>Fel rhan o waith ymgysylltu caffael gyda chyflenwyr ar gyfer ein gweithgarwch tendro yn 2022-23:<br>• Cafwyd cyfarfodydd un-i-un gyda 28 o gyflenwyr;<br>• Cynhaliwyd 4 Digwyddiad Ymgysylltu â'r Farchnad Gynnar gyda 151 yn bresennol;<br>• Cynhaliwyd 6 Gweithdy/Gweminar Tendro Byw gyda 125 yn bresennol;<br>• 9 Sesiwn Briffio Tendro gyda 434 yn bresennol;<br>• 2 Ddigwyddiad Bod yn Barod i Dendro, 67 yn bresennol;<br>• 3 Digwyddiad Consortia / Gwneud Cynnig ar y Cyd, 101 yn bresennol. | |
| Mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i fyw bywydau egnïol ac iach drwy gael mynediad at wasanaethau a darpariaeth sy'n addas i'r diben | Rydym wedi ailsefydlu hyder y cyhoedd i gymryd rhan mewn ymarfer corff, gyda phresenoldeb yn dychwelyd i'r lefelau fel yr oeddent cyn y pandemig (dros 100,000 fesul mis calendr) erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys dangos safonau iechyd a diogelwch rhagorol trwy ennill gwobr 'Tlws Hamdden' rhyngwladol RoSPA.<br>Defnyddiwyd dros £300k o gyllid allanol ychwanegol i gynyddu ac ehangu'r rhaglenni gweithgarwch sydd ar gael, o wersi nofio am ddim i blant sy'n byw mewn amddifadedd a 61,000 o gyfranogiadau yn ein rhaglen ysgolion 'soffa i 2km', i etifeddiaeth Actif i bobl ifanc, i chwaraeon cerdded a gweithgarwch cyn-diabetes i oedolion, i 'cyrlio a phaned' i oedolion hŷn, i Beat the Street ar gyfer cymuned gyfan Llanelli a oedd yn cynnwys bron i 7,000 o boblogaeth y dref a deithiodd dros 43,000 o filltiroedd dros 6 wythnos a chreu newid sylweddol yn lefelau gweithgarwch pobl.<br>Gwnaed gwelliannau penodol i'r ardaloedd croeso yng Nghanolfannau Hamdden Caerfyrddin a Dyffryn Aman, gan ddigideiddio mynediad ymhellach i alluogi'r staff gwasanaethau cwsmeriaid i wella eu cyswllt â chwsmeriaid. Aeth y gwaith o ddigideiddio ar draws Chwaraeon a Hamdden Actif hefyd yn ei flaen o ran defnydd a phoblogrwydd yr Ap Actif, gan ddyblu nifer lawrlwythiadau'r Ap o gymharu â 2021-22 (lawrlwythwyd gan 46,000 o bobl) gyda chyfartaledd o 230,000 o ddefnyddiau modiwl / 28,000 o drafodion y mis (70% o'r holl drafodion). | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyrhaeddiad cyfartalog ar draws pob platfform digidol (y we/cyfryngau cymdeithasol/ap) o 406,000 y mis.<br>Gwella cynaliadwyedd/teithio llesol drwy osod a gweithredu mannau parcio a gwefru ceir ac e-feiciau mewn gwahanol ganolfannau hamdden a mynd â gweithgareddau i gymunedau drwy gyfrwng ein fan Actif a sefydlu rhaglenni gweithgareddau mewn 3 neuadd gymunedol yng Nghwmaman, Cydweli a Hendy-gwyn ar Daf.<br>Gosodwyd wyneb newydd ar gae astrotyrff Canolfan Hamdden Dyffryn Aman/Ysgol Dyffryn Aman, gyda gwaith ar gae 3G newydd sbon a gosodiad trac synthetig i gychwyn yn fuan. | |
| Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol | Eleni rydym wedi rhagori ar y targed statudol, gyda pherfformiad o 65.25% sy'n cael ei wirio gan CNC ar hyn o bryd cyn i gyfraddau ailgylchu swyddogol gael eu rhyddhau ar gyfer 2022/2023 yn genedlaethol. Yn dilyn y newidiadau, mae'r perfformiad ailgylchu yn Ch4 wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'r llynedd o Ch4 2022 - 60.03% i Ch4 2023 - 67.69%. | *Ydyn* |
| Parhau i weithio tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030 | Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad sefydliadol cryf i leihau carbon a hwn oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu sero net ac mae wedi adrodd yn flynyddol yng nghyswllt y cynllun. Yn absenoldeb canllawiau ar fodel cost nid yw'r cynllun na'r diweddariadau blynyddol wedi nodi cyfanswm cost y cynllun i gyflawni amcan sero net y Cyngor. Yn 2023 datblygodd y Cyngor fethodoleg ar gyfer amcangyfrif y gost o gyrraedd targed sero net y Cyngor erbyn 2030. Mae angen mireinio'r model ymhellach i ddarparu dull cyson ar draws awdurdodau lleol Cymru. Mae'r awdurdod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru am arweiniad wrth weithio gyda phartneriaid yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe i ddatblygu'r model. | Ydyn |
| Ceisio sicrhau bod mwy o leoliadau addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar ar gael ledled y sir a'u bod yn fwy fforddiadwy, i fynd i'r afael ag un o'r rhwystrau cyffredin sy'n wynebu unigolion sydd am ddychwelyd i weithio neu ddod o hyd i waith. | **Cynnig Gofal Plant 30 awr y Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol -** mae gwaith hyrwyddo a chefnogi wedi parhau i sicrhau bod rhieni a darparwyr gofal plant cymwys yn gyfarwydd â'r broses. Derbyniwyd a phroseswyd 522 o geisiadau rhieni rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2023 ac mae 149 o ddarparwyr gofal plant wedi cwblhau eu cofrestriad ar-lein. Talwyd ychydig o dan £1.7M i ddarparwyr gofal plant lleol yn Sir Gaerfyrddin i blant cymwys yn ystod y flwyddyn *(1 Ebrill 2022 – 28 Chwefror 2023).*<br><br>Nid oedd ein **Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant** diweddaraf ar gyfer 2022-27, a gyflwynwyd i | Ydyn |

| | | |
|---|---|---|
| | Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022, yn nodi unrhyw bwysau digonolrwydd meintiol nac ansoddol ar gyfer lleoedd i blant 3 oed a ariennir gan Dysgu Sylfaen mewn lleoliadau Gofal Plant cymeradwy ledled Sir Gaerfyrddin. Dywedodd nifer o Ddarparwyr Gofal Plant cymeradwy fod ganddynt leoedd gwag yn hydref 2021 a fyddai'n awgrymu bod gennym leoedd gwag mewn rhai lleoliadau ledled Sir Gaerfyrddin. | |
| Ceisio gwella mynediad at wasanaethau trwy rwydweithiau trafnidiaeth a seilwaith gwell. | Mae'r dyhead am newid dulliau teithio wedi dylanwadu ar ein buddsoddiad mewn seilwaith, yn enwedig o amgylch ein prif ganolfannau poblogaeth lle rydym wedi adeiladu seilwaith newydd i gefnogi dulliau teithio mwy cynaliadwy | Ydyn |
| Gwella datblygiadau presennol ac archwilio datblygiadau newydd i gyfyngu ar effeithiau llifogydd a bygythiadau amgylcheddol eraill sy'n effeithio ar ein trigolion a defnyddwyr gwasanaethau. | Rydym wedi cyflawni 12 cynllun o fewn ein rhaglen gwaith cyfalaf, amcangyfrifir bod 4 o'r cynlluniau hyn yn lleihau llifogydd i 112 o eiddo preswyl ac 13 o eiddo busnes.<br>Rydym yn defnyddio telemetreg yn rhai o'n hasedau, sy'n rhoi data byw i ni ar lefelau afonydd mewn ardal risg uchel. Y gobaith yw y bydd hyn yn llywio ein hymateb gweithredol yn well, gan ein galluogi i dargedu'r ardaloedd sy'n wynebu'r risg mwyaf.<br>Rydym wrthi'n datblygu ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2024-2030 a fydd yn nodi ein blaenoriaethau FCERM# dros y 7 mlynedd nesaf.<br>#Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol | Gallwn |
| Cynnal cyfraddau troseddu isel gan barhau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r cyfraddau cynyddol sy'n amlwg mewn rhai ardaloedd o'r sir. | Cynhaliwyd cyfraddau troseddau isel trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Bu cynnydd bychan yn nifer y troseddau a adroddwyd yn 2022/23 - 16,381 - sydd 3% (497) yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r sir yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel yn y DU a Dyfed-Powys yw'r ardal Heddlu sydd â'r cyfraddau troseddu isaf yng Nghymru a Lloegr. | |
| Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. | Mae data'r Cyfrifiad diweddaraf ar gyfer 2021 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn gartref i 72,838 o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 39.9% o gyfanswm poblogaeth y sir. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng 5,210 ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, sy'n cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 4.0. Dyma'r gostyngiad mwyaf fel pwynt canran o blith holl awdurdodau lleol Cymru. | Nac ydyn |
| Mwy o hyder a defnydd o'r Gymraeg fel iaith ffyniannus. | Mae nifer y bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn y sir wedi gostwng 1.9 pwynt canran neu 1,828 o bobl. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol is na'r ffigurau ar gyfer y rheiny sydd ond yn gallu siarad Cymraeg. | Nac ydyn |

## Fel Cyngor, rydym yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau thematig a gwasanaeth canlynol

Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3a: Adferiad a Thwf Economaidd

Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3b: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur

Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3c: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3d: Diogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant

Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 3e: Hamdden a Thwristiaeth

Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 3f: Gwastraff

Blaenoriaeth Gwasanaeth Amcan Llesiant 3g: Priffyrdd a Thrafnidiaeth

# Blaenoriaeth Thematig
# 3a - Adferiad a Thwf Economaidd

**Mae arwyddion cadarnhaol yn dod i'r amlwg o'r economi leol, ond mae rhai heriau'n parhau.**

Gan adeiladu ar y Cynllun Adferiad Economaidd (ERP), rydym wedi sicrhau ac yn gwireddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y gronfa £38.68m yn helpu i gyflawni rhai o amcanion strategol allweddol Sir Gaerfyrddin. Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu cyfleoedd newydd i gymunedau lleol, yn cefnogi datblygiad a thwf busnesau lleol yn ogystal â chefnogi adferiad canol ein trefi ac mae'n gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf y gellir ei ddefnyddio i gefnogi ystod eang o ymyriadau i feithrin balchder bro a gwella cyfleoedd bywyd. Rydym hefyd wedi lansio ail gam y Rhaglen ARFOR gwerth £11 miliwn, sy'n ceisio sicrhau hwb economaidd a chryfhau'r Gymraeg ar draws siroedd Gwynedd, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn.

Yn ogystal, mae cynlluniau cyfalaf adfywio sylweddol wedi'u cyflawni, yn fwyaf nodedig y gwaith o ailddatblygu Neuadd y Farchnad, Llandeilo a Phrosiect Denu Twristiaid Pentywyn. Mae'r ddau brosiect yn dangos uchelgais yr Awdurdod i fuddsoddi mewn seilwaith a fydd yn ysgogi ac yn cefnogi'r economi leol.

Er ei fod yn gadarnhaol, mae'r Sir yn parhau i wynebu heriau:

- ! Yn gadarnhaol, mae'r cyfraddau diweithdra yn gostwng, ac mae'r cyfraddau cyflogaeth yn cynyddu. Fodd bynnag, mae'r Sir yn dal i arddangos lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl (16-64 oed) sy'n economaidd anweithgar. Gall hyn gyfyngu ar gyflenwad llafur a llesteirio twf economaidd.
- ! Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol o ran y gyfran sy'n gymwys i lefel 4 neu uwch. Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd a rhagolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn.
- ! Mae'n parhau i arddangos bwlch cynhyrchiant sylweddol a pharhaus gyda gweddill y DU.
- ! Dibyniaeth ar ficrofusnesau a busnesau bach, ynghyd â chyflogaeth gymharol uchel yn y sector cyhoeddus a all wneud yr economi yn fwy agored i fygythiadau.
- ! Mae'r argyfwng costau byw sy'n cael ei yrru gan y cynnydd sylweddol mewn chwyddiant a phrisiau ynni yn cael effaith ar fusnesau. Felly, mae grantiau cymorth busnes drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cael eu cyflwyno i gynorthwyo busnesau ac ysgogi twf.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae cryfder ein heconomi leol yn ganolog i lesiant ehangach ein cymunedau ac yn y dyfodol byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion adfywio ar ddatblygu ein busnesau, ein pobl a'n lleoedd. Yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol byddwn yn galluogi Sir Gaerfyrddin i fod yn fwy cynhyrchiol wrth fod yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd ac yn iachach a chefnogi cydnerthedd a thwf busnesau a chymunedau.
- Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni.
- Mae cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i drechu tlodi a chostau byw a lleihau anghyfartaledd ac mae'n cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.
- Mae angen i ni greu economi hynod wybodus a chreadigol trwy fwyhau lleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol, a hynny drwy greu swyddi a darparu prentisiaethau o safon, cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith, i sicrhau bod y gweithlu bob amser yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau priodol er mwyn wynebu'r dyfodol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesur llwyddiant

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu monitro ar gyfer y flaenoriaeth thematig Adferiad a Thwf Economaidd.

<table>
<tr><th colspan="4">Dangosyddion Poblogaeth</th></tr>
<tr><th>Mesur</th><th colspan="2">Tuedd</th><th>Esbonio'r Data</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Cyflogaeth a Diweithdra</td><td>Y gyfradd cyflogaeth</td><td>Cyfradd Diweithdra</td><td rowspan="2">Mae'r cyfraddau cyflogaeth yn codi ac mae'r cyfraddau diweithdra yn gostwng<br><br>Mae'r llinellau tuedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 i 2022.<br><br>Mae'r gyfradd gyflogaeth yn Sir Gaerfyrddin wedi codi a disgyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd rhywfaint o welliant rhwng 2021 a 2022 o gyfradd o 68.7% i 72.3%; fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer y DU a Chymru.<br><br>Mae'r gyfradd ddiweithdra[14] hefyd wedi codi a disgyn ond mae ar duedd gyffredinol ar i lawr sydd yn gadarnhaol, ac roedd yn 2.2% yn 2022. Mae hyn yn is na'r lefelau cyn y pandemig sef 4.0%. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welir ar lefelau'r DU a Chymru.<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin yn arddangos cyfradd anweithgarwch economaidd uwch na'r cyfartaledd (22.6% o gymharu â 20.75 ar lefel Cymru), sy'n golygu bod y sir yn gartref i fwy o bobl 16-64 oed nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad lafur, sy'n golygu nad ydynt yn gweithio nac yn mynd ati i chwilio am waith. Mae hyn yn cyfyngu ar gyflenwad llafur a gall lesteirio twf economaidd.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod, er mwyn cynnal twf cynaliadwy, bod yn rhaid i'r economi fod wedi'i seilio ar weithlu galluog a hygyrch. Yn unol â hyn, yn sgil cael cymorth adfywio cafodd 1,350 o swyddi uniongyrchol a 116 o swyddi anuniongyrchol eu creu yn 22/23.</td></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
</table>

[14] Mae person yn ddi-waith os yw'n mynd ati i chwilio am waith neu ar gael i weithio

| Lefel uchaf o gymwysterau | Dim cymwysterau | Cymwysterau hyd at L4+ | **Ceir llai o bobl sydd heb unrhyw gymwysterau ond mae nifer y bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin ac sydd â chymwysterau lefel uwch yn parhau i fod yn gymharol isel** |
|---|---|---|---|
| |  |  | ***Mae'r llinellau tuedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 i 2022.***<br><br>Mae cyfran y rheiny sydd rhwng 18 a 64 oed ac sydd heb unrhyw gymwysterau wedi bod ar duedd ar i lawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r data diweddaraf yn dangos lefel o 7.0%, sy'n cymharu'n gadarnhaol â chyfartaledd Cymru sef 8.3%.<br><br>I'r gwrthwyneb, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol o ran y gyfran sy'n gymwys i lefel 4 neu uwch. Gwelwyd gwelliannau rhwng 2017 a 2019 pryd y cyrhaeddodd y lefelau 41.4%, dim ond i ostwng i 37.6% erbyn 2021. Ers hynny mae'r lefelau wedi dechrau codi eto i lefel o 40.0% yn 2022.<br><br>Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd, yn rhoi hwb i ragolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol.<br><br>Yn ystod 2022/23 cyflawnwyd 502 o gymwysterau achrededig gan drigolion a oedd yn mynychu cyrsiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth o fewn y Rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. |
| **% y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn gysylltiedig â diweithdra am dros 12 mis** |  | | **Mae llai o bobl yn ddi-waith yn y tymor hir**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 ac Ebrill 2023 ac mae'n dangos tuedd gyson a nodweddir gan ddirywiad yn y blynyddoedd diwethaf.***<br><br>Mae cyfradd y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n hawlio budd-daliadau yn gysylltiedig â diweithdra ers dros 12 mis wedi bod ar duedd ar i lawr ers 2021. Roedd y lefelau yn gyson ar 0.5% rhwng 2017 a 2021. Mae'r data diweddaraf ar gyfer Ebrill 2023 yn dangos bod y lefel bellach yn 0.1% sy'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.<br><br>Mae hyn yn gadarnhaol ac mae'n dangos bod mwy o bobl yr ystyrid eu bod yn ddi-waith yn y tymor hir wedi cael eu hailintegreiddio'n ôl i'r farchnad lafur.<br><br>Mae rhaglenni cymorth cyflogadwyedd y Cyngor wedi bod yn gweithio gydag unigolion a oedd yn ddi-waith yn y tymor byr a'r tymor hir i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy. |

<table>
<tr><td rowspan="2">Genedigaethau a marwolaethau busnes</td><td colspan="2">Genedigaethau</td><td colspan="2">Marwolaethau</td><td rowspan="2">Mae cyfraddau genedigaethau busnes ar gynnydd, ond hefyd marwolaethau busnes<br><br>Mae'r llinellau tuedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2016 a 2021.<br><br>Yn dilyn rhywfaint o farweidd-dra rhwng 2017 a 2019, mae cyfraddau genedigaethau busnes yn y sir yn dangos arwyddion o welliant. Mae hyn yn gadarnhaol gan y gall gwelliant yn y gyfradd dechrau busnes fod yn arwydd o fwy o hyder a gallu o fewn yr economi. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2021 yn dangos bod 820 wedi cael eu dechrau, sy'n gynnydd o 100 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y sector adeiladu.<br><br>Bu mwy o amrywiadau o ran marwolaethau busnes. Roedd y lefel yn gyson i raddau helaeth rhwng 2018 a 2020, ond mae cynnydd rhwng 2020 a 2021 yn amlwg (+170). Y prif ffactor sy'n cyfrannu at hyn oedd colli busnesau o fewn y sector Trafnidiaeth a Storio. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r effeithiau a gafodd y cyfyngiadau symud ar y sector o ran cludiant, h.y. diwydiannau rheilffyrdd, cludiant tir, cludiant dŵr a chludiant awyr.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Mesurau Perfformiad</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cefnogir busnesau o fewn yr ardal leol – Ymgynghoriad Busnes</td><td colspan="2">2022</td><td colspan="2">2023</td><td rowspan="2">Busnesau: Mae sgôr o -0.88 yn cynrychioli anghytundeb cyffredinol. Mae gan y Cyngor rôl bwysig wrth gefnogi busnesau felly er fod hyn yn achos pryder, dylid nodi y gallai hyn fod yn arwydd o'r heriau ehangach a oedd yn wynebu busnesau ar adeg yr arolwg a'r hinsawdd gynyddol anodd y mae busnesau yn gweithredu ynddo o ystyried yr argyfwng costau byw ac adferiad ar ôl COVID.<br><br>Yn ystod 2022/23 cefnogwyd 1,237 o ymholiadau gan fusnesau trwy gymorth adfywio.</td></tr>
<tr><td colspan="2">-0.88</td><td colspan="2">I'w gadarnhau</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Caiff pobl leol/busnesau lleol eu cefnogi'n dda i fanteisio ar gyfleoedd lleol - Ymgynghoriadau â Thrigolion/Busnesau</td><td colspan="2">2022</td><td colspan="2">2023</td><td rowspan="3">Busnesau: Mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd y busnesau a ymatebodd i'r ymgynghoriad (roedd 36 ohonynt) ar y cyfan yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd lleol, gyda'r datganiad hwn yn sgorio -0.76.<br><br>Trigolion: Nododd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr 'dim y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn teimlo bod pobl leol yn cael eu cefnogi'n dda i fanteisio ar gyfleoedd lleol. Roedd safbwyntiau pellach yn gymysg, gydag ychydig yn fwy o bobl yn anghytuno nag a oedd yn cytuno.</td></tr>
<tr><td>Ymgynghori â Busnesau</td><td>Trigolion Ymgynghoriad</td><td>Ymgynghori â Busnesau</td><td>Trigolion Ymgynghoriad</td></tr>
<tr><td>-0.76</td><td>-0.05</td><td>I'w gadarnhau</td><td>I'w gadarnhau</td></tr>
</table>



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnydd yn 2022/23

- Trwy **Fudd i'r Gymuned** rydym wedi cyflawni/creu'r canlynol yn ystod 2022/23:

| Wedi creu 43 o swyddi | Cyflawnwyd 1,628 wythnos o recriwtio ar gyfer hyfforddiant | 2,360 o gysylltiadau â disgyblion STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) |
|---|---|---|

! Gwnaethom sicrhau ychydig o dan **£12m o fuddsoddiad gan y sector preifat / cyllid allanol** yn ystod 2022/23, sy'n swm ardderchog, ond dim ond 60% o'r buddsoddiad a'r cyllid yr oeddem yn anelu ato yn ystod y flwyddyn yw hyn. Mae cyllid sylweddol o £38m wedi'i sicrhau mewn egwyddor gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, bydd hyn yn cael ei dynnu i lawr dros y ddwy flynedd nesaf a'i adrodd yn 2023/24 a 2024/25. Yn ogystal, bydd buddsoddiad a ragwelir gan y sector preifat ar gynlluniau grant trydydd parti hefyd yn cael ei wireddu yn 2023/24, o ganlyniad i oedi i brosiectau a gyflawnir gan drydydd partïon yn sgil materion yn ymwneud â chaffael a'r gadwyn gyflenwi.


! Mae cyflawni llawer o'n prosiectau datblygu economaidd mawr yn dibynnu ar wasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol, bu gwelliant enfawr ym mherfformiad y gwasanaeth yn ystod 2022/23, gyda **72.4% o geisiadau "mawr" yn cael eu pennu o fewn cyfnodau amser** (ychydig yn brin o'n targed o 80%) o'i gymharu â 54.1% yn 2021/22. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn parhau i weithio drwy nifer o geisiadau cynllunio sydd yn hwyr, ond maent yn nodi'r achosion sydd wedi ôl-gronni ac yn blaenoriaethu'r achosion hynaf ochr yn ochr â chyrraedd yr amser targed ar gyfer achosion newydd.

- Rydym yn parhau i gyflawni ein nodau a'n hamcanion yn unol â Chynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru, sef polisi adfywio economaidd cyffredinol y Cyngor. Mae'n adeiladu ar ein cryfderau a'n cyfleoedd unigryw i ddatblygu economi  fwy llewyrchus a gwydn ar gyfer De-orllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe); ynghyd â'n Cynllun Adfer lleol, ein nod yw cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y polisi.

## Ein Cynllun Adferiad Economaidd

Yn dilyn ein hasesiad yn 2020 o'r effaith a gafodd COVID-19 ar fusnesau Sir Gaerfyrddin, a'r hyn a oedd yn bwysig iddynt yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, sefydlwyd grŵp adfer busnes, economi a chymunedol i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu thematig. Ynghyd â grŵp cynghori cyffredinol (a oedd hefyd yn cynnwys arweinwyr diwydiant allweddol o'r sector preifat), cafodd cynllun adfer a darparu economaidd ei fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Mehefin 2021 ar ôl adolygiad annibynnol.
Yr hyn sy'n allweddol i'r cynllun yw cysylltedd digidol dibynadwy iawn, gweithredoedd sy'n cefnogi economi sylfaenol y sir a chefnogi pobl leol i ddatblygu sgiliau a thalent mewn meysydd sydd wedi'u targedu er mwyn creu gweithlu lleol cryf a gwydn.

Mae ein heconomi yn cynnwys nifer fawr o fusnesau hunangyflogedig a busnesai micro ynghyd â chyflogaeth sylweddol o fewn yr economi sylfaenol (gweithgareddau busnes yr ydym yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu gweld o'n cwmpas e.e. adwerthu, gofal a diwydiannau bwyd). Felly, mae ein llwybr at adferiad wedi canolbwyntio ar: **Lleoliaeth** - cefnogaeth o fewn ein heconomïau lleol a mwy o wariant lleol; a **Chystadleurwydd** - cynyddu cynhyrchiant a chystadleurwydd.



Gyda'r cymorth/cynllun ymyrryd hwn, mae economi Sir Gaerfyrddin wedi dechrau ymadfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un sy'n fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen. Nid ydym yn gallu cyflawni popeth, felly mae gweithio ar draws pob adran, gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, sefydliadau allanol, gan gynnwys y sector preifat, yn sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei gydlynu lle bynnag y bo modd i gefnogi ein Cynllun ar gyfer adferiad a thwf.

**Egluro canlyiadau ein Cynllun Adferiad Economaidd**
O'r wyth Dangosydd Perfformiad Allweddol sy'n cael eu monitro o dan y Cynllun Adfer Economaidd, mae pedwar bellach wedi rhagori ar eu targed, sef "Sgiliau a chymwysterau a gyflawnwyd gan unigolion hunangyflogedig a microfusnesau", "Hyfforddiant a Gyflwynwyd i Uwchsgilio Unigolion", "Nifer y gweithwyr sy'n ennill cyflog byw go iawn" a "Lefelau uwch o gymhwysedd digidol”. Mae'r rhain wedi'u casglu'n bennaf trwy gynlluniau cyflogadwyedd yr Adran Adfywio megis Gweithffyrdd, Cymunedau dros Waith a Mwy (C4W+), Prosiect Sgiliau a Thalentau'r Fargen Ddinesig, y Prosiect LEADER yn ogystal â thrwy Grantiau Cymorth Busnes a gweithio gyda Busnes Cymru.

Gwelwyd cynnydd yn y "Swyddi a Grëwyd" tuag at y targed o 3,000, sydd bellach yn cyrraedd dros 86% o hyn, yn bennaf oherwydd cydgrynhoi ffigurau o'r rownd ddiweddar o gronfeydd cymorth busnes, Cymunedau dros Waith a Mwy, gwaith ymgysylltiad wedi'i dargedu â busnesau a gwaith mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith a Busnes mewn Ffocws. Bydd gwaith pellach o goladu ffigyrau o brosiectau megis Pentre Awel, a broffiliwyd yn gymharol uchel tuag at y targed hwn, ond sydd newydd ddechrau "ar lawr gwlad", yn ychwanegu at hyn dros y chwarteri nesaf. Mae "Ymholiadau Busnes a Gefnogwyd" wedi cyrraedd bron i 75% o'u targed a chyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd newydd ei lansio, dylent hefyd fod ar broffil i gyrraedd eu targed yn y chwarteri nesaf.

Mae baneri coch yn dangos ar "Swyddi a ddiogelwyd" a "Nifer y swyddi adeiladu/cynnal a chadw a ddiogelwyd trwy ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni" sydd ill dau yn is na 35% o'u targed. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y ffigurau hyn yn cael hwb yn y chwarteri nesaf yn sgil cynlluniau Tai ac Addysg arfaethedig a pharhaus, prosiectau sy'n digwydd yn yr Adran Lle a Seilwaith, a thrwy Brosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Phentre Awel.

**Cynnydd ar ein Cynllun Adferiad Economaidd – Cynllun Gweithredu**



**Mae'r Cynllun Adferiad yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi Busnesau, Pobl a Lleoedd:**

| | |
|---|---|
| **Busnes*:*** | Mae yna bron 8,000 o fusnesau yn Sir Gaerfyrddin ac mae dros 90% ohonynt yn ficrofusnesau (h.y. gyda llai na 10 o weithwyr), felly mae angen i ni gefnogi'r busnesau hyn er mwyn cynnal, uwchraddio a thyfu ein heconomi. Mae gennym hefyd dros 10,000 o bobl hunangyflogedig y mae angen cymorth arnynt i oroesi a ffynnu mewn busnes. Felly mae'n allweddol ein bod yn diogelu ein busnesau presennol ac yn cynorthwyo busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn ein sectorau sylfaenol a thwf i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol |
| | Twf Economaidd Digidol Bydd rhaglen Seilwaith Digidol gwerth £55 miliwn Bargen Ddinesig Bae Abertawe o fudd i breswylwyr a busnesau ym mhob rhan o'r Rhanbarth, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Amcangyfrifir y bydd y rhaglen werth £318m i'r economi ranbarthol dros y 15 mlynedd nesaf. |
| **Pobl** | Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol - Sir Gaerfyrddin yw Corff Arweiniol y Bartneriaeth. Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn arwain y gwaith o gyflwyno Rhaglen Sgiliau a Thalentau Ranbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe dros y 5 mlynedd nesaf. Nod allweddol y rhaglen yw darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar 8 prosiect y Fargen Ddinesig a chefnogi anghenion y rhanbarth am sgiliau. |
| **Lleoliad** | Sir Gaerfyrddin drefol, arfordirol a gwledig - Ar draws yr holl ganol trefi, caiff busnesau eu cynorthwyo i wneud y defnydd gorau o gyfathrebu digidol i ehangu eu cyrhaeddiad yn y farchnad, eu trosiant a'r nifer sy'n ymweld â hwy; gyda datgarboneiddio yn cael ei annog drwy seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a datblygiadau cynaliadwy; a chefnogi a hyrwyddo diwylliant Cymru i ddathlu hunaniaeth Sir Gaerfyrddin. |
| Bargen Ddinesig BAE ABERTAWE SWANSEA BAY City Deal | Mae Pentre Awel - sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe - yn dwyn ynghyd busnes, ymchwil, addysg, gofal iechyd cymunedol a chyfleusterau hamdden modern mewn un lleoliad gwych ar hyd arfordir Llanelli. Hwn yw'r datblygiad cyntaf o'i gwmpas a'i faint yng Nghymru a fydd yn cynnig darpariaeth o'r radd flaenaf ym maes ymchwil meddygol a gofal iechyd gan gefnogi ac annog pobl i fyw bywydau egnïol ac iach. Yn ogystal â gwella iechyd a llesiant, bydd y prosiect yn creu bron i 2,000 o swyddi (750 i 950 ym Mharth 1), a chyfleoedd hyfforddi/prentisiaethau, a disgwylir iddo roi hwb o £467 miliwn i'r economi leol dros y 15 mlynedd nesaf |
| | Economi Wledig / Economi Sylfaenol a Chydnerthedd Cymunedol<br>Mae'r cyd-destun economaidd a pholisi wedi newid yn sylweddol ers 2013 ar lefel Cymru a'r DU, yn enwedig yng ngoleuni penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, effaith y pandemig a newidiadau rhanbarthol  |

## BUSNES:

- Gwnaethom barhau i gefnogi busnesau i ddiogelu 143 o swyddi trwy waith ymgysylltu â busnesau wedi'i dargedu, Cronfa Twf Busnes a Dechrau Busnes, Biwro Cymunedol a Phrosiect Denu Twristiaid Pentywyn.
- Rydym wedi sicrhau dros £4.5 miliwn o Gyllid Ffyniant Gyffredin i gyflawni prosiectau Angor Busnes a fydd yn arwain at fod £4.5m o gyllid grant trydydd parti ar gael i Fusnesau Sir Gaerfyrddin dros y ddwy flynedd nesaf drwy'r Gronfa Datblygu Eiddo, y Gronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes a'r Gronfa Twf Busnes a Dechrau Busnes

- Mae cyllid hefyd wedi'i sicrhau gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflawni Prosiect Ymgysylltu â Busnesau Sir Gâr dros y ddwy flynedd nesaf a fydd yn arwain at ddarparu cymorth i fusnesau i annog rhyng-fasnachu, cefnogi cadwyni cyflenwi lleol, cynorthwyo i gyflwyno menter caffael blaengar ac annog entrepreneuriaeth.
- Mae'r galw am ein Grantiau Trydydd Parti a ariennir gan gyllid craidd Busnes yn parhau i fod yn fwy na'r cyllid sydd ar gael. Yn 2022/23 roedd y Gronfa Datblygu Eiddo Masnachol a Chronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo'n llawn mewn egwyddor a gwnaed dros £400k o ddyfarniadau o dan y Gronfa Twf Busnes a Dechrau Busnes
- I'r gwrthwyneb, bydd gwasanaethau a ariennir gan yr UE a ddarperir gennym ar hyn o bryd yn dod i ben eleni (e.e. Gweithffyrdd+; Cymunedau dros Waith, Pobl Ddi-waith yn y Tymor Byr, Cynnydd, LEADER, ac ati), ond rydym wedi derbyn trwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer mentrau cyflogadwyedd / sgiliau sy'n rhedeg hyd at fis Mawrth 2025.
- Cwblhawyd y gwaith ym mis Mawrth 2023 ar ailddatblygu Neuadd Farchnad Llandeilo a oedd werth £4m ac a fydd yn golygu y bydd 20+ o leoedd masnachol ychwanegol ar gael ar gyfer busnesau gwledig Sir Gaerfyrddin yn 2023/24

! *Cynyddu Costau Cyfalaf / Materion Cadwyn Gyflenwi*: Mae cynnydd amlwg yn y gost o gyflawni cynlluniau adfywio cyfalaf wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cynnydd hwn ledled y diwydiant a chredir iddynt gael eu sbarduno gan sawl ffactor gan gynnwys Brexit, COVID-19 ac yn fwy diweddar y gwrthdaro yn Wcráin a'r cynnydd mewn chwyddiant o ganlyniad. Mae'r cynnydd hwn yn rhoi pwysau ar yr hyn y gellir ei gyflawni gyda chyllidebau a osodwyd ar ddechrau prosiect. Fel y cyfryw, rhaid diwygio prosiectau'r Cyngor a phrosiectau trydydd parti lle bo hynny'n bosibl er mwyn bodloni'r pwysau cynyddol hyn. Yn ogystal, mae prinder cadwyni cyflenwi yn gohirio rhaglenni rhag cael eu cyflawni, sydd yn ei dro yn ychwanegu costau pellach at gynlluniau sydd eisoes yn wynebu her.

- Trwy gydol y pandemig gwnaethom ddarparu *dros £66 miliwn o Gronfeydd Adfer Busnesau yn sgil COVID-19* ar ran Llywodraeth Cymru, a oedd yn rhoi achubiaeth i fusnesau mewn cyfnod heriol, gan alluogi'r busnesau i ddiogelu swyddi.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Grantiau Adfer Busnes* | *£586k* | *Grantiau Dewisol* | *£265k* | *Grantiau Busnes Ardrethi Annomestig* | *£65.1m* |

- Drwy ein rhaglenni Moderneiddio Addysg a Thai a Phriffyrdd rydym wedi dyfarnu contractau i fusnesau lleol, gan ddarparu cyfleoedd gwaith medrus yn yr economi leol a diogelu swyddi.

- Talwyd dros 97% o'r 342,000 o anfonebau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o fewn 30 diwrnod, gan gadw ein perfformiad gorau erioed o'r llynedd er gwaethaf cynnydd o 15% yn nifer yr anfonebau. Mae talu'n brydlon yn hanfodol i fusnesau, yn enwedig ar adeg o ansicrwydd parhaus.

**Twf Economaidd Digidol**

- ***Rhaglen Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe***: Sefydlwyd Achos Busnes y Rhaglen Ddigidol, y Bwrdd, a'r Trefniadau Llywodraethu ar ei gyfer; Sicrhawyd mynediad i gyllid y Fargen Ddinesig ar gyfer y Rhaglen Ddigidol ynghyd â chyllid ychwanegol gan y sector cyhoeddus ar draws y rhanbarth; Sefydlwyd tîm canolog ar gyfer y Rhaglen Ddigidol hefyd.
- ***Ein Rhaglen Adfywio Digidol***: Bu buddsoddiad masnachol sylweddol mewn ffeibr Gigabit yn Cross Hands, Llangennech, Porth Tywyn, Llanelli, Caerfyrddin, a Llanymddyfri; ynghyd â buddsoddiad Cyflymu Cymru 2 i gysylltu 3,300 o safleoedd gwledig mwyaf poblogaidd Sir Gaerfyrddin.
- Rydym wedi hyfforddi a chefnogi mwy na 330 o bobl drwy wella eu sgiliau digidol (un o feysydd allweddol ymyrraeth wedi'i thargedu), er mwyn iddynt gael gwell gobeithion am waith.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol i fynd i'r afael â materion cysylltedd band eang gwael a darpariaeth symudol ledled y Sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

O tua 96,000 o safleoedd Sir Gaerfyrddin:

- Erbyn hyn mae gan 91.2% fynediad at fand eang cyflym iawn neu well (dros 30 megabit yr eiliad).
- Erbyn hyn mae gan 52% fynediad at fand eang Gigabit (Cyflymder uwch na 1000 megabit yr eiliad).

Mae Sir Gaerfyrddin hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y gwasanaethau symudol yn 2021-22:

- Gwasanaeth gan bob un o'r pedwar Gweithredwr Rhwydwaith Symudol (MNOs): i fyny i 65% (cynnydd o 3% ers 2020-21).
- Gwasanaeth gan o leiaf un Gweithredwr Rhwydwaith Symudol: i fyny i 95% (cynnydd o 2% ers 2020-21).

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a'r 4 Gweithredwr Rhwydwaith Symudol i sicrhau bod y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) yn cael ei darparu, a allai gyfrannu tua £11 miliwn o fuddsoddiad yn Sir Gaerfyrddin a gwella darpariaeth symudol gan y pedwar gweithredwr ledled cefn gwlad Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2027.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r sector preifat, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi'r defnydd ffibr parhaus presennol ac i sicrhau buddsoddiad ffibr ychwanegol yn y dyfodol.

⦿ Rydym wedi parhau i arwain y buddsoddiad o £55 miliwn mewn Seilwaith Digidol ar draws Sir Gaerfyrddin a Dinas-ranbarth Bae Abertawe ehangach.

- Mae'r gwaith o ymgysylltu, lobïo a hwyluso gweithredwyr yn parhau ar ran y rhanbarth i sicrhau bod defnydd ffibr a symudol yn cael ei gyflymu a'i fod mor effeithlon â phosibl. Mae rhanddeiliaid yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn llawn, gan weithio'n agos gyda thîm y rhaglen i sicrhau bod prosiectau cysylltedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cyd-fynd. Mae darparwyr telathrebu wedi dangos diddordeb gweithredol yn y cynlluniau rhaglenni ac mae rhanddeiliaid rhanbarthol yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r rhaglen ac yn ymroi iddi.
- O ganlyniad i'r gwaith hwn yn 2021-22 sicrhaodd y rhaglen Seilwaith Digidol y buddsoddiad sylweddol canlynol i wella cysylltedd ar draws y rhanbarth:
    - £7.6 miliwn o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus
    - £14.55 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat
- O'r buddsoddiad hwn, mae Sir Gaerfyrddin wedi elwa'n uniongyrchol o:
    - £2.5 miliwn o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus
    - £8.7 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat

| | |
|---|---|
| FarrPoint | **Cynnydd cadarnhaol clir yn erbyn pob elfen o'r rhaglen y gellir ei chyflawni**<br>Gweithiom gydag ymgynghorwyr allanol (FarrPoint) i gynnal ymarfer gwireddu buddion i fesur effaith y rhaglen hyd yma, ac mae'r adroddiad yn dangos cynnydd cadarnhaol clir yn erbyn holl elfennau'r rhaglen y gellir eu cyflawni.<br>Rydym yn gweithio unwaith eto gyda FarrPoint i gynnal ymarfer arall i fesur defnydd pellach o gysylltedd sefydlog a symudol ar draws Sir Gaerfyrddin a'r rhanbarth ar gyfer 2022-23 |

**!** Fodd bynnag, mae galwadau cystadleuol a phwysau cynyddol o fewn y sector cyhoeddus yn golygu bod y gallu i gyflawni ar lefel sefydliadol yn gynyddol heriol.

- Mae adnoddau staffio ar gyfer tîm y rhaglen ganolog wedi bod ar waith ers dros flwyddyn. Mae Cydgysylltydd Rhaglen wedi cael ei recriwtio yn ddiweddar i gryfhau'r tîm canolog hwnnw.
- Mae pob un o'r 4 Rheolwr Seilwaith y Genhedlaeth Nesaf bellach wedi'u recriwtio ar draws awdurdodau lleol y rhanbarth. Mae'r rolau hyn yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y diwydiant symudol a ffibr, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Maent yn gyfrifol am gyflwyno rhaglen waith i annog a symleiddio'r defnydd o ffibr a thechnolegau symudol ar draws y rhanbarth ac archwilio'r defnydd o dir ac asedau'r sector cyhoeddus i gyflymu'r defnydd o dechnolegau symudol a ffibr.

  - Bellach mae 4 x swyddogion cymorth ac ymgysylltu cysylltedd gwledig hefyd yn gweithio ym mhob un o'r awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth (fel yr argymhellwyd gan Lawlyfr Chwalu Rhwystrau Llywodraeth y DU ar gyfer Awdurdodau Lleol ac Adroddiad Chwalu Rhwystrau Llywodraeth Cymru). Cânt eu hariannu gan Raglen Ddigidol y Fargen Ddinesig i gynorthwyo cymunedau gwledig i gael band eang digonol. **Mae'r rolau hyn wedi sbarduno buddsoddiad gan y sector cyhoeddus ledled Sir Gaerfyrddin, ar ôl cynorthwyo preswylwyr i gael mynediad i werth £243,000** o dalebau Mynediad Band Eang Cymru (ABC) (2021-22) i ariannu/rhannol ariannu costau offer a chostau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau.
- Rydym yn ariannu rhaglen adeiladu seilwaith ffibr llawn (FFIB) i oddeutu 100 o safleoedd sector cyhoeddus yn y rhanbarth nad oes ganddynt fynediad i gysylltedd masnachol ar hyn o bryd neu gynlluniau i adeiladu cysylltedd masnachol yn ystod y tair blynedd nesaf.
- Ar hyn o bryd mae cael gwerth £6 miliwn o fand eang cyflym iawn i ardaloedd gwledig a'r safleoedd anoddaf eu cyrraedd ledled y rhanbarth yn cael ei ystyried, gyda chynlluniau yn cyd-fynd â data adolygu marchnad agored Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn osgoi rhoi cymhorthdal i safleoedd y mae'r sector preifat yn bwriadu eu cysylltu yn ystod y tair blynedd nesaf. Rydym hefyd yn aros am fanylion meysydd ymyrraeth ar gyfer Prosiect Gigabit gwerth £5 biliwn Llywodraeth y DU a fydd yn ariannu cysylltedd â rhannau sylweddol o gefn gwlad Sir Gaerfyrddin a phrosiect Llywodraeth Cymru "Ymestyn Cyrhaeddiad Band Eang Cyflymder Uchel yng Nghymru" Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, sy'n gweithio i ategu Prosiect Gigabit. Rydym yn ymgysylltu â'r ddwy Lywodraeth i sicrhau bod ein cyllid o £6 miliwn ar gyfer ymyriadau gwledig yn cyd-fynd â'u cynigion, gan gydweithio i sicrhau bod buddsoddiad y sector cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn cael yr effaith fwyaf.
- Datblygwyd portffolio rhanbarthol o gyfleoedd i nodi ymyriadau a buddsoddiadau newydd posibl mewn technolegau digidol ar draws sectorau allweddol. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i arweinyddiaeth leol a rhanbarthol yn rhan olaf 2023.

## POBL:

- Lansiodd Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-25 yn swyddogol, gan gydnabod y cydweithio a'r cyd-gynhyrchu a ddigwyddodd i ddod â'r cynllun uchelgeisiol ar gyfer y rhanbarth i fodolaeth. Prif nod y cynllun yw nodi blaenoriaethau cyflogaeth a sgiliau dros y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir i ddatblygu potensial cymdeithasol ac economaidd economi ranbarthol De-orllewin Cymru a bydd yn awr yn helpu i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer Addysg Bellach a dysgu yn y gwaith.




- Symudodd rhaglen Sgiliau a Thalentau y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol gam arall ymlaen i helpu miloedd o fyfyrwyr lleol i baratoi ar gyfer cyfleoedd swyddi sydd ar y gweill ar draws y rhanbarth. Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol wedi cymeradwyo 12 cais peilot a fydd yn helpu i ddiogelu gweithlu'r rhanbarth yn y dyfodol. Wedi'u gosod yn ddaearyddol ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe bydd y 12 prosiect peilot sydd newydd eu cymeradwyo yn gobeithio sicrhau'r rhagolygon gorau posibl i lawer o bobl leol a chreu sicrwydd swyddi i genedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau bod ganddynt y gofynion hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i gyd-fynd â'u dyheadau.

- Gweithiodd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, ynghyd â chadeiryddion y sector preifat, gyda'i gilydd i lansio llyfryn Canllaw Gyrfaoedd sector penodol newydd ar gyfer dysgwyr. Bydd y llyfryn yn cynorthwyo dysgwyr i gael gyrfa eu breuddwydion neu roi hwb i'w cynlluniau gyrfa. Canllaw gyrfaoedd yn y sector Digital & TG
- Mae ein tîm cyflogadwyedd ymroddedig wedi gweithio gydag unigolion di-waith yn y tymor byr a'r tymor hir yn Sir Gaerfyrddin i'w cynorthwyo i gyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ar y cyd â'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, rydym wedi llwyddo i ddarparu *chwe ffair swyddi* ym mhob un o'r prif drefi, i gefnogi sectorau lle mae heriau recriwtio difrifol.
- Yn ystod 2022/23 gwnaethom helpu 759 o bobl i wirfoddoli (927 yn y flwyddyn flaenorol). Ar ôl y pandemig, mae'r tîm wedi nodi'n gyson ar draws rhaglenni bod agweddau'r cyhoedd tuag at wirfoddoli wedi newid ac mae pobl bellach yn fwy amharod i wirfoddoli eu hamser. Rydym yn mynd i'r afael â hyn drwy brosiect Gwirfoddoli penodol o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac rydym yn gweithio'n agos gyda CAVS i gynyddu'r niferoedd wrth symud ymlaen.
- Symudodd y rhaglen Sgiliau a Thalentau gam arall ymlaen gyda 12 cais peilot wedi'u cymeradwyo a fydd yn helpu miloedd o fyfyrwyr lleol i baratoi ar gyfer cyfleoedd swyddi sydd ar y gweill ar draws y rhanbarth. Gyda 12 o'r prosiectau peilot bellach yn cael eu cyflawni, mae'r rhaglen Sgiliau a Thalentau yn gweithio tuag at:
    - gyflawni o leiaf 2,200 o sgiliau ychwanegol
    - cefnogi tua 14,000 o unigolion sydd â sgiliau lefel uwch (rhwng 2-8) o fewn 10 mlynedd.
    - creu o leiaf 3,000 o gyfleoedd prentisiaeth newydd, gan gynnwys lefel 3 hyd at brentisiaethau ar lefel Gradd


| Archwilio Cymru Audit Wales | **Archwilio Cymru – Cyfle Wedi'i Golli – Mentrau Cymdeithasol (Rhagfyr 2022)**<br>Mae hwn yn Adroddiad Cenedlaethol |
|---|---|
| • Rydym wedi paratoi cynllun gweithredu strategol ar sut yr ydym ni fel Sir yn ymgysylltu â Mentrau Cymdeithasol – rydym wedi ymgynghori â Cwmpas ac wedi ystyried eu hargymhellion.<br>• Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar geisiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, byddwn yn gallu mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Archwilio Cymru | |

## LLEOLIAD:

**Sir Gaerfyrddin drefol, arfordirol a gwledig**

- Roedd ein Cynlluniau Adfer ar gyfer ein tair prif dref gynradd (Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) wedi'u teilwra i'r dref ac yn nodi'r effaith a gafodd COVID-19 ar ganol y trefi o ran colli gwariant, mwy o unedau gwag a gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Wrth ddatblygu'r Cynlluniau, buom yn gweithio'n agos gydag aelodau allweddol o randdeiliaid y dref. Roedd y Cynlluniau yn tynnu sylw at faterion a chyfleoedd allweddol ac yn darparu fframwaith gyflawni o ymyriadau sy'n benodol i ganol y trefi unigol. Mae'r Cynlluniau hyn yn parhau i fod yn sail ar gyfer y gweithgareddau sy'n cael eu llunio yng nghanol y prif drefi. Rydym wedi datblygu mentrau ariannu sy'n defnyddio cyllid Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r camau sydd o fewn y Cynlluniau, gan hefyd ddarparu cefnogaeth i ymgeiswyr trydydd parti.

- Mae cyllid Trawsnewid Trefi a ddarperir i Ranbarth De-orllewin Cymru yn cael ei ddefnyddio i gyflawni ailddatblygiadau strategol yn uniongyrchol megis hen adeilad yr YMCA a Gogledd Stryd y Farchnad. Rydym wedi defnyddio cyllid Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi i gyflawni mentrau seilwaith gwyrdd gan gynnwys y wal werdd yn Llyfrgell Llanelli a'r seilwaith gwyrdd a glas ym Maes Parcio Carregaman. Mae'r cymorth hwn hefyd ar gael i ymgeiswyr trydydd parti i ddod â gofod masnachol gwag yn ôl i ddefnydd busnes yng nghanol y prif drefi.



- Ochr yn ochr â'r tair prif dref, gwnaethom ddarparu rhaglen o fuddsoddi a chymorth i gefnogi twf ein 10 tref farchnad wledig. Cafodd cynlluniau pwrpasol eu datblygu er budd trefi ac ardaloedd cyfagos  Cross Hands, Cwmaman, Cydweli, Talacharn, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf.

- Mae darpariaeth WIFI ar gael yn y rhan fwyaf o ganol ein trefi. Caiff 16 o fusnesau eu cefnogi i dreialu technoleg Rhyngrwyd Pethau i weld sut y gall eu busnesau elwa o ddata megis monitro ansawdd aer, synwyryddion oergell a theclynnau cyfrif ymwelwyr.

- Rydym wedi sicrhau dros £3.5 miliwn o Gyllid Ffyniant Gyffredin i gyflawni'r prosiectau Angor Lle a fydd yn cynnwys gwerth £2.6 miliwn o brosiectau a ddarperir yn uniongyrchol yn y prif drefi a'r trefi eilaidd. Bydd gwerth £900,000 o gyllid ar gael i drydydd partïon drwy'r Gronfa Eiddo Gwag a'r Gronfa Digwyddiadau sydd wedi'i hanelu'n benodol at ganol y prif drefi.

- Mae Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn wedi'i gwblhau, a'i nod yw gwneud y gorau o dreftadaeth ac asedau naturiol Pentywyn er mwyn hybu adfywiad economaidd y lleoliad yn y dyfodol. Derbyniodd y prosiect gyllid o £3m drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop fel rhan o Gynllun Cyrchfannau Denu Twristiaeth Llywodraeth Cymru; £1.5m gan Croeso Cymru sef arian cyfatebol a dargedir gan Lywodraeth Cymru; £128,000 o'r Gronfa ar gyfer Cymorth Buddsoddi Mewn Amwynderau Twristiaeth a ariennir gan y Cynllun Datblygu Gwledig i ariannu'r ardal chwaraeon ar y tywod, a £984,000 o Gronfa Ysgogi Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae'r gweddill yn arian cyfatebol gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn yn cynnwys tri phrosiect unigol:

    - Mae Y Caban yn llety newydd sbon â 14 ystafell a 43 gwely sydd wedi'i adeiladu gan ddefnyddio technolegau adeiladu cynaliadwy. Mae Y Caban, sy'n edrych dros y traeth, hefyd yn cynnwys bwyty ac mae'n darparu ar gyfer y farchnad gwyliau cerdded a chwaraeon antur awyr agored yn ogystal â'r rhai sy'n chwilio am brofiad arfordirol. Mae gan y llety sgôr gyffredinol o 9.6/10 gan gwsmeriaid sydd ymhlith y gorau yng Nghymru.



- Maes chwarae antur ynghyd ag ardal ddigwyddiadau, rhodfa arddangos sy'n cynnig llwyfannau i gynnal digwyddiadau; ardal chwaraeon ar y tywod; gwell cyfleusterau parcio a'r Gerddi Twyni sy'n darparu seddau a llwybrau dehongli.
- Bydd yr Amgueddfa Cyflymder, sy'n agor ddiwedd Mai 2023, yn arddangos ceir modur a phethau cofiadwy sy'n gysylltiedig â chyflymder ar dir. Bydd parthau rhyngweithiol ym mhob rhan o'r amgueddfa a fydd yn caniatáu i ymwelwyr ymgysylltu, gwrando a dysgu am straeon am Bentywyn a recordiau cyflymder ar dir.




- Mae Cronfa Ffyniant Bro y DU yn ein galluogi i ddarparu Hwb Caerfyrddin. Rydym yn symud ymlaen yn gyflym gyda chynlluniau i gyflawni'r prosiect gwerth £18.5m (£3.5m o arian cyfatebol ychwanegol gan ein rhaglen Gyfalaf) yn yr hen siop Debenhams. Mae'n cael ei haddasu i fod yn ganolfan Hwb a fydd yn dod ynghyd ag ystod o wasanaethau iechyd, llesiant, dysgu a diwylliannol. Cafodd ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid hefyd ei hadleoli i'r Hwb.

**Pentre Awel**

Mae Pentre Awel wedi cymryd cam sylweddol ymlaen yn ystod cyfnod adrodd 2022/23, gan gyrraedd cerrig milltir allweddol o safbwynt caffael, dylunio ac adeiladu. Mae adnoddau a gweithgarwch sylweddol wedi'u cyfeirio tuag at Barth 1 gyda'r gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym, tra bod gwaith cwmpasu a dylunio cysyniadol cynnar yn mynd rhagddo ar y Parthau eraill sydd i'w datblygu ym Mhentre Awel.

- Mae **Parth 1** yn elwa o fuddsoddiad o £96m gan y sector cyhoeddus i ddatblygu a chydleoli cyfleusterau hamdden, iechyd, busnes, addysg ac ymchwil newydd. Cynhaliwyd rhaglen helaeth cyn y gwaith adeiladu yn ystod 2022/23 a oedd yn cynnwys cymeradwyaethau cynllunio allweddol; gwaith ymchwilio i'r tir, arolygon ecoleg, clirio llystyfiant a thrawsleoli ymlusgiaid dros fisoedd yr haf; gwaith galluogi o fis Hydref 2022 ac ymgysylltu â'r farchnad / cadwyn gyflenwi ynghylch dros 40 o becynnau gwaith, o waith tir, ffrâm ddur i waith saer a lloriau.
- Yn dilyn cymeradwyaeth unfrydol yn y Cabinet a'r Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2023, ymrwymodd y Cyngor a Bouygues (BYUK) i gontract adeiladu ym mis Chwefror 2023. Cynhaliwyd digwyddiad arloesol ar 6 Mawrth 2023 i nodi dechrau'r gwaith ar y safle yn ffurfiol, lle'r oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a phartneriaid/rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol yn bresennol.
- Mae allbynnau economaidd-gymdeithasol pwysig yn cael eu gwireddu yn ystod y camau cyn adeiladu ac adeiladu trwy gyfrwng rhaglen buddion cymunedol BYUK, gan gefnogi ysgolion, sefydliadau, busnesau a chronfa lafur lleol:
    - Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu - bydd 4,680 o wythnosau person o recriwtio a hyfforddiant yn cael eu darparu gyda'r nod o wneud y mwyaf o gyfleoedd lleol ar gyfer prentisiaethau, hyfforddeion/profiad gwaith a grwpiau targed gan gynnwys NEETS, pobl sy'n economaidd anweithgar a phobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir. Mae 'Hybiau Cyflogaeth' misol wedi'u sefydlu sy'n caniatáu i asiantaethau cyflogadwyedd lleol allu cyfeirio ymgeiswyr posibl at y prosiect.
    - Cadwyn gyflenwi leol - mae amrywiaeth o isgontractwyr a chyflenwyr lleol wedi'u penodi neu sy'n gweithio ar y prosiect hyd yma gan gynnwys Shufflebottom, Gavin Griffiths, Dyfed Steels, Dyfed Recycling, Owens ac Olew Dros Gymru. Bydd digwyddiadau 'Cwrdd â'r Contractwr/Isgontractwr' pellach yn cael eu trefnu gan adeiladu ar y digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr llwyddiannus ym Mharc y Scarlets yn 2022

- [Addysg]{.underline} - bu gwaith ymgysylltu helaeth â thros 1,000 o ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd lleol trwy wasanaethau arbennig, heriau adeiladu, sesiynau gyrfaoedd adeiladu a chynllun llysgenhadon myfyrwyr. Hyd yn hyn, mae dros 30+ awr o waith ymgysylltu STEM wedi'i gyflawni.
- Cymuned – c. Bydd 12 o drigolion lleol yn cael cyfle i gymryd rhan yn Rhaglen Llysgenhadon Cymunedol y prosiect. Yn ogystal, cynhaliwyd digwyddiad Cwrdd â'r Contractwr yng Nghlwb Cymdeithasol Morfa i ymgysylltu â'r gymuned leol gyda thua 50 o breswylwyr yn bresennol.

- Mae rhaglen adeiladu 89 wythnos ar y gweill ar hyn o bryd. Anelir at gwblhau'r cyfleusterau addysg fesul rhan erbyn Medi 2024 ac mae disgwyl i'r cyfleusterau addysg gael eu cwblhau'n llawn erbyn mis Hydref 2024.




- Mae cyflawniadau a cherrig milltir allweddol eraill ar gyfer prosiect Pentre Awel yn 2022/23 yn cynnwys:
  - Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i sicrhau oddeutu £1.5m o arian elusennol ar gyfer y pwll hydrotherapi ym Mhentre Awel.
  - Datblygu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a Chynllun Gweithredu sy'n ystyried defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws pob elfen o Bentre Awel – hamdden, busnes, addysg, byw â chymorth, cyfathrebu a chaffael. Rhannwyd y drafft gyda Fforwm Strategol y Gymraeg ym mis Chwefror 2023.
  - Mae ystod o sefydliadau Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) wedi bod yn rhan o ymarfer cynllunio'r gweithlu i fapio rolau swyddi a ragwelir ym Mhentre Awel yn erbyn darpariaeth addysg a hyfforddiant bresennol ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw fylchau sgiliau ac yn hwyluso'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r swyddogaeth addysg.
  - Mae gwaith cwmpasu ac arfarnu ar **Barth 2** ar y gweill gan edrych ar gartref nyrsio a chyfleuster gofal ychwanegol.
  - Datblygu dyluniad **Parth 3** – lluniwyd dyluniadau cysyniad cychwynnol ar gyfer hyd at 144 o unedau llety byw â chymorth sy'n cynnwys cymysgedd o fflatiau un a dau wely a byngalos tair gwely.
  - ! Yn yr un modd â phob prosiect tebyg, un her neu risg allweddol fydd sicrhau bod holl ardaloedd tenantiaid y cyfleuster yn cael eu gosod yn llawn cyn iddo agor neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny.

***Economi Wledig / Economi Sylfaenol a Chydnerthedd Cymunedol***

- Penderfynodd y Cabinet yn unfrydol bod Ystâd Ffermydd y Sir yn cael ei chadw a'i rheoli o dan y polisi presennol, gan resymoli ac ystyried cyfleoedd i ddatblygu wrth iddynt godi.
  - Bydd Cynllun Ystâd Wledig newydd yn cael ei ddrafftio dros y 12 mis nesaf i dynnu sylw at hyd a lled a pherfformiad y portffolio presennol, ynghyd â materion allweddol a strategaeth yr Ystâd ar gyfer y dyfodol i alluogi'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi ei amcanion llesiant.

- Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r Panel Ymgynghorol ar Newid Hinsawdd ac Argyfwng Natur a'r Panel Ymgynghorol ar Faterion Gwledig i ystyried eu barn wrth gwblhau'r Cynllun Ystâd Wledig.

- Rydym wedi cyflwyno mentrau adfywio sy'n canolbwyntio ar ddatblygu trefi marchnad wledig y Sir drwy brosiectau a mentrau fel cronfa gyfalaf y 10 Tref, Cyd-fenter Gofod Cyflogaeth Wledig, Maes Parcio Talacharn a Neuadd Farchnad Llandeilo.
  - Mae'r gwaith adeiladu wedi cyrraedd y cam cwblhad ymarferol ar brosiect Neuadd Farchnad Llandeilo.
  - Mae cynlluniau Twf y Deg Tref wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r deg tref.
  - Mae timau cynllun twf yn parhau i weithio ar gyflwyno eu ceisiadau prosiect manwl ar gyfer y pot grantiau Adfer cyfalaf gwerth £1m ar ôl cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb yn flaenorol, ac eithrio Llanymddyfri sydd wedi cyflwyno eu cais manwl i'w ystyried.
  - Mae cytundeb menter ar y cyd wedi'i lofnodi gyda Llywodraeth Cymru i gynorthwyo i gyflawni'r fenter gofod cyflogaeth wledig ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflogi ymgynghorwyr dylunio i weithio dyluniadau manwl ar gyfer y prosiect cyntaf yn Beechwood 2.

- Drwy ein rhaglenni buddsoddi tai rydym wedi buddsoddi dros £20 miliwn yn ein cymunedau gan ddatblygu dros 100 o gartrefi newydd a buddsoddi yn ein stoc bresennol. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu cyfnodau parhaus o fasnach a budd i gontractwyr ac adeiladwyr lleol. Maent yn creu mwy o swyddi a chyfleoedd hyfforddi yn ein cymunedau gan gefnogi'n uniongyrchol y camau gweithredu yn ein Cynllun Adferiad Economaidd.



## Oes unrhyw un ar ei ennill?

# 100% Sir Gâr

Datblygwyd 100% Sir Gâr yn ystod pandemig COVID-19 fel ffenestr siop rithwir ar wefan Darganfod Sir Gâr y cyngor, a hynny fel ffordd o helpu busnesau lleol yn sgil cyfnod hir o gyfyngiadau symud a chyfyngiadau ar fanwerthu.

Yn dilyn llwyddiant y platfform 100% Sir Gâr, mae Staff Datblygu Economaidd wedi hwyluso digwyddiadau siopau sionc tymhorol ar draws prif drefi'r Sir yn ogystal â chyfleoedd i gael lle yn Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin.

Rhoddodd y siopau sionc gyfle i fusnesau yn Sir Gaerfyrddin arddangos eu cynnyrch a chreu marchnad newydd i fusnesau lleol ennill cwsmeriaid newydd a chynyddu cyfleoedd incwm. Roedd hefyd yn gyfle i godi amlygrwydd y Gymraeg ar y stryd fawr drwy ddefnyddio marchnata dwyieithog.

Hyd yn hyn mae dros 200 o fusnesau wedi cofrestru ar y platfform digidol gyda mwy na 40 o fusnesau wedi bod i ddigwyddiad gwib 100% Sir Gâr.




**Un o'r busnesau sydd wedi elwa o ddatblygu menter 100% Sir Gâr yw Cwyr Cain.**

Daeth canhwyllau cartref a bwtîc persawr Cwyr Cain i fodolaeth yn dilyn newid gyrfa cyflawn gan bartneriaid y busnes, Carys Mai Lewis a Rhian Angharad Davies-Belcher.

Yn dilyn diwrnod hyfforddi ar sut i wneud canhwyllau a chynhyrchion persawr cartref, daeth y syniad i fentro i fyd busnes fel partneriaeth.

Trwy gefnogaeth a chymorth 100% Sir Gâr, mae'r busnes newydd hwn wedi elwa ar gyfleoedd i hyrwyddo a gwerthu eu cynnyrch Cymraeg/dwyieithog mewn lleoliadau cyfagos a dysgu sut i wella a datblygu ffenestr siop eu busnes. Mae bod yn rhan o blatfform Sir Gâr hefyd wedi bod yn fodd o gyrraedd cynulleidfa ehangach, ac mae'r ddwy wedi nodi bod hyn o fudd i'w busnes.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

| |
|---|
| Mae'r Tîm Adfywio yn parhau i gydlynu datblygiad a chyflawniad camau gweithredu sy'n cyd-fynd â'n cynllun adfer a chyflawni economaidd (ERP) ac mae grŵp cynghori cyffredinol sy'n cynnwys arweinwyr diwydiant allweddol o'r sector preifat yn parhau i roi cymorth ymgynghorol.<br><br>Mae tri thasglu / grŵp fforwm canol prif drefi yn parhau i oruchwylio a chymryd cyfrifoldeb am gyflawni eu priod Uwchgynlluniau Adfer.<br><br>Mae deg tîm cynllunio twf yn parhau i oruchwylio a chymryd cyfrifoldeb am gyflawni eu cynlluniau twf trefol priodol. |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# 3b - Blaenoriaeth Thematig - Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur

## Mae gennym heriau Amgylcheddol sylweddol i fynd i'r afael â hwy

Mae gennym ymrwymiad sefydliadol cryf i leihau carbon a ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng hinsawdd, cyhoeddi cynllun gweithredu ac adrodd yn flynyddol yn erbyn cynnydd a wnaed o fewn y cynllun. Ers 2016/17 i 2021/22 rydym wedi lleihau ein hallyriadau carbon bron i draean (-31.7%) (-8,418 $tCO_2e$).
Mae hyn yn gynnydd cryf yn y llwybr tuag at gyflawni ein hymrwymiad i uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus Cymru sero net erbyn 2030 | Ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau Cymru sero net erbyn 2050.
Rydym hefyd wedi ymrwymo i chwarae ein rhan i gyflawni rhwymedigaeth ehangach y sector cyhoeddus i fod yn sero net erbyn 2050 ac mae ein cynnydd o ran sicrhau gostyngiadau sylweddol hyd yma yn ein hallyriadau ein hunain yn chwarae rhan bwysig wrth gyflawni'r rhwymedigaeth ehangach honno.
Rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda llywodraeth genedlaethol, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy Banel Strategaeth Newid Hinsawdd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er enghraifft, ac i arwain llif gwaith masnachol a diwydiannol y cynlluniau gweithredu ynni rhanbarthol a lleol. Er bod cynnydd cynnar sylweddol wedi'i wneud, mae gwaith arloesol i ddatblygu llwybrau carbon wedi'i ddatblygu eleni a fydd yn ein cynorthwyo i dargedu gweithgarwch i gyflawni'r arbedion carbon gweddilliol mwy heriol o tua 60%. Yn 2022, daethom yn un o ychydig o awdurdodau i ddatgan argyfwng natur a chynnull panel ymgynghorol trawsbleidiol ar newid hinsawdd a natur (CCNEAP) gan gydnabod y berthynas agos rhwng y ddau faes gwaith. Mae gwaith i gyflawni camau gweithredu ac adrodd ar gyflawni cynllun Deddf yr Amgylchedd yn mynd rhagddo'n dda, o'r 38 o gamau gweithredu, mae 26 yn mynd rhagddynt yn dda, ac mae 12 wedi'u cwblhau ac rydym yn symud i adolygu cynnwys y cynllun gyda chyngor y CCNEP, i adlewyrchu datganiad yr argyfwng natur.
Rydym yn gwneud gwahaniaeth i lawer o gymunedau gyda'n gwaith o ddadansoddi perygl llifogydd a datblygiadau achosion busnes, mae gennym ddealltwriaeth well o risgiau mewn llawer o gymunedau. Mae'n rhaid i bob datblygiad newydd gael system ddraenio gynaliadwy sy'n rheoli llifogydd ar gyfer datblygiadau newydd a'r gymuned gyfagos.

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae'r Amgylchedd Naturiol yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan ei ymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a bydd yn parhau ar ei ffordd tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030 a mynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno dirywiad yn ein bioamrywiaeth ac yn cefnogi adferiad natur.
- **Llwybr tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero-net erbyn 2030**
- Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy. Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- Mae *gwarchod a gwella bioamrywiaeth* yn hanfodol yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd a gwasanaethau ecosystem allweddol megis bwyd, rheoli llifogydd, llygredd, dŵr ac aer glân.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu monitro ar gyfer y flaenoriaeth thematig Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur.

Mae'r Dangosyddion Poblogaeth yn bennaf yn cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodwyd i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau a sefyllfa Sir Gaerfyrddin mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae ein hamcanion llesiant yn fodd i'r Cyngor chwarae rôl bwysig wrth wneud cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn. Dylid nodi fodd bynnag nad yw'r rhain yn arwydd o berfformiad y Cyngor yn unig a bydd llawer o ffactorau allanol yn dylanwadu arnynt.

Mae Mesurau Perfformiad yn cynnwys ffurflenni statudol, mesurau mewnol y Cyngor a chanfyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu defnyddio i fesur a monitro perfformiad yn rheolaidd. Cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r rhain.

| **Dangosyddion Poblogaeth** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Tuedd** | **Esbonio'r Data** |
| **Capasiti'r Cyfarpar Ynni Adnewyddadwy a Osodwyd (MW)** |  | **Mae'r capasiti yn cynyddu o ganlyniad i'r nifer cynyddol o brosiectau yn y sir**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2016 a 2020 ac mae'n dangos tuedd sy'n cynyddu.***<br><br>Sir Gaerfyrddin yw un o'r siroedd mwyaf rhagweithiol yng Nghymru o ran buddsoddi mewn prosiectau ynni carbon isel. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn cadarnhau'r dull blaengar y mae'r sir yn ei fabwysiadu o ran mynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan yr argyfyngau hinsawdd a natur.<br><br>Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2020 yn dangos bod cyfanswm o 6,439 o brosiectau yn Sir Gaerfyrddin yn cynhyrchu 321MW o ynni. Dyma'r drydedd lefel uchaf yng Nghymru ac mae'n gynnydd ar ffigurau 2019. |
| **Nifer yr Eiddo (Cartrefi a Busnesau) sydd mewn perygl o lifogydd** | Ddim yn berthnasol | **Mae dros 15,000 o fusnesau a chartrefi mewn perygl o lifogydd afonol, llanwol neu ddŵr wyneb**<br><br>***Nid oes unrhyw linell duedd ar gael gan nad oes modd cymharu'r data blaenorol a gasglwyd yn 2014 yn uniongyrchol â'r data diweddaraf ar gyfer 2019.***<br><br>Mae llifogydd bob amser yn bryder yn Sir Gaerfyrddin, ac yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (2019), mae dros 5,500 o'n heiddo mewn perygl o lifogydd afonol, dros 2,600 mewn perygl o lifogydd llanwol ac ychydig o dan 7,000 mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb.<br><br>Mae bygythiad cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am amddiffynfeydd llifogydd addas a chymesur i ddiogelu'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf.<br><br>Drwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a Chynllun Rheoli Traethlin y Cyngor mae nifer o ymyriadau wedi'u cwblhau, gan gynnwys gosod amddiffynfeydd newydd a gwella'r amddiffynfeydd presennol. |

| Mesur Perfformiad | | | |
|---|---|---|---|
| **Mae'r Argyfwng Hinsawdd yn cael sylw lleol.** | **2022** | **2023** | Roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr i ymgynghoriad trigolion yn nodi 'dim y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a yw'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw lleol. Mae dadansoddiad pellach yn dangos, ac eithrio'r rheiny a atebodd 'dim y naill na'r llall', fod mwy o bobl yn anghytuno nag a oedd yn cytuno. Mae hyn o bosibl yn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o unrhyw fesurau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â'r hyn sy'n un o faterion pwysicaf ein hoes. |
| | -0.1 | I'w gadarnhau | |

Gwnaethom gynhyrchu **1,317,121 kWh** o ynni adnewyddadwy yn ystod 2022/23

(wedi cynyddu o 1, 106,902 kWh yn y flwyddyn flaenorol)

Bu gostyngiad o **5.65%** yng Nghyfanswm Defnydd Ynni (kWh) y Cyngor


o 67,694,145 kWh yn 2021/22
i 63,869,172 kWh yn 2022/23

| Dadansoddiad o Ddefnydd Ynni'r Cyngor | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2022/23 o gymharu â 2021/22 | | |
| | | | | | Cynnydd | % y newid | Sylwadau |
| **Adeiladau Annomestig** | | | | | | | |
| Defnydd (kWh) | 66,407,242 | 59,808,497 | 64,095,021 | 60,274,987 | -3,819,637 | -5.96% | Gwella |
| Allyriadau Carbon (tCO2e) | 14,443 | 12,581 | 13,026 | 11,846 | -1,180 | -9.06% | Gwella |
| **Goleuadau Stryd** | | | | | | | |
| Defnydd (kWh) | 3,925,149 | 3,875,843 | 3,599,124 | 3,594,185 | -4,939 | -0.14% | Gwella |
| Allyriadau Carbon (tCO2e) | 1,088 | 981 | 832 | 809 | -73 | -8.77 | Gwella |
| **Milltiredd Fflyd** | | | | | | | |
| Milltiredd (milltiroedd) | 5,154,668 | 4,427,070 | 4,262,681 | 4,496,754 | + 234,073 | + 5.49% | Gwaethygu |
| Diesel a Ddefnyddiwyd (litrau) | 1,419,336 | 1,267,437 | 1,320,551 | 1,327,545 | + 6,994 | + 5.28% | Gwaethygu |
| Allyriadau Carbon (tCO2e) | 3,814 | 3,407 | 3,573 | 3,584 | + 11 | + 3.08% | Gwaethygu |
| **Milltiredd busnes** | | | | | | | |
| Milltiredd (milltiroedd) | 3,971,513 | 2,251,986 | 2,511,091 | 2,775,432 | +264,341 | +10.53% | Gwaethygu |
| Allyriadau Carbon (tCO2e) | 1,132 | 621 | 693 | 745 | +69 | +9.96% | Gwaethygu |
| **CYFANSWM** | | | | | | | |
| Defnydd (kWh) | 70,332,391 | 63,684,340 | 67,694,145 | 63,869,172 | -3,824,576 | -5.65% | Gwella |
| Milltiredd (milltiroedd) | 9,126,181 | 6,679,056 | 6,773,772 | 7,272,186 | 498,414 | 7.36% | Gwaethygu |
| Ôl Troed Carbon (tCO2e) | 20,477 | 17,590 | 18,124 | 16,984 | -1,140.14 | -6.29% | Gwella |

Adroddwyd gostyngiadau sylweddol ar gyfer 2020/21 a oedd i'w priodoli i raddau helaeth i COVID-19. Er bod allyriadau o flwyddyn i flwyddyn wedi cynyddu yn 2021/22, a chynyddu ymhellach yn 2022/23, nid yw'r rhain wedi dychwelyd i'r lefelau fel yr oeddent cyn COVID-19.

**Mae adeiladau annomestig yn cynrychioli ~ 70% o'n hallyriadau a gofnodwyd.**
Ein hanes o leihau allyriadau carbon

## Perfformiad – Ôl Troed Carbon




**2016/17 – 2022/23**

**-36% $tCO_2e$**

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2022/23 vs 2021/22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cynnydd | % y newid | Sylwadau |
| Ôl Troed Carbon (tCO2e) | 20,477 | 17,590 | 18,124 | 16,984 | -1,140.14 | -6.29% | Improved |

Ers 2016/17 i 2021/22 rydym wedi lleihau ein hallyriadau carbon dros draean (-36%) (-9,558 tCO2e).

## Cynnydd yn 2022/23

### Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030

- Mae'r Panel Ymgynghorol ar Hinsawdd a'r Argyfwng Natur wedi cynnal pedwar cyfarfod.
- Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Swyddogion Datgarboneiddio fel bod modd ymgorffori Datgarboneiddio ar draws yr holl wasanaethau sydd i'w cynnig mewn Cynllun Datgarboneiddio / Carbon Sero Net newydd.
- Rydym yn cydnabod yr angen i'r ffocws fod ar draws yr awdurdod cyfan er mwyn gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ein nodau i fod yn Awdurdod Sero Net.
- Grŵp Llywio Trawsnewid: Mae Carbon Sero Net bellach i ddod o dan ymbarél y Rhaglen Drawsnewid newydd a bydd ffrwd waith wedi'i neilltuo i'r flaenoriaeth gorfforaethol allweddol hon.
  Mae diweddariadau cynnydd chwarterol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Trawsnewid.

| Archwilio Cymru Audit Wales | **Diweddariad ar Gynnydd Sicrwydd ac Asesu Risg – Lleihau Carbon (Medi 2022)** |
|---|---|

Canfyddiad cyffredinol

*Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad sefydliadol cryf i leihau carbon ac mae ganddo gynllun gweithredu cyhoeddedig, ond nid oes cost ynghlwm wrth y cynllun hwn ac nid yw'n nodi'r cyllid sydd ei angen i gyflawni'r holl weithgarwch yn y cynllun.*

| Argymhelliad Archwilio Cymru | *Ymateb Cynllun Gweithredu'r Cyngor* |
|---|---|
| *Er mwyn cyflawni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gyfrifo costau ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig* | *Mae'r Cyngor yn bwriadu cyfrifo costau ei gynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig erbyn mis Ebrill 2023.* |

Diweddariad Cynnydd

- Dyma'r Argymhelliad unigol a dderbyniodd y Cyngor gan Archwilio Cymru yn dilyn cyhoeddi eu hadroddiad 'Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030' (Gorffennaf 2022).
- Yn absenoldeb methodoleg gostio Cymru gyfan mae gan y Cyngor AMCANGYFRIFON costau drafft ar gyfer ei gynllun sero net gan weithio ar sail debyg i Awdurdod Lleol arall yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe.
- Fodd bynnag, cydnabyddir bod y amcangyfrif hwnnw'n destun lefel eang o oddefiant ac rydym yn gweithio i lunio costau cadarn £ drwy fabwysiadu'r dull canlynol:
    1. Datblygu llwybrau lleihau carbon i lunio senarios amrywiol o ran ein hallyriadau carbon gweddilliol tebygol yn 2030.
    2. I amcangyfrif y gwariant cyfatebol £ i gyflawni gostyngiadau carbon, ceisio cymorth technegol gan Bartneriaethau Lleol (drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru) i ddatblygu methodoleg gyson ar gyfer pedwar awdurdod lleol De-orllewin Cymru, ac o bosibl holl gyrff cyhoeddus Cymru.

*Mae'r Cyngor yn dangos ymrwymiad sefydliadol cryf i leihau carbon a hwn oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu sero net ac mae wedi adrodd yn flynyddol yng nghyswllt y cynllun. Yn absenoldeb canllawiau ar fodel cost nid yw'r cynllun na'r diweddariadau blynyddol wedi nodi cyfanswm cost y cynllun i gyflawni amcan sero net y Cyngor. Yn 2023 datblygodd y Cyngor fethodoleg ar gyfer amcangyfrif y gost o gyrraedd targed sero net y Cyngor erbyn 2030. Mae angen mireinio'r model ymhellach i ddarparu dull cyson ar draws awdurdodau lleol Cymru. Mae'r awdurdod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru am arweiniad wrth weithio gyda phartneriaid yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe i ddatblygu'r model.*

Mae'r cynnydd a'r dull gweithredu fel yr amlinellwyd uchod i'w ganmol ond mae graddfa'r gwariant sydd ei angen i gyflawni Carbon Sero Net yn sylweddol ac yn faes sy'n peri pryder.

- Mae 'Walk the Global Walk' yn brosiect rhyngwladol tair blynedd sy'n canolbwyntio ar ysgogi pobl ifanc i gefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Dolen Cymru Lesotho, gan gefnogi 15 ysgol gyda ffocws ar weithredu yn yr hinsawdd. Roedd y disgyblion a oedd yn llysgenhadon yn codi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd, yn arwain ar weithredoedd yn eu cymunedau ac yna'n dod at ei gilydd i rannu a dathlu eu gwaith gyda'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau yn y 'Global Walk' blynyddol.

- Rydym yn arwain yn y sector cyhoeddus gyda'n hymrwymiad i sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn chwarae ei rhan wrth gyflawni ymrwymiadau newid hinsawdd. Er mwyn cyrraedd ein targed o fod yn Garbon Sero Net erbyn 2030, mae angen gostyngiadau sylweddol yn y defnydd o ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar draws ein hystâd. Yn dilyn nifer o ymweliadau safle manwl, dadansoddi data manwl a thrafodaethau gyda deiliaid yr adeiladau sydd o fewn y cwmpas, rydym wedi gweithredu Mesurau Arbed Ynni helaeth ar draws ein cyfleusterau.

    "Mae Cam 1 wedi'i gwblhau a rhagwelir y bydd yn arbed £315,726 a 675 tunnell sy'n cyfateb i garbon (tCO2e) bob blwyddyn – mae'r arbedion hyn yn cael eu gwarantu gan Ameresco o dan Gontract Perfformiad Ynni.

    Mae gweithio gyda Ameresco wedi ein galluogi i gyflymu'r broses o gyflwyno ein rhaglen effeithlonrwydd ynni mewn modd mwy cynhwysfawr ac yn fwy cyflym nag y gellid ei gyflawni gan ddefnyddio adnoddau mewnol cyfyngedig. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu camau pellach i'n helpu i ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030."

- Technoleg 'Clyfar' ac Is-fesuryddion:
  Mae data cywir ac amserol yn hanfodol ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net. Gan fod ein hadeiladau annomestig yn cyfrif am 70% o'n hallyriadau carbon a gofnodwyd, rydym yn ehangu'r ddarpariaeth o dechnoleg 'glyfar' ac is-fesuryddion ar gyfer trydan a nwy (ynghyd â dŵr) i sicrhau bod data defnydd amserol yn cael ei gasglu. Rydym yn gosod technoleg mesuryddion clyfar ac is-fesuryddion ar gyfer trydan, nwy a dŵr i sicrhau bod data defnydd yn cael ei ddal yn amserol.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- Mesuryddion Nwy: Rydym wedi gosod mesuryddion ym mhob safle i'w cadw.
  Data Diwrnod+1 Hanner Awrol o 209 o fesuryddion yn cynnwys pob un o'r 197 o gyflenwadau ar y safleoedd sydd i'w cadw.
- Mesuryddion Trydan: Rydym wedi gosod mesuryddion ar 55% o safleoedd i'w cadw.
  Data Diwrnod+ 1 Hanner Awrol o fesuryddion yn gysylltiedig â 313 o'r 574 o gyflenwadau hysbys.
  Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy gydweithrediad rhwng ein gweithredwr rhwydwaith dosbarthu, National Grid (Western Power Distribution gynt) a'n cyflenwr trydan EDF Energy. Er bod cynnydd wedi'i ohirio oherwydd materion staffio EDF, mae cynnydd mewn uwchraddio mesuryddion trydan bellach ar y gweill.
- ! Mesuryddion Dŵr: Rydym wedi gosod 1% o fesuryddion.
  Data Diwrnod+1 Chwarter Awrol o 4 o'r 336 o gyflenwadau sy'n hysbys.
  Mae gwaith cychwynnol ar y gweill gyda Dŵr Cymru i gadarnhau lleoliad presennol y mesurydd.
  Mae cyfyngiadau capasiti staff yn gohirio cyflwyno cofnodwyr data dŵr nes bod y rhaglen uwchraddio mesuryddion trydan wedi'i chwblhau.

- Mae data hanner awrol a chwarter awrol o'r mesuryddion uwch hyn yn cael ei fewnforio bob dydd i'n system meddalwedd rheoli ynni SystemsLink i ddarparu gwell cywirdeb data a fydd yn ein galluogi i adnabod cyfleoedd defnydd ac arbed carbon yn well yn ein hadeiladau annomestig a'n seilwaith goleuadau stryd.

- Mae'r Gwasanaethau Gwastraff wedi gweithredu'r tri cherbyd casglu sbwriel trydan 26t cyntaf ac maent bellach yn rhan o'n fflyd casglu sbwriel rheng flaen. Nid ydym ar y trywydd iawn i dderbyn 33 o gerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) erbyn 2024. Mae hyn oherwydd trwy ymgysylltu â'r farchnad wrth baratoi ar gyfer y broses o gaffael y cerbydau newydd sy'n ofynnol i gyflwyno ail gam y strategaeth wastraff a elwir yn ddidoli o dŷ i dŷ, daeth i'r amlwg bod yna oedi yn yr amseroedd arwain caffael.


- Rydym yn cydnabod yr angen i'r ffocws fod ar draws yr awdurdod cyfan er mwyn gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni ein nodau i fod yn Awdurdod Sero Net.

**Capasiti (mewn MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd - Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 12.**

Mae'r data a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod gan Sir Gaerfyrddin y 3ydd Capasiti Uchaf (mewn MW) o gyfarpar ynni adnewyddadwy wedi'i osod (Trydan a Gwres) sef 321 MW a'r 2il nifer uchaf o brosiectau, sef 6,439 (1af Powys - 7,384)

| | Nifer y prosiectau | Capasiti trydanol (Mwe) | Gallu Gwres (MWth) |
|---|---|---|---|
| Anaerobig | 2 | 1 | 0 |
| Biomas | 508 | 0 | 45 |
| Ynni o Wastraff | 0 | 0 | 0 |
| Biomas trydan a gwres a phŵer cyfun | 0 | 0 | 0 |
| Pwmp Gwres | 1007 | 0 | 11 |
| Ynni dŵr | 14 | 6 | 0 |
| Nwy Tirlenwi | 1 | 2 | 0 |
| Niwclear | 0 | 0 | 0 |
| Gwynt ar y môr | 0 | 0 | 0 |
| Gwynt ar y tir | 113 | 145 | 0 |
| Nwy carthffosiaeth | 0 | 0 | 0 |
| Solar PV | 4491 | 110 | 0 |
| Solar thermol | 303 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 6439 | 264 | 57 |

**Gallu (mewn MW) o offer ynni adnewyddadwy wedi'i osod (Electric a Gwres)**
**(Stats Ffynhonnell)**




## Hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy a datgarboneiddio ein stoc dai

- Ein nod yw gwneud ein cartrefi i gyd yn rhai ynni-effeithlon a chyflawni sgôr perfformiad ynni Band C o leiaf cyn gynted â phosibl. Mae dros 30% o'n cartrefi eisoes wedi cyrraedd y safon hon. Bydd buddsoddiad yn y dyfodol yn ein cartrefi presennol yn seiliedig ar ddefnyddio dull Fabric First sy'n gwella perfformiad thermol ein cartrefi a chyflwyno systemau gwresogi nad ydynt yn rhai tanwydd ffosil. Bydd y dull hwn yn hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy i'n tenantiaid.
- Mae ein tai Cyngor newydd yn croesawu datgarboneiddio. Mae ein tai yn effeithlon o ran ynni, wedi'u hinswleiddio'n dda; mae ganddynt y technolegau arloesol diweddaraf ac maent yn cefnogi egwyddorion Carbon Sero Net y Cyngor. Byddant yn helpu i leihau ein hallyriadau carbon 70% ar gyfartaledd ac yn creu cynhesrwydd fforddiadwy i denantiaid gan dyfu'r economi werdd a chreu cymunedau cynaliadwy.

- Mae pum safle posibl â blaenoriaeth wedi'u nodi ar gyfer y posibilrwydd o ddatblygu ynni adnewyddadwy. Rydym yn cydweithio â'r Grid Cenedlaethol fel rhan o broses Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Gaerfyrddin gyda'r nod o sicrhau cyllid gan Ofgem i wella'r Grid lleol.

### Yr Argyfwng Natur

- Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng natur ac mae gennym Banel Ymgynghorol ar Newid yn yr Hinsawdd ac Argyfwng Natur i fynd i'r afael â'r mater hwn.
  Rydym yn cyflwyno sawl prosiect i sicrhau adferiad natur:
  - ✓ Rydym wedi mabwysiadu 21 o safleoedd ar ein hystâd i dreialu ffordd newydd o reoli tir ar gyfer pryfed peillio
  - ✓ Rydym wedi creu gardd bywyd gwyllt newydd yn y Drindod Dewi Sant,
  - ✓ Gwella nifer o gynefinoedd bywyd gwyllt yn yr ardal hon, pyllau, glaswelltir a phlannu coetir yn ardal Cei Cydweli
  - ✓ Rydym wedi bod yn plannu coed ac yn creu mynediad newydd ar ein tir ar faes Chwaraeon Tre-gib er mwyn gwella mynediad i Warchodfa Coed Cadw
  - ✓ Mae gennym Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i weithio gyda thîm amlddisgyblaethol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ac i elwa o'u cyfleusterau ar gyfer hyfforddiant a digwyddiadau. Rydym wedi cyflwyno ein digwyddiad cyntaf gyda Chyrff Sector Cyhoeddus i annog ceisiadau LP4 N newydd trwy gynnal sesiwn hyfforddi.

<table>
<tr><td>Yn 2022/23,<br><br>cafodd 769 o goed eu torri</td><td rowspan="2">Mae hyn yn golygu ein bod wedi plannu 7,911 yn fwy o goed nag a gafodd eu torri yn 2022/23</td></tr>
<tr><td>Yn 2022/23,<br><br>cafodd 8,680 o goed eu plannu</td></tr>
</table>

- <u>Cynlluniau Meithrinfa Goed yn ein Canolfannau Dydd</u> - Mae cynlluniau wedi'u creu gan Dîm Cadwraeth y Cyngor, gyda chymorth yr Ardd Fotaneg, ar gyfer Meithrinfa Goed a thiroedd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt i gael ei datblygu yng Nghanolfan Ddydd Tre Ioan. Gyda chymorth ariannol o'r cynllun ariannu 'Lleoedd ar gyfer Natur', bydd yr ardd yn cynnwys ardal dyfu awyr agored hygyrch a gardd synhwyraidd, gardd goetiroedd, gardd gors, dolydd a pherllan. Er bod y prosiect yn cael ei gynnal yng nghanolfan Tre Ioan, bydd yn cynnwys yr holl wasanaethau dydd drwy gasglu a phlannu hadau brodorol. Mae yna gynlluniau hefyd ar y gweill i gynnal prosiect tebyg yng Nghanolfan Ddydd Ffordd y Faenor. Bydd yr ardd nid yn unig yn gwella bioamrywiaeth yr ardal, ond bydd hefyd yn ofod diogel a hygyrch i bawb ei fwynhau.

- Plannu Coed - Er mwyn helpu i wella amgylchedd y Sir a chynyddu bioamrywiaeth, trefnodd Tîm Cadwraeth Wledig ac Adran Eiddo y Cyngor i blannu dros 8,000 o goed llydanddail brodorol i greu 4.5 hectar o goetir newydd ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn Nhre-gib (Llandeilo), Pendre (Cydweli) a Maesdewi (Llandybïe). Cynhaliwyd diwrnodau plannu cymunedol, gan gynnwys diwrnod ar gyfer disgyblion o Ysgol Gynradd Llandybïe, ar ddau o'r safleoedd.
  Wrth i goed dyfu a ffotosyntheseiddio, byddant yn gwaredu allyriadau carbon o'r atmosffer. Bydd y coetiroedd newydd hyn yn gynefinoedd newydd i fywyd gwyllt ac felly'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur ac yn dod yn fannau lle gall pobl fwynhau byd natur.

O ganlyniad i'r angen i ail-leoli'r llwybr teithio llesol sy'n rhedeg rhwng Sanclêr Isaf a Sanclêr, prynodd Cyngor Sir Caerfyrddin gae 10 erw. Mae Teithio Llesol wedi gosod llwybr newydd, i ffwrdd o'r afon ac mae'r tir sy'n weddill bellach yn cael ei reoli ar gyfer cadwraeth natur. Crëwyd corff dŵr bas a phlannwyd 150 o goed gyda chymorth ENRAW a Coed Cadw, ac rydym yn ailgyflwyno pori ar ddôl y gorlifdir. Ymhen amser, rydym yn bwriadu cynnig i CNC fod yr ardal hon yn cael ei dynodi'n Warchodfa Natur Leol newydd.




Maes Chwaraeon a thir pori Tre-gib - gyda Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a rhywfaint o gymorth grant ENRAW rydym wedi plannu grwpiau bach unigol o goed ar y maes chwaraeon, ac rydym wedi defnyddio grant Creu Coetir Tir Glas i blannu coetir 2.5ha ar dir a borwyd yn flaenorol. Bydd y glaswelltir cyforiog o rywogaethau yn cael ei reoli fel dôl. Mae'r coetir newydd a blannwyd yn cysylltu â gwarchodfa Coed Cadw Coed Tre-gib gan ymestyn yr ardal goetir hon, a chyda'r cymorth grant rydym yn darparu llwybr oddi ar y ffordd a phont droed newydd i wella mynediad o Ffair-fach i'r warchodfa hon. Mae rhywfaint o'r llwybr hwn yn addas ar gyfer sgwteri symudedd, gan ddarparu mynediad mawr ei angen i gefn gwlad i'r rheiny sydd â symudedd cyfyngedig.

- Pryfed Peillio - Dros nifer o flynyddoedd, ar draws Prydain, bu dirywiad enfawr mewn pryfed sy'n peillio blodau gwyllt a chnydau sef pryfed peillio. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd o reoli glaswelltir a fydd yn ei wneud yn gyfoethocach mewn blodau gwyllt ac yn fwy deniadol i bryfed peillio. Yn syml, trwy dorri'n llai aml, gall blodau sydd eisoes yn tyfu yn y glaswellt flodeuo a chynnal pryfed hefyd. Nid oes angen hau hadau blodau gwyllt. Yr haf diwethaf, arbrofodd y Cyngor gyda'r dull newydd hwn, a chafodd groeso mawr gan drigolion a oedd wedi mwynhau gweld y glaswelltiroedd yn drwch o flodau.

### Rheoli perygl llifogydd

- Er na fu unrhyw ddigwyddiadau llifogydd sylweddol eleni, rydym yn gwella wrth gasglu data. O'r herwydd mae'r niferoedd wedi cynyddu. Yn 2022/23 cawsom 223 o adroddiadau o achosion o lifogydd, i fyny o 158 yn 2021/22.




Yn 2022/23, gwnaethom wahanu achosion o lifogydd oddi wrth ymholiadau a chofnodi 48 y llynedd.




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Ym mis Hydref 2022 gwnaethom gwblhau a chyhoeddi ein hadroddiad ymchwilio i lifogydd Hydref 2021 yng Nghydweli sydd ar gael ar-lein yma. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cynllun gweithredu 28 pwynt, y mae dros 70% ohono wedi'i gyflawni.

Yn ôl canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23, roedd 49% o ymatebwyr Sir Gaerfyrddin yn pryderu am lifogydd yn eu hardal leol, a 16% gyda llifogydd yn eu heiddo eu hunain.

## Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol - Rheoli Asedau




- Rydym wedi cwblhau 399 o arolygiadau asedau ffurfiol, o gymharu â'r 280 y flwyddyn flaenorol. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr asedau presennol yn cydymffurfio â'r safonau ac yn cael eu cynnal yn unol â hynny.
- Yn 2023 gwnaethom barhau â'n rhaglen teledu cylch cyfyng gyda'r nod o fapio draeniad tanddaearol mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd; draeniad nad oes gennym unrhyw ddata arno neu ddata anghywir. Yn 2022/23 gwnaethom arolygu dros 8km o ddraenio sydd wedi'i gofnodi ar ein cronfa ddata asedau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol.

## Gwaith Cyfalaf Llifogydd

- Yn 2022/23 gwnaethom sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 12 cynllun gwerth dros £1 miliwn. Gwnaethom gyflawni tri chynllun sef:
  - ✓ Uwchraddio 1 ased amddiffyn llifogydd allweddol yn Dre-fach, y sgrin sbwriel.
  - ✓ Uwchraddio dau allfa dŵr wyneb allweddol ar Draeth Llansteffan a Glanyfferi.
  - ✓ Gwnaethom hefyd ddarparu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol ar Stryd Marged, Rhydaman gyda £137k o gyllid Llywodraeth Cymru.
- Amcangyfrifir bod y 4 cynllun uchod yn darparu budd lleihau llifogydd i 112 o eiddo preswyl ac 13 o eiddo busnes.
- Rydym wedi gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid rheoli perygl llifogydd i Lanybydder a Llandysul.
- Rydym wedi cwblhau'r dyluniad manwl ar gyfer cwlfer newydd yn Cware Ffinnant yng Nghastellnewydd Emlyn.
- Rydym wedi sicrhau £1.35 miliwn arall mewn cyllid grant i ddatblygu achosion busnes Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol a gwaith adeiladu cyfalaf ar gyfer 2023/24.

## Cynigion i leihau llifogydd mewn ardaloedd uchel eu heffaith

Mae cymunedau Llandysul a Phont-tyweli, a Llanybydder wedi bod yn destun nifer o ddigwyddiadau llifogydd dinistriol, gan gynnwys Storm Callum yn 2018 pan effeithiwyd ar nifer o eiddo preswyl a masnachol, a chau ffyrdd. Yn dilyn y digwyddiad arwyddocaol hwn, mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall yn well y prosesau llifogydd yn y lleoliadau hyn ac asesu gwahanol opsiynau rheoli perygl llifogydd.



Ym mis Awst 2022 cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn lleoliadau yn y ddwy gymuned i gasglu gwybodaeth leol am hanes a phrosesau llifogydd a chasglu adborth ar opsiynau rheoli perygl llifogydd posibl a nodwyd gan y gwaith hyd yma.
Cynhaliodd swyddogion o Dîm Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir Sir Gaerfyrddin y digwyddiadau ymgynghori, gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion a CNC. Daeth llawer o bobl i'r ddau ddigwyddiad gyda chyfanswm o tua 60 o bobl yn cyfrannu at y trafodaethau, gan ddarparu gwybodaeth leol am hanes a phrosesau llifogydd, a rhoi sylwadau ar ddatrysiadau posibl. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i ddilysu a gwella'r modelau llifogydd a ddatblygwyd fel rhan o'r gwaith, sydd yn eu tro wedi'u defnyddio i asesu'r safonau diogelwch a ddarperir gan yr opsiynau rheoli perygl llifogydd arfaethedig.
Felly, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a mewnbwn wedi ffurfio rhan annatod o ddatblygiad y cynlluniau hyn ac wedi darparu cyfeiriad a chymhelliant ar gyfer y camau nesaf.
Ar hyn o bryd mae'r gwaith hwn yn cwblhau 2 Achos Busnes Amlinellol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i lywio a chyfarwyddo cam nesaf y gwaith. Sicrhawyd cyllid i symud y ddau gynllun ymlaen (yn amodol ar gymeradwyo'r Achosion Busnes Amlinellol) i'r cam nesaf, sef Dylunio Manwl ac Achos Busnes Llawn.

## Ymgynghoriad Perygl Llifogydd gyda Chymuned Llangennech

Ar 19 Ebrill gwnaethom gynnal digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yng Nghanolfan Gymunedol Llangennech. Mae'r Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir wedi bod yn gweithio i ddatblygu gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn Llangennech ac i ddatblygu opsiynau lliniaru posibl. Rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle inni drafod â'r gymuned ynghylch problemau llifogydd lleol, yn ogystal â chyflwyno ein hopsiynau cychwynnol ar gyfer rheoli risgiau penodol. Roedd nifer dda wedi dod i'r digwyddiad a chafwyd trafodaeth ddefnyddiol. Gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol lenwi holiaduron yn ymwneud â llifogydd yn y gorffennol a rhoi adborth a syniadau ynghylch atebion posibl i reoli perygl llifogydd. Defnyddir y data a'r wybodaeth a gesglir i lywio cam nesaf y gwaith.





Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

### Caniatáu a Chydsynio

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Ceisiadau Llawn i'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) | 113 | 116 |
| Ymholiadau cyn ymgeisio 'Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB)' | 0 | 59 |

- Gwnaethom ddarparu sylwadau a chyngor ar 621 o ymgynghoriadau cynllunio.
- Cyflwyno rhaglen o wiriadau cydymffurfio lle mae 222 o ddatblygiadau wedi'u gwirio i weld a ydynt yn cydymffurfio â gofynion SAB, roedd yna gyfradd gydymffurfio o 99%.
- Rydym wedi pennu 100% o'r holl Gydsyniadau Amddiffyn rhag Llifogydd o fewn yr amserlen statudol.

### Arfordirol

- Gwnaethom gynnal archwiliadau cyn ac ar ôl storm o'n hasedau arfordirol drwy gydol y gaeaf.
- Gwnaethom arolygu 100% o'n hasedau arfordirol yn ffurfiol dros y flwyddyn.
- Rydym wedi atgyweirio 8 o gymhorthion mordwyo o Lansteffan i Lanelli.
- Rydym yn cydweithio â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i reoli amddiffynfa arfordirol breifat ym Mhen-bre.
- Rydym wedi cydweithio ar draws gwasanaethau'r Cyngor i reoli'r llwybr arfordirol sy'n erydu.
- Rydym wedi cydweithio â Hamdden a Dylunio Peirianegol ar y materion erydu arfordirol ym Mharc Gwledig Pen-bre a Dwyrain Porth Tywyn.
- Rydym yn cael arolygon arfordirol i fonitro sut mae ein harfordir yn ymateb i newid yn yr hinsawdd.

### Cronfeydd

- Buom yn gweithio gyda'r contractwyr fframwaith Griffiths i wneud gwaith uwchraddio sylweddol i Gronfa Ddŵr Trebeddrod yn Llanelli gan gynnwys atgyweiriadau i'r arglawdd a gwaith gosod ar seiffon.
- Mae ein gweithlu ein hunain hefyd wedi bod yn allweddol wrth helpu i wneud mân atgyweiriadau yng Nghronfeydd Dŵr Trebeddrod a Chwmoernant.
- Rydym wedi sefydlu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r tîm Cynnal a Chadw Tiroedd i sicrhau bod ein holl gronfeydd dŵr yn cael eu rheoli yn ôl gofynion Deddf Cronfeydd Dŵr 1949.
- Rydym hefyd wedi sefydlu rhaglen o reoli rhywogaethau ymledol ym mhob safle.
- Rydym wedi goruchwylio'r arolygiadau blynyddol o'n cronfeydd dŵr a wnaed gan y Peirianwyr Goruchwylio ac wedi gweithredu eu camau gweithredu yn unol â hynny.

**Canolfan Ddysg Caerfyrddin**

Yn ddiweddar, cwblhawyd gwaith yng Nghanolfan Ddysg Caerfyrddin er mwyn ei gwneud yn fwy effeithlon o ran ynni a sicrhau lleihad o 76% yn ei hallyriadau carbon. Mae mesurau ôl-osod sy'n cynnwys insiwleiddio waliau ceudod, ffenestri gwydr dwbl, a gwelliannau i doeau wedi'u gweithredu er mwyn cadw mwy o wres yn yr adeilad. Nid yw'r Ganolfan Ddysg bellach yn ddibynnol ar gyflenwad nwy gan fod Paneli Haul a Phwmp Gwres o'r Awyr yn darparu ynni a gwres i'r adeilad. Mae goleuadau LED effeithlon o ran ynni hefyd wedi'u gosod.
Nid yn unig y mae'r gwaith uwchraddio wedi lleihau'r effaith yr adeilad ar yr amgylchedd, mae hefyd wedi gwella'r cysur a'r profiad i'r rhai sy'n gweithio ac yn dysgu yn yr adeilad.

## Rhoi arweiniad ar ffosffadau



Yn gynnar yn 2021 cyhoeddodd CNC dystiolaeth o lefelau ffosffad gormodol mewn ardaloedd cadwraeth arbennig afonol (ACA). Roedd yna oblygiadau pellgyrhaeddol i awdurdodau, datblygwyr a chymunedau cymwys. Ymatebodd y Cyngor i'r her newydd hon trwy ffyrdd cydweithredol newydd o weithio. Mae deddfwriaeth amgylcheddol sy'n sail i gadwraeth cynefinoedd mewn afonydd ACA yn gofyn am ddull 'afon gyfan' sy'n golygu bod angen cynlluniau gweithredu sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau awdurdodau. Gan gydweithio'n agos â chynghorau Sir Benfro a Cheredigion, gwnaethom greu swydd newydd sef Rheolwr Rhaglen Byrddau Rheoli Maetholion i sefydlu Byrddau Rheoli Maetholion a chydlynu gweithgareddau ar draws ffiniau awdurdodau lleol mewn cydweithrediad â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r Cyngor wedi cydweithio'n agos â CNC i wneud canllawiau'n fwy eglur, ac wedi gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru, CNC, awdurdodau lleol isranbarthol ac arbenigwyr pwnc allanol i lunio adnoddau maethol ac maent wrthi'n helpu i baratoi'r cyfrifydd maetholion cyntaf ar gyfer Cymru gyfan.  Gwnaeth y Cyngor feithrin cysylltiadau isranbarthol agos i ehangu adnoddau'r Cyngor gan gynhyrchu cyfrifydd maetholion a dogfennau ategol Gorllewin Cymru, Mesurau Lliniaru penodol i ddalgylch Gorllewin Cymru, ac Astudiaeth o Ddichonoldeb Masnachu Maetholion ranbarthol mewn cydweithrediad â Sir Benfro, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.  Rydym ni a Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Rheoli Maetholion yn cydweithio'n agos ag ystod o randdeiliaid ac yn darparu mewnbwn Awdurdodau Lleol i Lywodraeth Cymru ar Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a Grwpiau Gweithredu sy'n gysylltiedig â maetholion.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o'r Llywodraethu Corfforaethol, ac mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol.

Mae Cynlluniau Busnes/Cynlluniau Cyflawni yn cael eu datblygu a'u hadrodd yn y Pwyllgor Craffu. Caiff y camau gweithredu eu monitro trwy gyfrwng PIMS gan yr adran a chan y Pwyllgor.

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn darparu awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ar gyfer swyddogaethau cynllunio penodol [part-32-revised-council-9th-feb-2022.pdf (gov.wales)]. Mae swyddogion yn cael eu dirprwyo i ymgymryd â gweithgareddau allweddol sy'n briodol i'w rôl gan y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor fodloni gofynion adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon sero net yn unol â [Chanllaw sector cyhoeddus ar gyfer adrodd ar garbon sero net | GOV. CYMRU]

Mae'r Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol ar gynnydd o ran cyflawni'r cynllun gweithredu sero net, sy'n cael ei ystyried gan y Panel Ymgynghorol ar Newid Hinsawdd a Natur, y Cabinet, y pwyllgor craffu a'r cyngor.

Mae'r Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol ar y cynnydd o ran cyflawni rhwymedigaeth bioamrywiaeth adran 6 Deddf yr Amgylchedd bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Caiff hwn ei ystyried gan y Cabinet, y Panel Ymgynghorol ar Newid Hinsawdd a Natur, y Pwyllgor Craffu a'r Cyngor.

Mae gan yr Adran ei HWB monitro perfformiad byw ei hun sef ARCUS, sy'n darparu adroddiadau amser real ar swyddogaethau cynllunio at ddibenion rheoli lleol.

Caiff adolygiadau rheoli perfformiad eu cynnal gan reolwyr llinell gan defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol.

Cynhelir adolygiadau'r Bwrdd Trawsnewid ar feysydd o'r swyddogaeth a chânt eu hadrodd wrth Bennaeth y Gwasanaeth, caiff argymhellion sy'n deillio o adroddiadau eu hadrodd a chaiff cynnydd ei fonitro drwy'r system PIMS.

# 3c - Blaenoriaeth Thematig - Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

**Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022 yn dangos gostyngiad pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, i lawr i 39.9% o'r boblogaeth, sy'n cyfateb i 72,838 o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae Fforwm Strategaeth Gymraeg y Sir yn datblygu dulliau cydweithredu rhagorol ac wedi cydweithio i gynhyrchu Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg newydd ar y cyd. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu ei ethos a'i ddiwylliant o ran y defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae Sir Gaerfyrddin yn gadarnle ar gyfer y Gymraeg ac ystyrir bod y sir o bwysigrwydd strategol mawr i ddyfodol yr iaith. Mae dwyieithrwydd o fudd i'r economi ac i unigolion drwy fuddion gwybyddol a chymdeithasol. Byddwn yn gweithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chefnogi'r defnydd rheolaidd o'r iaith ar draws pob agwedd ar ein bywydau bob dydd.
- Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda. Rydym am i genedlaethau'r dyfodol gael eu trochi mewn Diwylliant Sir Gâr sy'n gryf, yn ddiddorol ac yn gwbl unigryw, ac sy'n adlewyrchu ein gorffennol ac yn llunio ein dyfodol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesur Cynnydd


Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad sy'n cael eu monitro ar gyfer blaenoriaeth thematig Y Gymraeg a Diwylliant Cymru.


| Dangosyddion Poblogaeth | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Tuedd** | **Esbonio'r Data** |
| **Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg** |  | **Mae niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y Sir wedi gostwng**<br><br>***Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 ac mae'n dangos tuedd sy'n gostwng.***<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin yn gartref i 72,838 o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 39.9% o gyfanswm poblogaeth y Sir, mae hyn yn ostyngiad o 5,210 ers y Cyfrifiad diwethaf yn 2011, sy'n cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 4.0%. Dyma'r gostyngiad mwyaf fel pwynt canran o blith holl awdurdodau lleol Cymru.<br>Yn 2001 a 2011, Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru, gydag 84,196 o siaradwyr Cymraeg yn 2001 a 78,048 o siaradwyr Cymraeg yn 2011. Mae'r ffigurau newydd hyn yn golygu bod gan y sir bellach y nifer ail uchaf o siaradwyr Cymraeg o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Sir Gaerfyrddin yw'r pedwerydd uchaf o hyd o ran canran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg. |

<table>
<tr><td>Nifer y rhai 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg</td><td colspan="2"></td><td>Gostyngiadau llai sylweddol ymhlith y grŵp oedran iau o gymharu â grwpiau oedran eraill<br><br>Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 ac mae'n dangos tuedd sy'n gostwng.<br><br>Gwelodd pob awdurdod lleol ostyngiad yng nghanran y plant, rhwng 3 a 15 oed, y nodwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021.<br>Ar lefel genedlaethol, credir bod y gostyngiad yn nifer a chanran y bobl, yn dair oed neu'n hŷn, sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei yrru'n bennaf gan gwymp ymhlith plant a phobl ifanc a ddywedodd eu bod yn medru'r Gymraeg.<br>Yn Sir Gaerfyrddin mae gostyngiad o 510 o bobl wedi bod yn y nifer rhwng 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad pwynt canran o 2.6.<br>Roedd gostyngiadau hefyd i'w gweld yn y categorïau oedran 16-64 a 65+, er ar lefelau mwy sylweddol na'r grŵp oedran iau.  I ehangu, mae'r dirywiad yn y rheiny sydd dros 65 oed ac sy'n gallu siarad Cymraeg yn cyfateb i ostyngiad pwynt canran o 8.7.</td></tr>
<tr><td>% y bobl (16+) sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn</td><td colspan="2"></td><td>Gostyngiad mewn presenoldeb/cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth yn debygol o ganlyniad i gyfyngiadau Covid<br><br>Mae'r llinell duedd gyferbyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017/18 a 2019/20.<br><br>Mae bod yn bresennol a/neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth yn gysylltiedig â gwell iechyd a llesiant yn gyffredinol. Mae digwyddiadau o'r fath hefyd yn sail i greu ymdeimlad o le a hunaniaeth genedlaethol.<br><br>Er ei bod yn siomedig gweld bod lefelau presenoldeb a chyfranogiad wedi gostwng yn y sir, mae'n bwysig nodi bod cyfnod casglu'r data yn cyd-daro â'r pandemig ac felly mae'n bosibl bod y cyfyngiadau symud wedi effeithio'n andwyol ar bresenoldeb a chyfranogiad.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mesur Perfformiad</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Mae’n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a’i hamddiffyn.</td><td>2022</td><td>2023</td><td rowspan="2">Yn ein harolwg trigolion yn 2022, cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr ei bod yn bwysig hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg gyda sgôr mynegai o 0.69 ar gyfartaledd.</td></tr>
<tr><td>0.69</td><td>I'w gadarnhau</td></tr>
</table>



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council




- Cafwyd bron i **516,000 o ymweliadau rhithwir neu ymweliadau go iawn â'n llyfrgelloedd*(LCL/001)*** yn ystod 2022/23, mae hyn yn cyfateb i 2,710 fesul 1,000 o'r boblogaeth, mae hyn yn dangos gwelliant ers y llynedd (1,614 neu 307,000 o ymweliadau). Er gwaethaf y gwelliant, mae hyn 64% yn is nag yr oedd cyn COVID (2019/20) gyda 1.4m o ymweliadau. Gyda gostyngiad o 85% mewn ymweliadau go iawn, ond cynnydd o 45% mewn ymweliadau rhithwir. Mae ffigurau ymwelwyr corfforol yn cynyddu'n raddol wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, gydag amrywiol weithgareddau oedolion a phlant yn digwydd yn ystod y flwyddyn gydag arddangosfeydd amrywiol, her ddarllen yr haf, lansio Clwb Croeso Cynnes y Gaeaf, sgyrsiau hanes lleol wythnosol, ymweliadau gan gantorion ac awduron, profiad Makerspace, sesiynau crefft plant, gweithdai gwyddoniaeth a barddoniaeth, dosbarthiadau cadw'n heini, gweithdai drama, sioeau hud a cherddoriaeth / sesiynau rhigwm, i enwi ond ychydig. Mae cwsmeriaid hefyd yn parhau i ddefnyddio ein hadnoddau digidol rhad ac am ddim, gyda chwsmeriaid yn elwa ar ein hystod o e-lyfrau digidol, e-lyfrau llafar, papurau newydd, cylchgronau ac apiau hyfforddi.

## Cynnydd yn 2022/23

**Yr Iaith Gymraeg**

- Ar 7 Rhagfyr 2022, cymerom ran yn Niwrnod Cenedlaethol Hawliau'r Gymraeg, a hwyluswyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ffocws y diwrnod oedd hyrwyddo hawliau ymhlith pobl ifanc; felly gwnaethom hyrwyddo ein cyfleoedd gyrfa a gweithle i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd a cholegau ledled y sir. Gwnaethom hefyd weithio'n agos gyda'r Cynllun Profi, i hyrwyddo cefnogaeth ac arweiniad trw gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc ar eu taith o'r ysgol i'r gweithle.




- Yn ystod 2022/23 rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar Recriwtio a sut yr ydym yn ystyried y Gymraeg fel rhan o'n polisïau a'n gweithdrefnau. Roedd hyn yn rhan o adolygiad thematig cenedlaethol ac rydym yn aros am adborth pellach yn ystod 2023/24.
- Mae Fforwm Strategol y Gymraeg wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd gyda ffocws clir ar werthuso ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg gyntaf a pharatoi strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2023/28. Fel rhan o'r gwerthusiad o'r strategaeth gyntaf, cymerodd aelodau'r Fforwm Strategol ran mewn gweithdai i edrych ar feysydd llwyddiant a gwella ac i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2023/28.
- Gwnaethom barhau â'r prosiect 'Iaith ein Gwaith', sy'n cefnogi'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant i symud ar hyd y daith tuag at weinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg. Un elfen o'r prosiect yw gweithio gyda Phrifysgol Bangor, drwy'r rhaglen ARFer, sy'n cefnogi staff i gynyddu eu defnydd o'r Iaith yn ddyddiol. Cymerodd chwe grŵp o'r adran ran mewn prosiect peilot trwy gyfrwng ARFer a byddwn yn ailymweld â'r grwpiau hyn ym mis Medi 2023. Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi bod yn diweddaru'r wybodaeth archwilio sgiliau iaith sydd gennym ar gael i'r adran, er mwyn sefydlu llinell sylfaen data.
- Fel rhan o Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg, buom yn gweithio'n agos gyda Menter Cwm Gwendraeth Elli yn ystod y flwyddyn i helpu gyda sefyllfa fregus y Gymraeg yn Llanelli. Mewn partneriaeth â'r Fenter, sefydlwyd grŵp gweithredu i drafod posibiliadau yn Llanelli a lluniodd y Cyngor holiadur SNAP i'r Fenter ei weinyddu, er mwyn darganfod mwy am gyfleoedd a rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg yn Llanelli. Mae Catrin Llwyd wedi paratoi adroddiad manwl i ddadansoddi'r holiaduron a gwneud rhagor o waith ymgynghori i lunio argymhellion fyddai'n sail i flaenoriaethau ar gyfer y grŵp gweithredu.
- Un o'r prosiectau o dan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, yw'r gronfa 'Iaith Gwaith' a arweinir gan y Cyngor Sir. Mae Iaith Gwaith yn darparu grantiau o hyd at £3,000 i gefnogi busnesau a sefydliadau cymunedol i godi proffil y Gymraeg. Roedd y grantiau hyn yn unol â darpariaeth 'Helo Blod' Llywodraeth Cymru, gyda'r ddau swyddog yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu hannog i hyrwyddo'r grantiau fel rhan o becyn cymorth ehangach i ddarparu'n ddwyieithog. Gyda phrosiect 'Helo Blod' yn dod i ben, mae rhaglen Iaith Gwaith yn mynd i gaffael gwasanaeth tebyg, er mwyn sicrhau sesiynau cymorth pellach ar sail un i un i bawb sy'n llwyddo i gael grant Iaith Gwaith.

**Diwylliant Cymru**




- Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin wedi elwa o fuddsoddiad cyfalaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Eleni bydd y prosiect mwyaf uchelgeisiol ohonynt i gyd yn cael ei gwblhau, sef yr Amgueddfa Cyflymder newydd ym Mhentywyn. Wedi'i lleoli mewn cyrchfan sy'n cynnig cyfleusterau ymwelwyr hygyrch o ansawdd uchel, bydd yr amgueddfa yn newid o'r hyn a fu unwaith yn gyfleuster arddangos tymhorol i fod yn un o lond llaw yn unig o amgueddfeydd modern pwrpasol yng Nghymru sy'n bodloni'r safonau uchel o ran dyluniad, diogelwch, cynaliadwyedd amgylcheddol a mynediad i ymwelwyr. Mae cynllun llawn i adfer ardal allanol Amgueddfa Sir Gaerfyrddin hefyd wedi cael ei gwblhau. Rhannwyd y buddsoddiad o £1.2m rhwng Amgueddfa Sir Gaerfyrddin ac Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn. Mae Amgueddfa Parc Howard wedi elwa o fuddsoddiad cyfalaf i wneud yr adeilad eiconig yn ddiddos rhag y glaw ac i uwchraddio'r holl systemau trydanol. Mae prif fannau cyhoeddus a siopau'r amgueddfa, sy'n adeilad rhestredig gradd 2 a addaswyd i'w ddefnyddio fel amgueddfa ym 1912, wedi cael eu hadnewyddu mewn modd sensitif.
- Agorwyd ystorfa archif a chanolfan wybodaeth newydd gwerth £2.2M i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf 2022. Mae'n gartref i gasgliad helaeth o ddogfennau hanesyddol sy'n dyddio o'r 13eg ganrif hyd heddiw. Cafodd y cyngor gyllid o £120,000 gan Gynllun Grant Cyfalaf Trawsnewid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfleuster newydd.
- Mae ein llyfrgelloedd yn cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau dros y flwyddyn. Cynhaliom nifer o arddangosfeydd gan gynnwys Arddangosfa Brwydr Prydain, Arddangosfa'r Beibl ac Arddangosfa Rygbi'r Scarlets.
- Cynhaliwyd ymweliadau gan awduron mewn sawl llyfrgell ynghyd â gweithdai barddoniaeth a sesiynau crefft.
- Mae sesiynau Makerspace yn parhau i fod yn boblogaidd gyda chwsmeriaid sy'n mynd i weithdai Argraffu 3D, sesiynau Gêmio a Gweithdai Animeiddio.



Awdur John Nicholl
(*Carmarthen Murders* a *Tywi Estuary Killings)*

- Trwy gydol misoedd y gaeaf cynhaliom 'Clwb Croeso Cynnes y Gaeaf' gan gynnig lle diogel i'n cwsmeriaid gymdeithasu, cael paned, cadw'n gynnes a mwynhau rhai o'r sesiynau am ddim a gynhaliwyd gennym gan gynnwys sesiynau cymorth digidol, clwb llyfrau, grŵp gwau, sesiynau cerddoriaeth a gemau bwrdd. Parhaodd partneriaethau gwaith gyda sefydliadau - ailddechreuodd Hamdden Actif sesiynau Amser Stori Actif, cynhaliodd y Mudiad Meithrin y sesiynau Cymraeg i Blant yn ein llyfrgelloedd.
- Mae Sir Gaerfyrddin wedi prynu casgliadau ychwanegol o eLyfrau / eLyfrau Llafar i ateb y galw cynyddol ac aelodaeth newydd.



- Mae llyfrgell hunanwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus yn y cyntedd, Neuadd Cawdor, Castellnewydd Emlyn, yn dilyn cais llwyddiannus i Grant Adfer Diwylliannol Llywodraeth Cymru. Mae Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gweithio gyda Lyngsoe LibCabinet, D-Tech Lockers a Hublet ar gyfer y prosiect. Mae LibCabinetau Lyngsoe yn gweithredu'n debyg iawn i beiriant gwerthu, gan greu llyfrgell hunanwasanaeth fach. Mae ein loceri casglu archebion hunanwasanaeth, y gellir eu cyrchu gyda'ch cerdyn llyfrgell, yn caniatáu i gwsmeriaid gadw eitemau ar-lein o gatalog llyfrgell helaeth Sir Gaerfyrddin. Pan fydd eitem yn barod i'w chasglu, dim ond ei chodi o'r locer yn y llyfrgell ar adeg sy'n gyfleus sydd angen ei wneud. Gellir dychwelyd eitemau hefyd trwy'r locer pan fydd hi'n bryd i'w dychwelyd.

- Mae cyrsiau hyfforddi ar-lein am ddim hefyd ar gael i'n cwsmeriaid drwy ein hadnoddau digidol 'Universal Class', 'Artist Works' a 'Transparent Language'. Gall aelodau'r llyfrgell gael gwersi cerddoriaeth ar gyfer yr offerynnau llinynnol a band mwyaf poblogaidd, darganfod sut i goginio prydau iach, cymryd dosbarthiadau celf, dysgu sgiliau TG sylfaenol, sgiliau garddio, dosbarthiadau rhianta, dysgu iaith newydd neu hyd yn oed sefyll prawf gyrru theori ffug. Mae adnoddau hanes teuluol fel 'Ancestry' a 'Find My Past' hefyd yn boblogaidd iawn. Mae papurau newydd a chylchgronau cenedlaethol, rhyngwladol hefyd ar gael i'w lawrlwytho am ddim, parhaodd ymweliadau â'r ap papur newydd 'Pressreader' i gynyddu yn ystod 2022/23.
- Mae gan lyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin stoc bwrpasol o lyfrau wrth gefn yn llyfrgell Porth Tywyn sy'n rhoi mynediad i ni at filoedd o lyfrau Cymraeg. Cafodd dros £20k ei wario ar ddeunyddiau Cymraeg yn 2022/23.
- Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd sesiynau 'Cymraeg i Blant' yn ein llyfrgelloedd rhanbarthol, gan helpu i danio dychymyg a datblygu sgiliau llythrennedd. Mae Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin Cymru sy'n darparu'r sesiynau amser stori Cymraeg hyn ar gyfer babanod a phlant ifanc yn y tair Llyfrgell ranbarthol.
- Cynhaliwyd cyflwyniadau drama hanesyddol yn ein llyfrgelloedd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd sesiynau 'Mewn Cymeriad' ar gyfer plant ysgolion cynradd a wahoddwyd i ddod i'r digwyddiadau, helpodd y sesiynau i lywio ac ysbrydoli'r plant i ddysgu mwy am hanes Cymru.
- Ym mis Awst 2022, dychwelodd Theatrau Sir Gâr i **Barc Gwledig Pen-bre** am haf arall o **theatr awyr agored.** Cyflwynwyd rhaglen lawn dop o adloniant ar lwyfan awyr agored dros dro dros dri diwrnod ar ddeg, gan gynnwys cerddoriaeth fyw, comedi, dawns a sioeau teuluol llawn hwyl, gan ddenu bron i 1,900 o fynychwyr.
- Ym mis Gorffennaf 2022, bu'r Ffwrnes yn gweithio mewn partneriaeth â Hijinx Theatre i ddod â **The Unity Festival** i Lanelli.
  The Unity Festival yw un o wyliau celfyddydau cynhwysol ac anabledd mwyaf Ewrop a'r unig un o'i fath yng Nghymru. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod arddangoswyd rhaglen o theatr, ffilm, dawns a theatr stryd cynhwysol o bob cwr o'r byd yn y Ffwrnes, Llanelli (ac ar-lein).



## Oes unrhyw un ar ei ennill?



Gweithiodd y Gwasanaeth Theatrau gyda **Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru** i greu **PARTi**, sef digwyddiad i ddod â'r gymuned gyfan ynghyd i ddathlu dawns, a gynhaliwyd yn Theatr y Glowyr yn Rhydaman ym mis Tachwedd 2022. Gweithiodd pobl leol o'r gymuned ochr yn ochr â dawnswyr proffesiynol i greu'r digwyddiad ar y cyd, a oedd yn cynnwys perfformiad dawns, cacen, a twmpath. Cynigiwyd tocynnau ar sail 'Talwch faint fynnwch' i sicrhau y gallai pawb fwynhau noson allan wych yn y theatr.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

- Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr Iaith Gymraeg **-** Cynghori'r Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg ynghylch datblygu a hyrwyddo'r iaith yn y Sir.
- Fforwm y Gymraeg Mewn Addysg - Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) yn nodi gofyniad i bob Awdurdod Lleol sefydlu Fforwm Addysg Gymraeg mewn deddfwriaeth, disgrifir y Fforwm fel a ganlyn -
  Mae fforwm addysg cyfrwng Cymraeg yn golygu corff a sefydlwyd gan awdurdod lleol at ddiben gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion awdurdodau lleol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol
- Aelod Cabinet Dros Addysg a'r Gymraeg
- Craffu - Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg.
- Gweithredu Safonau'r Gymraeg mewn cysylltiad â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- Fforwm Strategol y Gymraeg - mae hon yn bartneriaeth rhwng cyrff y sector cyhoeddus a sefydliadau sy'n gweithio er lles yr Iaith.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Gwasanaethau Diwylliant yn destun cynlluniau busnes a gefnogir gan gyfarfodydd/arfarniadau strwythur a sesiynau rheoli perfformiad yn ogystal â chyfarfodydd 1 i 1 wythnosol / bob pythefnos gyda rheolwyr gwasanaeth, cyfarfodydd Adrannol Wythnosol, cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth / Tîm Rheoli Corfforaethol bob Chwarter a phwyllgorau Craffu deufisol.
Mae gennym hefyd asesiad allanol trwy ymgysylltu â chwsmeriaid/rhanddeiliaid a chael adborth ganddynt. Er nad yw'n ofyniad statudol, mae diwylliant yn mesur safonau drwy gyflawni achrediad (safon genedlaethol) yn yr amgueddfeydd a'r gwasanaethau archifau a chyflawni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r olaf yn flynyddol tra bod achrediad yn cael ei roi ac yna caiff ei adolygu bob tair blynedd.

# 3d - Blaenoriaeth Thematig -
# Diogelwch, Cydnerthedd, a Chydlyniant Cymunedol

**Er gwaethaf cynnydd bach mewn cyfraddau troseddu, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn un o'r lleoedd mwyaf diogel yn y DU.**

**Mae gweithio mewn partneriaeth gyda Heddlu Dyfed-Powys ac asiantaethau eraill yn parhau i fod yn gryf ac mae'n parhau i ddatblygu wrth i faterion newydd godi.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae diogelwch a theimlad o berthyn yn bwysig o safbwynt llesiant personol.
- Mae mwy o bobl bellach yn gwerthfawrogi gwerth caredigrwydd a bod yn rhan o gymuned. Mae cefnogi cymunedau cydlynus a sicrhau bod pobl o wahanol gefndiroedd yn rhannu perthnasoedd cadarnhaol, yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth, ac yn parchu ei gilydd ac yn rhannu'r un gwerthoedd yn ganolog i gael cymunedau gweithgar a ffyniannus.
- Mae Cydnerthedd Cymunedol hefyd yn hanfodol er mwyn galluogi cymunedau i ymateb i sefyllfaoedd andwyol, eu gwrthsefyll a'u hadfer. Pan fydd cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ei gilydd, mae'n meithrin ymdeimlad o falchder a pherthyn sy'n allweddol ar gyfer llesiant cymdeithasol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesur Cynnydd

Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion poblogaeth cyffredinol a'r mesurau perfformiad sy'n cael eu monitro ar gyfer blaenoriaeth thematig Diogelwch, Cydnerthedd a Chydlyniant Cymunedol.

| **Mesur Perfformiad** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Tuedd** | | **Esbonio'r Data** |
| **Rwy'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin - Ymgynghoriad â Thrigolion** | **2022**<br>**1.32** | **2023**<br>I'w gadarnhau | Ar y cyfan, cafwyd cytundeb cryf gan ymatebwyr trwy ymgynghoriad diweddar eu bod yn hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin. Er y bydd llawer o ffactorau wedi cyfrannu at y teimladau hyn, dylid nodi bod rhai o'r prif ffactorau sy'n gwneud lle da yn cyd-fynd yn agos â gwaith y Cyngor. Yn fwyaf arbennig:<br>▪ Ysgolion da,<br>▪ Cyfleusterau hamdden da,<br>▪ Amgylchoedd dymunol,<br>▪ Hygyrchedd da,<br>▪ Cyfraddau troseddau isel. |
| **Rwy'n teimlo y gallaf fyw'r bywyd** | **2022** | **2023** | Roedd yr ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth eu bod yn gallu byw'r bywyd y maent am ei fyw heb ofni barn na |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| **yr wyf am ei fyw heb ofn barn na rhagfarn - Ymgynghoriad â Thrigolion** | 0.71 | **I'w gadarnhau** | rhagfarn. Fodd bynnag, roedd y nifer a gytunai â'r datganiad hwn yn is ymhlith aelodau o'r gymuned LGBTQ+ ac ymatebwyr sydd ag anableddau. Mae hwn yn foethusrwydd nad sydd gan bawb ar draws y byd, felly mae'n dyst i natur Sir Gaerfyrddin fel lle ac i'w phobl fod y trigolion at ei gilydd yn teimlo y gallant fod yn nhw eu hunain. Mae hyn yn rhan annatod o deimlo ymdeimlad o berthyn ac mae'n un o'r prif gyfranwyr at hapusrwydd cyffredinol. Mae pobl hapusach yn byw bywydau hapusach sydd, yn ei dro, yn caniatáu iddynt wneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymunedau. |
| **Rwy'n teimlo'n ddiogel yn y gymuned - Ymgynghoriad â Thrigolion** | **2022**<br>0.78 | **2023**<br>**I'w gadarnhau** | Mae sgôr gadarnhaol i'r datganiad hwn yn dangos bod mwyafrif y trigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Mae canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn awgrymu ein bod ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer y mesur hwn ac yn safle 11[eg] isaf yng Nghymru yn gyffredinol. |

! Adolygwyd darpariaeth ymyrraeth wedi'i thargedu ar Fusnesau Bwyd yn ystod y flwyddyn ar sail risgiau hysbys gan fusnesau sydd newydd gofrestru. Roedd hyn yn golygu, o'r **879 o sefydliadau Busnes Bwyd a oedd yn agored i archwiliad wedi'i raglennu** yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod 2022/23 ***(PPN/002)*, archwiliwyd 553 mewn gwirionedd,** mae hyn yn cyfateb i 61% o gymharu â 100% o'r 407 o sefydliadau a arolygwyd y flwyddyn flaenorol. Cafodd y gwyriad hwn o'r dull gweithredu ei gydnabod gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac mae hefyd yn rhan o'u cynllun adfer, ar ôl COVID. Bydd safleoedd a oedd i fod i gael ymyrraeth yn ystod 22/23, ond na wnaethant dderbyn ymyrraeth yn ystod y cyfnod hwnnw, yn symud ymlaen yn awtomatig i raglen arolygu ar sail risg 23/24. Barnwyd bod yr holl safleoedd sydd i fod i gael eu harchwilio yn cydymffurfio'n fras â'r gofynion yn rhinwedd eu Sgôr Hylendid Bwyd presennol a'r ffaith iddynt fod yn destun Ymweliad Rheoli Swyddogol mewn blynyddoedd blaenorol.

- Mae **99%** (2,128/2,148) o sefydliadau bwyd yn Sir Gaerfyrddin yn cwrdd â safonau hylendid bwyd ***(PAM/023)***.
- Cafodd **100%** (211/211) o fusnesau risg uchel o safbwynt Safonau Masnach yn Sir Gaerfyrddin, a oedd yn agored i archwiliad wedi'i raglennu, eu harchwilio yn ystod 2022/23.
- Yn anffodus, nid oeddem yn gallu cwblhau dau **arolygiad risg uchel wedi'u rhaglennu ar gyfer Iechyd Anifeiliaid** erbyn 31 Mawrth 2023, gan roi canlyniad o **99% (162/164)** - cwblhawyd y ddau arolygiad ym mis Ebrill 2023.

## Cynnydd yn 2022/23

### Diogelwch Cymunedol

- Rydym wedi sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran y Strategaeth Contest bresennol (gwrthderfysgaeth).
  Cafwyd trafodaethau parhaus ym Mwrdd Contest Sir Gaerfyrddin a'r Bwrdd Contest Rhanbarthol i yrru'r gwaith o lunio dogfennau allweddol yn ei flaen i sicrhau bod y Cyngor a sefydliadau partner yn cyflawni eu dyletswyddau fel yr amlinellir yn y Strategaeth Gystadleuaeth. Rhoddwyd ystyriaeth i sut y gallai'r Proffil Gwrthderfysgaeth Lleol lywio'r gwaith o ddatblygu asesiad risg sefyllfaol ar gyfer y rhanbarth i nodi heriau allweddol a'r cyd-destun lleol o amgylch y rheiny. Yna byddai'r asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu asesiadau risg corfforaethol, gan gynnwys un i'r Cyngor asesu sut y mae'r Cyngor yn cyflawni yn unol â gofynion y Ddyletswydd Atal.

- Mae gweithio mewn partneriaeth yn ward Tyisha dan arweiniad tîm 'Trawsnewid Tyisha' y Cyngor wedi parhau i gyflawni llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain wedi cynnwys sefydlu grwpiau Gwarchod y Gymdogaeth, dyddiau gweithredu gyda gweithrediadau dan arweiniad yr heddlu i dargedu pryderon penodol a miloedd o aelwydydd sy'n derbyn pecynnau nodau diogelwch ac offer atal troseddau, ymgysylltu â'r gymuned trwy 'Meet the Street' a defnyddio'r fan allgymorth, patrolau gwastraff ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u targedu, datblygu cynllun gweithredu teledu cylch cyfyng a gorchmynion cau safleoedd sy'n achosi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn 2021 gwelwyd gostyngiadau yn nifer amryw o fathau o droseddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn dilyn adolygiad gan lif gwaith Troseddau ac Anrhefn ym mis Ionawr 2023 o'u gwaith hyd yma, mae materion plismona cyfredol yn feysydd blaenoriaeth ac mae cynllun gweithredu newydd ar gyfer 2023/24 wedi'i ddatblygu. Mae hyn yn canolbwyntio ar gynyddu gweledededd a phresenoldeb, ymgysylltu a phartneriaeth, gorfodi a gweithrediadau penodol.
- Dangosodd y Cyngor ei gefnogaeth eto i 'Ymgyrch y Rhuban Gwyn' i roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod a merched ar Ddiwrnod Blynyddol y Rhuban Gwyn ddydd Gwener, 25 Tachwedd a'r 16 Diwrnod Gweithredu sy'n dilyn. Roedd y gweithgareddau a gefnogwyd ar raddfa hyd yn oed yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol, gyda baneri'r Rhuban Gwyn yn hedfan y tu allan i Neuadd y Sir, a neuaddau tref Llanelli a Rhydaman a Neuadd y Sir wedi'u goleuo'n borffor, roedd arbedwyr sgrin ar liniaduron y cyngor yn annog staff i wneud yr addewid **"i beidio byth â chyflawni, esgusodi nac aros yn dawel am drais dynion yn erbyn menywod"** a chyfeirio staff at y cymorth sydd ar gael ar y fewnrwyd. Mae hyn yn cynnwys polisi 'Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' y Cyngor a adolygwyd ym mis Gorffennaf 2022. Rhoddwyd posteri yn ein hadeiladau gyda negeseuon digidol yn ein gorsafoedd bysiau a negeseuon fideo ar y sgriniau mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, a chodwyd ymwybyddiaeth ymhlith ein clybiau chwaraeon lleol. Arweiniwyd e-sgwrs i staff gan ddarparwr gwasanaeth cam-drin domestig lleol, Calan DVS a chynhaliwyd digwyddiadau arbennig gan gynnwys sesiwn Pêl-droed Cerdded yng Nghanolfan Hamdden Dyffryn Aman, mewn gêm gartref Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin gyda chefnogaeth Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin a chyn-seren rygbi'r undeb rhyngwladol Cymru, Sam Warburton, yn cefnogi'r ymgyrch yn ei ddigwyddiad yn y Lyric ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn.
- Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n hasiantaethau partner i ymateb i'r 'Ddyletswydd Trais Difrifol' newydd sy'n gofyn am strategaeth i atal pobl rhag cymryd rhan mewn trais difrifol yn yr ardal, a lleihau achosion o hyn. Mae trais o'r fath yn cynnwys trais domestig a rhywiol, troseddau cyllyll a gynnau, colli bywyd a thrais yn erbyn pobl ifanc. Bydd Asesiad o Anghenion Strategol, a fydd yn cael ei lunio a'i arwain gan Heddlu Dyfed-Powys, yn cynnwys data gan y Cyngor a'r holl asiantaethau partner i lywio'r Strategaeth ranbarthol.
- Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, yr heddlu, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Sir Gâr i ddatblygu ffilm i fyfyrwyr fynd i'r afael â safbwyntiau eithafol a'u herio er mwyn atal pobl ifanc rhag cael eu denu i derfysgaeth. Derbyniwyd cyllid ar gyfer y prosiect gan Grant Atal Radicaleiddio y Swyddfa Gartref ac roedd pobl ifanc lleol yn ymwneud â datblygu a gwneud y ffilm. Bydd y ffilm yn cael ei lansio mewn Prifysgolion a Cholegau ar draws y rhanbarth yn ystod haf 2023 gyda chyflwyniad pellach mewn ysgolion ar y gweill.
- Cyflwynodd yr Uned Diogelwch Ffyrdd fentrau *kerb craft* i 969 o ddisgyblion i hyrwyddo hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd ac ymgyrchoedd i annog dulliau teithio llesol diogel.
- Derbyniodd 808 o ddisgyblion y Safonau Cenedlaethol am hyfforddiant beicio.
- Mae rhaglen arloesol Atal Twyll Ffôn Seraphim yn hysbysu swyddogion yr awdurdod ac yn sbarduno ymyrraeth gan yr awdurdod lleol pan fydd defnyddwyr trueCall yn profi nifer uchel o alwadau gan bobl yr amheuir eu bod yn dwyllwyr. Yn 2022/23 cafwyd 400 o rybuddion lefel uchel (cynnydd o 306 o'r flwyddyn flaenorol). Mae'r rhybuddion hyn wedi arwain at alwadau llesiant ac ymyrraeth gan swyddogion, megis blocio galwadau sy'n dod i mewn o rifau ffôn risg uchel sy'n wybyddus ac atal preswylwyr sy'n agored i niwed rhag ymwneud â dulliau o dwyllo dros y ffôn.

  Ar gyfer y cyfnod 2022/23 mae'r rhaglen wedi

- blocio 24,860 o alwadau
- wedi blocio 5,370 o alwadau gan alwyr sgam (cafodd galwadau eu blocio o rifau sgam a adroddwyd yn genedlaethol)
- wedi arbed tua £146,693 i ddefnyddwyr gwasanaeth drwy eu hatal rhag ymwneud â thwyll dros y ffôn
- wedi arbed tua £86,875 mewn costau ymyrraeth/cymorth i Ofal Cymdeithasol, y GIG a'r heddlu

## Cydlyniant Cymunedol

- Mae tîm Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru yn un o 8 rhanbarth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni dull cydlyniant cyson ar draws y wlad. Mae'r tîm yn gweithion ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a sut i roi gwybod amdanynt, gan sicrhau bod pobl yn deall beth yw trosedd casineb a gweithio gyda sefydliadau megis Cymorth i Ddioddefwyr i ddatblygu ymgyrchoedd, hyfforddiant a phrosiectau. Yn ystod 2022-23, arweiniodd y tîm cydlyniant brosiectau drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys:
  - hwyluso sesiwn casineb ar-lein sy'n edrych ar effeithiau casineb/niwed ar-lein ar unigolion a chymunedau, gan dynnu sylw at achosion yng Nghymru
  - dwy sesiwn wybodaeth i sefydliadau gael gwybod mwy am Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a sut y gallant gymryd rhan.
  - Cydlynu Hyfforddiant LGBTQ+ gyda Cymorth i Ddioddefwyr a CETMA, wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol. Daeth dros 200 o bobl i'r digwyddiad.
  - trefnu gweminar Cymru gyfan fel rhan o gyfarfod Cymorth i Ddioddefwyr, Mynd i'r Afael ag Eithafiaeth Atgas Cymru. Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth am Eithafiaeth a Gwrywdod Gwenwynig - gweminar ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Daeth dros 150 o bobl i'r digwyddiad.
  - Cyflwynwyd yn y fforwm cenedlaethol 'The View from the Ground': Heriau Lloches, Cydlyniant ac Eithafiaeth, a drefnwyd gan SIGCE ar brofiadau o reoli tensiynau mewn cymunedau sy'n gartref i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

- Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn hyrwyddo nifer o ddigwyddiadau calendr ymwybyddiaeth sy'n cefnogi cynwysoldeb a chydraddoldeb gan gynnwys Diwrnod Cofio'r Holocost; Diwrnod Amlygrwydd Trawsrywioldeb; Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Wythnos Ffoaduriaid, Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ac Wythnos Rhyng-ffydd. Rhennir postiadau Cyfryngau Cymdeithasol ac ar gyfer rhai dyddiadau allweddol caiff baneri eu chwifio, a chaiff adeiladau cyhoeddus eu goleuo mewn lliwiau perthnasol fel arwydd o barch.
  Arweiniodd y tîm nifer o brosiectau hyfforddi a meithrin gallu:

  - Darparwyd sesiwn Cydlyniant yn ein Cymunedau, wedi'i anelu at grwpiau cymunedol, gan arddangos arfer da o 3 phrosiect a ariennir gan grantiau bach.
  - Cwblhawyd y ffilm fer “What is Community Cohesion”.
  - Cefnogwyd grŵp Ffrindiau a Chymdogion (FAN) yn cynnwys Wcreiniaid sy'n byw yn Llanelli ac ymunwyd â grŵp llywio FAN Cymru.
  - Roedd gan y tîm dair erthygl i E-fwletin Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Gymunedau Cydlynol. Mae pob un ohonynt wedi'u cynnwys.
  - Mewn cydweithrediad â Teithio Ymlaen, hwylusodd 2 sesiwn Codi Ymwybyddiaeth o Sipsiwn, Roma a Theithwyr gan edrych ar y diwylliant a'r traddodiadau a'r polisi sy'n ymwneud â'r grwpiau hyn. Roedd bron i 70 o bobl yn bresennol o blith Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, Iechyd a'r Trydydd Sector.
  - Mae'r tîm cydlyniant yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid ynghylch y cynlluniau Wcráin ac wedi cysylltu mewn perthynas â Monitro Tensiwn a chefnogi'r gwaith o ailsefydlu Wcreiniaid ar draws y rhanbarth. Mae hefyd yn gweithio i fonitro a chefnogi'r rôl o Wasgaru Ceiswyr Lloches ar draws y rhanbarth.

- Cynhaliodd y tîm gronfa Grantiau Bach ar draws y rhanbarth i annog grwpiau a sefydliadau cymunedol i wneud cais am arian. Cynhaliwyd nifer o brosiectau llwyddiannus ar draws Sir Gaerfyrddin gan gynnwys:
  - ***Cymuned Cymraeg gan Calon Cymru LGBTQ+ -*** hwylusodd y prosiect hwn grwpiau sgwrsio bob pythefnos gyda'r nod o ddod â dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg rhugl at ei gilydd ac ymarfer eu Cymraeg gyda'i gilydd. Roedd y prosiect yn cynnwys y gymuned LGBTQ+ yn hyrwyddo'r defnydd o'u rhagenwau unigol yn Gymraeg.
  - ***Bore Coffi Rhithwir Pride y Gaeaf ac Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a gynhaliwyd gan CETMA -*** Cynhaliodd y prosiect hwn gyfres o ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb wedi'u hanelu at aelodau o'r gymuned LGBTQ+ i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, ffyrdd i roi gwybod amdanynt a ble i ofyn am help a chefnogaeth. Cynhaliwyd digwyddiad Pride y Gaeaf ym mis Rhagfyr am y tro cyntaf yn y Sir.

### Cydnerthedd Cymunedol

<table>
<tr><td>Archwilio Cymru<br>Audit Wales</td><td>Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru Gyda'n Gilydd Gallwn – Cydnerthedd cymunedol a hunanddibyniaeth (Ionawr 2023)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r adroddiad cenedlaethol hwn yn nodi bod awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd grymuso pobl a chymunedau i fod yn fwy hunanddibynnol ac yn llai dibynnol ar wasanaethau, ond gyda llai o adnoddau ar gael nawr mae arnynt angen i gymunedau a phobl wneud mwy drostynt eu hunain. Gwnaeth yr adroddiad ddau argymhelliad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mewn ymateb<ul><li>Mae Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor (a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2023) yn cynnwys Amcan Llesiant ehangach o alluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus. Mae un o'r Blaenoriaethau Thematig o fewn yr amcan hwn yn canolbwyntio ar Ddiogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant. Fel rhan o'n hymateb i'r flaenoriaeth hon, byddwn yn defnyddio'r offeryn gwerthuso (a hyrwyddir yn yr adroddiad) i hunanwerthuso ein dull gweithredu presennol a datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb. Byddwn yn gwneud hyn ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac yn ymgysylltu â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan fod cydnerthedd cymunedol hefyd yn rhan o Gynllun Llesiant newydd Sir Gaerfyrddin. Erbyn Rhagfyr 2023.</li><li>Unwaith y bydd y cynllun gweithredu ar waith bydd trefniadau llywodraethu yn cael eu sefydlu i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ac yn monitro cynnydd o fewn y Cyngor ac ar draws gweithgarwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Erbyn Mawrth 2024.</li></ul></td></tr>
</table>

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

Gan ddefnyddio cronfa Grant Bach drwy'r Tîm Cydlyniant Cymunedol, cynhaliodd Foothold Cymru a Chymdeithas Amlddiwylliannol Llanelli ddigwyddiad dathlu - Nadolig o Amgylch y Byd. Daeth y digwyddiad â llu o bobl o wahanol genedligrwydd ynghyd sy'n byw ac yn gweithio yn Llanelli.





Daeth dros 500 o bobl i'r digwyddiad a oedd yn cynyddu cydlyniant cymdeithasol yn y dref, cafodd y rheiny oedd yn bresennol gyfle i flasu bwyd o bob cwr o'r byd a rhannwyd gwybodaeth ar sut i leihau gwastraff bwyd a chynhyrchu bwyd iach, maethlon ar gyllideb a dysgu a rhannu syniadau oddi wrth ei gilydd.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu, Pwyllgor Craffu - Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau
Mae'r Tîm Cydlyniant Cymunedol yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru bob chwarter ac yn rhan o Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel, CONTEST, Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol a Chydraddoldeb Strategol ym mhob un o'r pedair sir, ac yn rhoi diweddariadau iddynt.

# 3e - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Hamdden a Thwristiaeth

**Mae presenoldeb mewn cyfleusterau hamdden bron yn ôl i'r lefelau fel yr oeddent cyn Covid**

Mae presenoldeb wedi gwella drwy gydol y flwyddyn wrth i fwy o bobl gymryd rhan mewn cyfleoedd gweithgarwch corfforol ar draws y sir, gyda'r ffigurau bron yn ôl i'r lefelau fel yr oeddent cyn Covid. Ein prif heriau dros y 12 mis diwethaf fu rheoli cyfranogiad ar ôl y pandemig ac adfer incwm, ynghyd â'r argyfyngau costau byw a phrisiau ynni.

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Chwaraeon a hamdden, diwylliant a hamdden awyr agored yw curiad calon ein cymunedau. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu amrywiaeth o weithgareddau, cyfleusterau a rhaglenni iechyd a llesiant er mwyn cefnogi ein trigolion a'n cymunedau i fyw bywydau iach, diogel a llewyrchus.
- Mewn ffordd debyg mae hyrwyddo ein Sir fel lle deniadol a hyfyw yn fasnachol i ymweld â hi a buddsoddi ynddi yn ffactor allweddol o safbwynt economaidd a llesiant.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau hyn mewn ymateb i anghenion ein trigolion, ein busnesau a'n hymwelwyr.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



- Cafwyd dros **1.3m o ymweliadau â'n canolfannau hamdden yn ystod 2022/23** ***(PAM/017)***, mae hyn yn cyfateb i 7,017 fesul 1,000 o'r boblogaeth, sy'n dangos twf o 52% ers y llynedd (4,598 neu 874,000 o ymweliadau). Mae presenoldeb wedi gwella drwy gydol y flwyddyn wrth i fwy o bobl gymryd rhan mewn cyfleoedd gweithgarwch corfforol ledled y sir, gyda'r ffigurau bron yn ôl i'r lefelau fel oeddent cyn COVID.
- Ymwelodd dros 800,000 o bobl â Pharc Gwledig Pen-bre, mae'r dilynwyr Facebook wedi cynyddu i dros 29,000, ymwelodd dros 10,000 o bobl â dathliadau'r Nadolig gan gynnwys y llwybr golau.

## Cynnydd yn 2022/23

- Rydym wedi sicrhau £219k ar gyfer rhaglen cynnal a datblygu 5 mlynedd o hyd yng ngwarchodfa natur Ynys Dawela.
- Enillodd ein Gwasanaethau Hamdden Wobr Aur gan y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA). Mae'n wobr y mae galw mawr amdani am iechyd a diogelwch.
- Mae Parc Gwledig Pen-bre unwaith eto wedi ennill statws arbennig y Faner Las, sy'n golygu mai dyma'r safle sydd wedi cael y nifer fwyaf o Faneri Glas yng Nghymru ers 1988. Mae gwobr y Faner Las dim ond yn cael ei rhoi i draethau, marinas a harbyrau sy'n meddu ar yr ansawdd gorau posibl o ran dŵr, addysg a rheolaeth amgylcheddol, diogelwch a gwasanaethau. Dyfarnwyd gwobr y Faner Werdd i'r parc hefyd am y man gwyrdd arbennig sydd ynddo a chafodd achrediad VAQAS gan Croeso Cymru.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- Yn ogystal, dyfarnwyd Baner Werdd i Barc Gwledig Llyn Llech Owain am y tro cyntaf.
- Adnewyddwyd dau faes chwarae ym Mharc Gwledig Pen-bre, sydd bellach yn cynnwys offer hawdd ei gyrraedd, siglen i bobl anabl, twnnel synhwyraidd ac mae'n gwbl hygyrch i gadeiriau olwyn.
- Llwybr Arth newydd ar gyfer 2023 a Golff Traed ym Mharc Gwledig Pen-bre.
- Theatrau yn y Parc.
- Rhoddodd 700 o unigolion 2,910 awr o wirfoddoli ar draws Safleoedd Hamdden Awyr Agored.
- Agorodd Y Caban ei ddrysau ar 31 Mawrth 2023.
- Gwariwyd dros £160k mewn grantiau yn Llyn Llech Owain a Pharc Gwledig y Mynydd Mawr i adfer rhodfeydd pren, rhostir a hygyrchedd.



**Chwaraeon a Hamdden Actif**

- Mae'r gwaith o uwchraddio cyfleusterau newid yng Nghanolfan Hamdden Rhydaman wedi'i gwblhau ac mae gwelliannau i'r cyfleusterau parcio a'r cyfleusterau chwaraeon allanol ar y gweill.
- 'Beat the Street' - Mewn prosiect cyffrous a gyflwynwyd gan Chwaraeon a Hamdden Actif gwelwyd tref Llanelli yn cael ei thrawsnewid yn gêm gweithgarwch corfforol enfawr. Cymerodd 6,679 o gyfranogwyr ran (13% o'r boblogaeth) dros gyfnod o 6 wythnos gan arwain at lefelau uwch o weithgarwch corfforol a gwell llesiant.

  Yn ystod y rhaglen 6 wythnos teithiodd cyfanswm o 43,844 milltir, daeth 36% o'r plant llai egnïol yn fwy egnïol sy'n syfrdanol, daeth 45% o oedolion anegnïol yn egnïol ac arbedwyd 12.04 tunnell o allyriadau CO2.
  Casglwyd data cofrestru ar 5,408 o bobl ar ddechrau'r gêm, gan roi gwybodaeth i'r gynulleidfa am bwy oedd yn cymryd rhan: eu hoedran, eu rhywedd, eu hethnigrwydd a'u codau post. Cwblhaodd 4,071 o bobl eraill arolwg dewisol ar eu lefelau gweithgarwch corfforol, cyflyrau tymor hir, anabledd a llesiant meddyliol. Drwy gymharu'r data cofrestru â data lleol, gallwn ddod i'r casgliad bod Beat the Street wedi gallu cyrraedd y cymunedau hynny nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, sy'n fwy tebygol o brofi anghydraddoldebau iechyd. Ar gyfer oedolion sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uwch (o fewn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, WIMD) gostyngodd y gyfran a nododd eu bod yn anegnïol 11% yn dilyn Beat the Street (i 35% o 46% wrth gofrestru). Yn dilyn y cam gêm, gwahoddwyd cyfranogwyr i gwblhau arolwg iechyd arall yn cynnwys cwestiynau ychwanegol sydd wedi ein galluogi i fesur y newid ymddygiad a'r effaith y mae Beat the Street wedi'i chael ar unigolion. Mae dadansoddiad data cyfatebol yn dangos bod 45% o oedolion anegnïol wedi dod yn fwy egnïol a daeth 36% o blant llai egnïol yn fwy egnïol.

- Roedd cwblhau'r Fan Actif yn caniatáu iddi wneud ei hymddangosiad cyntaf a bu'n bresennol yn dilyn hynny mewn amrywiol ddigwyddiadau. Prynwyd hi drwy grant gan Lywodraeth Cymru a'i phrif nod yw cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn egnïol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig pellennig a/neu ardaloedd difreintiedig.



- Mae actif '60+' yn parhau i ymwneud â phoblogaeth hŷn y sir mewn gweithgareddau yn y gymuned ac mewn cyfleusterau. Yn 2022-23 gwelwyd dros 2,300 o gyfranogwyr yn y gymuned o ganlyniad i weinyddu Cyllid Llywodraeth Cymru drwy Chwaraeon Cymru.
- Trwy gydol 2022/23 cymerodd nifer dda iawn yn y Mentrau 'Atal - Iechyd' cymunedol, sy'n targedu'r rheiny sy'n dioddef o unigrwydd ac arwahanrwydd a salwch iechyd meddwl. Cymerodd 7387 ran mewn sesiynau 'Cyrlio a Phaned' ac mewn grwpiau rhedeg Iechyd Meddwl ar draws y sir. Ar gyfartaledd mae tua 155 yn cymryd rhan bob wythnos o'r flwyddyn.
- Eleni mae Actif yn arwain menter Cerdded er Llesiant Gorllewin Sir Gaerfyrddin mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Sir Benfro. Ers cymryd y prosiect drosodd mae'r Swyddogion Oedolion Actif wedi dyblu nifer y teithiau cerdded wythnosol i 8 dros y sir gyfan ac mae 180 o gerddwyr rheolaidd wedi bod bob wythnos ar gyfartaledd.
- Mae Chwaraeon Cerdded Cymunedol yn parhau i fynd o nerth i nerth ac yn 2022/23 gwelwyd dros 2,300 yn cymryd rhan mewn Pêl-droed, Rygbi a Pêl-rwyd Cerdded.

**Twristiaeth a Marchnata**

- Roedd y gwaith rhagweithiol o farchnata'r Sir fel cyrchfan gwyliau byr deniadol yn ystod y gaeaf yn cwmpasu cysylltiadau cyhoeddus, hysbysebu digidol a rhoi postiadau mewn modd organig ar gyfryngau cymdeithasol a gwefannau. Roedd yr ymgyrchoedd thematig yn cynnwys y Crwydr Cwtch a'r Llwybr Cynnyrch a ddefnyddiwyd i danio diddordeb yng nghyfryngau'r DU gyda sawl ymweliad wedi'u trefnu ar gyfer newyddiadurwyr - mewn un wythnos yn unig ym mis Mawrth, cafwyd dros £130,000 o hysbysebion i'r Sir mewn cyhoeddiadau gan gynnwys Women's Own a The Sunday Times. Roedd y canllaw "Llwybr Larder" yn cynnwys dros 70 o fusnesau lleol. Gyda bwyd a diod yn brofiad allweddol i gynulleidfa dwristaidd y DU dros gyfnod yr Hydref, cyflwynwyd partneriaethau hyrwyddo y talwyd amdanynt gyda chylchgrawn bwyd mwyaf poblogaidd y DU i godi ymwybyddiaeth ar draws y DU.
- Gan gefnogi pob rhan o'r Sir i elwa o'r sector ymwelwyr, canolbwyntiodd y gwaith hyrwyddo ar hysbysebion fideo yn arddangos Trefi Marchnad Sir Gaerfyrddin, gan dargedu ymwelwyr sydd o fewn taith yrru 2.5 awr trwy hysbysebu ar Facebook. Mae hyn wedi cyrraedd 1.8 miliwn. Erbyn hyn mae gan dudalennau Facebook Darganfod Sir Gâr 20,971 o ddilynwyr gan gyrraedd 447,070. Cafodd gwefan Darganfod Sir Gâr 79,699 o ddefnyddwyr, 103,985 o sesiynau a 264,562 o ymweliadau tudalen yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Eleni mae 86 o wahanol gynyrchiadau hysbysebion teledu, ffilm a statig wedi'u prosesu drwy'r system gorfforaethol o wneud cais am ffilmiau ar-lein - gan ganiatáu i ymgeiswyr wneud un cyswllt gyda'r Cyngor yn hytrach na gofyn i wahanol adrannau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
    - Ffilmiwyd y cynhyrchiad Disney mawr "Willow" ym Mhentywyn a chynhyrchiad S4C ar y cyd â Channel 4 "Y Golau / The Light in the Hall" a ffilmiwyd mewn nifer o leoliadau gan gynnwys Llanymddyfri.
    - Cynhyrchiad ar gyfer Visit Britain, y sefydliad a sefydlwyd i hyrwyddo Prydain Fawr fel atyniad i dwristiaid ledled y byd. Ar ôl darparu ardaloedd a chysylltiadau lleol iddynt, Traeth Pentywyn oedd y gyrchfan Gymreig a ddewiswyd yn yr ymgyrch hyrwyddo yn UDA, gyda hysbysebion wedi talu amdanynt ar y teledu a thrwy British Airways.

**Digwyddiadau**

- Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda phob partner â buddiant yn y sector twristiaeth a chymunedau lleol i ddatblygu, cefnogi a hyrwyddo rhaglen o ddigwyddiadau/gwyliau lleol ar draws y sir drwy'r flwyddyn - gan gynnwys creu a hyrwyddo "pecyn cymorth" digidol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau cymunedol lleol.

- Mae cyngor, arweiniad a thempledi rhagweithiol wedi'u darparu i dros 35 o drefnwyr digwyddiadau drwy'r grŵp ymgynghori ar ddiogelwch digwyddiadau (ESAG) a chyfathrebiadau uniongyrchol trwy gyfrwng cronfa ddata sydd wedi'i phoblogi o'r newydd. Cynigiwyd arweiniad un i un trwy gyfrwng TEAMS neu wyneb yn wyneb, ac mae hyn wedi profi i fod yn ddull effeithiol o esbonio gwasanaethau allweddol y Cyngor a all gefnogi digwyddiad llwyddiannus.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

Mae 'Actif Legacy' yn brosiect sy'n cael ei ddarparu gan Swyddogion Oedolion Hamdden Actif. Mae'r prosiect wedi'i anelu at bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth ar hyn o bryd ac sydd eisiau ennill sgiliau a phrofiad gwerthfawr drwy chwaraeon a chyfleoedd ychwanegol dros gyfnod o 10 wythnos.



Mae'r rhaglen 'Actif Legacy' ar ei thrydydd carfan o gyfranogwyr ac yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mewn partneriaeth â Cymunedau am Waith +, Y Gronfa Waddol a Scarlets yn y Gymuned, mae 6 o'r rheiny a gymerodd ran yn y rhaglen wedi cael gwaith o ganlyniad i'r hyder a'r cymwysterau a enillasant.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Gwasanaethau Hamdden yn destun cynlluniau busnes a gefnogir gan gyfarfodydd/arfarniadau strwythur a sesiynau rheoli perfformiad yn ogystal â chyfarfodydd 1 i 1 wythnosol / bob pythefnos gyda rheolwyr gwasanaeth, cyfarfodydd Adrannol Wythnosol, cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth / Tîm Rheoli Corfforaethol bob Chwarter a phwyllgorau Craffu deufisol.

Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.

# 3f - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Gwastraff

**Newid Dull Ailgylchu yn arwain at Well Perfformiad**

Rydym yn gwneud casgliadau gwastraff a deunydd ailgylchu o dŷ i dŷ i 91,000 o aelwydydd gyda dros 8.5m o ryngweithiadau bob blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn hon gwnaethom newidiadau sylweddol i'n gwasanaethau gwastraff, gan symud tuag at gasgliadau bwyd a deunydd ailgylchu sych wythnosol, lleihau amlder ein casgliadau gwastraff gweddilliol a chyflwyno casgliadau gwydr ac ailgylchu cewynnau newydd ar wahân o dŷ i dŷ. Mae unrhyw newid yn y gwasanaethau gwastraff a ddarperir yn anodd ac yn dod â'i heriau ei hun; fodd bynnag, mae llwyddiant strategol y newid gwasanaeth wedi arwain at welliant sylweddol yn ein perfformiad ailgylchu, ac rydym wedi rhagori ar darged ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru gyda pherfformiad o 65.25%.

## Pam y mae hyn yn bwysig?

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd symud tuag at economi wirioneddol gylchol, lle caiff gwastraff ei ddileu, a lle caiff adnoddau eu defnyddio cyhyd ag y bo modd.
Yn ogystal â bod yn dda i'r amgylchedd, gallai economi gwbl gylchol greu swyddi.
Yn ein sir mae mwy o bobl yn ailgylchu bob dydd.
Os yw eitemau ailgylchadwy yn mynd i safleoedd tirlenwi, caiff eu gwerth ei golli am byth.
Mae ailgylchu hefyd yn lleihau'r angen am gloddio, puro a phrosesu deunyddiau crai (trwy fwyngloddio, chwarela a thorri coed) sydd oll yn creu llygredd aer a dŵr sylweddol.
Mae hyn yn helpu i arbed ynni, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
Er bod deunyddiau wedi'u hailgylchu yn nwyddau gwerthfawr yn y farchnad fyd-eang ac yn bwysig yn ariannol, mae ailgylchu'n dda i'r amgylchedd hefyd. Mae'n gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau naturiol cyfyngedig.
Mae angen i ni gofio y bydd y modd yr ydym yn gweithredu nawr yn cael effaith ar genedlaethau'r dyfodol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau


Ein cyfradd ailgylchu ar gyfer 2022/23 yw **65.25%**
(Mae hwn yn gynnydd ar ffigur y flwyddyn flaenorol sef 61.68%).

- Mae'r cyfraddau ailgylchu cymharol ar gyfer 2021/22 yn dangos bod gan Sir Gaerfyrddin y ffigur 4ydd isaf yng Nghymru gyda chanlyniad o 61.68% wedi'i ailgylchu, cyfartaledd Cymru oedd 65.16%. Gyda'r ffigur gwell o 65.25% ar gyfer 2022/23, y gobaith yw y bydd ein sefyllfa gymharol hefyd yn gwella yn 2022/23 pan gânt eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.
- Mae'r cilogramau o wastraff trefol awdurdod lleol **nad yw trigolion Sir Gaerfyrddin yn ei ailddefnyddio, ei ailgylchu na'i gompostio bob blwyddyn** ***(PAM/043)*** yn lleihau'n raddol yn Sir Gaerfyrddin, ac ar hyn o bryd nid yw'r hyn sy'n cyfateb i 144kg y person yn cael ei ailgylchu ac ati yn ystod 2022/23 o gymharu â 154kg y person yn 2021/22. Gobeithiwn y bydd trigolion Sir Gaerfyrddin yn parhau i ailgylchu mwy a mwy o'u sbwriel, rydym yn gwneud yn llawer gwell na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2021/22 sef 178kg.

- Bu gostyngiad sylweddol yn swm ein gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi ***(WMT/004)***, sydd bellach i lawr i **4.89% ar gyfer 2022/23** sydd bron yn ôl i lawr i'r lefelau cyn y tân yng nghyfleuster adfer deunyddiau CWM Nant-y-caws (3.11% yn 2020/21), a amharodd yn sylweddol ar ein trefniadau didoli, trin a gwaredu gwastraff arferol am gyfnod.

**Ansawdd Amgylcheddol Lleol**

- ! Gwnaeth glendid strydoedd ***(STS/005a)*** yn Sir Gaerfyrddin wella ychydig yn ystod y flwyddyn ond mae'n dal i ddangos dirywiad o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu yw'r math mwyaf cyffredin o sbwriel o hyd ar strydoedd Sir Gaerfyrddin, gyda chynnydd nodedig mewn sbwriel melysion a gostyngiad yn lefelau sbwriel diodydd a bwyd cyflym. Sbwriel gan gerddwyr yw'r ffynhonnell uchaf o sbwriel yn y sir o hyd, cofnodwyd hyn ar 82.4% o'r strydoedd.




- ! Mae ffynhonnell sbwriel newydd wedi dod yn amlwg yn Sir Gaerfyrddin, gyda chynnydd mewn 'vapes' untro yn cael eu taflu yn y sir. Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n anharddu'r sir, ac rydym yn cynnal ymgyrch wedi'i thargedu gan weithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â materion sbwriel sy'n cynnwys gweithio gyda Mannau Bwyd Cyflym.
- ! Cynyddu'r nifer sy'n gwirfoddoli mewn gweithgareddau codi sbwriel ar draws y sir. Caiff data o'r archwiliadau ei rannu gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys y tîm gorfodi wrth nodi tueddiadau presennol y materion andwyol o ran ansawdd yr amgylchedd lleol.
- Ar gyfartaledd, mae'n cymryd **2.8 diwrnod gwaith i'r cyngor glirio achosion o dipio anghyfreithlon** yn y Sir ***(PAM/035),*** gydag ychydig dros 1,600 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi a'u clirio yn ystod 2022/23, mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd wedi gostwng 22% o 2,073 yn 2021/22.



- Yn ôl arolwg ein preswylwyr yn 2022, **mae'r mwyafrif yn tueddu i gytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac yn derbyn gofal da** (Cyfartaledd Sgôr Mynegai o 0.14), mae yna hefyd gyfran gymharol uchel sy'n anghytuno, roedd y sylwadau hyn mewn perthynas â glanhau strydoedd, gwastraff, sbwriel a chynnal a chadw ymylon ffyrdd/gwrychoedd fel ffactorau cyfrannol phosibl.
  Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd ein tirweddau naturiol ac adeiledig wrth greu ymdeimlad o le a balchder i bobl leol. Ymhellach, mae mynediad i fannau agored dymunol yn chwarae rôl bwysig wrth wella iechyd a llesiant ein trigolion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i grwpiau ymylol, y mae gan Sir Gaerfyrddin lefel uwch na'r cyfartaledd ohonynt.

## Cynnydd yn 2022/23

- Rydym wedi rhoi methodoleg casglu newydd ar waith ar gyfer ein gwasanaeth casglu gwastraff er mwyn sicrhau ailgylchu o ansawdd uchel a gwella ein perfformiad yn erbyn targedau ailgylchu statudol. Rydym wedi cyflawni cam cyntaf y strategaeth wastraff drwy gyflwyno casgliad gwydr o dŷ i dŷ bob tair wythnos, symud i gasglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos a chasglu deunyddiau ailgylchu cymysg sych a gwastraff bwyd bob wythnos ym mis Ionawr 2023. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi darparu gwasanaeth casglu cewynnau ar gyfer y trigolion hynny sydd â phlant ifanc mewn cewynnau; caiff y cewynnau eu trin a'u hailgylchu mewn cyfleuster yn y Sir.

Fel rhan o'r broses o symud i fethodoleg casglu ranbarthol, cafodd trigolion hefyd newid i'w diwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu i sicrhau bod cymaint o dai â phosibl yn cael eu casgliadau ailgylchu, bagiau du a gwydr ar yr un diwrnod. Drwy wneud hyn mae 45% o aelwydydd yn derbyn eu holl gasgliadau gwastraff ac ailgylchu ar yr un diwrnod. Er mwyn lleihau'r effaith ar drigolion a lleihau'r achosion o golli casgliadau ar gyfer y trigolion hynny sydd â diwrnodau casglu gwahanol ar gyfer bagiau du/gwydr a'u bagiau glas a bwyd, gwnaethom gyflwyno gwasanaeth atgoffa trwy e-bost a negeseuon testun i'r trigolion hynny.

- Mae'r newid hwn yn sgil y fethodoleg casglu newydd wedi'i gyflwyno i'r 91,000 o aelwydydd yn y Sir gyda 12.5 miliwn o ryngweithiadau bob blwyddyn ar wastraff, mae hyn yn cynnwys casgliadau sbwriel, deunydd ailgylchu, gwastraff gardd a chasgliadau cewynnau a chynhyrchion hylendid.
- Ers i'r newidiadau ddod i rym ar 23 Ionawr 2023 rydym wedi derbyn 503 o gwynion. Mae hyn yn cyfateb i 1.16% o gasgliadau gwastraff domestig yn ystod y newid i'r gwasanaeth.
- Fel rhan o'r fflyd newydd i gyflwyno'r newid i'r gwasanaeth, gwnaethom gaffael 23 o gerbydau newydd i ymgymryd â'r casgliadau sbwriel a gwydr. Fel rhan o'r caffaeliad hwn:
    - rydym wedi comisiynu tri cherbyd casglu sbwriel trydan a ddefnyddir yn ein gwasanaeth rheng flaen yn nhirwedd heriol Sir Gâr. Dyma ddechrau ein hymrwymiad a'n hymdrech i ddod yn Awdurdod Carbon Sero Net erbyn 2030 a chyrraedd ein targed o 50% o ran fflyd sy'n cydymffurfio â Cherbydau Allyriadau Isel Iawn erbyn mis Ebrill 2024.
- Rydym wedi comisiynu depo newydd yn Cross Hands ac wedi recriwtio 47 aelod newydd o staff i gyflwyno cam cyntaf y strategaeth wastraff.
- Er mwyn hyrwyddo'r Economi Gylchol, rydym wedi bod yn datblygu cyfleoedd partneriaeth a chefnogi rhwydweithiau cymunedol, gyda golwg ar adeiladu capasiti ar gyfer prosiectau Economi Gylchol newydd neu estynedig. Rydym hefyd wedi gweithredu'r prosiectau canlynol:
    - Canolfan Eto ym mis Mehefin 22 yng Nghyfleuster Ailgylchu Nant-y-caws
    - Canolfan ailgylchu gwastraff masnachol ym mis Hydref 22 yng Nghyfleuster Ailgylchu Nant-y-caws
- Rydym wedi cynyddu ein cwsmeriaid yn gyson ar gyfer y casgliad cewynnau trwy gydol y broses o weithredu'r gwasanaeth eleni. Ar hyn o bryd mae gennym 7,140 o gwsmeriaid ac rydym wedi dargyfeirio 779 tunnell o wastraff hylendid o fagiau du.
- Rydym wedi gweithredu gwasanaeth casglu Cynnyrch Hylendid Amsugnol a gwasanaeth casglu cewynnau sydd wedi denu 7,500 o gwsmeriaid.
- Rydym wedi cynyddu ein cwsmeriaid 20% ar gyfer ein casgliad Gwastraff Gardd tymhorol, gan gadw 96% o'n cwsmeriaid presennol. Cyflawnwyd 94% o darged o 94.5%

- Yn ôl canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23, roedd 82% o ymatebwyr Sir Gaerfyrddin yn fodlon â'r gwasanaeth ailgylchu yn y sir, mae hyn yn welliant ar 82% yn yr arolwg diwethaf sef 2018/19. Cytunai 74% o'r ymatebwyr hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwybod am wasanaeth ailgylchu'r cyngor, sef y 6ed orau yng Nghymru, mae hyn yn welliant ar y canlyniad blaenorol o 61% a'r 21ain safle yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **Grŵp Gorchwyl a Gorffen: Gorfodi Materion Amgylcheddol** | "Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Craffu wedi bod yn gweithio ar draws gwahanol is-adrannau i adolygu'r dull strategol o ymdrin â thipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Disgwylir i'r grŵp hwn ddod i benderfyniad a chyflwyno argymhellion a chynllun strategol i'r Cabinet ym mis Mehefin 2023. Yn ogystal â hyn, rydym wedi dechrau cynllun peilot o weithgarwch gorfodi trwy gyfrwng teledu cylch cyfyng gyda lleoliadau problemus wedi'u nodi, a byddwn yn adrodd yn ôl yn 2023/24'' |

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

### Arwr amgylcheddol yn helpu i gadw Sir Gâr yn lân

Mae gwirfoddolwr ifanc wedi derbyn canmoliaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin am ei waith amgylcheddol yn ardal Hendy-gwyn ar Daf.

Mae Leon, sy'n 10 oed, yn casglu sbwriel yn ei ardal leol bob dydd, gan helpu i gadw'r ardal yn lân a thaclus.

Fel gwobr am ei waith arbennig cafodd Leon ei wahodd i gael taith tu ôl i'r llenni o amgylch canolfan ailgylchu Nantycaws a Chanolfan Eto.

Yn ystod yr ymweliad, gwelodd Leon y gwahanol brosesau sy'n digwydd i ddeunydd ailgylchu gwastraff y cartref Sir Gaerfyrddin yn ogystal â gweld y broses o drawsnewid eitemau fel rhan o brosiect ailddefnyddio Canolfan Eto.

Gall busnesau hefyd gefnogi eu hamgylchedd lleol drwy fod yn gyfrifol am fwrdd glanhau mewn 2 funud. Mae gan y byrddau ffrâm A hyn bopeth sydd ei angen i lanhau'r ardal gan gynnwys ffyn codi sbwriel a bagiau.






Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Newid Ymddygiad ar gyfer y Dyfodol

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda disgyblion ac athrawon Ysgol Dyffryn Aman a Chlwb Llewod Rhydaman i gynnal ymyrraeth gwrth-sbwriel, ac rydym wedi treialu cyfleuster ailgylchu poteli mewn dwy ysgol i wella'r modd y caiff gwastraff ei reoli. Mae ysgolion eraill eisoes wedi cael gwared ar yr opsiwn o brynu diodydd mewn poteli plastig mewn ymdrech i leihau gwastraff.

Yn ogystal, mae'r ysgol a grŵp cymunedol lleol wedi cynnal nifer o ymgyrchoedd casglu sbwriel cymunedol yn ystod yr ymgyrch, ac yn sgil y digwyddiadau hyn cafwyd trafodaethau ar y ffordd orau o dynnu sylw at y mater o sbwriel yn y gymuned. Cytunwyd i adeiladu cerflun gan ddefnyddio'r deunyddiau a gasglwyd o'r digwyddiad casglu sbwriel, a chytunodd pob partner y byddai thema'r cerflun ar ffurf glôb i gynrychioli'r ddaear, a fyddai'n cael ei lenwi gyda'r holl blastig a sbwriel a gesglir.





Ffurfiwyd gweithdai fel bod plant o Ysgol Dyffryn Aman ac adran Canolfan Amanwy yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o lunio a chreu'r glôb sbwriel. Mae'r Cerflun ar hyn o bryd yn Ysgol y Bedol, Rhydaman, a chaiff safle amlycach ei ystyried yn nhref Rhydaman i ddangos bod y cerflun wedi ei wneud o sbwriel a gasglwyd yn y gymuned. Mae hyn yn rhoi addysg ac ymwybyddiaeth i'n cenhedlaeth ifanc yn y Sir i'w hannog newid ymddygiad ar gyfer y dyfodol.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae cydymffurfiaeth a llywodraethu yn flaenoriaeth. Rydym yn sicrhau ein bod yn creu ac yn cadw at fframweithiau llywodraethu da a nodwyd yn y strwythurau a'r offer cymorth isod:

- Craffu
- Tîm Rheoli Busnes gydag Agenda
- Dangosfwrdd PowerBI
- Risg a Thai ac Adfywio ac Adnoddau Dynol a TG fel aelodau o'r Tîm Rheoli Busnes misol
- Ar lefel gorfforaethol rydym yn aelodau o'r Fforwm Adfywio, y prosiect 10 tref a'r Tîm Datblygu Rhanbarthol
- Grŵp Monitro Ansawdd Aer
- Adroddiad Blynyddol
- Cynnwys aelodau ehangach y bwrdd gwasanaethau wrth ddatblygu gwasanaethau (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)
- Bwrdd y Rhaglen Newidiadau Gwastraff a Strwythur Llywodraethu
- Sgyrsiau Iechyd a Diogelwch
- Cyfarfodydd ariannol
- Cyfarfodydd misol Marchnata a'r Cyfryngau
- Llywodraethu Carbon Sero Net
- Cyfarfodydd misol y fflyd
- Hunanasesiadau
- Tîm Rheoli Adrannol

Rydym yn monitro hyn drwy ein cynllun cyflawni is-adrannol a'n mesurau perfformiad. Rydym hefyd yn gweithio gydag archwilio mewnol i wella'r modd y caiff y gwasanaethau a ddarperir gennym eu llywodraethu.

Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus.

# 3g - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Priffyrdd a Thrafnidiaeth

## Darparu gwasanaethau a phrosiectau allweddol drwy heriau strategol

Mae'r dyhead am newid dulliau teithio yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wedi dylanwadu ar ein buddsoddiad mewn seilwaith, yn enwedig o amgylch ein prif ganolfannau poblogaeth lle rydym wedi adeiladu seilwaith newydd i gefnogi dulliau teithio mwy cynaliadwy. Mae'r Is-adran wedi parhau i weithio trwy'r heriau strategol y dylanwadwyd arnynt gan ddylanwadau macro sy'n cynnwys yr economi, gan arwain at ostyngiadau mewn incwm, cyllid refeniw a chyfalaf, datblygu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol dros gynllunio trafnidiaeth, newidiadau i'r terfyn cyflymder diofyn ym mis Medi 2023, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a newid yn yr hinsawdd. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol wrth gyflawni newid; fodd bynnag, mae'r gostyngiad cyson mewn lefelau adnoddau, disgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd, pwysau'r gadwyn gyflenwi a dirywiad yng nghyflwr asedau yn arwain at amgylchedd gweithredu anodd i wasanaethau.


## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Ni fu rôl y system Trafnidiaeth a Phriffyrdd erioed yn bwysicach na heddiw pan fydd cymdeithas yn parhau i adfer yn sgil digwyddiadau byd-eang ac yn mynd i'r afael â heriau allweddol datgarboneiddio, anghydraddoldeb, datblygu tai a chymunedau cynaliadwy, addysg, iechyd, llesiant a'r economi leol.
- Mae ein rhwydweithiau priffyrdd a thrafnidiaeth yn sail i ffyniant economaidd Sir Gaerfyrddin, gan hwyluso mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a dysgu, cysylltiadau cymdeithasol, iechyd, hamdden, teithio llesol a darparu gwasanaethau sy'n cyffwrdd â phob cartref bob dydd. Mae cysylltedd a hygyrchedd yn ganolog i hwyluso llesiant economaidd a chymdeithasol a byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella ein seilwaith lleol er mwyn cefnogi ein cymunedau.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

- **Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael 2022/23:**



**3.1%** o'n Dosbarth **A -** Gwelliant ar 3.6% yn 2021/22

**2.4%** o'n Dosbarth **B -** Gwelliant ar 2.8% yn 21/22

**10.1%** o'n Dosbarth **C -** Gwelliant ar 11.7% yn 21/22

Mae'r gwelliant yn dyst i fuddsoddiad wedi'i dargedu gan ddefnyddio model blaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth.

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n harolwg trigolion yn 2022 naill ai'n **anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae cysylltiadau trafnidiaeth da o'm cwmpas',** gyda sgôr mynegai cyfartalog cyffredinol o **-0.41)** Gall cysylltiadau trafnidiaeth gwael gyfyngu ar annibyniaeth unigolyn a'i allu i fynd o gwmpas ei fywyd



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

arferol o ddydd i ddydd, gan gynnwys gallu teithio i'r gwaith. Gall hyn waethygu teimladau o unigedd a chyfyngu ar allu unigolyn i wella ei hun a chael mynediad at gyfleoedd i wella ei iechyd a'i lesiant.

## Cynnydd yn 2022/23

- Mae cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd yn bwysig er mwyn sicrhau bod gan drigolion fynediad at wasanaethau, mae hefyd yn bwysig sicrhau bod trigolion mwy agored i niwed yn cael gofal a chymorth, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Mae llwybrau priffyrdd strategol yn cael eu trin â halen, fel rhan o'n cynllun cynnal a chadw dros y gaeaf i sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau a chyflenwadau hanfodol. Yn ystod tymor y gaeaf 22/23 mae'r gwasanaeth wedi lledaenu 8,951 tunnell o halen ac wedi gweithredu ar 116 achlysur. Mae'r gweithgarwch y gaeaf hwn wedi tyfu 46% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 4,030 tunnell yn fwy o halen yn cael ei ddefnyddio.

| | | |
|---|---|---|
| **Archwiliad Mewnol** | **Cynnal a Chadw Priffyrdd/Diogelwch Ffyrdd**<br>(Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol: 23 Awst 2022)<br>Sgôr Sicrwydd: Uchel<br>Amcan yr Archwiliad: Amcan yr adolygiad oedd rhoi sicrwydd bod y dyraniad a restrir ar Raglen Gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer Grantiau Diogelwch Ffyrdd yn cael ei wario'n briodol | Sgôr Sicrwydd:<br>***Uchel***<br>***Derbyniol***<br>***Isel*** |

- Rydym wedi cwblhau'r gwaith o ddatgarboneiddio ein sector goleuadau stryd, mae ein rhaglen o fuddsoddi mewn goleuadau LED wedi lleihau ein defnydd o ynni 62%.
- Teithio Llesol - adeiladu pont cyd-ddefnyddio a llwybr teithio llesol sy'n cysylltu gogledd a de Llanelli yn unol â'n Prif Gynllun Teithio Llesol ar gyfer y dref. Mae cynnydd hefyd wedi'i wneud ar gynlluniau eraill yng Nghaerfyrddin, Sanclêr, Rhydaman, Cross Hands a Phorth Tywyn.
- Strydoedd Ysgol – cyflwynwyd dwy fenter strydoedd ysgol, un yn ysgol Glan y Môr, Porth Tywyn a'r llall yn y Morfa, Llanelli.
- Newid Ymddygiad - mae gwaith wedi dechrau gydag ysgolion yn Llanelli i annog pobl ifanc i gerdded a beicio i'r ysgol. Mae hyn yn fwy heriol a bydd yn cymryd amser i'w gyflawni.
- Mae Addysg Diogelwch Ffyrdd wedi chwarae rhan allweddol wrth gadw pobl ifanc yn ddiogel, yn ogystal â chymorth hyfforddiant beicio neu waith i gyflawni'r amcan llesiant i bobl ifanc gael y dechrau gorau mewn bywyd. Dros y flwyddyn cafodd 969 o ddisgyblion hyfforddiant yn erbyn targed o 950, cafodd 620 o ddisgyblion hyfforddiant beicio yn erbyn targed o 600. Cynhaliwyd deunaw menter y tu allan i ysgolion i wella diogelwch ar y ffyrdd, sydd ychydig yn fyr o'r ffigur targed o 20.
- Gorsafoedd Tywydd:

Gwnaethom osod 3 gorsaf dywydd ychwanegol ym Mhorth-y-rhyd, Llangadog a Meidrim er mwyn gallu rhagweld y tywydd yn fwy cywir i wella effeithiolrwydd gwasanaethau priffyrdd y Gaeaf gymaint ag y bo modd.
Bydd llwybrau trin y gaeaf yn cael eu hadolygu cyn tymor 2023/24

- Agorwyd ffordd gyswllt Cross Hands ym mis Hydref 2022, mae'r darn mawr hwn o seilwaith newydd wedi ysgogi datblygiad economaidd ac wedi bod o gymorth i ddatblygu'r safle cyflogaeth strategol yn Cross Hands. Mae Ffordd Gyswllt Cross Hands sy'n 2.1Km o hyd yn darparu cymhareb cost / budd o dros 4.5 gyda £65.9M o fudd economaidd i gymunedau Sir Gaerfyrddin.
- Rydym wedi datblygu ein contractau adeiladu Peirianneg Sifil Fframwaith Rhanbarthol i ddarparu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig wneud cynigion am waith a thyfu.
- Mae cysylltedd strategol yn bwysig i gefnogi twf economaidd, felly rydym wedi parhau i gydweithio â phartneriaid rhanbarthol ar y cynlluniau hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth Metro De-orllewin Cymru sy'n cyd-fynd â dyheadau Trafnidiaeth Cymru. Yn ystod 2022/23 gwnaethom gefnogi'r cynnig gan *Grand Union Trains* am "Gytundeb Mynediad Agored" i redeg gwasanaethau rheilffyrdd strategol newydd o Gaerfyrddin i Lundain i wella cysylltedd a lleihau amseroedd teithio ar y rheilffyrdd i ddinasoedd
- Rydym wedi parhau i weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ysgogi buddsoddiad i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu rhaglenni gwaith sy'n helpu i gyflawni'r amcanion Llesiant. Yn 2022/23, cafodd £8.7 miliwn ei ysgogi i helpu i gyflawni buddsoddiad seilwaith sy'n cyd-fynd â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru
- Yn ogystal â chyllid Llywodraeth Cymru, mae gwaith wedi parhau ar Lwybr Dyffryn Tywi, roedd ein cais i Lywodraeth y DU am gyllid Ffyniant Bro yn llwyddiannus gan ddarparu £16.7 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU. Mae'r cynnydd wedi canolbwyntio ar gynllunio, tir a dylunio. Mae Gorchymyn Prynu Gorfodol wedi'i gyhoeddi i gynnal momentwm y prosiect. Mae'n brosiect heriol yr ydym yn parhau i'w reoli trwy gyfrwng Bwrdd Prosiect ar gyfer rheoli risg yn rhagweithiol.
- Datblygiad economaidd â chymorth drwy ymateb yn amserol i ymgynghoriadau'r awdurdod priffyrdd ynghylch ceisiadau cynllunio a chwiliadau priffyrdd. Ymatebwyd i 82.4% o ymgynghoriadau cynllunio o fewn 21 diwrnod o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 60%. Ymatebwyd i 94% o'r ymholiadau chwilio o fewn yr amserlen statudol.
- Grymuso cymunedau – mae'r Cyngor wedi cydweithio â Heddlu Dyfed-Powys, Gan Bwyll a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i wella diogelwch ar y ffyrdd. Roeddem yn un o wyth ardal i gyflwyno terfynau cyflymder 20 mya, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar wylio cyflymder y tu allan i ysgolion, cyflwyno camerâu cyflymder cyfartalog ar ffyrdd risg uchel a pharhau i gefnogi addysg i ysgogi newid ymddygiad.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

### Lansio bysiau newydd trydan TrawsCymru T1




Cefnogi llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus craidd ar draws gwasanaeth craidd y sir a, lle bo hynny'n bosibl, datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth gyhoeddus. Mae llwybr bws T1 Caerfyrddin i Aberystwyth bellach yn cael ei wasanaethu gan wyth bws trydan gyda seilwaith ategol wedi'i adeiladu er mwyn gweithredu'r gwasanaeth. Cafodd y prosiect T1 ei gyflawni gan Sir Gaerfyrddin mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru.

### Mae'r rhwydwaith seilwaith Cerbydau Trydan yn parhau i dyfu

Mae seilwaith gwefru cerbydau trydan wedi'i osod mewn depos gweithredol allweddol eleni ac mae cerbydau casglu sbwriel trydan newydd wedi'u caffael.
Mae'r Cyngor Sir wedi cyflwyno pwyntiau gwefru trydan mewn 52 o leoliadau ar draws y sir
(45 cyflym, 6 chwim ac 1 chwim iawn).
Ar draws ein rhwydwaith gwefru cyflym (41 safle – cyn hir bydd yna 43 ohonynt) yn ystod 2022 cafwyd 4230 sesiwn, a chyflwynwyd 58,490 kWh.
Yr amser aros ar gyfartaledd fesul sesiwn oedd ychydig dros 2 ½ awr.
Yn gynharach yn 2022 gwnaethom agor canolfan gwefru chwim Cross Hands at ddefnydd y cyhoedd.
Ers agor mae 5,589 o sesiynau gwefru wedi bod gan dynnu 131,075 kWh o ynni. Mae hyn yn cyfateb i 384,050 milltir cerbyd trydan / 74.1 tunnell o arbedion Co2. Rydym wedi gosod cyfanswm o 52 o bwyntiau gwefru.
Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru i osod 2 beiriant gwefru 50kW yn: Llanybydder (wedi'i gwblhau), Llanymddyfri (wedi'i gwblhau), Rhydaman a Chastellnewydd Emlyn.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae strwythurau ffurfiol ar waith i reoli perfformiad busnes a pherfformiad prosiectau strategol sy'n cyd-fynd â'r strwythur rheoli corfforaethol, y Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau Craffu.
Caiff perfformiad a darpariaeth eu rheoli drwy Dîm Rheoli Busnes a Phrosiectau Strategol Is-adrannol gydag adolygiadau yn y timau Rheoli Adrannol a Rheoli Corfforaethol. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull seiliedig ar risg i ddeall meysydd sy'n peri pryder.
Wrth reoli risg rhoddir ystyriaeth i natur y gwaith, lefel yr uchelgais a lefel y newid strategol sy'n cyd-fynd â strategaeth genedlaethol a lleol mewn perthynas â rôl system priffyrdd a thrafnidiaeth. Caiff y risgiau corfforaethol eu hadolygu bob dau fis i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Caiff risgiau eu cynnwys yn y Cynllun Busnes Adrannol.
Caiff Byrddau Prosiect gyda chynrychiolaeth gan uwch-swyddogion ar draws awdurdodau eu sefydlu ar gyfer prosiectau mawr i gefnogi'r gwaith o lywodraethu. Yn 2022/23 roedd byrddau prosiect penodol ar waith ar gyfer Llwybr Dyffryn Tywi, bws trydan T1 a newidiadau terfyn cyflymder diofyn i 20mya.
Mae Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf yn cael eu hadrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Craffu. Caiff Cynlluniau Busnes Adrannol eu llunio a'u hadolygu bob blwyddyn. Maent yn cael eu cyflwyno i amryw bwyllgorau craffu.
Bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol sy'n gyfrifol am Gynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Phwyllgor Craffu rhanbarthol a Grŵp Cyfarwyddwyr Trafnidiaeth Rhanbarthol yn rheoli datblygiad y Cynllun Trafnidiaeth

# Amcan Llesiant 4 - Ein Cyngor
# Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon

## Dyfarniad cyffredinol

*Ym mis Mawrth 2023, lansiodd y Cyngor yn ffurfiol ei ddull newydd o drawsnewid trwy fabwysiadu ei Strategaeth Drawsnewid gyntaf. Bydd y Strategaeth yn darparu'r fframwaith strategol a fydd yn tanategu'r gwaith o weithredu rhaglen sylweddol o newid a thrawsnewid ar draws y sefydliad dros y 5 mlynedd nesaf. Prif ffocws y rhaglen hon fydd cyflymu ymhellach y broses o foderneiddio ar draws y Cyngor, a'n galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol o ansawdd uchel yng nghyd-destun amgylchedd allanol heriol. Sefydlwyd wyth ffrwd waith i ddatblygu'r blaenoriaethau allweddol a amlinellir yn y Strategaeth Drawsnewid ac mae cynnydd da eisoes yn cael ei wneud wrth weithredu'r rhaglenni gwaith hyn.*

## Pam mae hyn yn bwysig

- Ym mis Mawrth 2020 aethom i mewn i un o'r cyfnodau mwyaf heriol a wynebwyd erioed gan lywodraeth leol gyda'r pandemig COVID-19. Wrth ddod allan o'r argyfwng roedd yna sylweddoliad 'na fyddai pethau byth yn union yr peth' ac na fyddem yn yr un sefydliad ag yr oeddem.
- Roeddem felly am fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil ein hymateb i'r pandemig; beth weithiodd yn dda/beth na weithiodd mor dda, a sut y gallai hyn o bosibl newid 'yr hyn yr ydym yn ei wneud' a 'sut yr ydym yn ei wneud' yn y dyfodol.
- Mae hyn yn gyfle nawr i ailosod neu fynd yn ôl i'r pethau syml wrth ddefnyddio rhai egwyddorion craidd sy'n sail i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Mae'r canfyddiadau o ymgynghoriad staff yn 2022 yn dynodi bod y mwyafrif helaeth o ymatebwyr yn teimlo'n falch o'r modd y gwnaethom ymateb fel sefydliad i'r pandemig. Yn ychwanegol, mae'r mwyafrif yn teimlo'n barod i symud ymlaen a gweithio mewn byd ôl-COVID. Gan mwyaf, cytunai'r staff eu bod wedi cael eu harwain yn dda yn ystod y pandemig; fodd bynnag cytunai cyfran is eu bod yn teimlo iddynt gael eu gwerthfawrogi am y cyfraniadau a wnaethant yn ystod yr amser hwn.

### Y mesurau llwyddiant allweddol a bennwyd gennym ar gyfer yr amcan cyffredinol hwn

| Datganiad | Sgôr Gyffredinol 2022 |
|---|---|
| Gallaf gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy fy newis iaith. | 1.4 |
| Pan fyddaf yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, mae'r staff yn hawdd mynd atynt ac yn gyfeillgar iawn. | 0.82 |
| Gallaf gael mynediad hwylus i'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor. | 0.5 |
| Mae cysylltu â'r Cyngor yn syml ac yn hawdd i mi. | 0.31 |
| Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon dda. | 0.27 |
| Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut y mae'n perfformio. | -0.1 |
| Mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i mi gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. | -0.19 |
| Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo. | -0.33 |
| Mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y meysydd cywir. | -0.41 |

*Ffynhonnell: Ymgynghoriad CSC*



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Bydd y dadansoddiad isod yn adlewyrchu dadansoddiad o dueddiadau'r ymgynghoriadau dros amser yn dilyn dadansoddi canlyniadau 2023.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr **yn cytuno y gallant gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor trwy eu dewis iaith**, a ddangosir gan sgôr AIS o 1.4. Dyma'r sgôr uchaf a ddangosir o dan y thema hon. Roedd sylwadau ansoddol a dderbyniwyd yn gymysg, gyda rhai yn mynegi rhwystredigaeth ynghylch derbyn cyfathrebiadau neu weld negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg yn gyntaf. I'r gwrthwyneb, dywedodd eraill nad ydyn nhw bob amser yn gallu cyfathrebu â'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, cyfeiriwyd at ddiffyg cyfathrebu mewn Pwyleg a chyfathrebu sy'n briodol ar gyfer aelodau byddar o'r gymuned.

Mae cyfran is o bobl yn cytuno eu bod yn cael **cysylltu â'r Cyngor yn syml ac yn hawdd**, a nodwyd gan sgôr o 0.31. Fel y nodwyd drwy sylwadau, mae'r rhesymau a roddwyd am hyn yn niferus, gydag enghreifftiau nodedig yn cynnwys:

- Anodd gwybod pwy yw'r person cywir i siarad ag ef,
- Amseroedd aros hir ar alwadau,
- Staff sy'n rhoi'r argraff nad oes ganddynt ddiddordeb ac nad ydynt yn barod i helpu,
- Staff ddim yn dychwelyd galwadau,
- Mae natur ddigidol rhai prosesau yn rhwystr i rai,
- Nid yw tudalennau'r wefan yn hawdd eu defnyddio a chânt eu gweld fel rhai sydd wedi dyddio.

Yn gadarnhaol, mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod staff yn hawdd mynd atynt ac yn gyfeillgar wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn dyst i waith caled ac ymroddiad ein staff sydd, yn ôl pob golwg, yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid da i breswylwyr.

Mynegodd lleiafrif nad ydynt wedi gweld staff yn hawdd mynd atynt ac yn gyfeillgar, mae sylwadau i'r perwyl hwn yn gymysg rhwng canfyddiad o ddiffyg cefnogaeth a diddordeb gan staff wrth ddelio ag ymholiadau i faterion ehangach wrth gyfathrebu â'r Cyngor.

Yn gadarnhaol, mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y gallant gael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor.

Mae ymatebwyr yn cytuno'n bennaf bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd da yn gyffredinol, ond mae'r sgôr gadarnhaol gymharol isel yn dangos bod cyfran resymol o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn. Mae'r rhesymau y tu ôl i'r anghytundeb hwn yn niferus, ond mae'r themâu eang yn cynnwys:

- Casgliadau gwastraff annibynadwy,
- Canfyddiad o ddiffyg adfywio canol trefi,
- Cyflwr gwael y ffyrdd h.y. tyllau,
- Diffyg glanhau strydoedd,
- Diffyg cynnal a chadw ymylon ffyrdd / gwrychoedd,
- Aros yn hir ar am atgyweirio tai,
- Mwy o sbwriel a thipio anghyfreithlon,
- Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus,
- Canfyddiad o wasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd gwael,
- Diffyg goleuadau stryd.

Gwnaed sawl sylw mewn perthynas â'r dreth gyngor a'r canfyddiad bod adnoddau ariannol yn cael eu gwastraffu/eu cyfeirio i'r mannau anghywir. Caiff hyn ei ategu gan y sgôr negyddol a nodwyd ar gyfer 'mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ni.'

Yn ogystal, nododd cyfran uchel o'r ymatebwyr 'nid y naill na'r llall' neu 'ddim yn gwybod.' Efallai bod hyn yn arwydd o fater ehangach lle mae dealltwriaeth y cyhoedd o sut y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ariannol yn gyfyngedig.

Roedd yr ymatebion yn gymysg o ran y graddau y teimlai trigolion fod y Cyngor yn rhoi gwybod iddynt sut y mae'n perfformio. Mae'r gyfran fwyaf yn anghytuno tra bod nifer sylweddol o ymatebwyr yn nodi 'nid y naill na'r llall' neu 'ddim yn gwybod', sydd efallai yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r ymatebwyr hynny'n ymwybodol o sut i gael gafael ar y wybodaeth hon neu mae angen hyrwyddo'r wybodaeth yn ehangach. Byddai'r sylwadau a wnaed o dan y thema hon yn awgrymu mai dyma sy'n wir. Yn hyn o beth, mae'n werth nodi'r sylwadau cynharach a wnaed mewn perthynas â'r wefan a sut yr oedd rhai trigolion yn ystyried ei bod yn hawdd ei defnyddio.

Roedd y farn yn gymysg gyda golwg ar 'mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i drigolion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.' Nododd llawer 'nid y naill na'r llall' sy'n cadarnhau pwysigrwydd ymgynghoriadau wrth roi cyfleoedd i drigolion rannu eu barn. Mae cyfran fawr arall yn anghytuno, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd rhannu â thrigolion sut mae eu barn wedi'i hystyried yn dilyn ymgynghoriad.

## Y canlyniadau yr ydym yn eu gosod i'n hunain

| Canlyniadau Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| Moderneiddio a datblygu ffyrdd y Cyngor o weithio ymhellach. | Un o nodau allweddol y Rhaglen Drawsnewid yw datblygu ffyrdd mwy clyfar a mwy effeithlon o weithio, yn enwedig trwy ddefnyddio technoleg. Mae rhaglen waith eisoes ar y gweill i awtomeiddio nifer o brosesau papur. | Ydyn |
| Cefnogi datblygiad y Cyngor fel sefydliad modern, amrywiol, cynhwysol ac ymatebol a bod yn 'Gyflogwr o Ddewis'. | Datblygwyd Strategaeth Gweithlu yn ystod y flwyddyn, a bydd hyn yn darparu'r fframwaith strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o flaenoriaethau cysylltiedig â'r gweithlu a dod yn 'Gyflogwr o Ddewis'. | Ydyn |
| Gwrando ar ein staff drwy ymgysylltu'n rheolaidd â staff a'u grymuso i wella eu meysydd gwasanaeth eu hunain | Cynhaliwyd Arolwg Staff yn ystod 2022/23 ac mae adroddiad cryno ar ganfyddiadau a chamau gweithredu hefyd wedi'i gyfleu i staff. Defnyddiwyd y canfyddiadau hyn hefyd i lywio gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Ymgysylltu â Gweithwyr sydd wedi datblygu Cynllun Cyfathrebu Corfforaethol sy'n amlinellu ystod o fentrau cyfathrebu ac ymgysylltu â staff. | Ydyn |
| Sicrhau bod y gwaith a wneir mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at waith y Cyngor | Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin wedi gweithio'n dda yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ei Gynllun Llesiant newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28. Mae cydweithio â chydweithwyr rhanbarthol yng Ngheredigion a Sir Benfro hefyd wedi gweithio'n dda gan rannu adnoddau i ddatblygu rhai elfennau.<br>Mae'r Byrddau Cymunedau Mwy Diogel, Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol a Contest hefyd wedi gweithio'n | Ydyn |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Canlyniadau Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| | dda ar sail Sir Gaerfyrddin a Dyfed-Powys, gan gydweithio ag ystod o bartneriaid ar amrywiaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol. | |
| Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ymgysylltu, cyfranogi ac ymgynghori. | Mae cynnydd yn nifer yr ymatebwyr i ymgynghoriadau'r Cyngor yn ddangosydd cadarnhaol o'r cynnydd. Mae rhagor o waith i'w wneud i wella ein dulliau o roi adborth ar ôl ymgynghori ac i ehangu ein dulliau o ymgysylltu'n a chyfranogi'n gynnar. Caiff hyn ei nodi fel cam gweithredu ar gyfer 2023-24. | Ydyn |
| Datblygu agwedd fwy masnachol at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor gyda'r bwriad o gynyddu lefel yr incwm a gynhyrchir. | Mae ffrwd waith bwrpasol wedi'i sefydlu o fewn y Rhaglen Drawsnewid i nodi cyfleoedd i gynhyrchu mwy o incwm drwy fabwysiadu ymagwedd fwy masnachol at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Caiff trafodaethau eu cynnal gyda gwasanaethau i lywio'r gwaith o ddatblygu achos busnes Masnacheiddio a chynllun cyflawni a fydd yn cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Medi 2023. | Ydyn |
| Croesawu a hyrwyddo arferion gweithio ystwyth, cyfarfodydd hybrid a ffyrdd newydd o weithio ar draws y sefydliad, drwy fod yn fwy cynaliadwy a chreadigol i wella gwasanaethau'r Cyngor. | Mae ffrwd waith y Gweithle Trawsnewid wedi bod yn archwilio sut y gallwn resymoli ein portffolio adeiladau, a hynny gan foderneiddio a gwella'r gweithleoedd yn ein hadeiladau craidd a gedwir. Ers y pandemig, mae'r rhan fwyaf o swyddfeydd wedi bod yn llai na thraean llawn, gan fod angen mwy a mwy o wahanol fathau o ofod i gwrdd, gweithio a chydweithio ar staff. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol mae rhesymoli yn ffordd effeithiol o arbed arian gan ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Bydd lleihau ystad y Cyngor hefyd yn helpu i arbed gwariant ar gyfleustodau ac yn cyfrannu at ein hamcanion carbon sero net. Mae cynllun rhesymoli peilot llwyddiannus eisoes wedi'i gynnal gyda staff Tai ac Addysg a Gwasanaethau Plant yn Llanelli. Bydd nifer y staff sydd wedi eu lleoli ym Mharc Dewi Sant, Caerfyrddin yn gostwng dros y 12 mis nesaf. Bydd staff yn cael eu hadleoli i Heol Spilman a Neuadd y Sir. | Ydyn |
| Sicrhau newid sefydliadol sy'n cefnogi targedau allweddol Carbon Sero Net | Bydd Cynllun Carbon Sero Net yn cael ei ddatblygu erbyn mis Ebrill 2023 a fydd yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cyrraedd ei dargedau lleihau carbon erbyn 2030. Bydd gan y Rhaglen Drawsnewid rôl allweddol i'w chwarae wrth hwyluso'r newid sefydliadol sydd ei angen i gyflawni'r ymrwymiadau o fewn y Cynllun Carbon Sero Net. | Ydyn |
| Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. | Yn ystod 2022/23, y Cyngor oedd un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i lunio ei ddatganiad ar gyfrifon 2021/22 a derbyn adroddiad archwilio diamod.<br>Er gwaethaf cefndir economaidd hynod heriol o chwyddiant uchel a thwf digynsail mewn cyflogau nas gwelwyd ers cenhedlaeth, cyflawnodd y Cyngor danwariant bach yn erbyn y cyllidebau. | Ydyn |

| Canlyniadau Strategaeth Gorfforaethol | Cynnydd yn ystod 2022/23 | Wedi gwella Ydyn/Nac ydyn? |
|---|---|---|
| | Cyflawnodd y Cyngor ei darged o dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod, ond collodd ei nod o ran enillion buddsoddiad y trysorlys o drwch blewyn oherwydd natur y cyfraddau llog cynyddol.<br>Cyflwynwyd Hunanasesiadau adrannol sy'n cynnwys gwerthuso'r economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd | |
| Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wna'r Cyngor | Mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi tanategu'r dull o ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Drawsnewid.<br>Bydd gwaith datblygu ar yr Asesiad Effaith Integredig yn ystod y flwyddyn yn cael ei weithredu yn ystod 2023-24 a bydd yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i hymgorffori'n llawn. | Ydyn |



## Amcan Llesiant 4a - Blaenoriaeth Thematig: Trawsnewid Sefydliadol

Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol yn 2023, cytunwyd y byddai hwn yn amser da i adolygu dull y Cyngor o drawsnewid a sicrhau bod y rhaglen yn cyd-fynd yn llawn â nodau ac amcanion y Strategaeth Gorfforaethol newydd.

Byddai hyn hefyd yn ceisio adeiladu ar waith Rhaglen TIC y Cyngor, sef y prif gyfrwng o ddarparu cefnogaeth sefydliadol ar gyfer trawsnewid a newid ers 2012 a chaniatáu i'r Cyngor fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gododd yn sgil yr ymateb i'r pandemig COVID-19 i drawsnewid a moderneiddio ymhellach ein ffyrdd o weithio, yn enwedig y defnydd o dechnoleg.

Byddai cyflwyno'r dull newydd hwn yn cael ei ategu gan ddatblygu a gweithredu Strategaeth Drawsnewid. Hwn yw'r tro cyntaf i'r Cyngor gynhyrchu Strategaeth Drawsnewid, a'r bwriad yw y bydd yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer tanio rhaglen o newid a thrawsnewid arwyddocaol ar draws y sefydliad dros y 5 mlynedd nesaf.

Rhoddwyd adroddiad ar y Strategaeth Drawsnewid i'r Cabinet ym mis Chwefror 2023 a chafodd ei lansio ym mis Mawrth 2023, ac mae bellach yn darparu'r fframwaith strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni wyth blaenoriaeth thematig:

- Arbedion a Gwerth am Arian
- Incwm a Masnacheiddio
- Gweithle
- Gweithlu
- Cynllunio a Gwella Gwasanaethau
- Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol
- Datgarboneiddio a bioamrywiaeth
- Ysgolion.

Mae Grwpiau Cyflawni Ffrydiau Gwaith bellach wedi'u sefydlu i gefnogi'r gwaith o weithredu pob un o'r blaenoriaethau trawsnewid a bydd y rhain yn cael eu harwain gan Gyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth.

Mae Cynllun Cyfathrebu wedi'i ddatblygu. Defnyddir erthyglau newyddion rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o'r prosiectau, rhannu 'arfer da' a darparu cyfleoedd i staff roi adborth neu gyfrannu syniadau ac awgrymiadau.

Mae'r Rhaglen Drawsnewid yn cyd-fynd â rhaglen ddatblygu Arweinwyr y Dyfodol y Cyngor ac mae 12 o Arweinwyr y Dyfodol (swyddogion y Cyngor ar y rhaglen) i gyd yn ymgymryd â phrosiectau sy'n gysylltiedig â thrawsnewid fel rhan o'u rhaglen ddatblygu. Fodd bynnag, mae cyfle i unrhyw aelod o staff gymryd rhan mewn prosiect trawsnewid neu arwain arno, a gallai hyn ddatblygu i fod yn rhaglen rheoli talent gorfforaethol.

## Amcan Llesiant 4b - Arbedion Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian

Parhau i sicrhau arbedion ariannol trwy weithio’n fwy effeithlon neu dorri costau a ffyrdd mwy clyfar o weithio.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Cynhelir sesiynau cyllideb gyda Phenaethiaid Gwasanaeth unigol rhwng mis Chwefror a diwedd Gorffennaf 2023, gyda'r nod o gefnogi'r gwaith o nodi arbedion effeithlonrwydd y dyfodol ar gyfer y broses o osod cyllideb 2024/2025. Disgwylir i grynodeb o ganlyniadau'r sesiynau gael ei adrodd i'r Bwrdd Trawsnewid ym mis Medi 2023.
- Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar lefel gwasanaeth unigol i adolygu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau staffio gyda'r bwriad o leihau gwariant ar weithwyr asiantaeth a goramser.
- Mae'r Ffrwd Waith hefyd yn adolygu dull y Cyngor o reoli contractau i gydnabod y gallai dull mwy cadarn yn y maes hwn gefnogi gwelliannau o ran ansawdd a gwerth am arian y gwasanaethau a dderbynnir gan ddarparwyr allanol.

## Amcan Llesiant 4c - Incwm a Masnacheiddio

Datblygu agwedd fwy masnachol at ddarparu gwasanaethau’r Cyngor gyda’r bwriad o gynyddu lefel yr incwm a gynhyrchir.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Mae achos busnes i gefnogi lefel uwch o fasnacheiddio o fewn gwasanaethau'r Cyngor yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae disgwyl i hyn gael ei adrodd i'r Cabinet ym mis Medi 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn ceisio nodi ystod o gyfleoedd i gynhyrchu incwm ychwanegol a fydd yn helpu i liniaru effaith yr heriau cyllidebol parhaus y mae'r Cyngor yn debygol o'u hwynebu yn y blynyddoedd i ddod.
- Ar hyn o bryd mae dull adennill costau o bennu ffioedd a thaliadau yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Bydd hyn yn ceisio sicrhau, lle bo'n briodol, bod y gwasanaeth yn adennill y gost

lawn o ddarparu gwasanaeth wrth bennu ei ffioedd a'i daliadau neu ei fod yn gallu cynhyrchu elw, os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu.

- Mae cynllun i ganiatáu hysbysebu ar gylchfannau dynodedig ledled y Sir wedi cael ei gymeradwyo ac mae disgwyl iddo gael ei gyflwyno yn fuan. Mae cynlluniau hefyd yn cael eu datblygu i nodi cyfleoedd hysbysebu a nawdd ehangach ar draws y Cyngor a allai hefyd gynhyrchu incwm ychwanegol.
- Mae menter 'Buddsoddi i Arbed' wedi arwain at ddefnyddio adnoddau staffio ychwanegol o fewn swyddogaethau adennill dyledion y Cyngor i gefnogi mwy o waith adennill. Bydd hyn yn adeiladu ar brosiect blaenorol 'Buddsoddi i Arbed' TIC a adenillodd ddyledion o dros £1.8m rhwng 2016-2018, a menter beilot fwy diweddar a adenillodd £800k trwy fabwysiadu dull ymyrraeth gynnar.

## Amcan Llesiant 4d - Gweithle

Manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynwyd gan symud at weithio hybrid ac ad-drefnu ymhellach bortffolio adeiladau'r Cyngor a moderneiddio a gwella'r amgylchedd gwaith yn yr adeiladau craidd eraill.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Mae ffrwd waith y Gweithle wedi bod yn archwilio sut y gallwn resymoli ein portffolio adeiladau, a hynny gan foderneiddio a gwella'r gweithleoedd yn ein hadeiladau craidd a gedwir.
- Ers y pandemig, mae'r rhan fwyaf o swyddfeydd wedi bod yn llai na thraean llawn, gan fod angen mwy a mwy o wahanol fathau o ofod i gwrdd, gweithio a chydweithio ar staff. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol mae rhesymoli yn ffordd dda o arbed arian gan ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Bydd lleihau ystâd y Cyngor hefyd yn helpu i arbed gwariant ar gyfleustodau ac yn cyfrannu at ein hamcanion carbon sero net.
- Bydd nifer y staff sydd wedi eu lleoli ym Mharc Dewi Sant, Caerfyrddin yn gostwng dros y 12 mis nesaf. Bydd staff yn cael eu symud i Heol Spilman a Neuadd y Sir, ond bydd staff yn Adeilad 7 yn parhau i weithio yno hyd y gellir rhagweld. Mae'r grwpiau hynny o staff y mae hyn yn effeithio arnynt wedi cael gwybod am y newidiadau a bydd y Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol yn trafod yn uniongyrchol unrhyw newidiadau allai effeithio arnyn nhw.
- Mae cynllun rhesymoli peilot llwyddiannus eisoes wedi'i gynnal gyda staff Tai ac Addysg a Gwasanaethau Plant yn Llanelli. Mae staff Addysg a Gwasanaethau Plant yn Llanelli bellach yn gweithio gyda'i gilydd ar un llawr o Dŷ Elwyn ac mae staff Tai o Borth y Dwyrain wedi'u lleoli ar lawr arall ochr yn ochr â staff Iechyd yn Nhŷ Elwyn, Llanelli.
- Roedd ail-ddylunio'r weithfan yn ôl anghenion gwasanaeth yn golygu bod y timau'n gweithio ar draws dau lawr gyda 315 o staff yn gweithio'n gysurus o 120 o ddesgiau, gyda chyfleusterau cyfarfod gwell a gweithfannau hyblyg. Bellach gellir defnyddio'r model hwn ar draws y Cyngor ond bydd yn cael ei addasu i adlewyrchu'r ffordd y mae pob gwasanaeth yn gweithio gan ein bod yn cydnabod nad yw pob tîm yn gweithio yn yr un ffordd.

## Amcan Llesiant 4e – Gweithlu

Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Weithlu a chyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer y gweithlu i alluogi'r Cyngor i ddod yn sefydliad mwy modern ac ymatebol ac yn 'Gyflogwr o Ddewis'.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Datblygwyd Strategaeth Gweithlu a fydd yn darparu'r fframwaith strategol i'n helpu i fynd i'r afael â'n blaenoriaethau gweithlu allweddol dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan ddatblygu fframwaith data'r gweithlu i'n helpu i werthuso effaith y gwaith hwn.
- Un o flaenoriaethau allweddol y gweithlu yw cryfhau ein dull o recriwtio a chadw staff, sy'n un o'r heriau allweddol sy'n wynebu nifer o wasanaethau'r Cyngor. Disgwylir i system recriwtio newydd gael ei gweithredu erbyn mis Medi 2023 a bydd hyn yn darparu proses gyflymach, haws ei defnyddio i ymgeiswyr a

- rheolwyr. Mae prosiect penodol hefyd yn edrych ar sut y gallwn fabwysiadu ymagwedd fwy arloesol a chreadigol tuag at y modd yr ydym yn denu ac yna'n cadw ein staff.
- Mae ein menter 'Gweithlu'r Dyfodol' hefyd yn ceisio hyrwyddo dull cynaliadwy wrth ymateb i anghenion gweithlu'r dyfodol, drwy geisio cynyddu nifer y cyfleoedd prentisiaeth, cyfleoedd i raddedigion a phrofiad gwaith.
- Mae astudiaeth ddichonoldeb yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu asiantaeth fewnol fel modd o leihau costau asiantaethau a chryfhau'r adnodd staffio. Mae'n debygol y bydd yr astudiaeth hon yn argymell bod y dull hwn yn amodol ar gynllun peilot cychwynnol ym maes gofal cymdeithasol, cyn cael ei gyflwyno ar draws gwasanaethau eraill.
- Roedd gennym ychydig llai na 100 o brentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol o fewn y Cyngor yn ystod 2022/23; mae hyn yn cyfateb i 15.2 fesul 1,000 o weithwyr ***(PAM/044)***

## Amcan Llesiant 4f – Cynllunio a Gwella Gwasanaethau

Darparu ar gyfer ymagwedd fwy cynaliadwy a chreadigol at yr adolygiad, ailfodelu a gwella gwasanaethau'r Cyngor.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Prif flaenoriaeth y ffrwd waith ar hyn o bryd yw adolygu statws yr Adolygiadau TIC blaenorol hynny sy'n dal i fod ar y rhaglen waith - bydd hyn yn ceisio gwirio a oes digon o dystiolaeth o welliant (h.y. defnydd o ddata) a'r gallu i gynnal y gwelliant hwn cyn i unrhyw beth gael ei gymeradwyo gan y grŵp. Mae'r grŵp wedi ystyried pedwar diweddariad i gynlluniau cyflawni Adolygiad TIC hyd yn hyn: Pensiynau, Gorfodi Rheolau Cynllunio, Dylunio Eiddo a Dyledwyr. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu hystyried yn ystod y misoedd nesaf, a bydd yn ofynnol i bob un ddefnyddio data fel tystiolaeth o effaith unrhyw newidiadau/gwelliannau sy'n cael eu gwneud o fewn y gwasanaeth.

## Amcan Llesiant 4g – Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol

Parhau i wneud gwell defnydd o dechnoleg i ddarparu prosesau gwasanaeth mwy clyfar ac effeithlon a chynnig gwell profiad i gwsmeriaid.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Mae'r ffrwd waith yn goruchwylio gweithrediad rhaglen waith barhaus sy'n ceisio rhesymoli a/neu awtomeiddio nifer o brosesau papur, megis prosesu post sy'n mynd allan, taflenni amser, anfonebau ac argraffu dogfennau i'w llofnodi. Mae'r defnydd o lofnodion electronig ac atebion post hybrid yn cael ei gyflwyno ar draws nifer o wasanaethau ac mae hyn eisoes yn darparu ffordd fwy cost-effeithiol a chynhyrchiol o weithio ac mae hefyd yn cynorthwyo staff i weithio mewn ffordd fwy hybrid.
- Mae technoleg roboteg hefyd yn cael ei defnyddio i awtomeiddio dwy broses cefn swyddfa o fewn y gwasanaethau Adnoddau Dynol. Bydd y prosiect hwn, a ariennir drwy gronfa Trawsnewid Digidol y Cyngor, yn cael ei ddefnyddio fel prawf o gysyniad cyn gwneud defnydd posibl pellach o Ddeallusrwydd Artiffisial/roboteg o fewn gwasanaethau eraill.
- Gwnaethom barhau i gynyddu nifer y Gwasanaethau Cyngor Trafodiadol sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein *(ICT/003)* gyda'r canlynol wedi'u hychwanegu yn ystod 2022/23:
    1. Tudalennau Cysylltu â ni a Gwelliannau Proses
    2. Gwasanaeth Casglu Cynnyrch Hylendid Amsugnol a Chewynnau
    3. Grant Datblygu Disgyblion
    4. Archebion Dysgu Cymunedol
    5. Gwelliannau Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi
    6. Hysbysiadau e-bost a negeseuon testun am wasanaethau ailgylchu a gwastraff
    7. Porth Mynediad i Ddinasyddion ar gyfer Gwasanaethau Refeniw.

Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 53 o wasanaethau trafodiadol wedi'u darparu ar-lein i'r cyhoedd ers 2014/15.

## Amcan Llesiant 5h - Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth

Cefnogi'r Cyngor i greu newid trawsnewidiol i gefnogi amcanion a thargedau datgarboneiddio allweddol.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Prif ffocws y rhaglen gyfredol yw datblygu fframwaith strategol/polisi a fydd wedyn yn sylfaen ar gyfer datblygu Strategaeth a Chynllun Cyflawni. Cynhaliwyd gweithdai i ymgysylltu â chyfarwyddiaethau wrth ddatblygu strategaeth newydd.
- Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo ar ddatblygu model cost carbon ar gyfer y Cyngor.
- Cynhaliwyd cyfres o sesiynau llythrennedd carbon ar gyfer aelodau etholedig yn ystod 2022 ac mae'r tîm wedi gweithio gyda chydweithwyr o'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau fel rhan o Raglen Gyfathrebu barhaus.

## Amcan Llesiant 5i - Ysgolion

Cynorthwyo ysgolion i nodi gostyngiadau mewn costau a ffyrdd gwell o weithio a chefnogi datblygu cyllidebau ysgolion mwy cynaliadwy a helpu i ddiogelu darpariaeth academaidd rheng flaen.

### Cynnydd hyd yn hyn

- Nod y Ffrwd Waith Ysgolion yw cefnogi ysgolion yn eu penderfyniadau ariannol i greu arbedion effeithlonrwydd a datblygu cyllidebau mwy cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd iddynt wneud arbedion trwy gael mynediad at ystod o gontractau caffael corfforaethol megis gwasanaethau argraffu, teleffoni, deunydd ysgrifennu a gwasanaethau gwastraff.
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau cymorth gweithredol sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon yn ariannol i ysgolion megis y Gwasanaeth 'Tasgfan' Ysgolion Cynradd a gwelliannau i'r Gwasanaeth Glanhau Ysgolion.
- Datblygu offer meincnodi ariannol a chwricwlwm sy'n ceisio galluogi a chefnogi'r gwaith o rannu arferion da rhwng ysgolion ym maes rheolaeth ariannol.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# 5 Galluogwyr Busnes Craidd

Yn ogystal â'r blaenoriaethau thematig a'r blaenoriaethau gwasanaeth a nodwyd, ceir amrywiaeth o alluogwyr busnes craidd sy'n hanfodol i'n galluogi i wneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant. Mae'r galluogwyr busnes craidd hyn fel y nodir isod.

| # | Galluogwyr Busnes Craidd |
|---|---|
| 5a | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) |
| 5b | Marchnata a'r Cyfryngau gan gynnwys gwasanaethau cwsmeriaid |
| 5c | Cyfreithiol |
| 5d | Cynllunio |
| 5e | Cyllid |
| 5f | Caffael |
| 5g | Archwiliad Mewnol |
| 5h | Rheoli Pobl (Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd Galwedigaethol) |
| 5i | Gwasanaethau Democrataidd |
| 5j | Polisi a Pherfformiad |
| 5k | Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil |
| 5l | Ystadau a Rheoli Asedau |
| 5m | Rheoli Risg |
| 5n | Cymorth Busnes |

# 5a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

**Fel gwasanaeth rydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid ac yn eu deall er mwyn eu helpu i ddarparu gwasanaethau effeithiol. Rydym wedi cryfhau ein hymagwedd tuag at adfer yn sgil trychinebau a seiberddiogelwch i sicrhau ein bod mewn sefyllfa gref i liniaru unrhyw fygythiadau ac ymateb iddynt. Mae'r gwasanaeth yn cyd-fynd yn agos â chyflawni dyheadau'r Strategaeth Drawsnewid newydd ac mae wedi gweithio'n agos gyda gwasanaethau ar brosiectau trawsnewidiol allweddol i symleiddio, awtomeiddio ac ysgogi effeithlonrwydd ar draws ein holl feysydd allweddol.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?


- Mae technoleg yn treiddio mwy a mwy i'r holl sectorau ac yn dod yn rhan o lawer o agweddau ar ein bywydau. Mae gan dechnoleg ddigidol y potensial i drawsnewid y Sir a bywydau'r trigolion wrth gynhyrchu arbedion hirdymor i'r Cyngor.
- Ceir tair strategaeth allweddol sy'n sail i'n darpariaeth TGCh. Sef Strategaeth Trawsnewid Digidol 2021-2024, Technoleg Ddigidol 2022-2025 a Strategaeth Ysgolion Digidol 2022-2025. Mae'r meysydd gwaith allweddol a gwmpesir gan y gwasanaeth fel a ganlyn:
    - Data Craidd a Rhwydwaith Teleffoni a Seilwaith
    - Hwyluso'r gwaith o ddarparu Rhaglen Waith a Chyllid y Grŵp Llywio Trawsnewid Digidol (DTSG) ynghyd â'r ffrydiau gwaith trawsnewid newydd - Digidol a Chwsmeriaid.
    - Seiberddiogelwch gan gynnwys profi trefniadau Adfer yn sgil Trychinebau a Pharhad Busnes, cynllunio senario ac ymwybyddiaeth.
    - Datblygu Cais
    - Cefnogaeth Systemau ar gyfer Systemau Hanfodol o ran Busnes
    - Cymorth Gweithlu / Cymorth Gweithredol (Caledwedd / Meddalwedd)
    - Cymorth TGCh Gweithredol a Strategol i Ysgolion
    - T.G. Swyddogaeth caffael
- Ein diben yw ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u deall er mwyn eu helpu i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

! *O'r* 9,790 o'r ymholiadau i'r ddesg gymorth TGCh a dderbyniwyd yn ystod 2022/23, gwnaed 65.8% drwy ddefnyddio'r ddesg gymorth Hunanwasanaeth, mae hyn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol gyda 68.8%, ond bu cynnydd o 3% yn nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd. ***(ICT/002)***

- Rydym yn uwchraddio'r gliniaduron y mae ein gweithwyr yn eu defnyddio yn barhaus fel eu bod mor effeithlon â phosibl trwy leihau'r rheiny sydd â chof o 4GB neu lai. Mae hyn wedi haneru mewn nifer ers mis Ebrill 2021 ac ar ddiwedd mis Mawrth 2023 roedd hyn i lawr i ychydig o dan 500 o liniaduron allan o gyfanswm o 3,219. ***(ICT/009)***






Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- O'r 740 o geisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod 2022/23, ymatebwyd i 95% ohonynt cyn pen 20 diwrnod gwaith, mae hyn yn dal i fod dipyn yn uwch na tharged Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o 85%.

## Cynnydd yn 2022/23

- Gwnaethom gaffael datrysiad ar ffurf menter RPA (Robotics Process Automation). Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor symleiddio a gwella swyddogaethau a phrosesau cefn swyddfa (yn enwedig y tasgau cyffredin / ailadroddus hynny) trwy ddefnyddio meddalwedd arbenigol a galluoedd AI (Deallusrwydd Artiffisial). Mae'r adran Adnoddau Dynol yn rhagweithiol a nhw fydd y cyntaf i awtomeiddio a thargedu casgliad o brosesau fel y Prawf o Gysyniad cychwynnol. Ymhlith y rhai a gaiff eu gwerthuso y mae creu swydd newydd, cyhoeddi contractau, gwirio geirdaon. Mae gennym gontract ac rydym yn gweithio gyda chwmni arbenigol lleol yn Llanelli (CodeBase8 / Davies Internet) i helpu i weithredu technoleg, datblygu'r set gyntaf o brosesau i ni a throsglwyddo gwybodaeth a rhoi hyfforddiant i ddatblygu canolfan ragoriaeth fewnol yn y Tîm Datblygu Cymwysiadau o fewn y Gwasanaethau TGCh. Y weledigaeth yw ehangu ymhellach ar draws yr awdurdod dros y tair blynedd nesaf. Cyfle trawsnewid enfawr i yrru effeithlonrwydd.
- Rydym yn parhau i ddarparu cymorth i ysgolion, gan gefnogi'r gwasanaethau HWB, darparu a gosod y dyfeisiau dewisol i fyfyrwyr sef Chromebooks. Rydym wedi darparu gwasanaeth ymgynghorol TGCh ar bob adeilad ysgol newydd yn y sir.

**Seiberddiogelwch**

- Yn ddiweddar rydym wedi cloriannu Seiberddiogelwch.
- Rydym yn gweithredu fel galluogwr a chyfryngwr ar gyfer trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau ledled y Cyngor eu darparu i gwsmeriaid trwy gynyddu cyfleoedd i gyrchu gwasanaethu'r Cyngor drwy dechnolegau digidol. Rydym wedi lansio'r Porth Mynediad i Ddinasyddion ar gyfer y Gwasanaethau Refeniw. Prosiect dwy flynedd o hyd oedd hwn a lansiwyd ddiwedd mis Mawrth 2023. Porth Hunanwasanaeth 24/7 ar gyfer y Dreth Gyngor er mwyn i'n trigolion reoli eu biliau Treth Gyngor yn electronig, gwneud cais am ddulliau di-bapur, Rheoli Debydau Uniongyrchol, gwneud cais am eithriadau a bydd yn ehangu i gynnwys mwy o wasanaethau. Gyda dros 14,000 o breswylwyr presennol eisoes wedi tanysgrifio i weld eu mantolau Treth Gyngor drwy ein Canolfan Gyswllt a HWB Fy Nghyfrif, mae gennym bellach y gallu i gynnig llawer mwy o wasanaethau ar-lein. Bydd awtomeiddio a swyddogaethau integreiddio cefn swyddfa yn help enfawr i drawsnewid y gwasanaethau refeniw a'r ystod o wasanaethau y gallwn eu cynnig yn ddigidol drwy ein canolfannau HWB, y Ganolfan Gyswllt ac ar-lein drwy wefan y Cyngor.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Er mwyn sicrhau bod dyheadau'r Strategaeth Drawsnewid yn cael eu cyflawni, rydym yn adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Llywio Trawsnewid Digidol sydd yn ei dro yn adrodd i'r Bwrdd Gweddnewid.

O safbwynt Llywodraethu Gwybodaeth, rydym yn adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol sydd yn ei dro yn adrodd i'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol ac yna'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# 5b Marchnata a'r Cyfryngau gan gynnwys Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Mae'r gwasanaeth wedi gweld galw cynyddol ar draws ein holl swyddogaethau gyda'r angen i ddarparu gwybodaeth amserol a chywir**

**…drwy amrywiaeth o sianeli sy'n parhau i fod yn elfen bwysig o waith y Cyngor.**


**Mae cyflwyno gwasanaeth Ymgynghorydd Hwb wedi bod yn rhan hanfodol o ymateb y Cyngor i'r argyfwng costau byw a bydd yn parhau i ddatblygu yn y flwyddyn i ddod.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Gall cyfathrebu ac ymgysylltu da greu profiad cadarnhaol i'r rhai sy'n rhyngweithio â'r Cyngor. Mae'n helpu pobl i ddeall ein hamcanion, ein gwerthoedd, ein gwasanaethau, ein heriau a'n cyflawniadau. Dylai pobl gael eu grymuso i gymryd rhan, dweud eu dweud, gofyn cwestiynau, a theimlo bod eu hadborth yn cael ei werthfawrogi.
- Mae Marchnata, y Cyfryngau a Gwasanaeth Cwsmeriaid yn dîm amrywiol sy'n cefnogi pob adran ar draws y Cyngor i sicrhau bod gan bobl ddealltwriaeth glir o'r hyn a wnawn, yr hyn rydym yn anelu at ei gyflawni a'r gwasanaethau a ddarparwn.
- Mae gan y tîm arbenigedd mewn cysylltiadau cyhoeddus, marchnata ymgyrchoedd, dylunio graffeg a phrint, y cyfryngau, hysbysebu, cyfryngau cymdeithasol, cyfathrebu mewnol, y we, digidol, ymgynghori, gofal cwsmeriaid a chyfieithu.
- Ein rôl yw sicrhau nad yw negeseuon y Cyngor yn gwrthdaro â'i gilydd a'n bod cadw at y neges ac yn gwneud hynny'n brydlon, a'n bod yn rhoi gwybodaeth glir a chryno i'n cynulleidfaoedd o un ffynhonnell y gellir ymddiried ynddi.
- Gallwn ymateb mewn argyfwng, rhannu gwybodaeth, a llywio ar ddatblygiadau yn y dyfodol, egluro pam y mae'n rhaid gwneud rhai pethau mewn ffordd benodol, gan weithio gyda'n cymuned a'n gweithlu i rannu'r neges iawn, yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



- Cafwyd dros 3.4m o sesiynau defnyddwyr ar wefan y Cyngor yn ystod 2022/23; mae hyn yn gynnydd o 11.4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. ***(M&M/001)***
- Cafwyd dros 1.45m o sesiynau ar y Fewnrwyd Staff fewnol; mae hyn yn gynnydd o 46% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. ***(M&M/008)***
- Yn ystod 2022/23 derbyniodd ein canolfan gyswllt 238,300 o alwadau, gyda'r amser cyfartalog a gymerwyd i ateb yr alwad yn 6 munud 32 eiliad. Mae hyn yn ostyngiad bach yn nifer y galwadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda 268,000 o alwadau. Yn ystod 2022/23, gwnaethom ychwanegu neges ar ein llinell ffôn sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cwsmeriaid sydd angen siarad ag aelod o staff, ynghyd â dewislen 'Dewisiadau' ychwanegol i'n llinellau ffôn sy'n cyfeirio cwsmeriaid i'r rhannau perthnasol o'r sefydliad yn seiliedig ar yr opsiynau y maent wedi'u dewis. Rydym hefyd wedi cyflwyno ffurflen 'Cysylltwch â Ni' sy'n ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid gyfathrebu â'r Cyngor yn electronig ac rydym wedi gwella ffurflenni ar y we, gan ei gwneud hi'n haws gwneud ceisiadau/adroddiadau ar-lein sy'n lleihau'r angen i gwsmeriaid gysylltu dros y ffôn. Bydd y ganolfan gyswllt yn parhau i dderbyn galwadau ac ymholiadau drwy gyfryngau eraill wrth wella profiad y cwsmer. ***(M&M/001)***

- Mae gan Sir Gaerfyrddin dair prif canolfan Hwb canol tref yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Yn ystod 2022/23, **gofynnodd 12,800 o drigolion am apwyntiad wyneb yn wyneb**, mae hyn yn gynnydd o 32% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. ***(M&M/004)***

## Cynnydd yn 2022/23

**Ein Gwefan**

- Rydym yn gweithio i ddatblygu ymagwedd systematig tuag at gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o ddylunio a datblygu ein gwasanaethau ar-lein/gwasanaethau sydd wedi newid sianeli yn y dyfodol.
- Rydym yn gweithio gyda thîm Digidol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar brofion defnyddwyr, yn benodol gyda golwg ar yr agenda costau byw. Mae'r wybodaeth a gawsom yn ein galluogi i edrych ar y wefan o safbwynt y cwsmer, ac mae'n cynnig argymhellion yn seiliedig ar brofiad y defnyddiwr gwasanaeth, gan ganiatáu i ni gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth yn ein proses o ddylunio cynnwys a mynd â'r defnyddiwr gwasanaeth gyda wrth ar ddatblygu ein gwefan a'n gwasanaethau ar-lein.
- Mae safle Darganfod Sir Gâr wedi cael ei foderneiddio a'i ddiweddaru i'r fersiwn ddiweddaraf o Umbraco. Ar hyn o bryd mae'r Fewnrwyd yn cael ei diweddaru i ddilyn cynllun a nodweddion y wefan gorfforaethol.
- Mae'r tudalennau swyddi a gyrfaoedd yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd gyda delweddau a chynnwys newydd i ategu'r platfform recriwtio newydd Oleoo a fydd yn cael ei lansio yn ystod 2023-24.
- Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau i ddiweddaru eu cynnwys ac i ddigideiddio rhai o'u prosesau. Gwnaethom hyn er mwyn apelio at fwy o gwsmeriaid gan mai dyma'r ffordd y mae ein cwsmeriaid yn ffafrio rhyngweithio a dysgu mwy am wahanol wasanaethau'r cyngor.
    - Yn ystod misoedd Ionawr hyd at fis Mawrth cyflwynwyd trefniadau casglu gwastraff newydd ac roedd y wefan yn allweddol wrth ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, felly roedd sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn hawdd i'w defnyddio yn hanfodol.
    - Yn sgil yr argyfwng costau byw gwnaethom ychwanegu'r wybodaeth am urddas mislif ar ein gwefan gan ei symud o wefan Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin, gan greu cyfeiriadur o leoliadau ac ychwanegu'r lleoliadau i'r map 'yn fy ardal i'.
    - Gan weithio gyda golygyddion gwe'r Adran Lle a Seilwaith, cafodd y dudalen gorfodi materion cynllunio ei diweddaru. Ychwanegwyd canllawiau i hysbysu cwsmeriaid ynghylch pa faterion cynllunio y gellir eu gorfodi ac na ellir eu gorfodi a symleiddio'r ôl-broses fel bod pob ymholiad yn cael ei ateb o fewn amserlen ddynodedig.
    - Newidiwyd platfform y dreth gyngor o Granicus i Northgate Citizen i roi opsiwn hunanwasanaeth newydd i'r cwsmer sy'n caniatáu iddo ryngweithio â'r Cyngor yn gyflym ac yn effeithlon. Cafodd y tudalennau gwe eu diwygio yn unol â hynny. Ar hyn o bryd mae'r platfform yn caniatáu i'r cwsmer sefydlu cyfrif diogel y gall ei ddefnyddio i dalu biliau'n electronig, gosod neu newid debyd uniongyrchol a gweld faint o'r dreth gyngor sydd ganddo'n ddyledus. Bydd y platfform yn cynnig gwasanaethau pellach wrth i'r tîm symud ymlaen gyda'r gwaith o'i ddatblygu.

**Ymgysylltu ac ymgynghori**

- Rydym wedi sicrhau dull trefnus a chydlynol o ymgysylltu ac ymgynghori ar draws y Cyngor drwy wella'r modd y caiff ceisiadau eu cydlynu i gynnal ymgynghoriadau. Rydym wedi sicrhau bod pob adran yn ymwybodol o'r dull hwn i sicrhau cysondeb.

**Hwb**

- ⦿ Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddatblygu a hyrwyddo'r fenter Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi. Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Ymgynghorwyr Hwb bellach wedi cefnogi mwy na 1,800 o unigolion ers mis Awst 2022.
    - Mae'r gefnogaeth hon yn darparu cyngor, cyfleoedd i hawlio arian a chymorth llesiant.
    - Agorwyd dros 50 o fannau croeso cynnes yn y Sir gyda'r 3 phrif fan croeso cynnes yn ein 3 phrif lyfrgell yn cefnogi tua 350 o unigolion yr wythnos.
    - Mae'r dudalen costau byw ar y wefan gorfforaethol yn cael ei hamlygu ar bob tudalen i sicrhau bod pob ymwelydd â'r safle yn gwybod o ble i gael cymorth a chyngor.
    - Lansiwyd cynllun peilot model newydd Hwb ddechrau mis Rhagfyr lle roedd mwy o wasanaethau ar gael wyneb yn wyneb i ddelio ag ymholiadau cwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys materion tai, cyflogadwyedd a safonau masnach.
    - Ar 27 Ionawr 2023 cynhaliom ddigwyddiad cyngor ariannol llwyddiannus ym mhob un o'r 3 Hwb. Mae cyllid wedi'i sicrhau i recriwtio 3 swyddog cyngor ariannol i helpu trigolion trwy roi cyngor a chymorth cyllidebu yn ystod 2023-24.

**Strategaeth Gyfathrebu**

- ⦿ Bydd y strategaeth gyfathrebu newydd yn cael ei datblygu yn unol â'r penawdau allweddol a'r camau gweithredu a nodwyd yng ngweledigaeth y cabinet.
- ! Mae'r siarter cwsmeriaid corfforaethol wedi'i diweddaru bellach ar ffurf drafft. Y cam nesaf yw ymgysylltu â gwasanaethau penodol i sicrhau bod hyn yn diwallu anghenion eu gwasanaeth mewn perthynas â sut mae angen iddynt reoli eu cwsmeriaid.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

| |
|---|
| Ffrwd Waith Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol y Bwrdd Trawsnewid. |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

## 5c Cyfreithiol

**Rydym wedi sicrhau cyfreithlondeb a chywirdeb wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor**

**Rydym yn gweithio o fewn fframwaith statudol sy'n llywodraethu pethau megis sut y cynhelir cyfarfodydd, sut y gwneir penderfyniadau a'r ddeddfwriaeth y tu ôl i bob penderfyniad sydd angen ei wneud.**

### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Ar y ffrynt gyfreithiol rydym yn ceisio gwneud cymaint ag y gallwn o'r gwaith cyfreithiol sydd ei angen gan y Cyngor yn fewnol, er y bydd yna adegau pryd y bydd angen i ni anfon gwaith at gyfreithwyr allanol. Fodd bynnag, nifer fach yw'r rhain ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor.
- Rhai o'r meysydd ffocws allweddol yn ystod y 12 mis nesaf fydd cefnogi gwaith y Tîm Adfywio mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ein cydweithwyr Tai wrth ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, chwarae rhan allweddol ym Mhrosiect Adfer Dyledion TIC, cynghori ar gyflwyniadau'r Cyngor i'r ymchwiliad COVID-19 Cenedlaethol a gweithredu newidiadau i weithdrefnau llysoedd mewn achosion amddiffyn plant.
- Mae'r ystod o waith cyfreithiol a wneir nid yn unig yn cynnwys achosion llys a thribiwnlysoedd, ond hefyd cynghori pwyllgorau'r Cyngor, drafftio dogfennaeth gyfreithiol a rhoi cyngor cyfreithiol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Cynnydd yn 2022/23

- Rydym wedi cydweithio â Chofrestrfa Tir EF er mwyn galluogi'r Gofrestrfa Tir i ddod yn awdurdod cofrestru ar gyfer Pridiannau Tir Lleol Sir Gaerfyrddin yn unol â darpariaethau Atodlen 5 o Ddeddf Seilwaith 2015. Mae'r dasg o nodi unrhyw anghysondebau mewn data a gedwir a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol wedi'i chwblhau gan y timau Pridiannau Tir a Chynllunio. Mae hyn wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd prinder staff, oedi gyda darparwyr meddalwedd ac oedi ar ran y Gofrestrfa Tir. Mae'r data yn y broses o gael ei wirio gan y Gofrestrfa Tir am unrhyw faterion sy'n weddill a bydd yr ymarfer hwn yn cael ei ailadrodd nes na chaiff unrhyw anghysondebau eu nodi. Yna bydd y prosiect yn symud i'r cam nesaf gyda dyddiad gorffen wedi'i bennu sef Mehefin/Gorffennaf 2023.

### Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

### Trefniadau Llywodraethu

| |
|---|
| Mae gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb am sicrhau swyddogaethau Llywodraethu Corfforaethol. |

# 5d Cynllunio

**Gwelliannau sylweddol i'r Gwasanaeth Cynllunio**

Mae ein perfformiad yn parhau i wella gan ragori ar dargedau meincnod cenedlaethol. 2022/23 oedd y flwyddyn pryd y perfformiodd y gwasanaeth orau ers sawl blwyddyn.

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae gwasanaeth cynllunio da yn hanfodol i gyflawni uchelgeisiau'r Cyngor a bydd yn chwarae rôl sylweddol wrth gyflawni prosiectau adfywio sy'n cyfrannu at fwy o gyflogaeth a dod â buddion anhygoel i'n Sir o ran seilwaith digidol, gweithgynhyrchu clyfar, ynni a llesiant.
- Mae Gorfodi Rheolau Cynllunio yn lliniaru unrhyw effaith andwyol ar amwynder cyhoeddus ehangach, yr amgylchedd a/neu'r amgylchedd hanesyddol, naill ai drwy gyd-drafod neu drwy gamau gorfodi ffurfiol lle bo angen, yn dilyn torri rheolau cynllunio.
- Mae Rheoliadau Adeiladu yn helpu i sicrhau bod adeiladau, addasiadau, adnewyddiadau ac estyniadau newydd, boed yn ddomestig neu'n fasnachol, yn mynd i fod yn ddiogel, yn iach ac yn perfformio'n dda.
- Mae'r adain Blaengynllunio yn darparu dulliau arloesol, canllawiau ar bolisïau a chyngor (gan gynnwys cymorth arbenigol), strategaethau arweiniol, gwneud penderfyniadau a hwyluso'r gwaith o ddarparu tai newydd, twf economaidd, diogelu'r amgylchedd, a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

- **Penderfynwyd ar 89% o'r holl geisiadau cynllunio mewn pryd** yn ystod 2022/23, mae hyn yn welliant sylweddol ac ar ei lefel uchaf ers blynyddoedd lawer. Pan gaiff ei ddadansoddi fel pedair elfen gynllunio, (er gwaethaf y niferoedd is dan sylw), mae'r oedi mwyaf yn digwydd gyda'r ceisiadau cynllunio mawr y penderfynir arnynt. Mae natur hanesyddol y ceisiadau mawr yn cael effaith anghymesur ar y canlyniad cyffredinol.

| Pob cais cynllunio | Bach | Deiliad tŷ | 'Arall' | Mawr |
|---|---|---|---|---|
| **89.0%** (1,307/1,468) | **85.5%** (544/636) | **94.7%** (411/434) | **89.7%** (331/369) | **72.4%** (21/29) |

Mae blaenoriaethu achosion hanesyddol yn parhau, ar y cyd â sicrhau bod achosion newydd yn cael sylw o fewn yr amserlen a ddymunir. Wrth symud ymlaen, dylai canlyniadau perfformiad ar gyfer y mesur hwn felly ddod yn fwy cynrychioliadol o'r gwelliannau sylweddol a gyflawnwyd gan y gwasanaeth. ***(PAM/018)***

- Ymhellach, bu gwelliant sylweddol ynghylch penderfynu ar geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn. Dangosir hyn gan y canlyniadau Diwedd Blwyddyn 2022/23 canlynol:

| | 2020/21 | 2022/23 | Gwelliant yn ôl |
|---|---|---|---|
| % y ceisiadau y penderfynwyd arnynt mewn pryd [PAM/018] | 60.3% | 89% | **28.7%** |
| % y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser gofynnol [PLA/010] | 41% | 72.4% | **31.4%** |
| % yr achosion gorfodi rheolau cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod [PLA/021] | 49% | 68.8% | **19.8%** |

## Cynnydd yn 2022/23

**Cyflawni cynllunio yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

| | |
|---|---|
| | Cyngor Sir Caerfyrddin – Adolygiad Dilynol: Gwasanaethau Cynllunio Hydref 2022<br>*"Mae'r Cyngor i'w ganmol am y camau pendant, cyflym a gymerodd mewn ymateb i ganfyddiadau ein hadroddiad yn 2021, ac am y ffordd y mae wedi ysgogi gwelliannau yn ei wasanaeth cynllunio. Mae'r ffordd adeiladol y derbyniodd y Cyngor ein hadroddiad a gweithredu ar yr argymhellion yn enghraifft arbennig o gadarnhaol o Gyngor yn dangos ei ymrwymiad i wella wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi dysgu gwersi o'r adolygiad y mae hefyd wedi'i roi ar waith yn ehangach, yn enwedig mewn perthynas â rheoli perfformiad"* |

| | | |
|---|---|---|
| **Archwiliad Mewnol** | Cynllunio: Mwynau a Gwastraff (Chwefror 2023)<br>*Amcan yr adolygiad:*<br>Canolbwyntiodd yr adolygiad ar sut mae'r Awdurdod yn darparu'r Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol.<br>Cwmpas yr adolygiad oedd nodi, profi a gwerthuso'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Rhanbarthol. | **Sgôr Sicrwydd:**<br>***Uchel***<br>***Derbyniol***<br>***Isel*** |

Adroddiad Monitro Blynyddol (2022/23 yn cael ei gyhoeddi fis Hydref 23]

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o'r Llywodraethu Corfforaethol, ac mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol.

Mae cynlluniau cyflawni yn cael eu datblygu a'u hadrodd yn y Pwyllgor Craffu. Caiff y camau gweithredu eu monitro trwy gyfrwng PIMS gan yr adran a chan y Pwyllgor.

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi lle y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio gan Bwyllgor Cynllunio part-32-revised-council-9th-feb-2022.pdf (gov.wales)wrth ystyried adroddiad argymhelliad gan swyddogion

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn darparu awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd ar gyfer swyddogaethau cynllunio penodol part-32-revised-council-9th-feb-2022.pdf (gov.wales). Mae swyddogion yn cael eu dirprwyo i ymgymryd â gweithgareddau allweddol sy'n briodol i'w rôl gan y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd.

Mae Panel Ymgynghorol y Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi cyngor ac arweiniad i swyddogion wrth ddatblygu cynllun datblygu lleol y Cyngor sy'n cael ei ystyried gan bwyllgor craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd, y Cabinet a'r Cyngor llawn cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd wrth Lywodraeth Cymru ar y cynnydd a wnaed o ran bodloni'r CDLl trwy gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol. Caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei ystyried gan bwyllgor craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd, y Cabinet a'r Cyngor cyn iddo gael ei gyflwyno i'r llywodraeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod targedau perfformiad cynllunio cenedlaethol ar gyfer y Cyngor ac mae'n ofynnol iddo adrodd ar ei berfformiad wrth Lywodraeth Cymru yn flynyddol.

Mae gan y Cyngor ei set ei hun o dargedau perfformiad cynllunio lleol; mae'r system PIMs yn adrodd ar y rhain ac yn eu monitro'n gorfforaethol a chânt eu hadrodd wrth y Pwyllgor Cynllunio bob chwarter.

Mae gan yr Adran ei HWB monitro perfformiad byw ei hun sef ARCUS, sy'n darparu adroddiadau amser real ar swyddogaethau cynllunio at ddibenion rheoli lleol.

Caiff adolygiadau rheoli perfformiad eu cynnal gan reolwyr llinell gan defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol. Cynhelir adolygiadau TIC ar feysydd o'r swyddogaeth a chânt eu hadrodd wrth Bennaeth y Gwasanaeth, caiff argymhellion sy'n deillio o adroddiadau eu hadrodd a chaiff cynnydd ei fonitro drwy'r system PIMS.

# 5e Cyllid

**Mae'r sefyllfa yma yn Sir Gaerfyrddin yn heriol yn ariannol.**
**Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn wynebu diffygion mawr yn eu cyllidebau yn sgil yr hinsawdd economaidd fyd-eang.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?


- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, fel pob awdurdod lleol, yn wynebu pwysau ariannol digynsail gan fod costau cynyddol chwyddiant, prisiau bwyd ac ynni ynghyd â mwy o alwadau byd-eang am nwyddau a gwasanaethau, yn golygu bod diffyg sylweddol yn ei gyllideb ar gyfer 2023/24.
- Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau 'Mae'r dewisiadau o ran y gyllideb eleni yr un mor anodd ag yn ystod blynyddoedd gwaethaf y cyfnod o gyni cyllidol. Er i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyfrif am tua ¾ ein hincwm, gynyddu 8.5%, roedd yn dal yn rhaid i ni gyllidebu am arbedion o £9.4m ar gyfer eleni, a oedd yn golygu bod yna benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud'.
- Rhaid i ni ymateb i'r her hon eto a byddwn yn gwneud hynny, gan sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi trigolion, busnesau a chymunedau Sir Gaerfyrddin.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

- **Casglwyd 97.33% o'r Dreth Gyngor** yn ystod 2022/23, sy'n welliant bach ar 97.24% yn 2021/22%. Parhaodd y camau adfer trwy gydol y flwyddyn ariannol hon, ond oherwydd y pandemig diweddar a'r argyfwng costau byw presennol mae aelwydydd incwm isel sydd mewn gwaith yn ei chael hi'n anodd talu. Byddwn yn parhau i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at adennill gan sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth a chyngor perthnasol i'r rheiny sy'n mynd i ôl-ddyledion er mwyn sicrhau'r ffordd orau bosibl ymlaen gyda golwg ar drefniadau ad-dalu. Byddwn yn darparu gwybodaeth berthnasol ac yn cyfeirio i sicrhau bod trigolion yn hawlio'r rhyddhad treth gyngor a'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael, a'u cyfeirio at gyngor perthnasol ynghylch dyled a budd-daliadau.

  **Rydym wedi symud i fyny i'r 4ydd gyfradd gasglu uchaf o gymharu â'r 6ed ar gyfer 2021/22.**






Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- **Casglwyd 97.97% o'r ardrethi annomestig** yn ystod 2022/23 sydd ychydig yn is nag yn 2021/22 pryd yr oedd yn 97.98%. Mae'r data cymharol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos ein bod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 95.51% ac yn yr 8fed safle, i lawr o'r 7fed y llynedd.
- Gyda mwy o fynediad at **wasanaethau ar-lein**, mae hyn wedi creu newid naturiol at daliadau ar-lein gyda llawer o gwsmeriaid yn cysylltu â ni, yn cyflwyno ffurflenni a dogfennau, ac yn talu am ein gwasanaethau'n electronig gyda chynnydd o 6.03% yn nifer y taliadau ar-lein o 56,582 yn 2021/22 i 59,995 o drafodion yn ystod 2022/23.
- **Costau byw** - Rydym wedi gweinyddu'r **Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf** ac wedi prosesu 19,986 o achosion ac rydym wedi talu £4 miliwn i gefnogi trigolion Sir Gaerfyrddin.
- Rydym yn hyrwyddo'r **Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai** ac rydym yn annog pobl i fanteisio arnynt. Dyrannwyd £100k ychwanegol i'r gronfa Taliad Disgresiwn at Gostau Tai drwy'r cynllun dewisol costau byw.

## Cynnydd yn 2022/23

- **Archwilio Datganiad Ariannol** - Cafwyd adroddiad Archwilio diamod gan Archwilio Cymru mewn perthynas â'n Datganiad Cyfrifon 2021-22. Roedd y rhain unwaith eto'n cynnwys nifer a gwerth sylweddol o gyllid ychwanegol yn ymwneud â COVID-19 o lawer o wahanol grantiau. Yn dilyn newidiadau hwyr i'r gofynion cyfrifyddu/archwilio, roedd Sir Gaerfyrddin yn gallu addasu i'r newidiadau hyn ac roedd ymhlith yr Awdurdodau Lleol cyntaf yng Nghymru i gael ei gyfrifon ar gyfer 2021-22 wedi'u cymeradwyo.
- Er gwaethaf pwysau chwyddiant ar raddfa wirioneddol ddigynsail, roedd y Cyngor yn gallu gosod **cyllideb gytbwys** yn seiliedig ar gyfanswm Gwariant / Incwm o £656m. Gosodwyd cynnydd o 6.8% yn y Dreth Gyngor.
- Ymatebodd dros 2,000 o bobl i'r ymgynghoriad ar-lein, a daeth 80 o bobl ifanc o Ysgolion Uwchradd y Sir i ddigwyddiad wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir i drafod ag Aelodau'r Cabinet a mynegi eu blaenoriaethau. Ystyriwyd yr holl sylwadau a safbwyntiau a gwnaed newidiadau i gynigion cyllideb y Cyngor.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae grŵp Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys swyddogion allweddol a 2 aelod cabinet yn ei le, gyda'r Aelod Cabinet dros Adnoddau yn aelod ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol. Mae'r grŵp yn gyfrifol am ddiweddaru'r Côd Llywodraethu ac am lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn ogystal, mae'r grŵp yn goruchwylio gwaith y Grŵp Rheoli Gwybodaeth. Mae cofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi'i sefydlu'n ffurfiol gyda byrddau llywodraethu a chynghori ategol. Fel rhan o'r trefniadau sicrwydd ar gyfer portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe, cynhaliwyd Adolygiad Gateway annibynnol. Cynhaliwyd yr adolygiad gan dîm allanol annibynnol yn unol â Chanllawiau Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru. Cafodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe sgôr Ambr-Gwyrdd o ran Asesu Hyder Cyflawni.

# 5f Caffael

**Rydym yn gwario dros £311 miliwn y flwyddyn ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau, a chaiff hyn effaith fawr ar ansawdd bywyd Cymuned Sir Gaerfyrddin.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae'n bwysicach nag erioed bod gennym y trefniadau gorau ar waith i ddarparu atebion arloesol sy'n ein helpu i leihau costau a gwella'r gwasanaethau a ddarparwn i'n trigolion. Rydym yn parhau i ddefnyddio caffael i gael effaith gadarnhaol ar economi a chymunedau Sir Gaerfyrddin wrth ddarparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.




Proses lle mae sefydliadau yn diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan yn nhermau cynhyrchu manteision, nid yn unig i’r sefydliad caffael, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan greu’r difrod lleiaf i'r amgylchedd.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

- Drwy ddarparu **Budd i'r Gymuned**, cyflwynwyd dros 1,628 wythnos o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu gennym yn 2022/23 drwy Raglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif y Cyngor yn ogystal â phrosiectau Tai a Datblygu Economaidd ar draws y Sir.
- **Crëwyd 43 o swyddi** drwy Fudd i'r Gymuned yn ein prosiectau Adeiladu (rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, prosiectau tai ac adfywio).
- 2,360 o ymgysylltiadau â disgyblion STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) drwy Fudd i'r Gymuned yn ein Prosiectau Adeiladu (Rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif, prosiectau tai ac adfywio).

| | | |
|---|---|---|
| **Archwiliad Mewnol** | Cynhaliwyd yr adolygiad Archwilio Mewnol canlynol fel rhan o Gynllun Archwilio 2022/23:<br>**Caffael (Cyhoeddwyd yr Adroddiad Terfynol: 2 Mawrth 2023)**<br>***Sgôr Sicrwydd: Derbyniol***<br>*Amcan yr adolygiad:*<br>Ceisiodd yr adolygiad roi sicrwydd bod yr Awdurdod yn cael y gwerth gorau am arian ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau a gafodd eu caffael hyd at werth o £5k, a bod yr holl gaffael o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Awdurdod. | **Graddau Sicrwydd**<br>***Uchel***<br>***Derbyniol***<br>***Isel*** |

### Cynnydd yn 2022/23

- Rydym yn gweithio'n barhaus gydag adrannau i ddarparu ymarferion tendro sy'n cydymffurfio trwy weithredu dull rheoli categorïau.
- Fel rhan o'r holl ymarferion tendro, caiff mecanweithiau lotio priodol eu defnyddio i sicrhau bod y contractau'n ddeniadol i fusnesau bach a chanolig. Roedd tendr rhanbarthol diweddar ar gyfer Fframwaith Contractwyr Peirianneg Sifil 2023 yn cymryd ymagwedd wahanol ac ychwanegiad allweddol at y fersiwn hon o'r fframwaith oedd cynnwys lotiau penodol i'r sir ar gyfer y gwaith peirianneg sifil bach iawn hyd at £50k



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

mewn gwerth. Pwrpas hyn oedd annog busnesau bach a chanolig i wneud cynnig am le ar y lotiau hyn a'u helpu i dyfu a bod mewn sefyllfa i wneud cynnig am lotiau mwy o fewn y Fframwaith yn y dyfodol. Cafodd math newydd o ddigwyddiad ymgysylltu â chyflenwyr ei dreialu mewn partneriaeth â Busnes Cymru ar gyfer y cyflenwyr hynny nad ydynt wedi tendro o'r blaen. Roedd y sesiwn 'Bod yn Barod i Dendro' yn rhoi cymorth i gofrestru ar blatfformau perthnasol fel GwerthwchiGymru ac eDendroCymru. O'r 67 o denantiaid llwyddiannus:

- Mae 13 yn gwmnïau o Sir Gaerfyrddin (19%)
- Mae 41 yn dod o ranbarth De-orllewin Cymru (61%)

Roedd hyn yn llwyddiant a dechreuodd y fframwaith ym mis Chwefror 2023.

## Oes unrhyw un ar ei ennill?

### *Sicrhau cymaint â phosibl o fudd i'r gymuned o gynllun gwerth miliynau o bunnoedd Pentre Awel yn Llanelli*




*Prosiect gwerth miliynau o bunnoedd sy'n dwyn ynghyd fusnes, ymchwil, addysg, gofal iechyd cymunedol a chyfleusterau hamdden modern mewn un lleoliad gwych ar hyd arfordir Llanelli*

Pentre Awel yw'r datblygiad cyntaf o'i gwmpas a'i faint yng Nghymru. Ar ôl ei gwblhau, bydd yn darparu ymchwil meddygol a gofal iechyd o'r radd flaenaf a bydd yn cefnogi ac yn annog pobl i fyw bywydau egnïol ac iach.

Bydd yn creu pum adeilad gwahanol sy'n gysylltiedig â "stryd", a fydd yn cynnwys canolfan gweithgareddau dŵr, neuadd chwaraeon, ystafelloedd chwaraeon a ffitrwydd amlbwrpas a champfa, cyfleusterau addysg a hyfforddiant, darpariaeth glinigol ac ymchwil ac arloesi a lle i fusnesau.

Yn ogystal â gwella iechyd a llesiant, bydd y prosiect yn creu dros 1,800 o swyddi a chyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau, a disgwylir iddo roi hwb o £467 miliwn i'r economi leol dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae ein tîm Caffael Corfforaethol yn gweithio gyda'r prif gontractwr, Bouygues UK i ddylunio ac adeiladu Parth Un o ddatblygiad Pentre Awel.

Mae ein swyddog Buddion Cymunedol yn gweithio'n agos gyda Bouygues UK i wneud y mwyaf o'r budd i'r gymuned sydd i'w gwireddu yn y prosiect hwn. Targed y prosiect ar gyfer Recriwtio a Hyfforddiant wedi'i Dargedu yw 4860 o wythnosau person mewn 89 wythnos. Trwy Grŵp Cefnogi Cyflogwyr Sir Gaerfyrddin, bydd rhwydwaith mawr o brosiectau cyflogadwyedd fel Gweithffyrdd+ a Cymunedau am Waith, darparwyr dysgu gan gynnwys Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a chyrff cyhoeddus megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru, ynghyd â chynrychiolaeth o fewn adran Datblygu Economaidd y Cyngor a chefnogaeth y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol wrth law i gyflawni'r targedau uchelgeisiol hyn. Mae'r Grŵp Cefnogi Cyflogwyr yn cyfarfod yn aml ac yn darparu cefnogaeth hanfodol i leoli unigolion ar gyfer profiad gwaith, a swyddi ar y safle. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar y cyfleoedd addysg ac ymgysylltu â'r gymuned, gyda chyflwyniadau yn cael eu gwneud i'r Ganolfan Ieuenctid leol a phrosiectau menter gymdeithasol sydd angen cymorth yn yr ardal o amgylch y prosiect. Mae Llysgenhadon Ysgolion a Chymuned wedi cael eu penodi fel cynrychiolwyr lleol i ddarparu'r cyswllt rhwng y gymuned leol, ysgolion a thîm y prosiect. Mae Bouygues UK hefyd wrthi'n hysbysebu ar gyfer pecynnau is-gontractwyr.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn elfen allweddol o'r Llywodraethu Corfforaethol, ac mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau gan fod angen diweddariadau.

# 5g Archwilio Mewnol

**Y farn gyffredinol yw bod yr Awdurdod yn gweithredu amgylchedd rheoli 'Derbyniol'.**
**(Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ***gorff llywodraeth leol gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system rheoli mewnol***. Trwy ddarparu dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, mae swyddogaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin yn darparu gwasanaeth archwilio annibynnol, gwrthrychol o ansawdd, sy'n diwallu anghenion y Cyngor yn effeithiol, yn ychwanegu gwerth, yn gwella gweithrediadau, ac yn helpu i ddiogelu adnoddau cyhoeddus.
Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin agwedd **dim goddefgarwch** at bob math o dwyll, arferion llwgr a dwyn, oddi mewn i'r Cyngor ac o ffynonellau allanol. Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd o fewn y Cyngor ac yn ymchwilio i unrhyw honiadau o dwyll, llwgrwobrwyo, llygredd ac afreoleidd-dra eraill.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

- **Cyhoeddwyd 87%** o'r **adroddiadau Archwilio Mewnol drafft o fewn 10 diwrnod gwaith o gwblhau'r gwaith maes** ***(IA/002)***
- ! Dim ond **38%** o'r **ymatebion gan reolwyr a dderbyniwyd o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol drafft**. Gwneir ceisiadau am ymatebion gan reolwyr o fewn y targed o 15 diwrnod; fodd bynnag, nid yw ymatebion bob amser yn cael eu darparu o fewn y cyfnod hwn. Gwneir cyswllt pellach â'r rheolwyr i geisio sicrhau bod ymatebion gan reolwyr i adroddiadau yn cael eu derbyn mewn modd amserol, ac o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith. ***(IA/002)***
- Cyhoeddwyd pob un **(100%) o'r adroddiadau terfynol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn ymatebion gan reolwyr**. ***(IA/003)***
- ! **Cwblhawyd 83% o'r Archwiliadau Mewnol a gynlluniwyd** yn ystod 2022/23. Mae materion staffio yn ystod y flwyddyn wedi effeithio'n fawr ar y gallu i gwblhau archwiliadau a gynlluniwyd. Rhoddodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyaeth i ohirio tri aseiniad archwilio o Gynllun Archwilio eleni. Mae recriwtio staff newydd wedi bod yn llwyddiannus gyda chyflenwad llawn o staff o haf 2023. Byddwn yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y cynllun, gan gynhyrchu archwiliadau o ansawdd sy'n ychwanegu gwerth at yr Awdurdod.

### Cynnydd yn 2022/23

- Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn mynnu bod Asesiad Ansawdd Allanol (EQA) o'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cael ei gwblhau bob 5 mlynedd. Daeth yr asesiad diweddaraf, a gynhaliwyd yn ystod 2022/23, i'r casgliad bod gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydymffurfio â 300, allan o'r 304 o ofynion. O'r 4 gofyniad oedd yn weddill, canfuwyd bod tri yn cydymffurfio'n rhannol, gydag un yn cael ei nodi fel un nad oedd yn cydymffurfio.

- Mae camau gweithredu wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion cydymffurfio sy'n ymwneud â'r 4 maes a nodwyd fel rhai sy'n cydymffurfio'n rhannol a rhai nad ydynt yn cydymffurfio yn yr Asesiad Ansawdd Allanol; mae'r manylion fel a ganlyn:
  - Bellach mae Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, sydd y tu allan i'r gweithgarwch Archwilio Mewnol, yn goruchwylio pob aseiniad Archwilio Mewnol sy'n dod o dan gylch gwaith y Pennaeth Archwilio Mewnol (Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol). Er bod protocol uwchgyfeirio cymeradwy eisoes yn bodoli ar gyfer adolygiadau o'r fath, gan nad oedd yr oruchwyliaeth yn cynnwys swyddog o'r tu allan i'r gweithgarwch Archwilio Mewnol, barnwyd nad oedd y trefniadau blaenorol yn cydymffurfio. Ystyrir bod y rheolaeth ychwanegol hon yn ychwanegiad cadarnhaol a bydd yn cryfhau'r broses bresennol.
  - Mae arolygon adborth cleientiaid wedi'u cyflwyno, sy'n ein helpu i wybod sut rydym yn gwneud. O'r canlyniadau hyd yn hyn, rydym wedi cael ymatebion cadarnhaol (Ardderchog neu Dda) i dros 90% o'r cwestiynau. Defnyddir canlyniadau'r arolygon fel sail drafod i wella ein perfformiad.
  - Mae'r ddau faes arall a nodwyd fel cydymffurfiaeth rannol yn ymwneud â chryfhau geiriad o fewn y Siarter Archwilio Mewnol; mae'r newidiadau hyn wedi'u rhoi ar waith, gyda'r Siarter ddiwygiedig i fod i gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2023.

- Ceir dull cydlynol o ddrafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a herio'r cynnwys, er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa lywodraethu wirioneddol a pha welliannau sydd eu hangen. Caiff cynllun gweithredu ei lunio'n flynyddol, a chaiff y materion llywodraethu eu monitro drwy gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Llywodraethu. Mae Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r trefniadau Llywodraethu Corfforaethol sydd ar waith, gan gynnwys adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn flynyddol; Daeth yr adolygiad diweddaraf i'r casgliad bod Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod yn Dderbyniol.

Table - Internal Audit Report extract:

| Findings of Carmarthenshire County Council Internal Audit review of AGS and Corporate Governance | |
|---|---|
| Post Review Assurance Level | Description for Assurance Level |
| Acceptable | Moderate controls, some areas of non-compliance to agreed controls<br>Medium/Low risk of not meeting objectives<br>Medium/Low risk of fraud, negligence, loss, damage to reputation |
| Internal Audit found no fundamental control issues to be addressed as a high priority. | |

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae Archwilio Mewnol yn adrodd wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sydd yn elfen allweddol o Lywodraethu Corfforaethol, ac mae’r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar gyfer rheoli risg, cynnal amgylchedd rheoli effeithiol ac adrodd am berfformiad ariannol yn ogystal ag anariannol.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# 5h Rheoli Pobl (Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd Galwedigaethol)

**Mae pobl yn dweud eu bod yn falch o weithio i ni ac y byddent yn ein hargymell fel cyflogwr. Ymatebodd dros 1,700 o staff i'n harolwg staff yn 2022 ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae cynnwys y gweithlu yn hanfodol i ddarparu ein gwasanaethau.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

Staff yw ein hased mwyaf ac mae gennym tua 8,000 o weithwyr sy'n cyfrannu bob dydd at gyflawni ein gwasanaethau. Ni allwn wireddu ein huchelgeisiau heb ein gweithlu ymroddedig a brwdfrydig. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd, yn agored, yn onest, yn deg ac yn gynhwysol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

**Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau**

CIW HWW | Cymru Iach ar Waith Healthy Working Wales

Yn ystod 2022/23 dyfarnodd Llywodraeth Cymru'r Safon Iechyd Corfforaethol Aur a Phlatinwm i'r Cyngor unwaith eto. Mae'r Safon Iechyd Corfforaethol yn rhan o raglen Cymru Iach ar Waith Llywodraeth Cymru a hon yw'r marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd a llesiant yn y gweithle.

Platinwm yw'r lefel uchaf ar gyfer cyflogwyr sy'n dangos arferion busnes cynaliadwy ac sy'n ystyried eu cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol yn llawn. Mae'r lefel Platinwm yn cydnabod cyflogwyr cyfrifol sy'n dangos ymrwymiad corfforaethol i gefnogi nid yn unig eu gweithwyr, ond hefyd cyflogwyr eraill a'r gymuned leol.

Roedd faint o waith rydym yn ei wneud ym mhob maes a'r ymagwedd gydgysylltiedig a soffistigedig wedi creu argraff fawr ar yr aseswr a nodwyd bod **'*cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ers y broses ailddilysu ddiwethaf ar gyfer y lefel Platinwm yn 2019*'**.

Cawsom ein cydnabod hefyd fel sefydliad Buddsoddwyr mewn Pobl a chawsom Achrediad Aur. Mae hyn yn golygu bod ***'pobl ac arweinwyr yn mynd ati i ysgogi canlyniadau cadarnhaol, gan gymryd perchnogaeth o'r egwyddorion a'r arferion [sef Buddsoddi mewn Pobl]'***

Dywedodd ein Hymgynghorydd Allanol wrthym ei bod wedi dod o hyd i:

***'… sefydliad sy'n amlwg yn wahanol – o ganlyniad i ganolbwyntio ar ymddiriedaeth, grymuso, gofalu a rhoi cefnogaeth, buddsoddiad parhaus mewn arferion gorau, gwella rheoli a'r defnydd o ddata.'***

Gwelodd yr adolygiad hefyd fod yna barch rhwng y naill a'r llall ar bob lefel, gyda phobl yn agored i gael adborth, ac awydd i wella trwy fuddsoddi mewn pobl a'u llesiant. Yr hyn oedd yn amlwg oedd bod yna bobl dalentog ar bob lefel o'n sefydliad. Pan fyddwn ar ein gorau, rydym yn gweithio ar y cyd, yn gwneud gwelliannau gan ddefnyddio ffynonellau mewnol ac allanol ac yn gwneud penderfyniadau.

! Canfu'r adolygiad mai'r meysydd y mae angen i ni weithio arnynt yw sut rydym yn cydnabod ac yn gwobrwyo pobl yn ogystal â datblygu sgiliau ein harweinwyr. Mae angen i ni barhau i feddwl am sut rydyn ni'n cyfathrebu i sicrhau bod pawb yn cael y negeseuon sydd eu hangen arnyn nhw.

## Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae [Cyfamod y Lluoedd Arfog] yn addewid gan y genedl i'r rheiny sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog. Mae'n dweud y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt dan anfantais yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth ychwanegol i ddynion a menywod sydd wedi'u hanafu a theuluoedd mewn profedigaeth lle bo hynny'n briodol.

- Cafodd pob rhan o'r Cyngor Sir y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion Deddf y Lluoedd Arfog fel bod ein prosesau a'n polisïau yn lleihau'r perygl o anfantais i Gymuned y Lluoedd Arfog drwyddi draw, yn enwedig ym meysydd tai ac addysg.

**<u>Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn (DERS) - Gwobr Arian</u>**

- Buom yn gweithio i sicrhau bod ein polisïau a'n harferion cyflogaeth o fewn y Cyngor yn cefnogi cymuned y lluoedd arfog a dyfarnwyd Gwobr Arian y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn (DERS) i ni.
- Rydym hefyd wedi rhoi'r mesurau ar waith i gynnig Cynllun Cyfweliad Gwarantedig ar gyfer aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog (mae meini prawf penodol yn berthnasol), a fydd yn cael ei lansio pan fydd y platfform recriwtio newydd yn mynd yn fyw.

Rydym wedi sefydlu cysylltiadau cryf a llwybrau atgyfeirio rhwng ein tîm recriwtio, gweithffyrdd ac elusennau cyflogaeth y lluoedd arfog, fel bod cyn-filwyr sydd angen y cymorth ychwanegol hwnnw wrth geisio cael gwaith yn ei gael.

## Arolwg Gweithwyr

Yn ystod 2022/23 cynhaliom hefyd ein Harolwg Ymgysylltu â Gweithwyr cyntaf gyda'r nod o asesu i ba raddau yr ydym yn ymgysylltu â'n staff.

**<u>Gweithio i ni</u> -** Dywedodd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd eu bod yn falch o weithio i Gyngor Sir Caerfyrddin ac y byddem yn ein hargymell fel cyflogwr. Dywedodd llawer hefyd eu bod yn teimlo bod eu llesiant yn bwysig i'r Cyngor, a bod cydraddoldeb yn cael ei gefnogi yn y gweithle, gan ganiatáu iddynt fod yn nhw eu hunain a siarad yn agored. Hefyd dywedodd llawer eu bod yn cael eu hannog i wneud awgrymiadau a herio'r ffordd y caiff pethau eu gwneud; a bod eu barn yn cael ei chlywed a'i defnyddio i wella pethau.

**<u>Cyfathrebu</u>** - Cytunodd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i'r arolwg eu bod yn gwybod beth oedd yn digwydd yn eu tîm neu eu lleoliad gwaith.

! Roedd llai o bobl yn teimlo eu bod yn gwybod beth oedd yn digwydd ar draws y sefydliad.

**<u>Dysgu a Datblygu</u>** - Roedd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod ganddynt y sgiliau cywir i wneud eu gwaith a dywedodd llawer eu bod yn gallu perfformio hyd eithaf eu gallu. Hefyd dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu yn eu dewis iaith.

O ran datblygu sgiliau newydd, dywedodd llawer eu bod yn cael eu hannog i ddysgu a thyfu a'u bod wedi cael y cyfle i wneud hynny yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
! Fodd bynnag, o edrych ar rai o'r ymatebion, mae'n amlwg nad yw hyn yn wir i bawb, a byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn ystod 2023/24.

**Disgwyliadau a Chydnabyddiaeth** - Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod eu swydd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r Cyngor. Roedden nhw hefyd yn glir am yr hyn a ddisgwylir ganddynt, a'r hyn y gallent ei ddisgwyl gan eu rheolwr. Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad Buddsoddwyr Mewn Pobl nad oedd pawb yn cael yr un profiad, ac nad oedd arfarniadau yn cael eu cynnal mewn modd cyson.
Dywedodd llawer fod rhywun wedi siarad â nhw am eu cynnydd yn ystod y flwyddyn flaenorol a'u bod yn cael cydnabyddiaeth yn rheolaidd gan eraill am wneud gwaith da.

**Trosiant**
Mae'r trosiant gwirfoddol ar hyn o bryd yn 9.11%, sy'n is na chyfartaledd y DU, ac sy'n ddangosydd ein bod yn gyflogwr da, a gaiff ei gadarnhau gan ganlyniadau'r arolwg staff - mae staff yn "falch o weithio i ni" ac mae staff yn barod i'n "hargymell ni fel cyflogwr". Lle mae gennym drosiant uwch na'r cyfartaledd, mae strategaethau cadw wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r gwasanaethau e.e. taliadau marchnad atodol, ychwanegiad Cyflog Byw Gwirioneddol, ailwerthuso rolau swyddi.

**Darparu Gwasanaethau Dwyieithog**
Rydym yn deall bod y Gymraeg yn allweddol i hunaniaeth nifer o'n trigolion ac yn aml iawn bod pobl yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu hiaith gyntaf. Felly mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod ein trigolion a'n cwsmeriaid yn gallu cyrchu ein gwasanaethau trwy eu dewis iaith a sicrhau bod gan ein gweithwyr y sgiliau gofynnol. Mae gennym ystod o gyfleoedd dysgu a datblygu ar waith i sicrhau bod staff newydd a phresennol yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Eleni byddwn yn cryfhau'r broses o ddatblygu Cytundebau Iaith Gymraeg, a ystyrir ochr yn ochr â gweithredu system recriwtio newydd Oleeo. Mae'r tudalennau recriwtio hefyd yn cael eu diweddaru i ddarparu cyfleoedd i bob ymgeisydd gyrraedd lefel 1 cyn dechrau gweithio.
Rydym hefyd yn bwriadu cynyddu cyfran y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg o fewn y Cyngor.

**Llesiant ein Gweithlu Presennol**

Mae cefnogi llesiant ein gweithlu yn flaenoriaeth allweddol i'r Is-adran a dywedodd ein harolwg ymgysylltu wrthym fod y mwyafrif o bobl a gymerodd ran yn cytuno bod eu llesiant yn bwysig i ni fel cyflogwr, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y cyfraniadau a wnânt.

**Cyfleoedd Datblygu'r Gweithlu**


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu amrywiaeth o fentrau ac atebion mewn ymgais i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi ein pobl i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg
- Cefnogi 12 o arweinwyr y dyfodol
- Noddi 21 o unigolion i ddod yn Weithwyr Cymdeithasol
- Recriwtio 10 o raddedigion – i gyflawni ein dyheadau o gynllunio'r gweithlu
- Recriwtio 5 prentis - i gyflawni ein dyheadau o gynllunio'r gweithlu.

! Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i sicrhau bod ein holl bobl yn ymgymryd â hyfforddiant lefel 1 mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd 69% o'n staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Mae angen i ni wella'r nifer sy'n manteisio ar hyn, ac eleni bydd caffael System Rheoli Dysgu newydd yn llwyddiannus, fel rhan o Gonsortiwm Awdurdodau Lleol Cymru, yn ein cynorthwyo i wella a monitro'r cyfraddau cwblhau.

**Presenoldeb**

! Mae gennym fframwaith rheoli presenoldeb cadarn ar waith gydag ystod o atebion o ran llesiant gweithwyr i gefnogi'r sefydliad; fodd bynnag, parhaodd absenoldeb salwch fesul gweithiwr i gynyddu yn ystod 2022/23 i 11.6 diwrnod *(PAM/001)*




Dylid nodi mai nid ffigurau salwch Sir Gaerfyrddin yn unig sydd wedi cynyddu wedi'r pandemig, ond bod cyfartaledd Cymru hefyd wedi cynyddu 3.4 diwrnod (8.4 diwrnod – 11.8 diwrnod).



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| | |
|---|---|
| Archwilio Cymru Audit Wales | Adroddiad Archwilio Cymru: Llamu Ymlaen - Rheoli'r Gweithlu - Cyngor Sir Caerfyrddin (Medi 2022) |
| Pwrpas: Mae'r adroddiad hwn yn adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei weithlu. Mae'n edrych ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol ar gyfer ei weithlu, sut y mae'n monitro'r defnydd o'i weithlu a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.<br>**Canfyddiad:** ***Bod y Cyngor yn gwella'r gwaith cynllunio strategol ar gyfer ei weithlu ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â materion capasiti staff mewn meysydd gwasanaeth allweddol ond mae'n cydnabod bod angen cryfhau'r gwaith o fonitro perfformiad rheoli'r gweithlu*** | |

## Cynnydd yn 2022/23

- Yn ystod 2022 cytunodd y Cyngor ar Strategaeth Drawsnewid newydd.
- Mae Strategaeth Gweithlu newydd wedi'i datblygu a bydd yn cael ei chymeradwyo yn ystod 2023-24.
- Yn ystod 2023-24 byddwn hefyd yn cytuno ar bolisi Dysgu a Datblygu newydd sy'n sicrhau mynediad teg at ddysgu i'n holl staff.

**Polisïau Cyflogaeth**

- Mae ein holl bolisïau cyflogaeth yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth. Rydym hefyd yn ymateb i adborth gan reolwyr ac yn sicrhau bod ein polisïau yn cyd-fynd ag arfer da.
- Rydym wedi cynnal adolygiad cyflawn o'n polisïau a'n gweithdrefnau Diogelu Cyflogaeth ac wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd sydd angen eu gwella. Bellach mae gennym bolisi a gweithdrefn newydd wedi'u diweddaru sydd wrthi'n cael eu cymeradwyo (cytunwyd i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol).
- Rydym wedi datblygu polisi newydd ynghylch Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd wedi cyflwyno absenoldeb arbennig i bobl mewn perthynas gamdriniol; ystyrir bod hyn yn arwain y sector.
- Mae ein Cynllun Tâl ac Absenoldeb Babanod Cynamserol a Babanod sydd yn yr Ysbyty yn cefnogi rhieni sydd â babanod cynamserol neu sâl lle gallwn gynnig absenoldeb ychwanegol â thâl ar ôl genedigaeth plentyn y mae angen iddo aros am gyfnod estynedig yn yr ysbyty.

**Recriwtio a chadw**

- Rydym yn parhau i reoli lefelau uchel o recriwtio (ceir tua 130 o swyddi gwag ar unrhyw un adeg fel ar 1 Mehefin 23) a chefnogi adrannau i recriwtio gweithwyr tramor i helpu i bontio'r bylchau sgiliau mewn rhai gwasanaethau (drwy gynllun nawdd mewnfudo'r DU).

! Mae recriwtio a chadw mewn rhai meysydd yn broblemus ac, mewn sawl maes gwasanaeth, mae'n broblem genedlaethol (e.e. rolau gofal cymdeithasol). Fodd bynnag, rydym wedi rhoi strategaethau ar waith i gefnogi gwasanaethau gan gynnwys ailraddio tâl marchnad atodol, cynlluniau i uwchsgilio ein gweithlu gofal cymdeithasol fel yr Academi Gofal, ystod o fentrau llesiant.

- Er mwyn cefnogi ein staff ar gyflogau is, rydym wedi adolygu ein model cyflogau, talu tâl atodol Cyflog Byw Gwirioneddol pan fo'n berthnasol, ac ar hyn o bryd rydym yn edrych ar wahanol atebion gweithio hyblyg mewn rhai meysydd gwasanaeth.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

| |
|---|
| Mae'r Bwrdd Trawsnewid yn rheoli gwaith y Ffrydiau Gwaith Trawsnewid<br>Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau ein bod yn cadw at y Côd Llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

# 5i Gwasanaethau Democrataidd

**Adborth cadarnhaol gan Aelodau Etholedig ar y gwasanaeth a ddarperir gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd.**

## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn rheoli proses gwneud penderfyniadau'r Cygor. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cyflwyno sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, tra bod eraill yn fater i'r Cyngor eu dewis.
- Fel rhan o'r broses honno, bydd y gwasanaeth yn:
  - Cynnal a datblygu prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor gan gynnwys paratoi agendâu, adroddiadau a chofnodion, hwyluso darlledu a chynnal cyfarfodydd aml-leoliad, a sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn atebol ac yn dryloyw.
  - Rheoli a darparu cefnogaeth Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor i'r Cyngor a'i amrywiol Bwyllgorau.
  - Cefnogi gwasanaethau i Aelodau Etholedig, gan gynnwys cynnal a rheoli gwybodaeth leol am gynghorwyr ar ein gwefan (yn cynnwys gwybodaeth am ddatganiadau o fuddiannau; rhoddion a lletygarwch; aelodaeth o Bwyllgorau; tâl ac ati) a darparu gwasanaeth cymorth ar gyfer ymholiadau a chyngor ar Gyfansoddiad y Cyngor a Chôd Ymddygiad yr Aelodau.
  - Gweinyddu apeliadau yn ymwneud â derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau parhaol o ysgolion.
  - Gwasanaethu a chynnal trefniadau cydweithio – h.y. Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r Bartneriaeth
  - Gwasanaethu cwmnïau hyd braich y Cyngor sef Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta a Bwrdd Cyfranddalwyr CWM Environmental Ltd.
  - Rheoli cyfarfodydd mewnol rhwng Arweinwyr Grwpiau, Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad a chyfarfodydd aelodau'r Cabinet gyda Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu hefyd.
  - Rheoli gwaith achos etholaethol yr aelodau drwy system Ymholiadau Cynghorwyr, prosesu treuliau Cynghorwyr a gwneud trefniadau ar gyfer mynd i gynadleddau a seminarau. Rhyddhawyd proses Ymholiadau Cynghorwyr newydd wedi'i diweddaru, gyda'r cyfleuster i aelodau weld achosion a gofnodwyd yn gynharach yn y flwyddyn.
  - Cefnogaeth i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn eu dyletswyddau dinesig.
  - Datblygu a diweddaru'r tudalennau gwe Democratiaeth a rheoli archebion am ystafelloedd democrataidd.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

- Derbyniodd yr Uned dros 4,300 o ymholiadau gan Aelodau yn ystod 2022/23. Atebwyd 73.4% o'r ymatebion adrannol o fewn yr amserlen darged o 7 diwrnod.
- Cofnodwyd dros 1,235 o geisiadau am wasanaeth ar ran yr Aelodau yn ystod y cyfnod rhwng 18 Awst 2022 a 30 Ebrill 2023.
- Agorwyd 323 o ffeiliau apêl rhwng 09/05/22 a 08/05/23. Yn ogystal â 2 apêl gwahardd.
- Rhoddwyd gwasanaeth i dros 300 o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn.

## Cynnydd yn 2022/23

| | |
|---|---|
| Archwilio Cymru Audit Wales | **Adolygiad Dilynol Archwilio Cymru: Trosolwg a Chraffu - Addas ar gyfer y dyfodol? – Cyngor Sir Caerfyrddin – Gorffennaf 2022**<br>Canfyddiadau<br>*At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r cynigion blaenorol ar gyfer gwella ond mae dal angen iddo gryfhau'r trefniadau i asesu effeithiolrwydd ac effaith ei swyddogaeth graffu.* |

1. Cafodd cynllun gweithredu ei ddychwelyd i Archwilio Cymru ac mae Archwilio Cymru wedi cyfarfod â'r Cabinet a'r fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu mewn cyfarfodydd ar wahân i drafod y canfyddiadau.
2. Bydd yr adroddiad a'r Cynllun Gweithredu yn mynd gerbron y Tîm Rheoli Corfforaethol, Craffu Corfforaethol a Pherfformiad ac yna'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
3. Bydd argymhellion yn cael sylw mewn Cynlluniau Busnes ac yn cael eu holrhain ar PIMS.

- Llwyddodd y Gwasanaeth i roi'r trefniadau ar waith ar gyfer y Cyngor Newydd yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022. Roedd hyn yn cynnwys trafod gydag Arweinwyr Grŵp ac aelodau heb gysylltiad pleidiol ar sefydlu cyfansoddiad gwleidyddol gytbwys pwyllgorau a chynrychiolwyr ar gyrff allanol.
- Gwnaethom roi cofnodion a gwefan y Cyngor yn eu lle a'u diweddaru mewn perthynas â threfniadau i gynyddu aelodau etholedig Sir Gaerfyrddin o 74 i 75 a'r newidiadau i strwythur wardiau yn dilyn adolygiad o'r wardiau etholiadol gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol.
- Gweithiodd y gwasanaeth gyda Dysgu a Datblygu ar y Rhaglen Sefydlu Aelodau ar gyfer aelodau newydd a rhai sy'n dychwelyd.
- Rydym wedi llwyddo i symud y Cyngor i gyfarfodydd aml-leoliad (hybrid) sy'n ofyniad cyfreithiol yn Neddf 2021.
- Gwnaethom gyflwyno Cynllun Deisebau a Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd sydd hefyd yn un o ofynion Deddf 2021.
- Yn unol â'r gofyniad cyfreithiol i ganiatáu i aelodau fod yn bresennol naill ai'n gorfforol neu o bell, gwnaeth y gwasanaeth drefniadau i gynnal cyfarfodydd aml-leoliad o'r Cyfarfod Blynyddol ar 25 Mai 2022. Rydym hefyd bellach yn darlledu pob cyfarfod ffurfiol, sydd wedi cynyddu nifer y cyfarfodydd sy'n cael eu gweddarlledu ers y cyfnod clo o 50 i dros 200 y flwyddyn.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Fodd bynnag, mae gan y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol rôl flaenllaw wrth gefnogi'r gwaith o lywodraethu'r broses Ddemocrataidd. Cymryd rôl arweiniol yng Ngweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad, cyfarfodydd Arweinwyr Grŵp a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu a gweinyddu'r broses

# 5j Polisi a Pherfformiad

**Gwnaethom ailosod Strategaeth Gorfforaethol ac Amcanion Llesiant y Cyngor a Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin**

Mae ailosod Amcanion Llesiant y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus uchod yn gosod yr olygfa ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ac roedd yn ddarn mawr o waith i'w gyflawni. Mae Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth y Cyngor wedi cyd-fynd â chyflawni'r Amcanion Llesiant. Gwnaethom hefyd ymgynghori'n sylweddol â thrigolion, staff, busnesau ac Undebau Llafur.

## Pam y mae hyn yn bwysig?

⦿ Mae'r gwasanaeth hwn yn arwain ar ystod o ddyletswyddau statudol corfforaethol a gofynion strategol ar ran y Cyngor cyfan. Gwneir hyn drwy gysylltu ag adrannau'r Cyngor a'r Cabinet a'u cynghori ar ystod o faterion corfforaethol. Mae'r meysydd gwaith allweddol a gwmpesir gan yr uned fel a ganlyn:

- Gofynion **Polisi Corfforaethol** sy'n ymwneud â Chydraddoldeb, y Gymraeg, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Lluoedd Arfog, Trechu Tlodi a Chwynion.
- **Rheoli Perfformiad** gan sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud yn ein Strategaeth Gorfforaethol a'n Hamcanion Llesiant a thrwy fonitro, sicrhau bod canlyniadau'n well nag y byddent fel arall.
- **Mewnwelediad Data** sy'n arwain at reoli, casglu a dadansoddi data allweddol i gynorthwyo'r broses o gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a chefnogi meysydd polisi allweddol.
- **Gweithio mewn partneriaeth** rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y Sir, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys diogelwch cymunedol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

## Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

! Dim ond **52.7% o'r cwynion a dderbyniwyd a gwblhawyd o fewn y dyddiad cau statudol** yn ystod 2022/23***(Comp/001),*** mae hyn yn ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 57.8%. Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd wedi cynyddu 54% (500 cwyn ychwanegol). Credir bod amryw faterion yn parhau i gael effaith ar allu Swyddogion Ymchwilio i fodloni'r amserlenni statudol. Mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd, natur gymhleth rhai cwynion, pwysau ar wasanaethau, capasiti oherwydd blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a chyfnodau o absenoldeb staff hefyd yn effeithio ar yr amser a gymerir i gwblhau ymchwiliadau. Mae'r Tîm Cwynion Corfforaethol yn parhau i weithio'n agos gyda thimau nad ydynt yn gallu cwrdd â'r amserlenni statudol oherwydd pwysau sylweddol ar wasanaethau i ddarparu cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatrys cwynion. ⓘ***Gweler Atodiad 5b.***



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnydd yn 2022/23

### Polisi Corfforaethol

Trechu Tlodi - Gweler Amcan Llesiant 2a

Diogelwch Cymunedol - Gweler Amcan Llesiant 3d

Yr Iaith Gymraeg - Gweler Amcan Llesiant 3c

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ar gyfer Cymru. Mae'r Tîm Polisi a Chyfranogiad yn cefnogi'r gwaith o adolygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a bydd camau gweithredu perthnasol yn cael eu hychwanegu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd angen i adrannau fonitro camau gweithredu perthnasol hefyd.
- Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnic) wedi paratoi adroddiad a bydd argymhellion yn cael eu gweithredu yn ystod 2023-24.

| Archwilio Cymru Audit Wales | [Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Adroddiad Cenedlaethol: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio (Medi 2022)] |
|---|---|
| Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol er mwyn osgoi gwahaniaethu yn y penderfyniadau a wnânt ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chydlyniant.<br><br>Mae'r adroddiad yn dangos bod yna enghreifftiau da o agweddau ar y broses o gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol o fewn cyrff cyhoeddus unigol. Bydd yr adroddiad yn helpu pob corff cyhoeddus i ddysgu gan y rheiny sy'n gwneud yn dda a rhoi cynnig ar ddulliau newydd.<br><br>**Ein hymateb**<br><br>Mewn ymateb, gwnaethom baratoi Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion. | |

### Cwynion

- Parhaodd adroddiadau misol i gael eu darparu drwy gydol y flwyddyn i Gyfarwyddwyr ar gwynion Cam 1 a Cham 2, gyda niferoedd yn cael eu rhoi ar gyfer y rheiny sydd wedi eu cau, eu cadarnhau a'u cwblhau o fewn yr amserlen a hefyd y niferoedd sy'n dal ar agor ar hyn o bryd, ac sydd y tu hwnt i'r amserlen ymateb ddisgwyliedig. Mae craffu ychwanegol ar y wybodaeth a ddarparwyd gan adrannau wedi arwain at fod rhai is-adrannau yn anfon ymholiadau a cheisiadau i'r Tîm Cwynion Corfforaethol am wybodaeth ychwanegol, ac mae'r tîm wedi bod yn falch o helpu.

### Cynnwys, Cyfranogi ac Ymgynghori

- Buom yn gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor i ddatblygu ymhellach gyfraniad a defnydd y Cyngor o ddata fel rhan o ddull o gynnwys, cyfranogi ac ymgynghori ar draws y Cyngor.
- Bydd ein gwaith cyfranogiad a'n defnydd o ddata yn awr yn rhan o Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor o ran y modd yr ydym yn sicrhau bod yna ymgysylltu a chyfranogiad parhaus ym mhopeth a wna'r Cyngor a sut yr ydym yn perfformio. Ceir trafodaethau ehangach drwy grŵp Fframwaith Ymgysylltu Parhaus y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyhoeddwyd y Strategaeth Cyfranogiad Democrataidd ar 1 Mai 2022

### Rheoli Perfformiad

Ein Hadroddiad Blynyddol 2021/22 oedd y tro cyntaf y bu'n rhaid i ni adrodd o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a gwnaethom ei gyhoeddi fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol ar ein Hamcanion Llesiant.

- ⦿ Gwnaethom amlinellu gofyniad y Ddeddf newydd a'n Fframwaith Rheoli Perfformiad i aelodau ym mis Tachwedd 2022 fel rhan o'r rhaglen sefydlu.
- ⦿ Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 cyhoeddodd y weinyddiaeth newydd ei datganiad o weledigaeth a gwnaethom ailosod y Strategaeth Gorfforaethol i ganolbwyntio ar 4 Amcan Llesiant yn hytrach na 13. Gwnaethom hefyd gynnal gweithdy gydag aelodau i gyfrannu tuag at ddatblygu'r Strategaeth newydd.
- ⦿ Gwnaethom ddatblygu dull newydd o gynllunio busnes sydd bellach yn canolbwyntio ar gynlluniau cyflawni adrannol sy'n cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant newydd, blaenoriaethau thematig a gwasanaethau a galluogwyr busnes craidd. Roedd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a mesurau ar gyfer y cyfnod 2023-24 a'r ail gam gyda ffocws ar hunanasesu perfformiad yn ystod 2022-23 er mwyn llywio cynlluniau busnes y dyfodol. Cynhelir sesiynau Ymgysylltu a Sicrwydd gyda phob un o Adrannau'r Cyngor yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2023.
- ⦿ Ar gyfer monitro gwnaethom gyflwyno ffordd fwy integredig o edrych ar adroddiadau perfformiad chwarterol a chynhaliodd y Tîm Rheoli Corfforaethol gyfarfodydd chwarterol a oedd yn gwbl ymroddedig i reoli perfformiad, sydd wedi bod yn werthfawr tu hwnt.
- ! Mae angen i ni wella'r modd yr ydym yn cyfleu sut mae'r Cyngor yn perfformio i drigolion, busnesau, staff ac Undebau Llafur.
- ! Bydd angen i ni atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ar gyfer y Strategaeth Gorfforaethol newydd.

| Archwilio Cymru Audit Wales | [Archwiliad ar osod Amcanion Llesiant] |
|---|---|
| Pwrpas yr archwiliad yw asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant.<br>Canfu'r adolygiad fod:<br>Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd ond gallai gryfhau ei drefniadau ar gyfer cynnwys dinasyddion a monitro ei gynnydd. | |

### Gweithio mewn Partneriaeth

- ⦿ Arweiniodd Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Cyngor y gwaith o ddatblygu Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-2028. Gwnaed gwaith gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gytuno ar ei Amcanion Llesiant yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad Llesiant a oedd hefyd wedi'i arwain gan y tîm. Nodwyd yr Amcanion Llesiant fel:
  - Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg
  - Gwella llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd
  - Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur
  - Mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau
  - Helpu i greu cymunedau a lleoedd dwyieithog, diogel ac amrywiol.
- ⦿ Cynhaliwyd trafodaethau gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y camau gweithredu ar y cyd y gallai'r Bwrdd eu cymryd ymlaen i gyfrannu tuag at yr amcanion hyn. Cwblhaodd Tîm Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Cyngor Gynllun Llesiant drafft gyda chamau gweithredu awgrymedig, wedi'u llywio gan adborth o gyfarfodydd gydag aelodau'r Bwrdd, seminarau Llywodraeth Cymru ar Drechu Tlodi, Argyfyngau Hinsawdd a Natur, Anghydraddoldebau Iechyd a Gwella Llesiant

Cymunedol a dogfennaeth gan gynnwys Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r tîm hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddogion o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel rhan o ofynion statudol datblygu'r Cynllun Llesiant.

### Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

### Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau bod yr uchelgeisiau a'r prosesau uchod yn cael eu cynnal. Mae cyfres o Baneli Ymgynghorol trawsbleidiol yn fforymau ymgysylltu pwysig er mwyn cefnogi'r Aelod Cabinet ar gyfer y meysydd gwasanaeth priodol. Mae'r Tîm Polisi Corfforaethol yn cefnogi'r Paneli Ymgynghorol canlynol:

- Trechu Tlodi
- Yr Iaith Gymraeg

## 5k Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil

**Cynnydd yn nifer y genedigaethau a'r marwolaethau a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn a chynnydd sylweddol yn nifer y priodasau a phartneriaethau sifil a gefnogwyd oherwydd oedi a achoswyd gan y pandemig.**


**Cynhaliwyd etholiad lleol ym mis Mai 2022 yn llwyddiannus**

### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Gwasanaethau Etholiadol - mae ein system etholiadol yn seiliedig ar fframwaith cyfreithiol sy'n pennu sut y caiff etholiadau eu cynnal. Mae'n pennu pwy sy'n cael pleidleisio a'r gwahanol ffyrdd y gallant fwrw eu pleidlais a dweud eu dweud.
- Gwasanaeth Cofrestru – mae gan Wasanaeth Cofrestru'r Cyngor y swyddogaeth statudol o ddarparu gwasanaeth ymatebol i'r cyhoedd ar gyfer cofrestru genedigaethau, marw-enedigaethau, marwolaethau; hysbysiadau priodas a phartneriaeth sifil a seremonïau dilynol; cynhyrchu dogfennaeth gyfreithiol a chymeradwyo safleoedd ar gyfer priodasau a phartneriaethau; mae hefyd yn gyfrifol am seremonïau dinasyddiaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o seremonïau anstatudol ac mae hefyd yn darparu, ar gais, y gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau



- **Cofrestrwyd 90% o enedigaethau yn Sir Gaerfyrddin o fewn yr amserlen statudol o 42 diwrnod** yn ystod 2022/23, mae hyn yn unol â chyfartaledd Cymru o 91% ac yn welliant ar 84% yn 2021/22. Cynyddodd nifer y genedigaethau a gofrestrwyd yn Sir Gaerfyrddin 2.3% yn 2022/23 i 2,392 o gymharu â 2,338 y flwyddyn flaenorol, mae hyn yn cynnwys yr holl enedigaethau a ddigwyddodd yn y Sir ac mae'n cynnwys rhieni sy'n byw mewn siroedd

cyfagos ond a aeth i Glangwili i eni eu plentyn. Mae camau yn cael eu rhoi ar waith i weithio gyda'r gwasanaethau mamolaeth i godi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni o'r angen i wneud trefniadau i gofrestru'r enedigaeth o fewn yr wythnosau cyntaf, gan fod llawer yn ei gadael yn rhy hwyr i ofyn am apwyntiad. ***(CivilReg/001)***

! **Cofrestrwyd 55% o farwolaethau nad oedd angen eu cyfeirio i'r crwner o fewn yr amserlen statudol o 5 diwrnod yn ystod 2022/23.** Ers COVID, mae'n ofynnol i farwolaethau gael eu cadarnhau gan feddygon a'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol, gyda phwysau ar y GIG a'r angen i weithwyr meddygol proffesiynol gwblhau gwaith papur a'i drafod gyda'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol, cyn ei anfon ymlaen at y cofrestryddion. Mae hyn yn cynyddu'r amser y mae'n ei gymryd i'r holl ddogfennau angenrheidiol gael eu derbyn gan y cofrestryddion.

Cynyddodd nifer y cofrestriadau marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin yn sylweddol yn 2022/23, gan gynnwys cynnydd o 34% mewn achosion lle'r oedd angen cynnwys crwner neu wneud ymchwiliad cyn i'r cofrestryddion gofrestru'r farwolaeth. Effaith y materion hyn oedd gostyngiad yn nifer y marwolaethau a gofrestrwyd o fewn 5 diwrnod o 60% yn 21/22 i 55% yn 22/23 yn Sir Gaerfyrddin. Gostyngodd cyfartaledd Cymru hefyd o 69% y llynedd i 50% eleni.

Mae hyn y tu hwnt i'n rheolaeth yn bennaf, rydym yn mynychu grwpiau rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Archwilydd Meddygol ac wedi sefydlu cysylltiadau da, rydym yn bwriadu darparu gwell gwybodaeth i deuluoedd wrth iddynt aros a gweithio gyda'r bwrdd iechyd a'r Gwasanaeth Archwilydd Meddygol i wneud pob proses yn fwy effeithlon. ***(CivilReg/002)***

⊙ Cynhaliwyd **Etholiadau Lleol Mai 2022** yn llwyddiannus, gyda 41.76% wedi pleidleisio, a oedd yn ein gosod yn y pump uchaf o ran y nifer uchaf a bleidleisiodd yn Etholiadau Lleol Cymru. Cynhaliom ymgyrch effeithiol i sicrhau bod pob person 16 ac 17 oed a gwladolion tramor sydd newydd eu rhyddfreinio ac sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin wedi'u cofrestru i gymryd rhan trwy bleidleisio a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny. Gwnaethom hyn drwy gynnal ymgyrch gynhwysfawr gyda fideos perthnasol a rannwyd gyda'n rhanddeiliaid.

## Cynnydd yn 2022/23

⊙ O ganlyniad i'r pandemig, recriwtiwyd carfan newydd o 10 o ddirprwy-gofrestryddion achlysurol ym misoedd Ebrill a Mai 2022. Roedd hyn er mwyn galluogi'r gwasanaeth i fodloni'r galw uchel iawn am seremonïau yr haf diwethaf a hynny'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r staff hyn wedi'u cadw ac wedi'u hyfforddi dros fisoedd y gaeaf i gofrestru genedigaethau a marwolaethau ac i gymryd hysbysiadau. Bydd y staff ychwanegol hyn yn ein galluogi i fod yn fwy hyblyg o ran nifer y priodasau y gallwn eu cynnal, yn ogystal â sicrhau bod digon o bobl ar gael ar gyfer genedigaethau a marwolaethau. Mae'r garfan newydd hon hefyd wedi cryfhau'r tîm o Gofrestryddion pe bai pandemig o'r fath yn digwydd yn y dyfodol agos.

⊙ Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod ein cyfarfodydd â rhanddeiliaid wedi datblygu a chryfhau. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud yn barhaus i'r broses o gofrestru marwolaethau, gan sicrhau bod y teuluoedd mewn profedigaeth wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a wneir. Un aelod gwerthfawr o'r grŵp rhanddeiliaid yw Crwner awdurdodaeth Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'r Crwner a'i dîm yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cofrestru yn rheolaidd, gan sicrhau eto bod modd cynnal cwestau a chofrestru'r farwolaeth yn amserol yn dilyn hynny.

⊙ Roedd 2022 yn flwyddyn brysur iawn gyda phriodasau a phartneriaethau sifil, a bu'r Cofrestryddion yn gweithio gyda'r cyplau i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth unigryw a phersonol. Mae'r cardiau niferus yn mynegi canmoliaeth a diolch a dderbyniodd y Cofrestryddion am wneud eu diwrnod yn arbennig iawn yn arwydd ein bod wedi llwyddo. Rydym yn gweld pob priodas fel cyfle marchnata, fel bod y gwesteion a'r teuluoedd yn mynd oddi yno gan wybod bod modd i briodas mewn Swyddfa Gofrestru fod yn arbennig a lle bo modd, byddwn yn teilwra'r gwasanaeth i'r hyn y mae'r pâr yn dymuno ei gael.

- Cyflwynwyd Etholiadau Llywodraeth Leol llwyddiannus gan y tîm Etholiadau ym mis Mai 2022, gyda llawer o staff mewnol yn cyfrannu naill ai trwy fod yn rhan o'r Bwrdd Prosiect Etholiadol, gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio neu ar ddiwrnod y cyfrif. Rydym yn arbennig o falch o'r ymgyrch yr ydym yn ei cynnal yn ystod y cyfnod yn arwain at ddiwrnod yr etholiad ac ar y dydd. Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni hyn heb gydweithio'n agos â'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau, a bydd hyn yn sail ar gyfer etholiadau'r dyfodol.
- Rydym hefyd wedi cynnal nifer o is-etholiadau ac wedi penderfynu defnyddio'r ap *Modern Democracy*. Mae hyn wedi ein galluogi i "foderneiddio" y modd y caiff etholiadau yn yr orsaf bleidleisio eu cynnal trwy ddarparu cofrestrau electronig. Mae'r rhain yn eu tro yn rhoi nifer y bobl sy'n dod i bleidleisio 'yn fyw' trwy gyfrwng porth rheoli etholiadau ac yn darparu'r dogfennau sy'n ofynnol ar ddiwedd yr etholiadau ar unwaith. Rydym yn gweld hyn fel cam cadarnhaol tuag at arbed papur ac er mwyn effeithlonrwydd.
- Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid mewnol i gymharu data o'n cofnodion â chofnodion y Dreth Gyngor, Budd-daliadau Tai, y Gyflogres ac Addysg i sicrhau bod y Gofrestr Etholiadol yn gywir ac yn gyfredol. Ar hyn o bryd nifer ein hetholwyr yw 147,792 gyda 35,072 o'r rhain yn pleidleisio drwy'r post; mae hyn yn cyfateb i 23% o'n hetholwyr. Rydym yn parhau i hyrwyddo ffyrdd eraill o bleidleisio os yw etholwyr yn ei chael hi'n anghyfleus i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.
- Gwnaethom ddechrau adolygiad etholiadol o'n Cynghorau Tref a Chymuned a fydd yn sicrhau bod gennym y drefn lywodraethu gywir ar y cynghorau hynny. Disgwylir i'r adolygiad hwn ddod i ben ym mis Hydref 2023 gydag unrhyw argymhellion a fabwysiadwyd yn cael eu gweithredu adeg yr Etholiadau Lleol yn 2027.

### Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

### Trefniadau Llywodraethu

| |
|---|
| Tîm Rheoli Adrannol a phrosesau democrataidd y Cyngor. |

## 5l Ystadau a Rheoli Asedau

**Rydym wedi adolygu ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2023-2028**
**i sicrhau bod ein nodau a'n defnydd sy'n gysylltiedig ag eiddo yn cyd-fynd â'n Strategaeth Gorfforaethol a'n hamcanion Llesiant. Mae'r cynllun yn nodi'r heriau a'r blaenoriaethau allweddol dros y 5 mlynedd nesaf ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor o safbwynt eiddo.**

### Pam y mae hyn yn bwysig?

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu ymagwedd strategol tuag at reolaeth y Cyngor ar ei adnoddau eiddo i gyflawni nodau adfywio'r Cyngor.
Mae'r meysydd gwasanaeth allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiadau Gwasanaeth ac Eiddo Strategol.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu prosiectau mawr ar dir, er mwyn denu buddsoddiad sylweddol i'r Sir, gyda ffocws ar ail-lunio canol ein trefi.
- Rhoi cyngor cynhwysfawr i'r Cyngor a'i bartneriaid ar bob mater sy'n ymwneud â buddsoddi cyfalaf/gwaredu mewn gweithgareddau ynghylch eiddo/tir.

- Prisiadau asedau statudol a chyngor ar gyfer Awdurdodau Lleol a phartneriaid ynglŷn â gofynion cyfrifyddu ariannol.
- Rheoli portffolios amrywiol y Cyngor sy'n cwmpasu ystadau Swyddfeydd, Depos, Masnachol, Diwydiannol a Gwledig ynghyd â Marchnadoedd Da Byw a Bwydydd.
- Darparu gwasanaeth rheoli cyfleusterau ar draws y portffolio gweinyddol a'r safleoedd cysylltiedig.
- Cynnal Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a rhoi cyngor yn eu cylch.
- Rheoli cofnodion eiddo'r Cyngor.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

! Gwnaethom gynhyrchu **36%** yn unig (£565,200) o'r derbyniadau cyfalaf yr oeddem yn bwriadu eu cyflawni yn ein rhaglen gyfalaf £1,567,000 ***(2.1.2.12).*** Mae oedi mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl wedi arwain at fod derbyniadau cyfalaf sylweddol a dargedwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon heb gael eu gwireddu, yn ogystal â bod y galw am safleoedd problemus wedi arafu. Mae ein rhaglen derbyniadau cyfalaf 2023/24 wedi'i gosod ar £2,588,000 sydd hefyd yn adlewyrchu'r llithriad eleni.

### Cynnydd yn 2022/23

⦿ Yn ystod y flwyddyn buom yn ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o ffermydd y Cyngor er mwyn cefnogi mentrau ffermio fforddiadwy a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu/arallgyfeirio, yn enwedig mewn perthynas ag adfywio ynni adnewyddadwy. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod Ystâd Ffermydd y Sir yn cael ei chadw a'i rheoli o dan y polisi presennol, gan resymoli ac ystyried cyfleoedd i ddatblygu wrth iddynt godi. Bydd Cynllun Ystâd Wledig newydd yn cael ei ddrafftio dros y 12 mis nesaf i dynnu sylw at hyd a lled a pherfformiad y portffolio presennol, ynghyd â materion allweddol a strategaeth yr Ystâd ar gyfer y dyfodol i alluogi'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi ei amcanion llesiant. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r Panel Ymgynghorol ar Newid Hinsawdd ac Argyfwng Natur a'r Panel Ymgynghorol ar Faterion Gwledig i ystyried eu barn wrth gwblhau'r Cynllun Ystâd Wledig.

| Archwilio Cymru Audit Wales | Adroddiad Archwilio Cymru: Llamu Ymlaen - **Rheoli Asedau** - Cyngor Sir Caerfyrddin (Mehefin 2022) |
|---|---|

Dyma adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau gan ganolbwyntio ar swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'w drigolion ohonynt. Mae'n edrych ar y modd y mae'r Cyngor yn cynllunio'r defnydd o'i asedau yn strategol, sut y mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

**Canfyddiadau**

**Yn gyffredinol, canfuwyd: Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau ar gyfer rheoli asedau ac yn cydnabod bod yna gyfleoedd i wneud mwy o ddefnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy i wella'r gwaith hwn.**

**Argymhellion**

1. Mae angen i'r Cyngor gymhwyso a gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y modd y mae'n cynllunio, cyflawni a monitro'r gwaith o reoli ei asedau.
2. Mae angen i'r Cyngor wella'r modd y mae'n rheoli perfformiad ei asedau drwy:
   a. datblygu cyfres o fesurau perfformiad a chanlyniadau sy'n adlewyrchu uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer ei asedau, a monitro'r mesurau hyn ar lefel gorfforaethol, gan gynnwys adrodd i bwyllgor(au) trosolwg a chraffu);

b. meincnodi perfformiad o ran rheoli asedau gyda sefydliadau eraill.

**Ein hymateb**

1 Datblygu Cynaliadwy

- Er mwyn cydbwyso gofynion tymor byr y Cyngor a'i allu i ddiwallu anghenion tymor hwy, mae grŵp Defnydd Tir Strategol trawsadrannol yn cynnal adolygiad graddol o asedau tir y Cyngor i dynnu sylw at gyfleoedd posibl mewn perthynas â'i nodau allweddol o ddal a storio carbon, mesurau lliniaru ffosffad, plannu coed, defnydd cymunedol a gwella bioamrywiaeth.
- Yn ogystal, mae'r Adain Cynnal a Chadw yn parhau yn ei rhaglen i gynnal arolygon cyflwr manwl o'n portffolios amrywiol er mwyn i ni gael darlun clir o rwymedigaethau'r dyfodol fel rhan o unrhyw benderfyniadau allweddol gyda goblygiadau eiddo. Mae'r gwasanaethau wedi blaenoriaethu asedau at ddibenion arolygu.
- Yn dilyn ymgynghoriadau gwasanaeth ar ofynion mannau gweithio hybrid, mae amserlen a rhaglen waith a symudiadau ar waith.
- Bydd y camau hyn yn sicrhau cysondeb â'n hamcanion o sicrhau ein bod yn dod yn fwy cydnerth, yn cefnogi adfywio yn ein cymunedau yng ngoleuni cyfrifoldebau byd-eang a gweithredu i atal neu leihau problemau sy'n gysylltiedig â thir sy'n gwaethygu. Byddant hefyd yn helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n hystâd.

2 Rheoli Perfformiad

Cynaliadwyedd ein Hystâd

- Mae ein tîm Ynni yn gweithio ar gaffael Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos ar gyfer pob portffolio CSC perthnasol.
- Yn ogystal, mae data sylfaenol o Dystysgrifau Ynni i'w Harddangos cyfredol i'w gyflenwi gan y Tîm Ynni.
- Bydd monitro perfformiad parhaus yn cwmpasu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ar gyfer y Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos sy'n angenrheidiol, ynghyd â symudiadau mewn graddau a data defnydd.

Cyflwr ein Hystâd

- Set ddata sylfaenol ar gyfer portffolios sy'n destun adroddiadau cyflwr diweddar. Yn ogystal, rhaglen o Arolygon Cyflwr sy'n weddill y cytunwyd arni erbyn 1 Ebrill 2023. Bydd monitro perfformiad yn cwmpasu'r gwaith o gyflawni'r rhaglenni a nodwyd uchod ac o ganlyniad symudiadau mewn graddau a ffigur cynnal a chadw ôl-groniad unwaith y bydd llinell sylfaen wedi'i gosod.

Defnydd / Effeithlonrwydd ein Hystâd

- Bydd system fonitro 'Occupye Desk' yn cael ei gosod ar draws gwahanol safleoedd erbyn mis Rhagfyr 2023.
- Mewn perthynas â meincnodi perfformiad ar reoli asedau gyda sefydliadau eraill, trwy gymryd rhan yng Ngrŵp Eiddo ac Ystadau Cymdeithas y Prif Swyddogion Ystadau (ACES) a Chonsortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW), byddwn yn cynnal adolygiad o fesur perfformiad fel rhan o drafodaethau parhaus y grŵp gyda Data Cymru ar ddarparu dangosyddion addas

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

Mae Grŵp Rheoli Strategol Eiddo Corfforaethol yn ystyried materion allweddol sy'n wynebu ystâd gorfforaethol. Mae ffrwd waith y Bwrdd Trawsnewid Gweithleoedd yn ystyried trefniadau gweithio hybrid a chyfleoedd ar draws safleoedd swyddfa a depo. Mae Grŵp Defnydd Tir Strategol Trawsadrannol yn adolygu daliadau tir i amlygu a datblygu cyfleoedd ar ymrwymiadau cynaliadwyedd, cymunedol a Charbon Sero Net.

# 5m Rheoli Risg

**Mae Rheoli Risg yn cyfrannu at gyflawni ein gweledigaeth, diogelu ein gwasanaethau rheng flaen, a chefnogi amgylchedd economaidd sy'n gymdeithasol gynaliadwy.**
*(Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol)*

## Pam y mae hyn yn bwysig?

**Risg yw'r bygythiad y bydd digwyddiad neu weithred yn cael effaith niweidiol ar allu sefydliad i gyflawni ei amcanion - Y Comisiwn**

- Rydym yn cydnabod y budd o fod yn rhagweithiol wrth reoli risg ac rydym wedi buddsoddi arian i nodi a lleihau risgiau mewn termau ariannol ac anariannol.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

- Dim ond **49%** o **achosion cerbydau modur y rhoddwyd gwybod amdanynt i Rheoli Risg o fewn 5 diwrnod gwaith** ***(RM/001)*** dyma'r flwyddyn gyntaf o gasglu'r mesur hwn.
- **Dychwelwyd 66% o adroddiadau adrannol i Rheoli Risg o fewn 15 diwrnod** ar ôl y cais***(RM/002)***dyma'r flwyddyn gyntaf o gasglu'r mesur hwn.
- Darparwyd pob un o'r **91 (100%) o adroddiadau hawliadau modur gan Rheoli Risg o fewn 7 diwrnod gwaith** ***(RM/003)*** dyma'r flwyddyn gyntaf o gasglu'r mesur hwn.
- **Darparwyd 95%** o **adroddiadau hawliadau atebolrwydd gan Rheoli Risg i yswirwyr o fewn 10 diwrnod gwaith** ***(RM/004)*** dyma'r flwyddyn gyntaf o gasglu'r mesur hwn.

### Cynnydd yn 2022/23

**Strategaeth Drawsnewid Sir Gaerfyrddin**



Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn archwilio’r modd y gellir datblygu Rheoli Risg ac yn sicrhau bod Rheoli Risg yn rhan annatod o holl benderfyniadau’r sefydliad. Daeth adolygiad a wnaed gan y tîm Trawsnewid i'r casgliad: '*Mae Cylch Gwaith y Grwpiau Llywio Rheoli Risg a'i is-grwpiau amrywiol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Bydd hyn yn caniatáu i'r grŵp strategol fabwysiadu dull mwy strategol o ystyried materion rheoli risg, megis cynnal adolygiadau rheolaidd o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol’*

- Rydym yn ymgorffori **rheolaeth risg dda** yn ein holl brosesau. Caiff Risgiau Corfforaethol a Risgiau Prosiectau eu cofnodi ar Gofrestrau Risgiau. Rydym yn defnyddio "Meddalwedd ar y we ar gyfer cofrestru risgiau", sy'n caniatáu i adrannau fewnbynnu, cyrchu, diweddaru a rheoli gwybodaeth ynghylch pob risg.
- Caiff y **Gofrestr Risg Gorfforaethol** ei hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis yn dilyn adolygiad deufisol ac asesiad beirniadol o'r risgiau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- Cynhelir **Gweithdai Risg** ar gyfer staff a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy gydol y flwyddyn.
- Cynhaliwyd gweithdai ar gyfer ein Tîm Rheoli Corfforaethol a'n Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu **Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg**.

| | |
|---|---|
| Archwilio Cymru Audit Wales | Yn dilyn Adolygiad Archwilio Cymru o'r Trefniadau Rheoli Risg ym mis Gorffennaf 2019, mae'r argymhellion a'r camau gweithredu wedi cael eu symud ymlaen. |

- Mwy o bwyslais ar **archwilio seiliedig ar risg** yn hytrach na bod yn adweithiol yn ein harchwiliadau mewnol. Dyfeisiwyd ein cynllun Archwilio Mewnol yn bennaf o risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg gorfforaethol a chofrestrau risg Adrannol.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

## Trefniadau Llywodraethu

| |
|---|
| Mae gan y Cyngor Grŵp Llywio Rheoli Risg sy'n adrodd ei weithgarwch i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy gyflwyno cofnodion y grŵp er gwybodaeth.<br><br>Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Risg yn cynnwys Hyrwyddwr Risg sy'n Aelod Cabinet (Aelod Cabinet dros Adnoddau), Hyrwyddwyr Risg Adrannol a Phennaeth Gwasanaeth yw'r cadeirydd. |

# 5n Uned Cymorth Busnes a Chabinet

## Blwyddyn sylweddol o newid yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol

**Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 ffurfiwyd Cabinet newydd a bu cyfnod sylweddol o newid wrth i bortffolios gael eu pennu.**

### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae'r **Gwasanaeth Cymorth Busnes a Chabinet** yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o gymorth corfforaethol, adrannol a gwasanaeth penodol o fewn Adran y Prif Weithredwr:
  - cymorth busnes i'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd ac aelodau'r Cabinet
  - cefnogaeth blaenraglen waith i'r Tîm Rheoli Corfforaethol
  - cefnogaeth Tîm Rheoli Adrannol
  - cymorth gweinyddol mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Rhaglawiaeth
  - cefnogaeth ar gyfer Ymweliadau Brenhinol, dyletswyddau seremonïol, anrhydeddau a chyflwyniadau a wneir gan yr Arglwydd Raglaw ar ran Ei Fawrhydi y Brenin
  - prosesau credydwyr a dyledwyr ar gyfer yr adran
  - ymdrin â'r post yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin
  - system adnabod staff
  - cefnogaeth i'r tîm Gwasanaethau Etholiadol mewn perthynas â phleidleisiau post.

## Pa mor dda ydyn ni'n gwneud (a sut ydyn ni'n gwybod)? ⓘ Ffynonellau tystiolaeth

### Mesurau Llwyddiant / Egluro'r Canlyniadau

Dim mesurau gwasanaeth penodol, gan fod gwaith y tîm yn ymateb i fusnes sefydliadol.

### Cynnydd yn 2022/23

- Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, mae'r Cabinet wedi cytuno i gyhoeddi datganiad o weledigaeth. Cymeradwywyd y Datganiad o Weledigaeth yn y Cabinet ar 18.07.22.
- Mae'r weledigaeth yn cynnwys blaenoriaethau, prosiectau a chynlluniau y mae'r Cabinet am eu cyflawni dros gyfnod y weinyddiaeth. Caiff y datganiad o weledigaeth hwn ei wireddu trwy gyfrwng Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a chaiff adroddiadau ac argymhellion manwl ar brosiectau a rhaglenni penodol eu cyflwyno drwy'r broses ddemocrataidd dros y pum mlynedd nesaf.
- Rydym wedi llunio, cynnal a chyhoeddi Blaengynllun Gwaith ar gyfer y Cabinet.
- Gwnaethom gynorthwyo'r weinyddiaeth newydd i ddatblygu portffolios newydd y Cabinet.
- Gwnaethom ddarparu cymorth i Benaethiaid Gwasanaeth / Rheolwyr Gwasanaeth o fewn yr adran i sicrhau bod unrhyw argymhellion o archwiliadau mewnol, neu ffyrdd newydd o weithio yn cael eu gweithredu yn unol â hynny ac mewn modd amserol. Enghraifft o hyn yw'r fenter P2P - Dim Archeb Brynu, Dim Taliad - lle rydym wedi gweithio gyda'n rheolwyr cyllideb a'n credydwyr i sicrhau bod y gwaith papur angenrheidiol yn ei le cyn cyflwyno anfonebau i'w talu. Mae hyn wedi cael ei weld fel cam cadarnhaol i sicrhau bod ein credydwyr yn cael eu talu mewn modd amserol.

### Beth a sut gallwn ni wneud yn well

**Gweler ein cynllun cyflawni i gyflawni'r amcan hwn yn Atodiad 7**

### Trefniadau Llywodraethu

Mae'r gwasanaeth yn rheoli blaenraglenni gwaith y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet.

# ATODIADAU



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

## Sut cafodd ein Hamcanion Llesiant eu clustnodi

Roedd hi'n bryd adnewyddu ein Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'. Mae effaith COVID-19, yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng Costau Byw ac anghenion Thrawsnewid i gyd yn gosod y llwyfan ar gyfer dull diwygiedig. Roedd yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 yn gyfle da i adolygu ac adnewyddu ein Hamcanion Llesiant.

Roedd gan ein Strategaeth Gorfforaethol flaenorol 13 o Amcanion Llesiant a theimlwyd bod angen set fwy cryno o flaenoriaethau.
Nododd sesiynau Ymgysylltu a Sicrwydd Cynllunio Busnes a gynhaliwyd ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2021 gyda Thimau Rheoli Adrannol fod angen newid i ddull mwy thematig.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriad democrataidd**<br>Ym mis Mai 2022 etholwyd gweinyddiaeth newydd, ac amlinellodd y Cabinet Ddatganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022-2027 | **Dull partneriaeth a dadansoddi data/asesu anghenion Sir Gaerfyrddin**.<br>Rydym yn paratoi cynllun cydweithredol gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin drwy Gynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2023-2028 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Roedd yr Asesiad Llesiant yn cael ei arwain gan ymgysylltu<br>Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin<br>• 609 o ymatebion<br>• Amrywiaeth o sesiynau ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau i sicrhau cyfranogiad gan gynrychiolaeth amrywiol o'r boblogaeth leol | Gwnaethom ystyried Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru yn ogystal ag amcanion partneriaid eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| Arolygon Awst 2023<br>• 2,195 o ymatebion gan drigolion<br>• 1,733 o ymatebion gan staff<br>• 36 o fusnesau wedi ymateb<br>• 5 Ymateb gan Undebau Llafur | Ymgysylltu ag aelodau etholedig ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft a'r Amcanion Llesiant drwy sesiynau ymsefydlu'r aelodau<br>Ymgysylltu â staff drwy arolwg staff | Adroddiad Blynyddol a Hunanasesiad 2021-22 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gosod y cyd-destun |

| Gweithdy i bob Cynghorydd Cabinet/Craffu ym mis Ionawr 2023<br>Chwefror 2023 - Cabinet a'r Cyngor Sir | |
|---|---|
| Nodwyd Aelodau Cabinet a swyddogion arweiniol ar gyfer pob Amcan Llesiant ac ailgynlluniwyd y cynlluniau busnes fel eu bod yn cyd-fynd yn llawn â'r Amcanion Llesiant. | Strategaeth Gorfforaethol Newydd ac Amcanion Llesiant |

Bydd y gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei amlinellu mewn cynlluniau cyflawni adrannol. Mae'r cylch cynllunio busnes wedi'i ailgynllunio ac ar hyn o bryd mae'n cael ei gynnal mewn 2 gam:

1. **Nodi Camau Gweithredu, Mesurau a Risgiau** – yn seiliedig ar hunanasesiad 2021-22, ymrwymiadau Datganiad o Weledigaeth y Cabinet, cofrestr risg ac ati – i'w cwblhau erbyn diwedd Chwefror 2023
2. **Hunanasesiad o berfformiad** – sesiynau i'w cynnal ym mis Ebrill/Mai 2023. Bydd yn llywio Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022-23 ond bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i ystyried proses cynllun cyflawni 2024-25 (a fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2023)

Bydd cyflwyno'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer holl gynigion y Cabinet/Cyngor Llawn o fis Ebrill 2023 yn sicrhau bod y 5 ffordd o weithio (a gofynion asesu effaith eraill) yn rhan annatod o waith y Cyngor.

## Cymhwyso'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r 5 ffordd o weithio

Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw sicrhau...

> *'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."*

### 5 ffordd o weithio

| *Tymor Hir* | *Atal* | *Integreiddio* | *Cydweithio* | *Cynnwys* |
|---|---|---|---|---|


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Hyrwyddo'r Ddeddf Llesiant gan nodi'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r 5 Ffordd o Weithio trwy weithdai hyfforddi, seminarau a hyrwyddo

Roedd ystyried y 7 Nod Cenedlaethol a sut y gall y Cyngor wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r nodau hynny yn ganolog i ddatblygiad y strategaeth gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant newydd.

Cafodd y Cynllun Busnes ar gyfer 2023+ ei ailgynllunio i gyd-fynd â'r Amcanion Llesiant newydd – dull 2 gam:

1. Nodi Gweithredoedd, Mesurau a Risgiau
2. Hunanasesiad o berfformiad

***Tymor Hir***

Datganiad o Weledigaeth y Cabinet a Strategaeth Gorfforaethol

***Atal***

Mae hon yn egwyddor arweiniol ar draws ein blaenoriaethau ond yn enwedig fel a ganlyn.
Amcan Llesiant 1 - atal ac ymyrraeth gynnar.
Amcan Llesiant 2 - Trechu Tlodi
Amcan Llesiant 3 - datgarboneiddio/Argyfwng Hinsawdd
Amcan Llesiant 4 - Mae lleihau galw yn sgil methiant yn ganolog i drawsnewid.

***Integreiddio***

Pwrpas y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant newydd yw galluogi mwy o integreiddio ar draws gwasanaethau'r Cyngor gan ganolbwyntio ar Flaenoriaethau Thematig a Gwasanaeth allweddol.

***Cydweithio***

Mae pob Amcan Llesiant yn cynnwys elfennau o weithio gyda phartneriaid i gyflawni nodau penodol o fewn pob amcan

***Cynnwys***

Roedd llawer o bobl yn ymwneud â datblygu'r Amcanion Llesiant hyn.
Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol fydd y mecanwaith ar gyfer gwneud cynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Strategaeth Gorfforaethol




Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Gofynion Statudol

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Nod y Ddeddf yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dywed y ddeddf: -




a) Bod yn rhaid i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw ***'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'***
b) Mae'n rhaid i ni ddangos defnydd o'r 5 ffordd o weithio: Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol
c) Mae'n rhaid i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir y gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i ni, yn unol â'r Ddeddf, bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant oedd yn mwyhau ein cyfraniad i'r Amcanion Llesiant.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'n disodli Mesur Llywodraeth Leol 2009. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn amlinellu dyletswyddau newydd mewn perthynas â Pherfformiad a Llywodraethu Prif Gynghorau ac mae'n cynnwys dyletswyddau penodol ar gyfer y Cyngor:

- Dyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus;
- Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad;
- Dyletswydd i adrodd ar berfformiad – yn seiliedig ar ddull hunanasesu;
- Dyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel;
- Dyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ar y graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu sydd eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Y gofynion perfformiad yw i ba raddau:

- yr ydym yn arfer ein swyddogaethau'n effeithiol;
- ein bod yn defnyddio ein hadnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; a
- y mae ein llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

## Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

**Mwy Cyfartal**
**More Equal**

**Iachach**
**Healthier**

**Cydnerth**
**Resilient**

**Llewyrchus**
**Prosperous**

**Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang**
**Globally Responsible**

**Diwylliant Bywiog Lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**
**Vibrant Culture and Thriving Welsh Language**

**Cymunedau Cydlynus**
**Cohesive Communities**

"Y GYMRU A GAREM
THE WALES WE WANT"

| Amcanion Llesiant | 7 Nod Llesiant Cenedlaethol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llewyrch | Cydnerthedd | Iachach | Mwy cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant Bywiog a'r | Cyfrifoldeb Byd-eang |
| 1. Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. (Dechrau'n Dda) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2. Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda. (Byw a heneiddio'n dda) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3. Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus. (Cymunedau Ffyniannus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4. Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon. (Ein Cyngor) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Adroddiadau Rheoleiddiol 2022/23

## Cyhoeddwyd sawl adroddiad rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

- Ceir rhai adroddiadau lleol sy'n benodol i Sir Gaerfyrddin, nodir y rhain fel rhai lleol isod.
- Mae adroddiadau Cenedlaethol/Thematig yn cael eu gwneud gan reoleiddwyr i edrych ar yr holl gynghorau yng Nghymru (mewn rhaglen integredig o waith yr ymgynghorwyd ac y cytunwyd arno gyda llywodraeth leol) i nodi arfer gorau.
    - Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion. Weithiau mae'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth Leol neu randdeiliaid eraill.
    - Efallai nad yw pob argymhelliad mewn adroddiadau yn berthnasol i Sir Gaerfyrddin oherwydd, mewn rhai achosion, efallai mai ni yw'r ardal o arfer gorau a gynigir, ein bod eisoes yn gwneud yr hyn a nodir neu efallai nad yw'n berthnasol.

Cyhoeddwyd y rhestr ganlynol o adroddiadau rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf:

Archwilio Cymru / Audit Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2022 | Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | | Cenedlaethol |
| Awst 2022 | Cyngor Sir Caerfyrddin – Llamu Ymlaen – Rheoli Gweithlu | 2 Argymhellion | Lleol |
| Awst 2022 | Diweddariad ar Gynnydd Sicrwydd ac Asesu Risg | | Lleol |
| Medi 2022 | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | 4 Argymhellion | Cenedlaethol |
| Hydref 2022 | Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 | | Cenedlaethol |
| Hydref 2022 | Adolygiad dilynol: Y Gwasanaethau Cynllunio | | Lleol |
| Tachwedd 2022 | 'Amser am Newid' – Tlodi | 8 Argymhellion | Cenedlaethol |
| Rhagfyr 2022 | Diweddariad ar Gynnydd Sicrwydd ac Asesu Risg – Lleihau Carbon | 1 Argymhelliad | Lleol |
| Rhagfyr 2022 | Darlun o reoli perygl llifogydd | | Cenedlaethol |
| Rhagfyr 2022 | 'Cyfle a gollwyd' – Mentrau Cymdeithasol | 3 Argymhellion | Cenedlaethol |
| Ionawr 2023 | Cydnerthedd cymunedol a hunanddibyniaeth | 2 Argymhellion | Cenedlaethol |
| Ionawr 2023 | 'Gyda'n Gilydd Gallwn' – Cydnerthedd cymunedol a hunanddibyniaeth | | Cenedlaethol |
| Mawrth 2023 | Crynodeb o Archwiliad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022 | 2 Argymhellion | Lleol |
| Mawrth 2023 | Cynhwysiant Digidol yng Nghymru | | Cenedlaethol |

Arolygiaeth Gofal Cymru / Care Inspectorate Wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Chwefror 2023 | Amddifadu o Ryddid | | Cenedlaethol |



Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council

Estyn

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2022 | Dulliau effeithiol o asesu sy'n gwella dysgu ac addysgu | 6 Argymhellion | Cenedlaethol |
| Hydref 2022 | Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru | 11 Argymhellion | Cenedlaethol |
| Hydref 2022 | Diwygio Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru: cryfderau sy'n dod i'r amlwg a meysydd i'w hystyried | | Cenedlaethol |
| Ionawr 2023 | Prentisiaethau: adborth cynnar ar gyflenwi o dan y contractau newydd | | Cenedlaethol |
| Chwefror 2023 | Ymweliadau addysgol mewn colegau addysg bellach | | Cenedlaethol |
| Chwefror 2023 | Dysgu digidol ac ar-lein mewn colegau addysg bellach | | Cenedlaethol |

## Asesiadau Rheoleiddiol Eraill

OGC
Office of Government Commerce

- **Llywodraeth Cymru – Adolygiad OSG Gateway: Asesiad Strategol o Fargen Ddinesig Bae Abertawe**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2022 | Adolygiad OGC Gateway™ Bargen Ddinesig Bae Abertawe 0: Adroddiad asesu strategol (dolen: https://democracy.swansea.gov.uk/documents/s87936/14b%20-%20v1.0%20SBCD%20Gateway%20Review%202022.pdf?LLL=0) | 4 | Rhanbarthol |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Ystadegau Cyhoeddedig

## Asesu Perfformiad

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae dyletswydd arnom i barhau i adolygu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r 'gofynion perfformiad' hynny yw, i ba raddau:

- yr ydym yn arfer ein swyddogaethau'n effeithiol.
- yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- y mae ein llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

### Ein Dull Ni o Weithredu

**Asesiad yn cyd-fynd â'n hamcanion llesiant**

Mae defnyddio amcanion llesiant i fframio'r hunanasesiad yn galluogi'r Cyngor i integreiddio gofynion adrodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) mewn un adroddiad. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi'r cyd-destun yr ydym yn arfer ein swyddogaethau ynddo, yn defnyddio adnoddau, ac yn sicrhau bod llywodraethu'n effeithiol fel a ganlyn:

- Mae'n sicrhau bod yr hunanasesiad yn strategol, gan ganolbwyntio ar y sefydliad, yn hytrach na gwasanaethau unigol ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion llesiant a'i ganlyniadau bwriadedig.
- Mae'n caniatáu inni fyfyrio ar lefel strategol ar sut mae ein holl swyddogaethau (gan gynnwys gweithgareddau corfforaethol) yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion llesiant, sut rydym yn gweithredu a pha gamau y mae angen i ni eu cymryd i wella ymhellach a pharhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol nawr ac yn y tymor hir.
- Mae defnyddio amcanion llesiant fel y fframwaith cyffredinol yn annog golwg fwy cyfannol ar berfformiad y Cyngor, gan gydnabod bod llawer o wasanaethau'n 'cydlynu' ac yn cyfrannu at un neu ragor o amcanion llesiant.
- Rydym yn parhau i reoli perfformiad gwasanaethau unigol drwy Gynlluniau Cyflawni Is-adrannol.
- Mae ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformio yn asesiad corfforaethol, sefydliadol yn hytrach nag asesiad o wasanaethau unigol. Fodd bynnag, mae pob adran wedi cynnal hunanasesiad, ac mae'r rhain wedi'u hystyried er mwyn llywio'r asesiad cyffredinol.

**Asesiad o bob adain**

Cynhaliodd pob is-adran o fewn y Cyngor hunanasesiad i ba raddau roeddent yn bodloni eu 'gofynion perfformiad' yn ymwneud â swyddogaethau, adnoddau a llywodraethu. Ar gyfer pob un o'r meini prawf, roedd yr asesiad yn pennu tri chwestiwn:

1. Pa mor dda ydym yn ei wneud?
2. Ar gyfer pob un o'r meini prawf hynny, roedd yr asesiad yn nodi tri chwestiwn:
3. Beth a sut gallwn ni wneud yn well?

Trafodwyd pob hunanasesiad is-adrannol mewn sesiwn Ymgysylltu a Sicrhau rhwng uwch-swyddogion yr is-adran a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau corfforaethol i ddeall materion allweddol a chanfyddiadau hunanasesu cymedrol. Bydd unrhyw ganfyddiadau allweddol sy'n benodol i wasanaethau yn cael sylw yng nghynlluniau busnes 2024/25 (oni bai bod angen ystyriaeth frys o fewn y cylch cyflawni cyfredol).

## Ymarfer swyddogaethau'n effeithiol i gyflawni blaenoriaethau strategol

Mae is-adrannau'r Cyngor yn cydweithio ac yn integreiddio i gyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol ac rydym yn monitro'r camau gweithredu a'r mesurau a osodwyd. Gallwn fonitro cynnydd ar y camau a'r mesurau hyn fesul Portffolios Cabinet, Pwyllgorau Craffu, Datganiad Gweledigaeth y Cabinet, Amcan Llesiant a fesul Adran a Gwasanaeth. Cyflawnwyd dros 80% o'n camau gweithredu a'n targedau am y flwyddyn.

| Adran | Swyddogaeth | Ar y Targed | |
|---|---|---|---|
| | | # camau gweithredu a mesurau | % |
| Prif Weithredwr | Rheoli Pobl<br>Adfywio, Polisi a Digidol<br>Gweinyddiaeth a'r Gyfraith<br>Cyfryngau a Marchnata<br>Y Gwasanaeth Etholiadol a Chofrestru Sifil<br>Cymorth Busnes | 168 | 85% |
| Addysg a Phlant | Gwasanaethau Plant<br>Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr<br>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant<br>Mynediad i Addysg | 123 | 93% |
| Cymunedau | Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>Gwasanaethau Integredig<br>Cartrefi a Chymunedau mwy Diogel<br>Hamdden<br>Comisiynu<br>Eiddo | 59 | 87% |
| Lle a Seilwaith | Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff<br>Trafnidiaeth a Phriffyrdd<br>Polisi a Pherfformiad - Cymorth Busnes?<br>Lle a Chynaliadwyedd<br>Cynnal a Chadw nad yw'n ymwneud â Thai | 165 | 72% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol<br>Gwasanaethau Ariannol | 29 | 85% |

Perfformiad cyffredinol ar gyflawni'r camau gweithredu a'r mesurau a gafodd eu hailalinio i gyflawni blwyddyn gyntaf y Strategaeth Gorfforaethol newydd ar gyfer 2022/23.

| 2022/23 | Ar y Targed | Ddim ar y Targed |
|---|---|---|
| Nifer y camau gweithredu a'r targedau a bennir | 544 | 122 |
| % | 83% | 17% |

Perfformiodd y swyddogaethau cyffredinol yn effeithiol a chyflawnwyd 83% o'r camau a'r targedau gwella a gynlluniwyd. Esboniwyd unrhyw feysydd oedd oddi ar y targed a chamau unioni.

## Ymarfer swyddogaethau'n effeithiol drwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyflawni eu dyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Er mwyn dangos eu bod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pum ffordd o weithio.
Gofynnwyd i is-adrannau asesu pa mor dda roeddent yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar sail sgôr o 1-5.

| | Cydweithio | Integreiddio | Cynnwys | Ffocws hirdymor | Atal |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran y Prif Weithredwr** | | | | | |
| Rheoli Pobl | 5 | 4 | 4 | 4 | 5 |
| Adfywio, Polisi a Digidol | 5 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | 4 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Cyfryngau a Marchnata | 4 | 4 | 3 | 2 | 3 |
| Gwasanaeth Etholiadol a Chofrestru Sifil | 5 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr | 5 | 4 | 5 | 5 | 4 |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 4 | 3 | 3 | 5 | 3 |
| Mynediad i Addysg | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Yr Adran Cymunedau** | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 5 | 3 | 5 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau Integredig | 5 | 5 | 3 | 3 | 3 |
| Gwasanaethau Tai a Diogelu'r Cyhoedd | 4 | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Hamdden | 5 | 4 | 3 | 5 | 5 |
| Cymorth Busnes a Chomisiynu | 5 | 5 | 3 | 3 | 3 |
| **Yr Adran Lle a Seilwaith** | | | | | |
| Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff | 5 | 4 | 4 | 5 | 4 |
| Trafnidiaeth a Phriffyrdd | 4 | 3 | 4 | 4 | 4 |
| Polisi a Pherfformiad P&I | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Lle a Chynaliadwyedd | 4 | 4 | 3 | 5 | 4 |
| Cynnal a Chadw nad yw'n ymwneud â Thai | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 |
| **Adran y Gwasanaethau Corfforaethol** | | | | | |
| Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | 5 | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Gwasanaethau Ariannol | 5 | 3 | 4 | 4 | 3 |
| Sgôr gyfartalog | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |

**Prif ganfyddiadau cyffredinol o'r hunanasesiadau is-adrannol**

| Cydweithio |
| --- |
| Mae angen nodi ymhellach sut y gall partneriaid gefnogi ein Hamcanion Llesiant a sut y gallwn gefnogi eu Hamcanion Llesiant. |
| **Integreiddio** |
| Mae angen ystyried ymhellach y saith maes corfforaethol fel fframwaith ar gyfer hunanasesu a chymhwyso'r pum ffordd o weithio i'r meysydd hynny. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn rheoli'i hun i wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r nodau llesiant ac yn cyflawni ei amcanion llesiant. |
| Mae angen i ni sicrhau cymorth ar draws y Cyngor i'r rhaglen waith datgarboneiddio a newid hinsawdd. Mae Lle a Seilwaith yn arwain ond mae angen i bob maes gwasanaeth sicrhau bod datgarboneiddio a newid hinsawdd yn cael ystyriaeth. Mae angen ystyriaeth bellach o ran sut y gellir alinio gwariant cyllideb y Cyngor â mynd i'r afael ag effaith hinsawdd/carbon. Mae angen i ni osod disgwyliadau clir yn ganolog i dimau gweithredol eu cyflawni a dull cyson o ddileu'r risg y bydd gwasanaethau'n gweithio yn erbyn ei gilydd neu i safonau gwahanol. |
| **Cynnwys** |
| Mae angen parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a sefydlu pa waith cyfranogi sydd eisoes yn digwydd i nodi boddhad defnyddwyr gwasanaeth â pherfformiad. Byddai hyn hefyd yn cynnwys gwneud mwy gyda'n hymgysylltiad a'n sicrwydd o rai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth. |
| Mae angen gwella'r modd y rhennir ar draws y Cyngor y data/gwybodaeth sy'n deillio o'r ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'r ymgynghori â phreswylwyr a gynhelir yn uniongyrchol gan wasanaethau. |
| Mae angen gwella'r defnydd o'r ganolfan gyswllt/Hwb, Llesiant Delta, cwynion, a data a gwybodaeth boddhad gwasanaethau i wella cynllunio gwasanaethau. |
| **Ffocws hirdymor** |
| Mae cydnabyddiaeth bod y gwaith a wneir ar baratoi asesiad llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu ein ffocws hirdymor ond mae hyn yn dal i dueddu i fod am gyfnod o 5 mlynedd ac nid am gyfnod hirach. Mae angen datblygu rhagor ar hyn. |
| **Atal** |
| Mae angen sicrhau bod y Strategaeth Atal, sy'n cael ei harwain gan yr Adran Cymunedau, yn cael ei hymestyn ac yn datblygu i fod yn ddull poblogaeth gyfan o atal sy'n berthnasol ar draws y Cyngor. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r galw am ymyrraeth statudol ac yn mwyhau potensial unigolion. |
| Mae angen canolbwyntio ar alluogi newid ymddygiad gan breswylwyr a staff y Cyngor i ddylanwadu ar newid a rheoli disgwyliadau. |

## Defnyddio adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r cyd-destun y dylai Cyngor fod yn arfer ei swyddogaethau ynddo, gan ddefnyddio ei adnoddau a sicrhau bod ei lywodraethu'n effeithiol, gyda'r nod o wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r nodau llesiant. Mae'r Ddeddf yn gosod y fframwaith y mae'n rhaid i Gyngor ystyried ei berfformiad oddi mewn iddo, o ran darparu gwasanaethau, gallu corfforaethol a chapasiti i ddiwallu anghenion defnyddwyr presennol, heb gyfaddawdu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys cyfres graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i reolaeth gorfforaethol cyrff cyhoeddus.

Yn eu hunanasesiadau, gofynnwyd i'r is-adrannau raddio ar sgôr o 1-5 y cymorth a ddarperir gan y gwasanaethau corfforaethol hyn.

| | Cynllunio Corfforaethol | Cynllunio Ariannol | Cynllunio'r Gweithlu | Caffael | Rheoli Asedau | Rheoli Risg | Rheoli Perfformiad | Argymhellion Rheoleiddiol | TGCh | Marchnata a'r Cyfryngau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Pobl | 5 | 5 | 4 | 5 | 5 | 5 | 4 | 4 | 5 | 5 |
| Adfywio, Polisi a Digidol | 5 | 4 | 3 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 5 | 4 |
| Gweinyddiaeth a’r Gyfraith | 3 | 3 | 4 | 4 | 3 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 |
| Cyfryngau a Marchnata | 4 | 4 | 4 | 3 | 5 | 4 | 5 | 3 | 4 | 3 |
| Etholiadol a Chofrestru Sifil | 3 | 4 | 5 | 4 | 4 | 4 | 5 | 4 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau Plant | 5 | 5 | 3 | 3 | 3 | 4 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| Strategaeth a Chymorth i Ddysgwyr | 5 | 5 | 3 | 3 | 3 | 4 | 5 | 4 | 5 | 3 |
| Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | 5 | 5 | 3 | 3 | 3 | 4 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| Mynediad i Addysg | 5 | 5 | 3 | 3 | 3 | 4 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | 4 | 4 | 3 | 3 | 4 | 4 | 4 | 4 | 5 | 4 |
| Gwasanaethau Integredig | 4 | 5 | 4 | 5 | 3 | 5 | 5 | 5 | 5 | 3 |
| Tai a Diogelu'r Cyhoedd | 4 | 4 | 2 | 2 | 4 | 3 | 4 | 4 | 3 | 4 |
| Hamdden | 3 | 5 | 3 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 5 |
| Cymorth Busnes a Chomisiynu | 4 | 5 | 4 | 5 | 3 | 5 | 5 | 5 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau Gwastraff a'r Amgylchedd | 4 | 4 | 5 | 5 | 2 | 4 | 4 | 5 | 4 | 5 |
| Trafnidiaeth a Phriffyrdd | 4 | 5 | 3 | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 3 | 2 |
| Polisi a Pherfformiad | 1 | 3.5 | 4 | 4 | 2 | 3 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Lle a Chynaliadwyedd | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 4 | 4 | 3 | 4 | 3 |
| Cynnal a Chadw nad yw'n ymwneud â Thai | 1 | 4 | 3 | 3 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | 3 | 4 | 3 | 5 | 3 | 5 | 3 | 5 | 4 | 4 |
| Gwasanaethau Ariannol | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 4 | 3 | 5 | 4 | 4 |
| **Sgôr Gyfartalog** | **4** | **4** | **3** | **4** | **3** | **4** | **4** | **4** | **4** | **4** |

**Prif ganfyddiadau cyffredinol o'r hunanasesiadau is-adrannol**

| | |
|---|---|
| **Cynllunio Corfforaethol** | Mae angen adolygu'r modd y llywodraethir y Cyngor i gyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o weithgorau presennol, byrddau llywodraethu corfforaethol a phaneli ymgynghorol ac ati. |
| | Datblygu Data Corfforaethol ymhellach i gefnogi'r Strategaeth Gorfforaethol a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn perfformiad/gwybodaeth a datblygiad dangosfwrdd data. |
| **Cynllunio Ariannol** | Mae angen datblygu ymgysylltiad pellach gan bob adran i'r broses o bennu'r gyllideb yn ogystal â mwy o berchnogaeth o fonitro mewn rhai meysydd. |
| | Mae angen ail-edrych ar y dull o gynllunio gwasanaethau a phennu'r gyllideb er mwyn sicrhau mwy o aliniad. |
| **Cynllunio'r Gweithlu** | Mae angen datblygu ymhellach ymagwedd y Cyngor at feysydd cynllunio'r gweithlu gan gynnwys: canolbwyntio ar recriwtio, cadw, hyfforddi, cymwyseddau a hyfforddi, gyda'r nod o dyfu ein gweithlu ein hunain a chreu |

| | |
|---|---|
| | cynnig deniadol i bobl ifanc. Dylai hyn adeiladu ar ganfyddiadau'r arolwg ymgynghori â staff. |
| | Mae angen monitro ac adrodd ar gynnydd dadansoddiad pob is-adran o'r gweithlu presennol a gofynion gweithlu'r dyfodol, ynghyd â'r sgiliau a'r cymwyseddau y bydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau newydd, gwahanol neu well. |
| | Mae angen cryfhau ymhellach ddull y Cyngor o roi llais i staff a'u cynnwys wrth wneud newid cadarnhaol.<br>• Mae cynnwys staff mewn prosiectau gwella gwasanaethau yn rhan allweddol o'n rhaglen Trawsnewid.<br>• Sefydlwyd y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd yn ystod y flwyddyn i wella cyfathrebu a deialog rhwng ein cydweithwyr undeb llafur ac uwch-arweinwyr (gan gynnwys swyddogion ac aelodau etholedig) |
| | Mae angen sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus newydd. |
| | Mae angen parhau i fynd i'r afael â heriau o ran recriwtio a chadw staff sy'n wynebu'r rhan fwyaf o wasanaethau, gan ganolbwyntio'n benodol ar:<br>1. Datblygu a gwella rhaglen buddion a chydnabyddiaeth staff y Cyngor<br>2. Datblygu ymhellach raglenni cynnydd staff - ar draws y Cyngor yn ei gyfanrwydd ond rheolwyr 3ydd a 4ydd haen yn benodol<br>3. Gwella'r system recriwtio gan gynnwys y broses cymeradwyo i recriwtio. |
| **Caffael** | Mae angen sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus newydd gyda ffocws penodol ar ystyried caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. |
| **Rheoli Asedau** | Mae angen ystyried ymhellach ein dull o ymdrin â gofynion cynnal a chadw wedi'u cynllunio, gan gydbwyso costau tymor byr a hirdymor unrhyw raglenni gwaith. |
| **Rheoli Risg** | Mae angen diweddaru'r strategaeth rheoli risg a'i hadolygu yn unol â'r Strategaeth Gorfforaethol. |
| | Mae angen integreiddio adroddiadau rheoli risg ymhellach i adroddiadau monitro perfformiad arsylwi chwarterol. |
| **Rheoli Perfformiad** | Mae angen gosod amserlen cynllunio gwasanaethau a monitro perfformiad ar draws y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol fel bod adrannau'n gwybod pryd i ddisgwyl gwahanol ofynion. Cynnwys cynllunio busnes (cynllunio cyllideb); hunanasesu; adrodd chwarterol, adrodd blynyddol diwedd blwyddyn |
| | Mae angen datblygu a mireinio'r adroddiad arsylwadau chwarterol ymhellach a chysylltiadau ag adrannau. Bydd hyn yn cynnwys Data Corfforaethol newydd a ddatblygwyd i gyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol ac amcanion llesiant y Cyngor. Bydd datblygu dangosfwrdd data yn flaenoriaeth allweddol yn ystod 2023-24 |
| **Rheoliad Allanol a Mewnol** | Mae angen parhau i ymateb i argymhellion yr adroddiad rheoleiddiol mewn ffordd adeiladol a gweithredu ar argymhellion yn gyflym. |
| **TGCH** | Mae angen yn barhaus i adolygu a sicrhau bod systemau rheoli yn addas i'r diben ac yn cael eu datblygu fel y bo'n briodol. |
| | Mae angen sefydlu Gweithgorau/Grwpiau Llywio Digidol allweddol ar draws pob adran. Gyda'r galw digidol yn cynyddu drwy'r amser, mae wedi bod yn |

| | |
|---|---|
| | allweddol cael y Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i fod o blaid yr angen am Grŵp Digidol amlwg ar gyfer pob cyfarwyddiaeth. |
| | Mae angen i'r gwasanaeth digidol barhau i weithio'n agos gydag adrannau i amlinellu eu ffocws hirdymor gyda'u strategaethau adrannol eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys ffurfioli cynlluniau tymor hir ar gyfer adrannau mewn cyd-destun digidol a gweithio yn ôl tuag at ffocws tymor canolig i dymor byr i ddeall beth yw'r blaenoriaethau angenrheidiol i sicrhau y gellir diwallu'r anghenion tymor hir. |
| **Cyfathrebu / Marchnata a'r Cyfryngau** | Mae angen datblygu rhagor gyfathrebiadau arfaethedig y Cyngor. Mae yna drefniadau sefydledig ar gyfer cyfathrebu adweithiol/ymatebol mewn argyfwng, ond mae angen gwella cyfathrebu wedi'i gynllunio sy'n canolbwyntio ar y materion y mae pobl eisiau gwybod fwyaf amdanynt. Hyrwyddo darpariaeth fusnes graidd y Cyngor, yn ogystal â phrosiectau / rhaglenni / polisïau / penderfyniadau newydd. |
| | Mae angen rheoli disgwyliad y cyhoedd o ran beth mae'r Cyngor yn gallu ei gynnig/ei wneud - nid yw adnoddau na chapasiti bob amser yn cyd-fynd â disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch beth gall y Cyngor ei gyflawni. Mae galw cynyddol a chymhlethdod ar gyfer gwasanaethau ar adeg o leihau adnoddau a chapasiti. |

Er gwaethaf cefndir economaidd hynod heriol o chwyddiant uchel a thwf digynsail mewn cyflogau nas gwelwyd ers cenhedlaeth, cyflawnodd y Cyngor danwariant bach yn erbyn y cyllidebau.

Ym mlwyddyn ariannol 2022-23 gwelwyd newid sylweddol yn y risgiau i'r hinsawdd economaidd. Nid yw'r risg a dybiwyd o don arall o COVID19 wedi amlygu, er bod y feirws yn parhau i fod yn endemig. Wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi'n llawn, roedd y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor yn gallu dychwelyd i'w lefelau gweithredu cyn y pandemig. Mae'r gostyngiad disgwyliedig mewn incwm masnachol wedi amlygu yn ystod y flwyddyn, er nad yw mor wael ag yr ofnwyd, gyda'r lefelau gweithgarwch yn adfer yn raddol yn ystod y flwyddyn.

Mae argyfwng costau byw wedi disodli hyn, gyda chwyddiant yn cyrraedd y pwynt uchaf ers 40 mlynedd, gan aros uwchben 10% yn ystod y flwyddyn (er bod disgwyl yn gyffredinol y bydd yn gostwng yn ystod 2023/24). Cododd cyfraddau llog o 0.75% ym mis Mawrth 2022 i 4% erbyn mis Mawrth 2023. Mae'r cynnydd anhygoel mewn prisiau ynni, a liniarwyd yn rhannol yn unig gan gynlluniau cymorth y llywodraeth, wedi effeithio ar aelwydydd a busnesau fel ei gilydd. Mae hyn wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth adolygu darpariaethau drwgddyledion. Er gwaethaf hyn, arhosodd y farchnad lafur yn dynn yn ystod y flwyddyn, gydag anawsterau recriwtio yn cuddio gwir effaith y gwasgfeydd ariannol yn ystod y flwyddyn. Wedi'i yrru gan yr amgylchedd hwn, roedd cynigion cyflogau'r sector cyhoeddus yn uwch na'r disgwyliadau ar adeg gosod y gyllideb, ac mae'n debygol y bydd y mater hwn yn cael ei ailadrodd yn 2023/24 yn seiliedig ar gynnig Cyflogwyr yr NJC a gyhoeddwyd eisoes.

Er bod cyllid Llywodraeth y DU wedi gwella ers cyllideb Hydref y weinyddiaeth Truss/Kwarteng fyrhoedlog, mae'r rhagolwg yn parhau i fod yn destun pryder, gyda rhagolygon benthyca'r sector cyhoeddus oddeutu £50bn yn uwch nag yr oeddent flwyddyn yn ôl, ac arwyddion cyfredol o setliadau cyllido heriol yn y dyfodol, yn enwedig yn y blynyddoedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol nesaf.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae ein statws ariannol cyffredinol wedi'i gynnal ar lefel ddarbodus, gyda chynnydd yn lefel y balansau cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn. Hefyd mae gan yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddibenion penodol, p'un a yw hyn er mwyn mynd i'r afael â rhwymedigaethau yn awr neu yn y dyfodol e.e. cronfeydd yswiriant neu ar gyfer ariannu cynlluniau cyfalaf penodol. Mae'r Awdurdod wedi gallu ychwanegu at y balansau hyn ar ddiwedd y flwyddyn i ddarparu adnoddau ychwanegol tuag at wasgfeydd yn y dyfodol a lliniaru risg.

## Llywodraethu Effeithiol

ⓘ Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'n bwysig bod Datganiad Llywodraethu yn cynnwys gwerthusiad a chasgliad ac yn rhoi barn glir ynghylch a yw'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn addas i'r diben. I alluogi'r farn hon cynhaliodd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor adolygiad o'n trefniadau yn erbyn y safonau a fabwysiadwyd (gweler 3.3 isod).

**Darn o'r Adroddiad Archwilio Mewnol:**

| **Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol** | |
|---|---|
| **Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad** | **Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd** |
| Derbyniol | Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt<br><br>Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion<br><br>Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da |
| Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw. | |

**Y MATERION LLYWODRAETHU NEWYDD A NODWYD YN NATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLLB) ELENI**

| CYF. Y MATER | CAM GWEITHREDU | Y SWYDDOG CYFRIFOL | Y DYDDIAD TARGED |
|---|---|---|---|
| DLLB 2022/2023 Rhif 1 | Ymgorfforí'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant Newydd ar gyfer 2022-27 ICTCP 5g2 | Polisi Corfforaethol - Perfformiad | 31 Mawrth 2024 |
| DLLB 2022/2023 Rhif 2 | Byddwn yn sicrhau bod Rheoli Perfformiad Corfforaethol ac Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'i gilydd, i sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn chwarae ei ran yn Hunanasesiad Cyffredinol y Cygnor. ICTCP 5g1 | Polisi Corfforaethol – Perfformiad | 31 Gorffennaf 2023 |
| DLLB 2022/2023 Rhif 3 | Tîm Mewnwelediad Data i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dadansoddi gweithgarwch ymgynghori sy'n deillio o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (yn benodol gyda thrigolion, busnesau, undebau llafur a staff). | Polisi Corfforaethol - Mewnwelediad Data | 31 Mawrth 2024 |

## Gweithgarwch Ymgynghori

Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, ceisiodd y Cyngor ddeall barn trigolion, a busnesau Sir Gaerfyrddin, staff y Cyngor ac Undebau Llafur ar sawl maes i lywio cynlluniau'r dyfodol a phennu blaenoriaethau drwy gyfres o arolygon.

Yn ystod yr amser hwnnw, cynhaliwyd yr arolygon hynny mewn sefyllfa o gyni parhaus a galw cynyddol am wasanaethau, a wnaed yn waeth gan yr argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd a natur, ac adfer ar ôl y pandemig. Nid yw eleni wedi bod dim gwahanol ac fel sefydliad rydym yn dal i ymrafael â'r heriau hyn, tra'n gwneud ein gorau dros ein trigolion, busnesau a staff mewn cyfnod sy'n un heriol iawn i gynifer.

Yn ôl dyluniad, roedd arolygon eleni'n adlewyrchu i raddau helaeth rai'r flwyddyn flaenorol, gan alluogi casglu tystiolaeth gymaradwy y gellir ei monitro dros amser. Darperir isod ddadansoddiad o'r cyfraddau ymateb.

| **Arolwg** | **Cyfradd Ymateb** | | **Canfyddiadau'n Llywio.....** | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | Newid | |
| **Arolwg Trigolion** | 2,195 | 3,943 | 80% o gynnydd | Cynllunio ac asesu'r gwasanaeth |
| **Arolwg Staff** | 1,733 | 1,459 | Gostyngiad o 16% | Rheoli Pobl a Strategaeth y Gweithlu |
| **Arolwg Busnesau** | 36 | 110 | 206% o gynnydd | Cynlluniau adfer a thwf economaidd |
| **Arolwg Undebau Llafur** | 5 | 3 | Gostyngiad o 40% | Cysylltiadau Staff |

Mae holl ganlyniadau'r arolwg yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd gyda chanfyddiadau'n llywio datblygiad cynlluniau gweithredu a fydd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni adrannol a'u monitro'n barhaus. Isod rhoddir crynodeb o'r prif ganfyddiadau ar gyfer yr ymgynghoriad â thrigolion.

### Arolwg Trigolion

O'r naw datganiad a wnaed mewn perthynas â'r Cyngor a'i berfformiad, roedd yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â 56% ohonynt. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welir am y flwyddyn flaenorol. Er bod hyn yn wir, mae wyth o'r naw sgôr mynegai cyfartalog (AIS) wedi gweld gostyngiad bach ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol sy'n awgrymu bod lefelau anghytundeb ar y cyfan ychydig yn uwch eleni.
Mae'r datganiadau sgorio **isaf** yn gyson â'r llynedd, sef:

- Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio,
- Mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i mi gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau,
- Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo,
- Mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y meysydd cywir.

Gwnaed 16 datganiad pellach mewn perthynas â themâu allweddol, gyda'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â 69% ohonynt. Mae hyn i lawr ychydig o 73% ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol gymaradwy gan fod datganiad ychwanegol wedi'i ychwanegu at yr arolwg eleni.
Mae'r datganiadau sgorio uchaf yn gyson â'r llynedd, sef:

- Rwy'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin,
- Mae'n bwysig bod pobl leol yn cael cefnogaeth i brynu tai'n lleol,
- Mae'n bwysig bod cefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl yn cael ystyriaeth.

I'r gwrthwyneb, mae'r datganiadau sy'n sgorio isaf hefyd yn gyson â rhai'r llynedd ac yn ymwneud â'r themâu canlynol:

- Canfyddiad o ddiffyg cysylltiadau trafnidiaeth da,
- Canfyddiad o ddiffyg cefnogaeth i fusnesau lleol,
- Canfyddiad o ddiffyg cefnogaeth i bobl leol fanteisio ar gyfleoedd lleol,
- Y sylw pitw sy'n cael ei roi i'r argyfwng hinsawdd yn lleol.

Gofynnwyd i drigolion roi sawl thema yn y drefn y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer buddsoddiad. Mae'r canlyniadau'n gyson i raddau helaeth â'r llynedd gydag 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn y safle uchaf unwaith eto a 'Chysylltedd Digidol' isaf. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o symud wrth i 'Addysg a Gwasanaethau Plant' a 'Tai Fforddiadwy' ddringo i safleoedd uwch na'r 'Amgylchedd' a 'Trechu Tlodi' a lithrodd yn is.

Ar ben hynny, mae'r heriau a nodwyd gan drigolion yn gyson i raddau helaeth â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol hefyd.

Mae'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw yn parhau i fod yn bryder mawr i'r mwyafrif, wrth iddynt gyfeirio at gost cynyddol ynni, prisiau tanwydd, cyfradd gynyddol chwyddiant, cost gynyddol bwyd, incwm isel a phensiynau'r wladwriaeth a chost gynyddol y dreth gyngor.

Mae mynediad at wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn parhau i fod yn destun pryder, wrth i drigolion gyfeirio'n benodol at gael cymorth iechyd meddwl, cael mynediad at wasanaethau deintyddol a meddyg teulu, cael mynediad at ofal a chymorth i berthnasau ag anghenion cymhleth, a phryderon ynghylch heneiddio a heneiddio'n dda.

Yn ogystal, mae diffyg canfyddedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus addas i'r diben yn rhwystr i lawer. Mae hwn yn fater perthnasol yn Sir Gaerfyrddin o ystyried natur wledig y sir. Gall y rhwystrau hyn leihau safonau byw, cynyddu unigedd a rhwystro pobl rhag cael mynediad at wasanaethau a chyflogaeth hanfodol.

Ar y cyfan mae trigolion yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd da, ond yn debyg i'r llynedd, adroddwyd bod gwasanaethau'r Cyngor yn dal i fod yn bryder i lawer, gyda'r themâu'n cyd-fynd â'r rhai a nodwyd y llynedd, sy'n cynnwys:

- Casgliadau sbwriel a gwastraff afreolaidd ac annibynadwy,
- Mynediad at wasanaethau hamdden addas i'r diben a chost uchel ganfyddedig y rhain,
- Ansawdd priffyrdd h.y. tyllau ac ati,
- Atgyweirio a chynnal a chadw tai,
- Esthetig cyffredinol ardaloedd awyr agored a'r amgylchedd, llwybrau cyhoeddus h.y. baw cŵn, sbwriel, tipio anghyfreithlon.

I gloi, mae'r cysondeb rhwng y canlyniadau ar gyfer eleni a'r llynedd yn rhoi her a chyfle. Y cyfle a roddir i'r Cyngor drwy'r canfyddiadau hyn yw bod gennym ddealltwriaeth glir o'r problemau sy'n cael eu hystyried gan ein trigolion fel y rhai mwyaf hirsefydlog a dybryd iddynt. Mae hyn yn awgrymu y gellir canolbwyntio a thargedu camau a chynigion sy'n codi ar sail tystiolaeth gadarn.

Yr her yw darparu ymyriadau sy'n arwain at newid gwirioneddol i'n trigolion, wrth i'r adnoddau sydd ar gael i ni fel sefydliad grebachu. Mae nifer o'r problemau hyn wedi'u gwreiddio a bydd angen sylw sylweddol arnynt a gwaith partneriaeth effeithiol. Fodd bynnag mae'r Cyngor wedi ymrwymo i edrych ar opsiynau hyfyw.

**Dros y misoedd nesaf, bydd cynllun gweithredu yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda gwasanaethau perthnasol a fydd yn cael sylw drwy gynlluniau cyflawni a'u monitro i fynd i'r afael â'r problemau mwyaf dybryd.**

**Arolwg Staff**
Wrth ystyried y canlyniadau yn eu cyfanrwydd, mae barn a theimladau cyffredinol staff yn gadarnhaol i raddau helaeth (wedi'u cynrychioli gan sgôr dros 0). Yn ôl y disgwyl, fodd bynnag, mae rhai achosion lle mae amrywiadau yn ymddangos yn y canlyniadau cadarnhaol, yn enwedig ar lefel adrannol, a darperir crynodeb o'r canfyddiadau hyn isod.

Y datganiadau canlynol gafodd y **sgoriau uchaf:**

- **Rwy'n gwybod beth sy'n cael ei ddisgwyl ohona i yn y gwaith:** Mae disgwyliadau swydd clir yn hyrwyddo effeithlonrwydd, yn lleihau dryswch ac yn gwella cynhyrchiant.
- **Rwy'n gwybod beth mae fy rheolwr yn ei ddisgwyl gen i:** Mae cyfathrebu tryloyw rhwng gweithwyr a rheolwyr yn meithrin amgylchedd gwaith cydweithredol a chefnogol.
- **Mae fy swydd yn gwneud cyfraniad pwysig at amcanion y Cyngor:** Mae cydnabod arwyddocâd swyddi unigol yn atgyfnerthu ymdeimlad o bwrpas ymhlith gweithwyr.
- **Mae gen i'r sgiliau a'r offer cywir i wneud fy ngwaith:** Mae darparu adnoddau a hyfforddiant angenrheidiol yn grymuso gweithwyr, gan eu galluogi i berfformio ar eu gorau.
- **Rwy'n teimlo y gallaf berfformio hyd eithaf fy ngallu bob dydd:** Mae hunanasesiad cadarnhaol o berfformiad yn dangos boddhad swydd a hyder.
- **Gallaf fod yn fi fy hun yn y gwaith:** Mae diwylliant o gynwysoldeb a dilysrwydd yn annog amrywiaeth o ran meddwl ac yn meithrin gweithle cefnogol.
- **Rwy'n teimlo bod fy nghyflogwr yn cefnogi cydraddoldeb yn y gweithle:** Mae ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn hyrwyddo gweithle teg a pharchus.
- **Mae fy ngwasanaeth yn effeithiol yn yr hyn mae'n ei wneud:** Mae effeithiolrwydd canfyddedig yn dynodi amgylchedd gwaith trefnus a galluog.

Mae'r sgoriau uchel a'r goblygiadau cadarnhaol hyn yn awgrymu bod y sefydliad yn canolbwyntio ar ddarparu disgwyliadau clir, rheolaeth gefnogol, rolau gwerthfawr, adnoddau angenrheidiol, diwylliant cynhwysol, a gwasanaethau effeithiol, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at brofiad gwaith cadarnhaol a llwyddiant sefydliadol.

Y datganiadau canlynol gafodd y **sgoriau isaf,** er bod y sgoriau hyn yn dal i gynrychioli cytundeb cyffredinol:

- **Rwy'n gwybod beth sy'n digwydd ar draws y sefydliad:** Gall diffyg gwybodaeth am weithgareddau sefydliadol arwain at lai o dryloywder, camgyfathrebu posibl, a rhwystro o ran cydweithio.
- **Mae fy syniadau a'm barn yn cael eu clywed a'u defnyddio i wella'r ffordd y caiff pethau eu gwneud:** Efallai y bydd sianeli adborth cyfyngedig yn annog gweithwyr i beidio â rhannu mewnwelediadau gwerthfawr, gan golli allan o bosibl ar syniadau arloesol ar gyfer gwella prosesau.
- **Rwy'n cael cydnabyddiaeth neu ddiolch yn rheolaidd gan eraill am wneud gwaith da:** Gall cydnabyddiaeth annigonol o ymdrechion gweithwyr effeithio ar gymhelliant, boddhad swydd, a morâl yn gyffredinol.
- **Mae'r penderfyniadau a wneir gan fy Ngwasanaeth yn seiliedig ar dystiolaeth:** Gallai diffyg o ran gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth arwain at ganlyniadau nad ydynt gyda'r gorau ac amharu ar allu'r gwasanaeth i wneud dewisiadau gwybodus.
- **Mae fy Ngwasanaeth yn gwrando ar adborth cwsmeriaid:** Gallai anwybyddu neu beidio â mynd i'r afael ag adborth cwsmeriaid yn ddigonol arwain at ddirywiad yn safon y gwasanaeth a boddhad cwsmeriaid.
- **Mae fy Ngwasanaeth yn ei gwneud hi'n hawdd gweithio gyda chydweithwyr o wahanol Wasanaethau:** Gallai anhawster o ran peidio â gweithio gyda'i gilydd ar draws gwahanol dimau neu wasanaethau amharu ar effeithlonrwydd cyffredinol a rhwystro cydweithredu traws-swyddogaethol.
- **Mae fy Ngwasanaeth yn ei gwneud hi'n hawdd cydweithio â sefydliadau eraill:** Gallai heriau o ran

cydweithredu rhwng sefydliadau gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer partneriaethau a mentrau ar y cyd, a allai rwystro cynnydd.

- **Rwy'n gwybod beth sy'n digwydd yn fy nhîm/lleoliad gwaith:** Gall diffyg gwybodaeth o fewn timau neu leoliadau gwaith penodol arwain at lai o gydlyniant, amcanion aneglur, ac aneffeithlonrwydd posibl.

Mae'r sgoriau a'r goblygiadau is hyn yn awgrymu meysydd lle gellid gwneud gwelliannau i wella cyfathrebu, cydnabyddiaeth, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, integreiddio adborth cwsmeriaid, cydweithio yn fewnol ac yn allanol, a darparu eglurder ynghylch gweithgareddau tîm a sefydliadol. Gallai mynd i'r afael â'r agweddau hyn arwain at fwy o ymgysylltu, effeithlonrwydd, a llwyddiant sefydliadol cyffredinol.
Bydd canfyddiadau ar lefel adrannol yn cael eu rhannu ag arweinwyr adrannol perthnasol a fydd yn gyfrifol am ddatblygu camau i fynd i'r afael â meysydd sydd angen sylw.

**Arolwg Busnesau**
O'r 15 datganiad ynglŷn â'r Cyngor a'i berfformiad, roedd 33% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, o gymharu ag 20% y llynedd. Gyda chanran yr ymatebwyr a atebodd yn anghytuno wedi gostwng i 67% o 80%. O hyn gallwn weld bod y farn gyffredinol yn dechrau gwella.
Roedd y datganiadau wnaeth sgorio uchaf eleni yn gyson â'r rhai o'r llynedd, megis:

- Gallaf gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy fy newis iaith,
- Pan fyddaf yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, mae'r staff yn hawdd mynd atynt ac yn gyfeillgar iawn,
- Mae fy mherthynas gyda'r Cyngor yn dda.

Gyda dau ddatganiad yn gwella yn y canlyniadau eleni:

- Gallaf gael mynediad hwylus i'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor,
- Mae’r Cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut y mae’n perfformio.

Roedd y datganiadau sgorio isaf hefyd yn para'n gyson, sef:

- Mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ar y pethau cywir ac yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd,
- Mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau i sicrhau gwerth da am yr arian,
- Mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n dda ac yn y ffordd gywir.

Mae cydberthynas rhwng y datganiadau sy'n sgorio isaf, gan eu bod i gyd yn ymwneud â sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau.

Arhosodd sgoriau ar gyfer datganiadau ynghylch gwasanaethau a chymorth lleol yr un fath, gyda 45% o'r ymatebion yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau, tra anghytunwyd â 55% o'r datganiadau.

Y datganiadau sy'n sgorio uchaf yn hyn o beth oedd:

- Mae'r ardal lle mae fy musnes yn gweithredu yn ddiogel,
- Mae Gwleidyddiaeth/Democratiaeth ar lefel leol yn bwysig i mi.

Er gwaethaf cael sgôr well eleni, arhosodd y datganiad sgoriodd isaf yr un fath, sef:

- Cefnogir busnesau yn yr ardal leol.

Fodd bynnag, gwelsom ostyngiad bach yn y sgôr ynglŷn â bod Sir Gaerfyrddin yn lle da i wneud busnes. Gallai hyn fod mewn perthynas â'r hinsawdd economaidd bresennol ledled y DU.

Mae busnesau'n parhau i bryderu am gostau cynyddol ac yn ei chael hi'n anoddach cadw i fyny â chostau cynyddol. Fel y soniwyd y llynedd, mae rhai perchnogion busnes yn ansicr pa gymorth ariannol sydd ar gael iddynt o hyd.

Yr economi leol yw'r flaenoriaeth uchaf o hyd ar gyfer buddsoddi. Wedyn y gwasanaethau Addysg a Phlant, sydd mewn safle uwch eleni na'r flwyddyn flaenorol.

Yr argyfwng hinsawdd welodd y gostyngiad mwyaf drastig o ran blaenoriaeth buddsoddi. Hon oedd y flaenoriaeth ail uchaf yn 2022 ond mae wedi cyrraedd y 10fed safle eleni.

Bydd cynllun gweithredu yn cael ei gyd-gynhyrchu gyda y gwasanaethau perthnasol ac yn cael sylw drwy gynlluniau cyflenwi i fynd i'r afael â'r problemau mwyaf dybryd.

**Arolwg Undebau Llafur**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn anghytuno â thri o'r pum datganiad a wnaed mewn perthynas â'r Cyngor a'i berfformiad. Mae hyn yn welliant ers y llynedd, lle roedd ymatebwyr yn anghytuno â'r holl ddatganiadau. Ar y cyd â hyn, mae'n gadarnhaol nodi bod y sgoriau ar gyfer y pum datganiad wedi gwella rhywfaint ers y llynedd, er bod y gwelliant hwnnw'n fach.

Y datganiad am wasanaethau'r Cyngor yn gweithio'n dda sgoriodd isaf, gan awgrymu bod lefel yr anghytundeb yn fwy difrifol. Cafodd y ddau ddatganiad ar ddefnyddio adnoddau yn economaidd ac effeithiol ymatebion cymysg gyda'r holl ymatebwyr yn ateb; 'Ddim yn gwybod' neu 'dim un'. Mae'n anodd yn hyn o beth i roi barn am hyn. Fodd bynnag, gall hyn fod yn arwydd o broblem ehangach lle nad yw Undebau Llafur yn ymwybodol o sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio ac felly'n teimlo na allant ateb.

Caiff yr adroddiad canfyddiadau cryno ei adolygu, a bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r themâu sy'n codi gyda ffocws ar gynyddu ymgysylltiad ar gyfer ymgynghoriadau dilynol.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

ⓘY Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Adran 3 o'r Datganiad Cyfrifon)

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod) yn gyfrifol am sicrhau yr ymgymerir â'i waith yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Rhaid iddo sicrhau hefyd y diogelir cyllid cyhoeddus, y rhoddir cyfrif priodol amdano ac y'i defnyddir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol a sicrhau gwelliant parhaus yn hyn o beth.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer Llywodraethu ei waith, gan hwyluso cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, gan gynnwys bod â threfniadau priodol ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Cyngor yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel "gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol." Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r Awdurdod ynghyd â'r modd y mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Awdurdod i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflenwi gwasanaethau priodol a chost-effeithiol

| Crynodeb Gweithredol Sicrwydd |
|---|
| ***Mae trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol.*** |

**Tabl - Darn o'r Adroddiad Archwilio Mewnol:**

| **Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol** | |
|---|---|
| **Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad** | **Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd** |
| Derbyniol | Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt<br><br>Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion<br><br>Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da |
| Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw. | |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion llywodraethu y mae angen rhoi sylw iddynt a nodwyd mewn Datganiadau Llywodraethu Blynyddol blaenorol


| Y MATER CYF | CAMAU GWEITHREDU | Y SWYDDOG CYFRIFOL | Dyddiad Targed | Y Camau Gweithredu / Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|
| DLlB **2020/21** Rhif 2 | Gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | Corfforaethol | Mai 2022 | Mae gan yr elfennau nad ydynt wedi'u gweithredu hyd yma amserlen y mae angen ei bodloni i gyflawni gofyniad / amserlen y Ddeddf.<br>Rhoddwyd elfennau o berfformiad a llywodraethu ar waith.<br>Etholiadau yn cael eu cynnal | **Ar waith**<br>Mae rhannau o'r Ddeddfwriaeth yr oedd angen eu rhoi ar waith wedi'u cwblhau.<br>Mae'r elfen hunanasesu wedi'i hymgorffori.<br>Aros am ganllawiau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch: asesu cymheiriaid.<br>Wedi'i gwblhau'n rhannol – cwblhawyd yr elfen perfformiad. |
| DLLB **2021/22** Rhif 1 | Datblygu strategaeth recriwtio a chynllun gweithlu ochr yn ochr â chyflwyno meddalwedd recriwtio newydd i sicrhau y gellir symleiddio a chynnal y gwasanaeth recriwtio. | Rheolwr y Gwasanaethau Pobl | Mawrth 2023 | Ar y gweill – meddalwedd newydd ar waith – system brofi a chyflwyno hyfforddiant – o fis Mawrth 2023<br><br>Bydd y strategaeth yn dilyn unwaith y bydd y system yn ei lle. | **Wedi ei ddechrau**. Profion wedi'u cwblhau a diweddariadau ôl-brofi i'r system ar y gweill. (Mai 2023).<br>Strategaeth Gweithlu gerbron y Tîm Rheoli Corfforaethol ar 30 Mawrth<br>Cyfarfod Tîm Rheoli Corfforaethol pwrpasol ynglŷn â'r gweithlu ar 4 Mai a chynnydd ar feddalwedd newydd<br>Strategaeth gerbron Rhag-gyfarfod y Cabinet ar 18 Mai |
| DLLB 2021/22 Rhif 4 | Datblygu cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gyfer yr awdurdod lleol. | Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau | Mawrth 2023 | Mae'r gwaith wedi dechrau – myfyrio ar ganfyddiadau'r arolwg staff a Buddsoddwyr mewn Pobl | **Wedi ei ddechrau**<br>Ymgysylltu ag Undebau Llafur – cyflwyno fforwm ymgynghori ar y cyd – mae'r arweinwyr grwpiau a'r Prif Weithredwr hefyd yn bresennol. Ceisio gwella ymgysylltu ac ymgynghori.<br><br>Adborth staff wedi'i gwblhau |
| DLLB 2021/22 Rhif 5 | Gwaith datblygu pellach ar ymdrin â chwynion ac ymchwilio i gwynion. | Pennaeth TGCh a Pholisi | Mawrth 2023 | Caiff gwaith ei wneud ar yr adnodd sydd ei angen i ymchwilio i gwynion. Rhannu hyn gydag ymholiad Deddf Rhyddid Gwybodaeth ac Aelod | **Wedi ei ddechrau**<br>Mae adolygiad o'r modd yr ymdrinnir â chwynion wedi'i gwblhau. Darn nesaf o waith i adolygu'r broses ymchwilio ar gam 2 er mwyn sicrhau dull cyson a'r safonau sydd eu hangen. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DLLB 2021/22 Rhif 6 | Adolygu'r gwasanaeth cwsmeriaid yr ydym ni fel Cyngor yn ei ddarparu a sut y gallwn wella taith y cwsmer ymhellach. | Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau | Mawrth 2023 | O 1 Rhagfyr 2022 – Datblygu Canolfannau Hwb – mwy o fynediad i gwsmeriaid – cyflwynwyd dyddiau thematig. | **Wedi ei ddechrau**<br>Mae'n dod o dan y ffrwd waith Trawsnewid Cwsmeriaid Digidol – sy'n monitro'r cynnydd.<br>Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Hwb Bach y Wlad – i'w weithredu |
| DLlB 2021/22 Rhif 8 | Sefydlu mecanwaith llywodraethu clir i ysgogi cynnydd yn erbyn pob Amcan Llesiant a nodi meysydd gwasanaeth a themâu blaenoriaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant | Pennaeth TGCh a Pholisi | Mawrth 2023 | Dulliau llywodraethu bellach ar waith – cwblhawyd.<br>Nodwyd pedwar amcan llesiant ac roedd blaenoriaethau thematig a fframwaith blaenoriaethau gwasanaeth ar waith.<br>Cyhoeddwyd fformat y cynlluniau is-adrannol yn ystod yr wythnos a gychwynnodd ar 5 Rhagfyr 2022 | **Wedi ei ddechrau**<br>Cynllun cyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol yn mynd drwy'r broses Graffu ar hyn o bryd.<br>Mae dull llywodraethu wedi'i sefydlu. |
| DLLB 2021/22 Rhif 12 | Adolygu'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer y ddau Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol gyda'r bwriad o gysoni'r trefniadau ac egluro rolau Aelodau a Phwyllgorau Craffu mewn perthynas â'r Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol. | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | Mawrth 2023 | Adolygiad y Swyddog Monitro wedi'i gynnal a'i gwblhau. Mae'r adroddiad yn cael ei gwblhau'n derfynol.<br><br>CWM yn mynd ag adroddiad adolygu trefniadau llywodraethu gerbron Bwrdd Cwm. | **Wedi ei ddechrau**<br>Diweddariad: Adolygiad diweddaru'r Swyddog Monitro ar Lywodraethu wedi'i gynnal a'i gwblhau. Mae'r adroddiad yn cael ei gwblhau'n derfynol.<br><br>Mae CWM wedi mynd ag adroddiad adolygu trefniadau llywodraethu gerbron Bwrdd Cwm. – cam gweithredu Cwm wedi'i Gwblhau |

**Y Cynllun Gweithredu – Materion Llywodraethu**

**Y MATERION LLYWODRAETHU NEWYDD A NODWYD YN NATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (DLLB) ELENI**

| CYF Y MATER | CAMAU GWEITHREDU | Y SWYDDOG CYFRIFOL | Y DYDDIAD TARGED |
|---|---|---|---|
| DLLB 2022/2023 Rhif 1 | Ymgorfforri'r trefniadau llywodraethu ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol Newydd ac Amcanion Llesiant 2022-27 ICTCP 5g2 | Polisi Corfforaethol - Perfformiad | Mawrth 31 |
| DLLB 2022/2023 Rhif 2 | Byddwn yn sicrhau bod Rheoli Perfformiad Corfforaethol ac Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'i gilydd, i sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn chwarae ei ran yn Hunanasesiad Cyffredinol y Cyngor. ICTCP 5g1 | Polisi Corfforaethol – Perfformiad | 31 Gorffennaf 2023 |
| DLLB 2022/2023 Rhif 3 | Tîm Mewnwelediad Data i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dadansoddi gweithgarwch ymgynghori sy'n deillio o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (yn benodol gyda thrigolion, busnesau, undebau llafur a staff). | Polisi Corfforaethol - Mewnwelediad Data | 31 Mawrth 2024 |




Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r saith egwyddor ganlynol-



## Cwynion

Dim ond 52.7% o'r cwynion a dderbyniwyd a gwblhawyd erbyn y dyddiad cau statudol yn ystod 2022/23; mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 57.8% y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd wedi cynyddu 53.8% (500 cwyn ychwanegol)

| Cwynion ar gau gan Adrannau Ebrill 2022 - Mawrth 2023 | | | |
|---|---|---|---|
| Adran | Cwynion (S1 & S2) | Ar gau o fewn | % a wnaed ar amser |
| Cymunedau | 151 | 67 | 44.4% |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 55 | 39 | 70.9% |
| Addysg a phlant | 30 | 14 | 46.7% |
| Lle a Seilwaith | 1052 | 526 | 50.0% |
| Prif Weithredwr | 59 | 36 | 61.0% |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 76 | 68 | 89.5% |
| Trawsadrannol | 7 | 3 | 42.9% |
| **CYFANSWM** | **1430** | **753** | **52.7%** |

Credir bod nifer o faterion yn parhau i gael effaith ar allu Swyddogion Ymchwilio i fodloni'r amserlenni statudol. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor. Yn 2022/23, cafodd cyfanswm o 1,430 o gwynion eu cau, o gymharu â 930 y flwyddyn flaenorol - cynnydd o 53.8%. Mae ffactorau eraill megis natur gymhleth rhai cwynion, pwysau ar wasanaethau, capasiti oherwydd blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a chyfnodau absenoldeb staff hefyd yn effeithio ar yr amser a gymerir i gwblhau ymchwiliadau. Mae'r Tîm Cwynion Corfforaethol yn parhau i weithio'n agos gyda thimau nad ydynt yn gallu bodloni'r amserlenni statudol oherwydd pwysau sylweddol ar wasanaethau. Tynnir sylw at feysydd allweddol sy'n peri pryder yn yr adroddiadau i'r Cyfarwyddwyr ac mae'r tîm yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi'r broses o ddatrys cwynion.

**Ein Dysgu**

- Mae cwynion yn adborth hynod ddefnyddiol ac yn cael eu hystyried gan ein staff fel cyfle cadarnhaol i ddysgu o brofiadau. Mae hyn yn helpu i sbarduno gwelliannau parhaus i wasanaethau ac i atal pethau tebyg rhag digwydd eto.
- I'n cwsmeriaid, mae cyfathrebu ac adborth rheolaidd yn rhan annatod o wasanaethau da. Mae cwsmeriaid yn deall y pwysau mae gwasanaethau sector cyhoeddus yn eu hwynebu. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt gael eu diweddaru ynghylch problemau mewn perthynas â'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio.
- Rhaid i wasanaethau a gwybodaeth fod yn hygyrch, gyda gwahanol bwyntiau mynediad a ffyrdd o gyfathrebu. Rhaid i ni barhau i ddarparu a datblygu ystod eang o opsiynau i bobl gysylltu â ni.
- I'n staff, mae cwynion yn darparu cyfrif uniongyrchol o farn a phrofiad y cwsmer, ac mae datrys cwynion yn gynnar yn arbed adnoddau ac yn creu gwell cysylltiadau cwsmeriaid.

Mae angen mynediad ar ein cydweithwyr ledled y Cyngor i ddata a gwybodaeth amserol fel y gallant gefnogi gweithredu'r Polisi Cwynion Corfforaethol.

ⓘ **Gweler 5j - Polisi a Pherfformiad**

## Cyfrifo'r Sgôr Mynegai Cyfartalog[15]

Cyflwyniad

Mae'r Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS), a elwir weithiau'n 'cyfartaledd pwysedig', yn ffordd o grynhoi 'cryfder barn' fel un rhif sengl. Trwy ddefnyddio Sgôr Mynegai Cyfartalog, mae'n ei gwneud yn haws cymharu canlyniadau ar draws setiau data lluosog (e.e. ar draws adrannau) ac ar draws gwahanol bwyntiau amser (e.e. yn flynyddol). Defnyddir Sgôr Mynegai Cyfartalog yn aml i gydbwyso amlder y gwerthoedd mewn set ddata. Er enghraifft, mae'r arolwg hwn yn casglu ymatebion gan drigolion Sir Gaerfyrddin lle mae gennym boblogaeth amrywiol. Er mwyn sicrhau bod yr holl drigolion yn cael gwrandawiad, a bod eu barn yn cael ei chynrychioli'n gymesur, defnyddiwyd cyfartaledd pwysedig.

Mae'r Sgôr Mynegai Cyfartalog yn ddefnyddiol ar gyfer cwestiynau sy'n defnyddio graddfeydd Likert, gyda'r opsiynau yn amrywio o 'cytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf'. Trwy ddadansoddi data, bydd y gwerthoedd a gynhyrchir yn amrywio o 2 (*pawb* yn cytuno'n gryf) i -2 (*pawb* yn anghytuno'n gryf).

Enghraifft


Gofynnir i 10 o bobl a ydynt yn 'cytuno'n gryf', 'tueddu i gytuno', 'ansicr', 'tueddu i anghytuno' neu'n 'anghytuno'n gryf' y bydd Cymru yn ennill y chwe gwlad.

Canlyniadau...

3 yn cytuno'n gryf (pob ymateb werth 2, felly = **6**); 3 yn tueddu i gytuno (pob ymateb werth 1, felly = **3**); 1 heb farn (= **0**); 1 yn tueddu i anghytuno (pob ymateb werth -1, felly = -**1**); 2 yn anghytuno'n gryf (pob ymateb werth -2, felly = -**4**)

Cyfrifir yr AIS drwy adio'r holl rifau mewn print bras: Felly, 6 + 3 + 0 -1 - 4 = 4;

Wedyn rhannu gan nifer yr ymatebion (10 yn yr achos hwn). Y sgôr mynegai cyfartalog yw: 4 ÷ 10 = 0.4 (fel y dangosir isod)




[15] Esboniad o'r modd y cyfrifir y Sgôr Mynegai Cyfartalog ac enghraifft.

## Beth a sut gallwn ni wneud yn welL/Meysydd a nodwyd i'w Gwella

**Ein cynlluniau i gyflawni ein hamcanion:**

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 1** | **Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)** |
| **Amcan Llesiant 1a** | **Blaenoriaeth Thematig: Bywydau Iach – atal / ymyrraeth gynnar** |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | **Diogelu plant a phobl ifanc** | | |
| 1 | Darparu **ymarfer gwaith cymdeithasol plant yn seiliedig ar berthynas** sy'n ymgorffori meddwl systematig ac egwyddorion *Signs of Safety*. | Ebrill 2024 | John PR Fleming |
| 2 | Gweithredu fframwaith **sicrhau ansawdd** effeithiol i sicrhau bod asesiadau a chynlluniau yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn cael eu llunio ar y cyd, ac yn dangos llais plant a phobl ifanc. | Ebrill 2024 | John PR Fleming |
| 3 | Cefnogi'r **trefniadau amddiffyn plant amlasiantaeth** a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau diogelu cenedlaethol. | Ebrill 2024 | Rebecca Robertshaw |
| | **Tai â Chymorth** | | |
| 4 | Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyflenwad digonol o amrywiaeth o **lety â chymorth** i ddiwallu anghenion pobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc anabl, 16-25 oed. (CV18) | Ebrill 2024 | Bethan T James |
| 5 | Datblygu **cyflenwad digonol o leoliadau preswyl mewnol** i gefnogi'r uchelgais o adfer cydbwysedd y farchnad a chymryd elw allan o ofal plant.( CV 18) | Ebrill 2024 | Louise Quartermass |
| | **Maethu a Mabwysiadu** | | |
| 6 | Darparu amrywiaeth o wasanaethau ymyrraeth o ansawdd uchel fel bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu cael cymorth ar yr adeg iawn, gan gadw teuluoedd gyda'i gilydd lle mae'n ddiogel gwneud hynny, ac er budd pennaf y plentyn. | Ebrill 2024 | Jayne Meredith |
| 7 | **Cynyddu'r digonolrwydd a'r ystod o ofal maeth mewnol a lleoliadau llety â chymorth**. (CV 21) | Ebrill 2024 | Jayne Meredith |
| | **Rhianta Corfforaethol a Llesiant Plant** | | |
| 8 | Datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol sy'n hyrwyddo perchnogaeth ac atebolrwydd ar draws y cyngor fel mai ni yw'r Rhiant Corfforaethol gorau a bod gan ein plant sy'n derbyn gofal a'n rhai sy'n gadael gofal bob cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. | Ebrill 2024 | Bethan T James |
| | **Hamdden** | | |
| 9 | Byddwn yn datblygu cynllun gweithgareddau dŵr newydd ar gyfer ysgolion a chymunedau'r Sir. | Mawrth 2024 | Carl Daniels |

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 1b** | **Blaenoriaeth Gwasanaeth: Blynyddoedd Cynnar** |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | **Blynyddoedd Cynnar** | | |
| 1 | Darparu amrywiaeth o **wasanaethau ataliol** ar gyfer plant, pobl ifanc, a'u teuluoedd, sy'n lleihau rhestrau aros, sy'n lleihau dyblygu ac sy'n gwella'r rhyngwyneb â gwasanaethau cymorth ehangach. | Ebrill 2024 | Noeline Thomas |
| 2 | Ehangu **Dechrau'n Deg** yn raddol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. | Ebrill 2024 | Noeline Thomas |
| 3 | % presenoldeb plant mewn lleoliad gofal plant di-dâl **Dechrau'n Deg** a neilltuwyd ar gyfer plant cymwys 2-3 oed i'w paratoi ar gyfer yr ysgol 9.1.8.1. (Canlyniad 2022/23 - 72.5%) | Targed 23/24 - 75% | Noeline Thomas |
| 4 | Adolygu'r **Strategaeth Cymorth i Deuluoedd** i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar yn diwallu anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir, gan ddefnyddio cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau ar draws y Grant Plant a Chymunedau a'r Grant Cymorth Tai. | Ebrill 2024 | Noeline Thomas |
| 5 | Hyrwyddo'r **Cynnig Gofal Plant 30 awr**a chefnogi darparwyr cofrestredig a rhieni cymwys drwy gyflwyno'r **Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol** newydd. | Ebrill 2024 | Noeline Thomas |
| 6 | Gweithredu'r **Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant** (2022-27), gan gynnwys datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg a chynorthwyo'r sector i adfer yn sgil y Pandemig. | Ebrill 2024 | Noeline Thomas |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 7 | Gweithredu blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Gweithredol Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar a'r Strategaeth **Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar** Ranbarthol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Sector Gwirfoddol a symud tuag at fodel cyflawni integredig. | Ebrill 2024 | Carol Alban |
| 8 | Gwella sut y mae'r Gwasanaethau Plant yn darparu **gwybodaeth, cyngor a chymorth** i gefnogi teuluoedd, trwy gyfathrebu digidol gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a dolenni i wefan Dewis Llywodraeth Cymru. | Ebrill 2024 | Noeline Thomas |

| Amcan Llesiant 1c | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Addysg |
|---|---|

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A** | **Deilliannau Addysg** | | |
| 1 | Byddwn yn sicrhau cyfradd briodol o gynnydd yn natblygiad sgiliau disgyblion mewn ysgolion lle nad yw cynnydd yn ddigonol. | Ebrill 2024 | |
| 2 | Byddwn yn sicrhau cynnydd dysgwyr ar draws pob uned cyfeirio disgyblion | Ebrill 2024 | |
| 3 | Byddwn yn sicrhau cynnydd yr holl ddysgwyr isel eu presenoldeb, gan gryfhau'r modd y caiff yr holl ddata sydd ar gael ei ddal a'i ddadansoddi. | Ebrill 2024 | |
| 4 | Byddwn yn parhau i fireinio'r system i fonitro a gwella dysgu a chynnydd cyfannol grwpiau penodol o ddysgwyr | Ebrill 2024 | |
| 5 | Byddwn yn gwella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion ymhellach. | Ebrill 2024 | |
| 6 | Byddwn yn parhau i adolygu prosesau i leihau nifer y gwaharddiadau. | Ebrill 2024 | |
| 7 | Byddwn yn sicrhau dull ysgol gyfan effeithiol o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol | Ebrill 2024 | |
| **B** | **Gwasanaethau Addysg** | | |
| 1 | Parhau i gefnogi ysgolion i gryfhau cynnydd disgyblion drwy addysgeg effeithiol a dyluniad y cwricwlwm. | Ebrill 2024 | |
| 2 | Parhau i gryfhau cywirdeb ac effaith prosesau hunanwerthuso ar draws pob ysgol | Ebrill 2024 | |
| 3 | Sicrhau effaith barhaus ein strategaeth ysgolion sy'n achosi pryder. | Ebrill 2024 | |
| 4 | Sicrhau bod y strategaeth Partneriaeth a'r cynnig dysgu proffesiynol yn diwallu anghenion ysgolion a dysgwyr yn effeithiol. | Ebrill 2024 | |
| 5 | Parhau i wella datblygiad arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys mynd i'r afael â heriau recriwtio. | Ebrill 2024 | |
| 6 | Cryfhau dealltwriaeth ysgolion o'r safonau digidol addysg. | Ebrill 2024 | |
| 7 | Parhau i ymgorffori ymarfer ADY fel rhan o drawsnewid ADY. | Ebrill 2024 | |
| 8 | Parhau i ddatblygu cefnogaeth i ysgolion er mwyn gwella ymddygiad. | Ebrill 2024 | |
| 9 | Parhau gyda chymorth i ysgolion er mwyn iddynt wella presenoldeb, yn enwedig mewn ysgolion lle ceir lefelau is o bresenoldeb neu absenoldeb parhaus. | Ebrill 2024 | |
| 10 | Ystyried gallu timau canolog e.e. gwasanaethau cynhwysiant i'n galluogi i gefnogi ysgolion a dysgwyr yn effeithiol. | Ebrill 2024 | |
| 11 | Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'r ymagwedd tuag at ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref a'r adnoddau ar eu cyfer. | Ebrill 2024 | |
| 12 | Parhau i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion ar draws y sir ac ailwampio Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin (ASE) i ddiwallu anghenion yr 21ain ganrif. Sicrhau bod pob ysgol newydd yn bodloni'r safonau gofynnol o insiwleiddio ac awyru i leihau biliau ynni a bod yn fwy ecogyfeillgar. PIMS 16266 | Ebrill 2024 | |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 13 | Sicrhau bod unrhyw gynigion gan swyddogion i Aelodau Etholedig mewn perthynas ag ad-drefnu yn cael eu hystyried a'u prosesu'n effeithlon i gyd-fynd â'r gofynion am ddarpariaeth ac arweinyddiaeth effeithiol. | Ebrill 2024 | |
| 14 | Datblygu cyfathrebu ymhellach a gwella mewnbwn strategol rhanddeiliaid. | Ebrill 2024 | |
| 15 | Egluro ymhellach ein strategaeth WESP (Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg) i rai cynulleidfaoedd a pharhau â'i weithredu, gan gynnwys y cynnig Dysgu Proffesiynol | Ebrill 2024 | |
| 16 | Parhau i fireinio gweithdrefnau Diogelu a sicrhau uniondeb y broses archwilio diogelu ysgolion | Ebrill 2024 | |
| 17 | Hwyluso prosesau Adnoddau Dynol, yn enwedig ynghylch gwiriadau DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) i gefnogi'r broses benodi mewn ysgolion. | Ebrill 2024 | |
| 18 | Parhau i reoli'r nifer cynyddol o ysgolion sydd â materion cyllidebol, gan hysbysu'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. | Ebrill 2024 | |
| 19 | Sicrhau cysondeb cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â Rhaglen Moderneiddio Addysg y Cyngor | Ebrill 2024 | |
| 20 | Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â llefydd ysgolion a'r materion a achosir gan ôl troed ysgol mawr, gan sicrhau bod y Rhaglen Moderneiddio Addysg ddiwygiedig yn cael effaith gadarnhaol ar ddosbarthu adnoddau, arweinyddiaeth a recriwtio, darpariaeth, lles, cynaliadwyedd, lleihau'r pwysau ar wasanaethau cymorth ac ati. | Ebrill 2024 | |
| 21 | Yng ngoleuni arbedion ariannol ychwanegol posibl sy'n ofynnol gan ysgolion, mae angen i ni adolygu'r fformiwla ariannu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd | Ebrill 2024 | Aneirin Thomas |
| 22 | Sicrhau bod Osgoi Ysgol ar Sail Emosiwn (EBSA), Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA), ymarfer sy'n ymwybodol o drawma, a hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad yn rhan annatod o hyfforddiant craidd mewn ysgolion fel bod ysgolion yn diwallu **anghenion lles emosiynol dysgwyr agored i niwed a phlant sy'n derbyn gofal**. | Ebrill 2024 | Vicky Jeremy |
| 23 | Ymgysylltu â dysgwyr sy'n derbyn **Addysg Ddewisol yn y Cartref**, eu teuluoedd, a rhwydweithiau eraill fel y gallant gael gafael ar yr help iawn ar yr adeg iawn trwy ystod eang o gyfleoedd addysgol. | Ebrill 2024 | Rhona Evans |

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 2** | **Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)** |
| **Amcan Llesiant 2a** | **Blaenoriaeth Thematig: Trechu Tlodi** |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 1 | Nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd *(6.6.1.2)*<br>*Canlyniad 22/23 oedd 18.46 diwrnod* | I'w gadarnhau | Helen Pugh / Ann Thomas |
| 2 | Byddwn yn cyfrannu at drechu tlodi yn Sir Gaerfyrddin drwy gynorthwyo teuluoedd i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. | 31 Mawrth 2024 | Helen Pugh / Ann Thomas |
| 3 | Byddwn yn parhau i weinyddu grantiau a thaliadau ar ran Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog megis grant costau byw, grantiau busnes a grantiau tanwydd gaeaf. | 31 Mawrth 24 | Helen Pugh / Ann Thomas |
| 4 | Sefydlu canolfannau HWB gwledig ar draws trefi marchnad gwledig y Sir sy'n darparu mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chymorth i drigolion gwledig (Y Gronfa Ffyniant Gyffredin) (CV94) | 31 Mawrth 2024 | Deina Hockenhull |
| 5 | Byddwn yn gweithredu ac yn diweddaru'r Cynllun Trechu Tlodi i ymateb i'r heriau presennol sy'n wynebu trigolion a chymunedau. PIMS 16389 | 31 Mawrth 2024 | Jason Jones / Gwyneth Ayers |

| Amcan Llesiant 2b | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Tai | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Byddwn yn datblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol 10 mlynedd newydd ar gyfer Tai | 31 Mawrth 2024 | Jonathan Morgan |
| **2** | Datblygu rhaglenni fuddsoddi newydd ar gyfer stoc dai'r Cyngor yn seiliedig ar arolygon o gyflwr y stoc a'r uchelgais o ddatgarboneiddio. | 31 Mawrth 2024 | Rachel Davies |
| **3** | Datblygu cynllun ar gyfer darparu llety arall dros dro | 31 Mawrth 2024 | Angie Bowen |
| **4** | Byddwn yn gweithredu Cynllun Tai Gwag newydd | 31 Mawrth 2024 | Areth Williams |
| **5** | Byddwn yn datblygu rhaglen wedi'i chostio i fuddsoddi yn ein darpariaeth fewnol o ofal preswyl a'i hehangu | 31 Mawrth 2024 | Rachel Davies |
| **6** | Byddwn yn darparu tai fforddiadwy ychwanegol fel rhan o'r rhaglen datblygu adfywio tai (gan gynnwys anghenion cyffredinol, tai arbenigol a'r rhai sydd wedi'u targedu at ganol trefi ac ardaloedd gwledig) | 31 Mawrth 2024 | Rachel Davies |
| **7** | Byddwn yn gwella'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau gwaith ac yn lleihau'r ôl-groniad o atgyweiriadau, tai gwag a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwerth am arian | 31 Mawrth 2023 | Jonathan Fearn |

| Amcan Llesiant 2c | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gofal Cymdeithasol | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/ Targed** | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| 1 | Byddwn yn parhau i fonitro nifer y rheiny sydd yn yr ysbyty yn aros am becyn gofal, er mwyn llywio sut rydym yn datblygu ein dull Gartref yn Gyntaf. | Ddim yn berthnasol | Alex Williams |
| 2 | Byddwn yn datblygu strategaeth atal ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn. | 31 Mawrth 2024 | Avril Bracey |
| 3 | Byddwn yn gweithredu model newydd ar gyfer gwasanaethau dydd anableddau dysgu | 31 Mawrth 2024 | Avril Bracey |
| 4 | Byddwn yn gweithredu newidiadau cyflawni gwasanaethau ym maes iechyd meddwl fel rhan o'r agenda trawsnewid iechyd meddwl | 31 Mawrth 2024 | Avril Bracey |
| 5 | Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu lefelau hygyrch a phriodol o gymorth i bawb sydd â phroblemau Iechyd Meddwl gan ehangu mynediad a chymorth i Blant ac Oedolion Agored i Niwed. (CV12) | 31 Mawrth 2024 | Avril Bracey |

| Amcan Llesiant 3 | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan Llesiant 3a** | **Blaenoriaeth Thematig: Adferiad a Thwf Economaidd** | | |
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/ Targed** | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **A** | **Busnes** | | |
| 1 | Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i fusnesau drwy gymorth grant a thynnu sylw at gyfleoedd caffael i fusnesau lleol yn Sir Gaerfyrddin. | | |
| 2 | Darparu rhwydwaith cydlynol o gymorth busnes i fusnesau newydd a busnesau sefydledig gan gynnwys busnesau hunangyflogedig a microfusnesau. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â busnesau, cadw rhestr gyfoes o fusnesau yn y sir, cysylltu busnesau â chyfleoedd cyllido, darparu cyngor a gwybodaeth ac annog entrepreneuriaeth 3a8 | Mawrth 2025 | Mike Bull |
| | *Twf Economaidd Digidol* | | |
| 3 | Arwain a chyflawni'r buddsoddiad o £55 miliwn mewn Seilwaith Digidol ar draws Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)3a43 | Mawrth 2024 | Gareth Jones |
| **B** | **Pobl** | | |
| 1 | Bydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol yn parhau i weithio gyda chyflogwyr ar draws y rhanbarth i sicrhau bod y Bartneriaeth yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru pa sgiliau sydd eu hangen yn y rhanbarth, a lle mae angen sianelu cyllid Llywodraeth Cymru. | Mawrth 2025 | Jane Lewis |
| 2 | Cyflawni'r Rhaglen Sgiliau a Thalentau gwerth £30 miliwn i greu gweithlu medrus ar gyfer y dyfodol, gan ddatblygu cyfleoedd fel rhan o waith y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol 3a25 | Mawrth 2025 | Jane Lewis |
| 3 | Darparu cefnogaeth drwy raglenni Cyflogadwyedd, nodi cyfleoedd hyfforddi a sgiliau allweddol drwy ymgysylltu â busnesau a nodi'r sgiliau allweddol sydd eu hangen 3a27 | Mawrth 2025 | Jane Lewis |
| 4 | Byddwn yn parhau i adolygu a monitro darpariaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan sicrhau bod y rhaglen ar y trywydd iawn | Mawrth 2025 | Jane Lewis |
| **C** | **Lleoliad** | | |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 1 | Yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman byddwn yn cyflawni camau gweithredu'r **uwchgynllun** ac yn parhau i gefnogi a datblygu mentrau a phrosiectau newydd drwy eu darparu'n uniongyrchol a thrwy gefnogi trydydd partïon gyda'r ffynonellau cyllid sydd ar gael. Adfywio. Cynllun Cyflawni Gwasanaeth 3a1 + 3 + 4 | Mawrth 2025 | Tess Peregrine |
| 2 | Cefnogi'r gwaith o gyflawni Amcanion Economaidd Strategol y Cyngor drwy benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Gweledigaeth 61. | 80% | Hugh Towns |
| 3 | Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. | Rhagfyr 2024 | Ian R Llewelyn |
| 4 | Gweithredu'r CDLl mabwysiedig a monitro ei lwyddiant neu fel arall yn erbyn ei fesurau cyflawni a nodwyd gan sicrhau y cedwir at bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. | Ebrill 2024 | Ian R Llewelyn |
| 5 | Cefnogi'r gwaith o wireddu Cynllun Cyflawni Adfywio a Datblygu Tai y Cyngor, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu dros 2,000 o gartrefi ychwanegol ar draws y Sir dros y 5 mlynedd nesaf, drwy gaffael tir ac adeiladau a nodwyd yn y Cynllun Cyflawni Adfywio a Datblygu Tai Drafft, ynghyd ag unrhyw dir a/neu adeiladau eraill a fyddai'n ychwanegu gwerth at flaenoriaethau a dyheadau Tai ac Adfywio'r Cyngor. | Mawrth 2025 | Peter Edwards |
| | **Pentre Awel** | | |
| 6 | Sicrhau bod yr holl ardaloedd i denantiaid ym Mhentre Awel (Parth 1) yn cael eu gosod yn llawn cyn iddo agor / neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny. | Hydref 2024 | Sharon Burford |
| 7 | Cyflawni Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg Pentre Awel gan gydnabod yr effeithiau posibl y gallai Pentre Awel eu cael ar y Gymraeg.3c2 | 2027 | Sharon Burford |
| 8 | Trwy wireddu Pentre Awel, cyflawni'r amcanion a nodir yn Achos Busnes y Fargen Ddinesig sy'n cwmpasu creu swyddi, cyrsiau addysg i'w darparu a'r effaith a ragwelir ar iechyd. Mae hyn yn cynnwys creu tua 1800 o swyddi.3A42 | 2027 | Sharon Burford |
| 9 | Parth Pentre Awel 1 i gynnwys canolfan hamdden newydd ac adeilad gweithgareddau dŵr.3e2 | Hydref 2024 | Sharon Burford |
| 10 | Cynorthwyo ac annog pobl i fyw bywydau egnïol ac iach, gan sicrhau cyfleoedd cadwyn gyflenwi i fusnesau lleol, a recriwtio'n lleol.5f1 | Mawrth 2024 | Sharon Burford/ Mike Bull/ Rhian Phillips |
| 11 | Pwyslais ar ddatblygiad pellach sector yr economi sylfaenol yn Sir Gaerfyrddin, gan gefnogi egwyddorion yr economi gylchol. | Mawrth 2024 | Rhian Phillips |

| Amcan Llesiant 3b | Blaenoriaeth Thematig: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur |
|---|---|

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu cynllun ynni ardal leol drafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin | Ebrill 2024 | Kendal Davies |
| 2 | Datblygu llwybrau allyriadau i gyrraedd ein targed Sero Net | Ebrill 2023 | Kendal Davies |
| 3 | Datblygu strategaeth Newid Hinsawdd ac Argyfwng Natur i fodloni taflwybrau ar gyfer meysydd gwasanaeth | Ebrill 2024 | Kendal Davies |
| 4 | Cwblhau rhaglen o osod technoleg 'Clyfar' ac is-fesuryddion er mwyn gallu adrodd ar ddefnydd yn fyw a gallu adnabod cyfleoedd i arbed carbon yn ein hadeiladau annomestig a'n seilwaith goleuadau stryd | Ebrill 2024 | Kendal Davies |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 5 | Gan weithio gyda grŵp adolygu Defnydd Tir Strategol y Cyngor, nodi a datblygu'r gwaith o blannu coetir ar safleoedd addas, gan ddangos egwyddorion coedwigo cyfrifol, ac mewn ymgynghoriad â chymunedau lleol. Nodi tair ardal arall o goetir i'w plannu, er mwyn cyflawni yn erbyn yr argyfwng hinsawdd a natur a ddatganwyd gan CSC. Mae'r cam gweithredu hwn yn amodol ar fod cymorth grant ar gael i ariannu llawer o'r gwaith hwn. | Ebrill 2025 | Gus Hellier |
| 6 | Datblygu Eco-Barc rhanbarthol strategol fesul cam gyda ffocws ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy, rheoli gwastraff, ac effeithlonrwydd adnoddau, cyfleusterau gwefru Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, ynghyd â gofod diwydiannol ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu, prosesu a gwasanaeth. | Mawrth 2025 | Dan John |
| 7 | Adolygu'r strategaeth fflyd cerbydau bresennol gyda'r bwriad o ddefnyddio'r dechnoleg cerbydau mwyaf addas ac allyriadau isel (gan gynnwys ffynonellau trydan neu ffynonellau pŵer eraill) dros y blynyddoedd nesaf. | Mawrth 2024 | Antonia Jones |
| 8 | Datblygu strategaeth i gyrraedd Carbon Sero Net fel rhan o fanylebau dylunio eiddo | Mawrth 2024 | Andrew Tidy |
| 9 | Datblygu a gweithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP2) newydd | Mawrth 2024 | Ben Kathrens |

| Amcan Llesiant 3c | Blaenoriaeth Thematig: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru |
|---|---|

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **A** | **Yr Iaith Gymraeg** | | |
| 1 | Parhau i gynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth y Cyngor Sir. CV90 | 31/03/2024 | Jason Jones |
| 2 | Gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu cyfran y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. CV91 | 31/03/2024 | Paul R Thomas |
| 3 | Croesawu a chefnogi'r gwaith o gynnal Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin yn Llanymddyfri (CV90) | 30/06/2023 | Deina Hockenhull |
| 4 | Cyflwyno rhaglen Arfor 2 Llywodraeth Cymru yn Sir Gaerfyrddin a chydlynu gweithgarwch rhanbarthol gyda Chyngor Gwynedd, Ceredigion a Sir Fôn (CV42) | 31/03/2024 | Jason Jones |
| 5 | Annog a datblygu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant | 31/03/2024 | Aeron Rees |
| 6 | Byddwn yn adolygu'r Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg cyfredol | 31/03/2024 | Llinos Evans |
| 7 | Cryfhau'r dulliau o fonitro, gwerthuso ac adrodd mewn perthynas â safonau cyflogaeth y Gymraeg. | 31/03/2024 | Paul R Thomas<br>Alex Machin |
| 8 | Darparu amrywiaeth o gyfleoedd datblygu i weithwyr newydd a phresennol er mwyn iddynt wella eu sgiliau iaith Gymraeg. | 31/03/2024 | Paul R Thomas<br>Alex Machin |
| **B** | **Diwylliant Cymru** | | |
| 1 | Byddwn yn adolygu arddangosion a digwyddiadau diwylliannol yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, yn amserol ac yn berthnasol. Manteisio i'r eithaf ar hanes cyfoethog Sir Gaerfyrddin. (Gweledigaeth y Cabinet) – Cynlluniau arddangos ac ymgysylltu'r Archifau / Amgueddfeydd ar waith (CV75) | 31/03/2024 | Jane Davies |
| 2 | Byddwn yn datblygu Oriel Myrddin yng Nghaerfyrddin fel Canolfan Gelfyddydau Gorllewin Cymru (CV73) | 31/03/2024 | Jane Davies |
| 3 | Byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu llwybrau diwylliannol a hanesyddol sy'n hygyrch i drigolion a thwristiaid. Annog preswylwyr i gymryd perchnogaeth o'u hardaloedd lleol drwy greu llwybrau cymunedol yn seiliedig ar wybodaeth leol, ac edrych ar ffyrdd o ddatblygu llwybrau sy'n seiliedig ar y cestyll niferus a'r safleoedd hanesyddol ledled y sir (CV74) | 31/03/2024 | Jane Davies |
| 4 | Byddwn yn datblygu strategaeth Llyfrgelloedd newydd yn unol â'r Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cenedlaethol wrth iddynt newid, gan ganolbwyntio ar adolygu gwasanaethau allgymorth | 31/03/2024 | Jane Davies |

| Amcan Llesiant 3d | Blaenoriaeth Thematig: Diogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Byddwn yn datblygu cynllun cydlyniant cymunedol tair blynedd ar gyfer y rhanbarth | 31 Mawrth 2024 | Kay Howells |
| **2** | Byddwn yn gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol 'Intact' | 31 Mawrth 2024 | Jason Jones/ Kate Harrop |
| **3** | Mynd i'r afael ag argymhellion Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru: Gyda'n Gilydd Gallwn – Cydnerthedd cymunedol a hunanddibyniaeth (Ionawr 2023) | Mawrth 2024 | Gwyneth Ayers |
| **4** | Byddwn yn darparu Rhaglen Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd newydd ar sail risg ar gyfer 23/24 | Mawrth 2024 | Sue Watts |

| Amcan Llesiant 3e | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Hamdden a Thwristiaeth | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Byddwn yn datblygu dull chwaraeon i bawb i gynorthwyo ystod eang o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, o ddechreuwyr i'r elît, gan weithio i gefnogi pob Clwb Chwaraeon Cymunedol i ddod yn hunangynhaliol gyda chymorth datblygu. | 31 Mawrth 2024 | Carl Daniels |
| **2** | Byddwn yn cwblhau astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Parc Sglefrfyrddio a datblygu'r trac Pwmpio BMX ym Mhen-bre ymhellach. | 31 Mawrth 2024 | Richard Stradling |
| **3** | Byddwn yn asesu'r angen am leiniau pob tywydd ar draws y sir ac yn datblygu strategaeth ar gyfer hyn. | 31 Mawrth 2024 | Carl Daniels |
| **4** | Cynnig Addysg Awyr Agored newydd i'r Sir - datblygu model newydd ar gyfer cynnig preswyl ac amhreswyl ledled y Sir | 31 Mawrth 2024 | Ian Jones |
| **5** | Byddwn yn ehangu'r rhaglen Atgyfeirio Iechyd a Llesiant. | 31 Mawrth 2024 | Carl Daniels |
| **6** | Byddwn yn darparu cae chwaraeon 3G newydd yn Rhydaman. | 31 Mawrth 2024 | Carl Daniels |

| Amcan Llesiant 3f | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gwastraff | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Gwella'r ffordd yr ydym ni'n rheoli gwastraff yn Sir Gaerfyrddin, gan gynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Cyflawni yn erbyn strategaeth genedlaethol y tu hwnt i ailgylchu. | Mawrth 2024 | Geinor Lewis |
| **2** | Defnyddio dull graddol o weithredu system newydd o gasglu gwastraff o dŷ i dŷ yn 2024/25, sy'n cydymffurfio â methodoleg casglu Glasbrint Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd cartrefi yn derbyn gwasanaethau casglu deunydd i'w ailgylchu, bwyd a gwydr wythnosol o 24/25 ymlaen. Gweledigaeth 48 | Mawrth 2025 | Yana Thomas |
| **3** | Cefnogi a datblygu gweithgarwch gwirfoddol lleol gyda Cadwch Gymru'n Daclus i helpu i rymuso cymunedau ledled Cymru i fynd i'r afael â materion yn eu hardal yn ymwneud ag ansawdd gwael yr amgylchedd lleol | Mawrth 2024 | Geinor Lewis |
| **4** | Cyflwyno argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen ynglŷn â thipio anghyfreithlon | Mawrth 2024 | Dan John |

| Amcan Llesiant 3g | Blaenoriaeth Gwasanaeth: Priffyrdd a Thrafnidiaeth | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **A** | | | |
| **1** | Datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i lywio'r gwaith o ddatblygu system drafnidiaeth gynaliadwy, carbon isel sy'n cefnogi twf economaidd o fewn y Sir | 31/03/2024 | Simon Charles |
| **2** | Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'i lobïo ar eu hymrwymiad i adeiladu ffordd osgoi ar gyfer Llandeilo. CV59 | 31/03/2024 | Steve Pilliner |
| **3** | Lobïo Llywodraeth Cymru i ailagor rheilffordd Dyffryn Aman i deithwyr fel rhan o Fetro Bae Abertawe. CV40 | 31/03/2024 | Simon Charles |
| **4** | Datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Gymunedol i alluogi mynediad at wasanaethau hanfodol o gymunedau gwledig. CV51 | 31/03/2024 | D Alwyn Evans |
| **5** | Adolygu'r strategaeth fflyd cerbydau bresennol gyda'r bwriad o ddefnyddio'r dechnoleg cerbydau mwyaf addas ac allyriadau isel (gan gynnwys ffynonellau trydan neu ffynonellau pŵer eraill) dros y blynyddoedd nesaf. CV49 | 31/03/2023 | Antonia Jones |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Amcan Llesiant 4 | Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor) | | |
|---|---|---|---|
| | Trawsnewid Sefydliadol | | |
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/ Targed** | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| | **Arbedion a Gwerth am Arian** | | |
| **A** | Datblygu a gweithredu Rhaglen Cyflawni Trawsnewid ar gyfer 2023/24<br>PIMS 16465 | Mawrth 2024 | Jon Owen |

| 5 | Galluogwyr Busnes Craidd | | |
|---|---|---|---|
| 5a | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | | |
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/ Targed** | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Parhau i groesawu a hyrwyddo arferion gweithio ystwyth, cyfarfodydd hybrid a ffyrdd newydd o weithio ar draws y sefydliad. **V108** | 31/03/2024 | Jon Owen |
| **2** | Cynyddu ymhellach ein defnydd o'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf i drawsnewid ymhellach y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. **V110** | 31/03/2024 | Julian Williams |
| **3** | Byddwn ni, yn unol â'n Strategaeth Trawsnewid Digidol 2021-2024, yn parhau i ymgysylltu, blaenoriaethu a gweithredu anghenion yr adran i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol. | 31/03/2024 | Julian Williams |
| **4** | Byddwn yn sicrhau bod dull cadarn o ymdrin â diogelwch Seiber ac atebion cynaliadwy yn cael eu gweithredu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth. | 31/03/2024 | John Williams |
| **5** | Byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaeth statudol o dan y Ddeddf Diogelu Data ac yn sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn cyfraith sy'n cael eu cyflwyno yn y DU. | 31/03/2024 | John Williams |

| 5b | **Marchnata a'r Cyfryngau gan gynnwys gwasanaethau cwsmeriaid** | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/ Targed** | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Datblygu Cynllun Cyfathrebu Corfforaethol a fydd yn ymgorffori cyfathrebu mewnol, ymgysylltu, digidol, hysbysebu a gwasanaethau cwsmeriaid. | 31/03/24 | Deina Hockenhull |
| **2** | Datblygu atebion i gyfathrebu'n effeithiol â'r holl staff gan gynnwys staff rheng flaen a sicrhau bod y brand corfforaethol yn gyson ar draws yr holl wasanaethau, gan adlewyrchu'r defnydd o'r fewnrwyd a darllenwyr llythyrau newyddion i staff ac ati (CV103) | 31/03/24 | Rhiannon Evans |
| **3** | Parhau i gynghori a chefnogi gwasanaethau i wneud gwell defnydd o dechnoleg a rheoli cynnwys digidol i ddarparu gwell profiad i gwsmeriaid. (cv110) | 31/03/24 | Lowri Jones |
| **4** | Gweithio gyda golygyddion y we o fewn gwasanaethau a'u cynorthwyo i wella cynnwys y we er mwyn cyflwyno prosesau gwasanaeth mwy clyfar ac effeithlon, i ddarparu gwell profiad i gwsmeriaid. (cv110) | 31/03/24 | Lowri Jones |
| **5** | Cyflwyno'r siarter Cwsmeriaid Corfforaethol | 31/23/24 | Deina Hockenhull |

| 5c | **Cyfreithiol** | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/ Targed** | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Gwasanaethau'r Gyfraith a'r gwasanaeth Pridiannau Tir. | Mawrth 2023 | Robert Edgecombe |
| **2** | Cydweithio â Chofrestrfa Tir EF er mwyn galluogi'r Gofrestrfa Tir i ddod yn awdurdod cofrestru Pridiannau Tir Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn unol â darpariaethau Atodlen 5 o Ddeddf Seilwaith 2015. | Llinell amser i'w rhagnodi gan y Gofrestrfa Tir | Robert Edgecombe |

| 5d | Cynllunio | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol – ***PAM/0018*** | 85% | Hugh Towns |
| **2** | Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. | Ebrill 2024 | Ian R Llewelyn |

| 5e | Cyllid | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Byddwn yn sicrhau archwiliad diamod o'r cyfrifon terfynol. | 31.03.24 | Randal Hemingway |
| **2** | Sicrhau bod y Cyngor yn rheoli ei gyllidebau'n effeithiol ac yn ddarbodus. | 31.03.24 | Randal Hemingway |
| **3** | Defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i fuddsoddi yn y Sir a chefnogi datblygiad yn y dyfodol. | 31.03.24 | Randal Hemingway |
| **4** | Byddwn yn darparu cymorth ariannol sylweddol a chyngor i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe. | 31.03.24 | Randal Hemingway |
| **5** | Arwain a chynghori ynghylch yr ystyriaethau ariannol allweddol wrth gyflawni prosiectau corfforaethol mawr megis Prosiect Pentre Awel | 31.03.24 | Owen Bowen? |
| **6** | % yr anfonebau diddadl a dalwyd mewn 30 diwrnod *(CFH/006)* | 95% | Randal Hemingway/ Kevin Gerard |

| 5f | Caffael | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Byddwn yn gweithio gydag adrannau i ddarparu ymarferion tendro sy'n cydymffurfio trwy weithredu dull rheoli categorïau | 31.03.24 | Helen Pugh/Clare Jones |
| **2** | Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth caffael sylweddol a chyngor i'r prosiectau a arweinir gan Sir Gaerfyrddin yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe | 31.03.24 | Helen Pugh/Clare Jones |
| **3** | Byddwn yn monitro'r gwaith o reoli contractau'n effeithiol ledled yr Awdurdod | 31.03.24 | Helen Pugh/Clare Jones |
| **4** | Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull o ddadansoddi gwariant | 31.03.24 | Helen Pugh/Clare Jones |
| **5** | Nifer yr wythnosau o recriwtio a hyfforddi a ddarperir i bobl drwy Fudd i'r Gymuned ym mhrosiectau Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Tai ac Adfywio *(CP/001)* | 3229 | Helen Pugh/Clare Jones |
| **6** | Nifer y swyddi a grëwyd drwy Fudd i'r Gymuned yn ein prosiectau adeiladu (prosiectau rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, tai ac adfywio) *(CP/002)* | 60 | Helen Pugh/Clare Jones |
| **7** | Nifer y cysylltiadau gan ddisgyblion STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), drwy Fudd i'r Gymuned, â'n prosiectau adeiladu (prosiectau rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Tai ac Adfywio) *(CP/003)* | 1622 | Helen Pugh/Clare Jones |

| 5g | Archwiliad Mewnol | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| 1 | Darparu sicrwydd annibynnol fod prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad yn gweithredu'n effeithiol | 31.03.24 | Helen Pugh/Caroline Powell |
| 2 | Gwerthuso rheolaethau a chynorthwyo rheolwyr i wella rheolaethau mewnol | 31.03.24 | Helen Pugh/Caroline Powell |
| 3 | Gwir Gyflawniad yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol *(6.4.1.3)* | 90 | Helen Pugh/Caroline Powell |
| 4 | % yr adroddiadau drafft a gyhoeddwyd o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad cwblhau'r gwaith maes (*IA/001*) | 80 | Helen Pugh/Caroline Powell |
| 5 | % yr ymatebion gan reolwyr a dderbyniwyd o fewn 15 diwrnod gwaith i gyhoeddi'r adroddiad drafft *(IA/002)* | 80 | Helen Pugh/Caroline Powell |
| 6 | % yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn ymatebion gan reolwyr *(IA/003)* | 80 | Helen Pugh/Caroline Powell |

| 5h | Rheoli Pobl | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| 1 | Datblygu ymhellach y fframweithiau gwobrwyo a chydnabod presennol sy'n gwerthfawrogi arloesedd a chreadigrwydd. | Medi 2024 | Alex Machin |
| 2 | Datblygu ymhellach fframwaith Arweinyddiaeth a Rheolaeth y Cyngor i gefnogi’r gweithlu i drawsnewid a chyflawni. | Mawrth 2024 | Dirk Neuman |
| 3 | Ar y cyd â Marchnata a'r Cyfryngau, gwella cyfathrebu mewnol ymhellach trwy ddatblygu Strategaeth Cyfathrebu Mewnol newydd | Mawrth 2024 | Cheryl Reynolds |
| 4 | Gweithredu’r System Rheoli Dysgu newydd yn llawn i gefnogi’r gwaith o ddarparu ymyriadau Dysgu a Datblygu wedi’u targedu sy’n cefnogi nodau strategol y sefydliad wrth symleiddio prosesau. | Medi 2023 | Tony Belton |
| 5 | Datblygu a gweithredu cynllun a rhaglen iechyd a llesiant i gefnogi iechyd a llesiant ein holl staff | Mawrth 2024 | Heidi Font |
| 6 | Mesur: Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd i absenoldeb salwch fesul gweithiwr. Canlyniad diwedd blwyddyn 22/23 - 11.6 diwrnod | Targed 9.6 diwrnod | Heidi Font |
| 7 | Recriwtio mewn modd cystadleuol a gweithio tuag at wella lefelau recriwtio yn barhaus ar draws y sefydliad. Ceisio deall y camau sydd eu hangen i ddod yn gyflogwr o ddewis yn Strategaeth Drawsnewid Gorllewin Cymru (CV103) - *Creu strategaeth i ddenu, recriwtio a chadw talent.* | Mehefin 2023 | Lindsey Evans (Arweinydd y Dyfodol) |
| 8 | Datblygu Fframwaith Data Gweithlu cynhwysfawr a threfniadau monitro ac adolygu parhaus ar lefel gorfforaethol. (Archwilio Cymru - Llamu Ymlaen - Argymhelliad Rheoli'r gweithlu). | Mehefin 2023 | Alison Wood / Gwyneth Ayers (Arweinydd y Dyfodol) |
| 9 | Cefnogi gwasanaethau i sicrhau bod yr holl risgiau Iechyd a Diogelwch yn cael eu rheoli ar draws yr awdurdod. | Mawrth 2024 | Heidi Font |
| 10 | Ystyried gallu ein gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hir i gyflawni gweledigaeth y weinyddiaeth bresennol. (CV105) | Mawrth 2024 | Alison Wood / Ann Clarke |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 11 | Mynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolwg ymgysylltu â gweithwyr blynyddol ac ailadrodd yr arolwg yn flynyddol. | Medi 2023 | Cheryl Reynolds |
| 12 | Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr o Adrannau eraill e.e. Caffael, i weithio gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus ac Undebau Llafur i ddatblygu'r agenda Cyflog Byw Gwirioneddol ymhellach. (CV 109) | Mawrth 2024 | Alison Wood |
| 13 | Cryfhau'r dulliau o fonitro, gwerthuso ac adrodd mewn perthynas â safonau cyflogaeth y Gymraeg | Mawrth 2024 | Alison Wood / Alex Machin |
| 14 | Adolygu'r fframwaith diogelu cyflogaeth a datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer recriwtio rheolwyr. | Medi 2023 | Alison Wood / Alex Machin |
| 15 | Gweithio gyda grwpiau i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr ar draws pob cymuned gan gynnwys o fewn y gymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. CV 99 | Parhaus | Alison Wood / Alex Machin |
| 16 | Datblygu a gweithredu Rhaglen Gyflawni Trawsnewid ar gyfer 2023/24. | Mawrth 24 | Jon Owen |
| 17 | Parhau i groesawu a hyrwyddo arferion gweithio ystwyth, cyfarfodydd hybrid a ffyrdd newydd o weithio ar draws y sefydliad. (CV108) | Mawrth 2024 | Jon Owen |
| 18 | Datblygu a gweithredu Polisi Dysgu a Datblygu newydd | Medi 23 | Alex Machin |

| 5i | Gwasanaethau Democrataidd | | |
|---|---|---|---|
| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
| 1 | Datblygu a diweddaru'r Rhaglen Datblygu Aelodau gyda chydweithwyr Dysgu a Datblygu | Parhaus | Gaynor Morgan |
| 2 | Yn unol â'r adolygiad presennol o'r broses ymholiadau aelodau, bwydo i mewn a gweithio gyda TG, Gwasanaethau Cwsmeriaid ac ati i sicrhau gwelliannau i'r broses ymholiadau Cynghorwyr presennol er mwyn parhau i weinyddu ymholiadau ar ran aelodau etholedig a'u cefnogi yn eu gwaith etholaethol o ddydd i ddydd. | Parhaus | Gaynor Morgan |

| 5j | Polisi a Pherfformiad | | |
|---|---|---|---|
| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
| A | **Polisi Corfforaethol** | | |
| 1 | Byddwn yn parhau i weithio gydag adrannau a darparu cymorth parhaus i sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Cwynion y Cyngor, gan gynnwys datblygu canllawiau ar gynnal Ymchwiliadau Cam 2 | 31/03/2024 | Kate Harrop |
| 2 | Byddwn yn gwella'r defnydd o wybodaeth am gwynion a sut y caiff y wybodaeth ei monitro er mwyn cefnogi dysgu a gwella gwasanaethau | 31/03/2024 | Kate Harrop |
| 3 | Byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol ar gwynion a chanmoliaeth a dderbynnir gan y Cyngor | 31/09/2023 | Kate Harrop |
| 4 | Cynyddu dealltwriaeth ac ymateb i Gyfamod y Lluoedd Arfog ar draws y Cyngor a chyda rhanddeiliaid allanol | 31/03/2024 | Hayley Edwards |
| 5 | Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2022/23 | 31/10/2023 | Llinos Evans |
| 6 | Byddwn yn gweithio tuag at Fframwaith Cymunedau sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn Sefydliad Iechyd y Byd, drwy gwblhau'r broses ymgeisio a mapio tystiolaeth leol | 31/03/2024 | Llinos Evans |
| 7 | Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn hwyluso trafodaeth barhaus gyda phartïon â buddiant a rhanddeiliaid i sicrhau darpariaeth a datblygiad pellach strategaeth materion gwledig y Cyngor, gan weithio mewn ffordd amlasiantaeth ac amlsector. ***MFR-54*** | 31/03/2024 | Gwyneth Ayers |

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **B** | **Rheoli Perfformiad** | | |
| 1 | Dylai'r Cyngor archwilio'r opsiynau sydd ar gael i rannu gwybodaeth am berfformiad mewn ffordd fwy tryloyw a hawdd ei chyrraedd. Mae hyn yn cynnwys rhannu gyda thrigolion (lle bo hynny'n bosibl) sut a pham y caiff adnoddau ariannol eu gwario a'u buddsoddi lle maen nhw. (o Arolwg Trigolion 2022) | 30/09/2023 | Robert James |
| 2 | Datblygu a gwella'r ffordd y rhennir gwybodaeth perfformiad gyda busnesau a sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o'r ffordd y gwneir penderfyniadau a'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniadau hyn. Bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus. (o Arolwg Busnesau 2022) | 30/09/2023 | Robert James |
| 3 | Ymgorffori'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant Newydd ar gyfer 2022-27 | 31/03/2024 | Robert James |
| 4 | Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymgorffori'n llawn y gofynion sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethu'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau a'u cysoni â'n dyletswyddau presennol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 31/03/2024 | Gwyneth Ayers |
| 5 | Gweithio gyda Marchnata a'r Cyfryngau i sicrhau bod Cynllun Cyfathrebu'r Cyngor yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant newydd | 31/07/2023 | Robert James |
| 6 | Byddwn yn sicrhau bod Rheoli Perfformiad Corfforaethol ac Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'i gilydd, i sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn chwarae ei ran yn Hunanasesiad cyffredinol y Cyngor | 31/07/23 | Robert James |
| 7 | Cefnogi'r gwaith o wella cyfathrebu a chynnwys staff yng nghyswllt gwybodaeth rheoli perfformiad y Cyngor. (o Arolwg Staff 2022) | 30/09/2023 | Robert James |
| 8 | Byddwn yn parhau i wella'r defnydd o wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i lywio Adroddiadau Monitro Rheoli Perfformiad chwarterol | 31/03/2024 | Gwyneth Ayers |
| 9 | Cysylltu ag Archwilio Cymru a chyrff rheoleiddio eraill ar eu rhaglenni archwilio lleol a chenedlaethol | 31/03/2024 | Gwyneth Ayers |
| 10 | Datblygu pecyn cymorth i hyrwyddo'r Egwyddor Cynaliadwyedd a'r 5 Ffordd o Weithio. | 30/09/2023 | Robert James |
| 11 | Gwneud trefniadau ar gyfer yr Asesiad Panel (sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau), a benodir gan y cyngor i gynnal asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad, ac ymateb i adroddiad asesu'r panel. | 31/03/2024 | Gwyneth Ayers |
| **C** | **Mewnwelediad Data** | | |
| 1 | Datblygu set gynhwysfawr a chytbwys o fesurau perfformiad, dangosyddion a gwybodaeth ar draws yr holl wasanaethau sy'n cefnogi'r Trawsnewid - Dylunio Gwasanaethau a Gwella'r Ffrwd Waith | 31/03/2024 | Rachel Clegg |
| 2 | Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor i ddatblygu ymhellach gyfraniad a defnydd y Cyngor o ddata a gesglir fel rhan o fframwaith cynnwys, cyfranogi ac ymgynghori ar draws y Cyngor. *(12435)* (Argymhelliad Rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru – *'Defnyddio Data'*) | 31/03/2024 | Llinos Evans |
| 3 | Tîm Mewnwelediad Data i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dadansoddi gweithgarwch ymgynghori sy'n deillio o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (yn benodol gyda thrigolion, busnesau, undebau llafur a staff). | 31/03/2024 | Rachel Clegg |
| 4 | Parhau i ddatblygu Data Corfforaethol i gefnogi'r Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027 a meysydd polisi allweddol | 31/03/2024 | Rachel Clegg |
| **D** | **Gweithio mewn Partneriaeth** | | |
| 1 | Byddwn yn gweithredu Cynllun Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (2023-28) gan ddatblygu fframwaith cyflawni newydd i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ar yr amcanion llesiant a'r camau | 31/03/2024 | Kate Harrop |

| **5k** | **Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil** | | |
|---|---|---|---|
| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
| 1 | Dylid herio staff ar bob lefel i ychwanegu mwy o werth i'r sefydliad ac yn eu tro dylid eu cefnogi i gyflawni'r rôl hon. Dylai'r Cyngor fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn ddigon cadarn i barhau i | Ebrill 25 | Amanda Edwards |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| Cyf | Camau Gweithredu a Mesurau | Dyddiad/ Targed | Perchennog/ Swyddog Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | gynnal etholiadau a gwasanaeth cofrestru o ansawdd uchel hyd yn oed os oedd newidiadau i bersonél allweddol | | |
| **2** | Cynnwys cwsmeriaid wrth ddatblygu dyfodol y gwasanaeth (Cofrestryddion) drwy ymgynghori â chwsmeriaid er mwyn gwerthuso opsiynau ar gyfer y dyfodol i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion a dymuniadau cwsmeriaid yn y dyfodol | Medi 23 | Andrea Rowlands |

| **5l** | **Ystadau a Rheoli Asedau** | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **1** | Bydd Cynllun Ystâd Wledig newydd yn cael ei ddrafftio dros y 12 mis nesaf i dynnu sylw at hyd a lled a pherfformiad y portffolio presennol, ynghyd â materion allweddol a strategaeth yr Ystâd ar gyfer y dyfodol i alluogi'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi ei amcanion llesiant. | 21/03/24 | Stephen Morgan |

| **5m** | **Rheoli Risg** | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/** Targed | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| **A** | | | |
| **1** | Byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad neu'r cynigion ar gyfer gwelliant sy'n deillio o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Rheoli Risg | 31.03.24 | Helen Pugh/Suzanne Wride |
| **2** | Byddwn yn cynnal rhaglen yswiriant effeithiol ac yn rheoli hawliadau mewn modd amserol | 31.03.24 | Helen Pugh/Suzanne Wride |
| **B** | | | |
| **1** | % y digwyddiadau cerbydau modur y rhoddir gwybod amdanynt i Rheoli Risg o fewn 5 diwrnod gwaith *(RM/001)* | 40 | Helen Pugh/Suzanne Wride |
| **2** | % yr adroddiadau adrannol a ddychwelwyd i Rheoli Risg o fewn 15 diwrnod i'r cais *(RM/002)* | 50 | Helen Pugh/Suzanne Wride |
| **3** | % yr adroddiadau hawliadau modur a ddarparwyd gan Rheoli Risg o fewn 10 diwrnod gwaith *(RM/003)* | 80 | Helen Pugh/Suzanne Wride |
| **4** | % yr adroddiadau hawliadau atebolrwydd a ddarparwyd gan Rheoli Risg i'r yswirwyr o fewn 20 diwrnod gwaith *(RM/004)* | 80 | Helen Pugh/Suzanne Wride |

| **5n** | **Cymorth Busnes** | | |
|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Camau Gweithredu a Mesurau** | **Dyddiad/ Targed** | **Perchennog/ Swyddog Cyfrifol** |
| 1 | Cynhyrchu blaenraglen waith ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol. | 31/03/24 | Nicola Evans |
| 2 | Sicrhau bod holl gamau gweithredu'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cael eu dilyn. | 31/03/24 | Nicola Evans |

# Population Indicators and Performance Measures - Annual Report 2022/23

This table shows the overarching indicators and measures for each Well-being Objective and Thematic Priority. It provides a visual representation of performance direction (compared with the previous available data) and comparative ranked position with the other local authorities in Wales (where possible). It should be viewed as a summary, complemented by the further in-depth analysis and context provided in the main body of the report.

Has our result improved year on year: Improved ↑ Standstill ←→ Declined ↓

Worst results (22nd) → Best Results (1st). Arrows start from previous position (● green / ● red) to our most current position ■.

| # | Indicator | Previous result | Most Current Result | Improved / Standstill / Declined | 22nd | 21st | 20th | 19th | 18th | 17th | 16th | 15th | 14th | 13th | 12th | 11th | 10th | 9th | 8th | 7th | 6th | 5th | 4th | 3rd | 2nd | 1st |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Well-being Objective 1 - Start Well** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1 | Children living in Poverty | 31.3% | 34.6% | ↓ | 36.3% | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | 27.0% |
| 2 | Children aged 4-5 years overweight or obese (Child Measurement Programme NHS) | 30.4% | 31.4% | ↓ | 31.4% | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | 21.1% |
| 3 | Children on the Child Protection Register (per 10,000 population) | 21 | 27 | ↓ | 89 | | | | | | | | | | | | | | | | | Same | | | | 22 |
| | **WBO1a - Thematic Priority: Healthy Lives - Prevention/early intervention** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 4 | Number of children looked after by local authorities at 31 March | 165 | 190 | ↓ | 1,040 | Comparable data is for the previous year | | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | 100 |
| 5 | Number of children looked after in foster placements at 31 March | 125 | 145 | ↓ | 635 | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | 70 |
| 6 | Number of Referrals of Children and Young people attending counselling | 1053 | 1497 | ↓ | 1,497 ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 198 |
| 7 | Live single births with a birth weight of under 2,500g | 4.9% | 4.9% | ←→ | 8.5% | | | | | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | 3.3% |
| | **Well-being Objectve 2 - Live & Age Well** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 8 | Healthy Life Expectancy (HLE) at Birth - Male | 60.4 | 59.7 | ↓ | 55.6 | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | | | 68.7 |
| 9 | Healthy Life Expectancy (HLE) at Birth - Female | 61.1 | 61.8 | ↑ | 55.3 | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | 69.3 |
| 10 | % of People Living in Material Deprivation | 12.0% | 16.7% | ↓ | 21.5% | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | | | | 8.4% |
| 11 | Adult Mental Well-being Score<br>Average Total Score out of a possible 70 | 48.8 | 48.3 | ↓ | 45.7 | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | | | | | 49.6 |
| 12 | Adults who have 2 or more healthy lifestyle behaviours | 92.4% | 92.5% | ↑ | 86.1% | | | | | | | | | | | | | ■ | | | | | | | | 95.7% |

| | | Has our result improved year on year | | | 22nd (Worst results) | Position in ranking (22nd – 1st) — Arrows start from previous position to our most current position | 1st (Best Results) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Previous result | Most Current Result | Improved ↑ Standstill ↔ Declined ↓ | | | |
| | **WBO2a - Thematic Priority: Tackling Poverty** | | | | | | |
| **13** | Households Living in Poverty | 35.6% | 34.5% | ↑ | 43.1% | | 23.5% |
| **14** | Median Weekly Pay (Full Time Workers) | £573.70 | 623.4 | ↑ | £538.8 | | £714.8 |
| **15** | Housing Affordability Ratio | 5.74 | 5.61 | ↑ | 9.47 | | 4.38 |
| **16** | Poverty is a problem in my area - Residents Consultation - Average Index Score (AIS) | 0.23 | TBC | | | No comparable data avaiable | |
| | **Well-being Objective 3 - Prosperous Communities** | | | | | | |
| **17** | Gross Disposable Household Income (GDHI) | £17,164 | £17,349 | ↑ | £14,478 | | £22,321 |
| **18** | Number of people killed and seriously injured on the roads | 81 | 83 | ↓ | 128 | Same | 8 |
| **19** | Levels of nitrogen dioxide (NO2) pollution in the air | 5.9 | 4.2 | ↑ | 12.1 | | 2.5 |
| **20** | Crime rates | 15,914 | 16,381 | ↓ | | No comparable data avaiable | |
| | **WBO3a - Thematic Priority: Economic Recovery and Growth** | | | | | | |
| **21** | Employment | 68.7% | 72.3% | ↑ | 69.6% | | 79.1% |
| **22** | Unemployment | 3.7% | 2.2% | ↑ | 5.4% | | Below 2.2 |
| **23** | Highest Level of Qualification - Level 4 or above | 37.6% | 40.0% | ↑ | 24.3% | | 61.3% |
| **24** | No qualifications | 7.7% | 7.0% | ↑ | 15.5% | | 3.3% |
| **25** | % of people claiming unemployment related benefits for over 12 months | 0.2% | 0.1% | ↑ | 0.2% | Joint with 15 others | 0.0% |
| **26** | Business births | 720 | 820 | ↑ | 215 | | 2350 |
| **27** | Business Deaths | 500 | 670 | ↓ | 1,510 | Same | 185 |
| **28** | Businesses are supported within the local area – Business Consultation - Average Index Score (AIS) | -0.1 | TBC | | | No comparable data avaiable | |
| **29** | Local people/businesses are well supported to take advantage of local opportunities - Residents/Business Consultations - Average Index Score (AIS) | -0.05 | TBC | | | No comparable data avaiable | |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Has our result improved year on year

Worst results → Best Results

Arrows start from previous position to our most current position

| | | Previous result | Most Current Result | Improved ↑ Standstill ↔ Declined ↓ | 22nd | 21st | 20th | 19th | 18th | 17th | 16th | 15th | 14th | 13th | 12th | 11th | 10th | 9th | 8th | 7th | 6th | 5th | 4th | 3rd | 2nd | 1st |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **WBO3b - Thematic Priority: Decarbonisation and Nature Emergency** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 30 | Capacity of Renewable Energy Equipment Installed (MW) | 316 MW | 321 MW | ↑ | 19 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Same | | 409 |
| 31 | No. of Properties (Homes & Businesses) at risk of Flooding | Not comparable | 15,198 | Not comparable | 41,046 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | 2,818 |
| 32 | The Climate Emergency is Being Addressed Locally - Residents Consultation - Average Index Score (AIS) | -0.1 | TBC | | | No comparable data avaiable | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO3c - Thematic Priority: Welsh Language and Culture** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 33 | No. of People that Can Speak Welsh | 43.9% | 39.9% | ↓ | 6.2% | | | | | | | | | | | | | | | | | | Same | | | 64.4% |
| 34 | Number of those aged 3-15 that can speak Welsh | 15,514 | 15,004 | ↓ | 1,766 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Same |
| 35 | % of people (16+) attending or participating in arts, culture or heritage activities at least three times per year | 64.2% | 56.0% | ↓ | 46.0% | | | Same | | | | | | | | | | | | | | | | | | 77.6% |
| 36 | It's important that the Welsh language is promoted and protected - Residents Consultation - Average Index Score (AIS) | 0.69 | TBC | | | No comparable data avaiable | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **WBO3d - Thematic Priority: Community Safety, Resilience, and Cohesion** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 37 | I like living in Carmarthenshire – Residents Consultation - Average Index Score (AIS) | 1.32 | TBC | | | No comparable data avaiable | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 38 | I feel that I can live the life I want to live without the fear of judgment or prejudice - Residents Consultation - Average Index Score (AIS) | 0.71 | TBC | | | No comparable data avaiable | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 39 | I feel safe in my community - Residents Consultation - Average Index Score (AIS) | 0.78 | TBC | | | No comparable data avaiable | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council